## Diwygiedig 2018-2033

# Sir Gaerfyrddin

## Cynllun Datblygu Lleol



2il Adneuo Chwefror 2023

# Datganiad Ysgrifenedig

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Rhagair

Fel yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y portffolio ar gyfer Cynllunio Strategol, rwy'n falch o gyflwyno'r ail ddogfen adneuo ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin. Ar ôl cael ei chymeradwyo ar gyfer ymgynghori cyhoeddus yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar y 7fed o Ragfyr 2022, mae'r ail ddogfen adneuo hon wedi'i pharatoi yng ngoleuni'r heriau ddaeth i'r amlwg ers cyhoeddi'r ddogfen adneuo gyntaf, yn enwedig yr heriau iechyd cyhoeddus sy'n deillio o bandemig Covid-19 a chyhoeddi canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol a warchodir. Y materion hyn, ac, yn benodol, effaith y canllawiau ffosffad, sydd wedi ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi'r Ail fersiwn Adneuo hwn o'r Cynllun.

Ers i'r Cyngor benderfynu cychwyn ar y gwaith o baratoi CDLl Diwygiedig ym mis Ionawr 2019, rydym wedi bod yn gwrando ar farn amrywiaeth eang o randdeiliaid a phartneriaid. Defnyddiwyd yr ymgynghoriad blaenorol ar y Strategaeth a Ffefrir wrth baratoi'r CDLl, ynghyd â'r fersiwn Adneuo cyntaf a chyfres o bapurau pwnc a thystiolaeth arall.

Mae'r CDLl yn eang ei gynnwys, yn ystyried ystod o faterion, ac yn cyflwyno Gweledigaeth leol unigryw ar gyfer dyfodol ein sir, gan gydnabod ein rôl fel ceidwaid y sir i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r CDLl yn pennu lefel a dosbarthiad twf a datblygiad sy'n ceisio diwallu anghenion ein cymunedau wrth adlewyrchu eu cymeriadau amrywiol a'u rhinweddau amgylcheddol a diwylliannol cyfoethog.

Wrth i ni gynnal yr ymgynghoriad ar yr Ail GDLl Diwygiedig Adneuo hwn, hoffwn annog pawb sydd â diddordeb yn y Cynllun, yn ein sir, ac yn ei chymunedau i gyflwyno eich sylwadau. Mae'n bwysig ein bod yn clywed cymaint o safbwyntiau â phosibl i'n helpu ni i wireddu ein Gweledigaeth ar gyfer "Un Sir Gâr".



**Y Cynghorydd Ann Davies**

**Aelod o Gabinet dros  Materion Gwledig a Pholisi Cynllunio**

# Cynnwys

## Tabl Cynnwys

**Mynegai Polisi** ... 3

1. Cyflwyniad ... 9
2. Beth yw'r Cynllun Adneuo? ... 11
3. Dylanwadau ar y Cynllun ... 15
4. Sir Gaerfyrddin – Cyd-destun Strategol ... 20
5. Nodi Materion ... 33
6. Gweledigaeth ar gyfer 'Un Sir Gâr' ... 37
7. Amcanion Strategol (AS) ... 39
8. Twf Strategol a Dewisiadau Gofodol ... 45
9. Strategaeth Newydd ... 58
10. Y Clystyrau ... 70
11. Polisïau ... 77
12. Monitro a Gweithredu ... 266

**Atodiad 1 - Cyd-destun - Canllawiau a Pholisi Cynllunio Cenedlaethol a Deddfwriaethol** ... 295

**Atodiad 2 Cyd-destun Strategol Rhanbarthol a Lleol** ... 298

**Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru** ... 298

**Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin - Strategaeth Gorfforaethol Newydd y Cyngor 2018-2023** ... 303

**Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin** ... 303

**Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen** ... 306

**Carbon Sero-net erbyn 2030** ... 307

**Atodiad 3 - Canllawiau Cynllunio Atodol** ... 308

**Atodiad 4: Safleoedd Mwynau** ... 310

**Atodiad 5: Llwybrau Teithio Llesol** ... 311

**Atodiad 6: Asesiad Polisi** ... 324

**Atodiad 7 – Taflwybr Tai** ... 337

**Atodiad 8 – Safleoedd Rheoli Gwastraff a Ganiateir** ... 350

## Mynegai Polisi


SP1: Twf Strategol

SG1: Adfywio a Safleoedd Defnydd Cymysg

SG2: Safleoedd wrth Gefn

SG3: Penrhyn Pen-bre SP2: Adwerthu a Chanol Trefi

RTC1: Diogelu siopau a chyfleusterau lleol

RTC2: Adwerthu mewn Ardaloedd Gwledig

SP3: Dosbarthu Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau

SD1: Terfyn Datblygu

SP4: Dull Cynaliadwy o Ddarparu Cartrefi Newydd

HOM1: Dyraniadau tai

HOM2: Tai o fewn Terfynau Datblygu

HOM3: Cartrefi mewn Pentrefi Gwledig

HOM4: Cartrefi mewn Aneddiadau Gwledig Anniffiniedig

HOM5: Addasu neu Isrannu Anheddau Presennol

HOM6: Tai Arbenigol

HOM7: Adnewyddu Adeiladau Adfeiliedig neu Adawedig

HOM8: Carafanau Preswyl

HOM9: Datblygiad Preswyl Ategol

SP5: Strategaeth Tai Fforddiadwy

AHOM1: Darparu Tai Fforddiadwy

AHOM2: Tai Fforddiadwy - Safleoedd Eithriadau

SP6: Safleoedd Strategol

SP7: Cyflogaeth a'r Economi

EME1: Cyflogaeth - Diogelu Safleoedd Cyflogaeth

EME2: Cyflogaeth – Estyniadau a Dwysáu

EME3: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Dyranedig

EME4: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Nas Dyrannwyd

EME5: Busnesau wedi'u lleoli Gartref

SP8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd

SP9: Seilwaith

INF1: Rhwymedigaethau Cynllunio

INF2: Cymunedau Iach

INF3: Band Eang a Thelathrebu

INF4: Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli - gwaredu dŵr wyneb y dalgylch

INF5: Dyraniadau Gwledig y tu allan i Ddalgylchoedd Systemau Carthffosiaeth Gyhoeddus

SP10: Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr

GTP1: Llety Sipsiwn a Theithwyr

SP11: Yr Economi Ymwelwyr

VE1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr

VE2: Llety Gwyliau

VE3: Carafanau Teithiol, Gwersylla, a Safleoedd Gwersylla Eraill nad ydynt yn barhaol

VE4: Safleoedd Carafanau Sefydlog a Chalets a Safleoedd Gwersylla Parhaol Eraill.

SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy

PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd

PSD2: Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy

PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas

PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd

PSD5: Datblygu a'r Economi Gylchol

PSD6: Cyfleusterau Cymunedol

PSD7: Diogelu Mannau Agored

PSD8: Darparu Mannau Agored Newydd

PSD9: Hysbysebion

PSD10: Estyniadau

PSD11: Llygredd Sŵn

PSD12: Llygredd Golau ac Aer

PSD13: Tir halogedig

SP13: Datblygu Gwledig

RD1: Annedd Newydd yn lle un bresennol mewn Cefn Gwlad Agored

RD2: Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig at Ddefnydd Preswyl

RD3: Arallgyfeirio ar Ffermydd

RD4: Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig at Ddefnydd Amhreswyl

RD5: Cyfleusterau Marchogol

SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol

NE2: Bioamrywiaeth

NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw

NE4: Datblygiad o fewn Ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr

NE5: Rheoli'r Arfordir

NE6: Datblygu'r Arfordir

NE7: Ardal Rheoli Newid Arfordirol

SP15: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol

BHE1: Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth

BHE2: Cymeriad y Dirwedd

SP16: Newid yn yr Hinsawdd

CCH1: Ynni Adnewyddadwy o fewn Ardaloedd a Aseswyd o flaen llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol

CCH2: Ynni Adnewyddadwy y tu allan i Ardaloedd a Aseswyd o flaen llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol

CCH3 – Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan

CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr

CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd

CCH6: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel mewn Datblygiadau Newydd

CCH7: Newid yn yr Hinsawdd – Fforestydd, Coetiroedd a Phlannu Coed

SP17: Trafnidiaeth a Hygyrchedd

TRA1: Gwella Seilwaith Trafnidiaeth a Phriffyrdd

TRA2: Teithio Llesol

TRA3: Rheilffordd Gwili

TRA4: Coridorau Rheilffyrdd Segur

TRA5: Safonau Priffyrdd a Mynediad mewn Datblygiad

SP18: Adnoddau Mwynol

MR1: Cynigion Mwynau

MR2: Clustogfeydd Mwynau

MR3: Ardaloedd Diogelu Mwynau

SP19: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy

WM1: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy a Datblygiadau Newydd

WM2: Cynigion Tirlenwi

WM3: Tir Amaethyddol - Gwaredu Gwastraff Anadweithiol

# Sut i gael golwg ar yr 2il CDLl Diwygiedig Adneuo a rhoi sylwadau arno

Mae'r ymgynghoriad ar yr 2[il] CDLl Diwygiedig Adneuo hwn yn gam pwysig yn y broses o gynllunio ar gyfer dyfodol Sir Gaerfyrddin. Mae'n gyfle pwysig i unrhyw un sydd â diddordeb yn y ffordd y bydd Sir Gaerfyrddin a'i chymunedau yn datblygu ac yn tyfu yn y blynyddoedd sydd i ddod, a dod i ddeall polisïau a chynigion y Cynllun a rhoi sylwadau arnynt.

Dylid nodi bod y ddogfen hon yn cynrychioli ail fersiwn Adneuo o'r CDLl Diwygiedig ac yn disodli'r fersiwn honno a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar 29 Ionawr 2020. Ni fydd unrhyw sylwadau a gyflwynwyd mewn perthynas â'r Cynllun Adneuo gwreiddiol yn cael eu hystyried na'u cyflwyno fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. O ganlyniad, dylid ailgyflwyno unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn flaenorol fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ni fydd sylwadau blaenorol yn cael eu hystyried mwyach ac ni fyddant yn cael eu cyflwyno i'r Arolygydd i'w hystyried yn yr archwiliad yn gyhoeddus.

Mae gan y CDLl, fel rhan o'r system gynllunio, rôl sylfaenol i'w chwarae o ran sicrhau datblygu cynaliadwy a chreu cymunedau iach, cydlynus ac economaidd hyfyw a bywiog. Mae'n rhaid i'r cynllun helpu yn y broses o gydbwyso ac integreiddio amcanion sy'n tynnu'n groes er mwyn diwallu'r anghenion datblygu presennol ar yr un pryd â diogelu rhai'r dyfodol. Mae'r Cynllun yn cydnabod anghenion ei ardal ac yn ceisio cyfrannu tuag at gyflawni datblygiad cynaliadwy drwy osod polisïau a chynigion sy'n adlewyrchu amcanion cynaliadwyedd. Mae hefyd yn ceisio diogelu'r amgylchedd drwy arwain a hwyluso penderfyniadau buddsoddi a darparu gwasanaethau a seilwaith.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r CDLl yn 'cynllunio ar gyfer popeth', a'i fod yn rhan o gyfres ehangach o strategaethau a rhaglenni buddsoddi. Fodd bynnag, mae yna agweddau yn ymwneud â'r Cynllun na allant orchymyn na rheoli, gan gynnwys buddsoddiadau a chynlluniau hirdymor gan gyrff cyhoeddus eraill.

Wrth ddefnyddio'r cynllun hwn a rhoi sylwadau ar ei gynnwys, y dull a ffefrir yw drwy borth ymgynghori ar-lein y CDLl sydd ar dudalen we'r CDLl Diwygiedig.[1] Mae'r porth yn rhyngweithiol ac yn eich galluogi i weld y cynllun a rhoi sylwadau arno wrth ichi ei ddarllen. Drwy ddefnyddio'r porth, gall ymatebwyr sicrhau bod eu sylwadau yn cael eu cyflwyno'n

[1] https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/#.Y5yHnVHP1PY

gyflym a byddant yn gallu gweld sylwadau eraill sydd wedi'u cyflwyno (wrth iddynt gael eu cyhoeddi).

Mae copïau o'r 2il CDLl Adneuo hwn ynghyd â'r dogfennau ymgynghori ategol ar gael i'w harchwilio yng nghanolfannau gwasanaethau cwsmeriaid y Cyngor ac ym mhob llyfrgell gyhoeddus yn ystod yr oriau agor a hysbysebwyd.

Mae ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar gais i'r rhai nad ydynt yn gallu defnyddio'r porth ar-lein.

Gofynnir ichi gyflwyno eich sylwadau drwy'r porth ar-lein. Neu dylech anfon ffurflenni ymgynghori wedi'u cwblhau at:

blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk

Neu postiwch nhw at:

Y Rheolwr Blaen-gynllunio, Lle a Chynaliadwyedd, Adran Lle a Seilwaith, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE

Rhaid cyflwyno sylwadau erbyn 4:30pm ar 14 Ebrill 2023. Nid ystyrir unrhyw sylwadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn.

Mae rhagor o ganllawiau a gwybodaeth ar gael ar dudalen we'r CDLl neu gan yr adain Blaen-gynllunio drwy ffonio 01267 228818 neu anfon e-bost at blaengynllunio@sirgar.gov.uk.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r cyngor yn gyfrifol am baratoi a chadw Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) cyfredol.[2] Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn trefnu'r polisïau cynllunio, gan ddosbarthu safleoedd ar gyfer mathau gwahanol o ddatblygiad. Mae'r cyngor hefyd yn gyfrifol am reoli datblygiadau, sy'n cynnwys prosesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio, gan ddefnyddio'r Cynllun Datblygu Lleol i arwain a rheoli datblygiad trwy ddarparu'r sail ar gyfer penderfyniadau cyson a chlir. Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau uchod, rydym wrthi'n paratoi CDLl Diwygiedig. Ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, byddwn yn defnyddio'r CDLl hwn ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio hyd at 2033, ond byddwn yn parhau i fonitro ac adolygu'i gynnwys er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas a'i fod yn gweithio yn ôl y disgwyl.

1.2 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael effaith uniongyrchol ac ystyrlon ar bobl a chymunedau Sir Gaerfyrddin ac ymwelwyr hefyd. Bydd yn llywio datblygiadau'r dyfodol yn y sir ynghyd â'i rhinweddau amgylcheddol, gan gael dylanwad economaidd a chymdeithasol arni. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn ymateb i ofynion economi sy'n tyfu ac o bwysigrwydd rhanbarthol, gan ddarparu swyddi, tai, seilwaith a chyfleusterau cymunedol newydd. Bydd y cynllun hefyd yn sicrhau bod llesiant ei gymunedau yn cael ei gynnal, a bod effeithiau'r datblygiad a'r defnydd o dir yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy. Bydd yn arwain rhaglenni ariannu a buddsoddi, cynlluniau a strategaethau eraill, cymunedau a thirfeddianwyr wrth ddarparu ar gyfer gwelliant a diogelwch ein hamgylchedd a rhinweddau amgylcheddol. Wrth wneud hyn, mae'n darparu rhywfaint o sicrwydd a hyder ynghylch pa fath o ddatblygiad fydd yn cael ei ganiatáu neu beidio, ac ym mha leoliadau, yn ystod cyfnod y cynllun.

1.3 Mae gan y rhan honno o Sir Gaerfyrddin sy'n gorwedd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei chynllun datblygu ei hun.

1.4 Wrth sicrhau bod y CDLl mabwysiedig yn parhau i fod yn gyfredol, cafodd ei gynnwys ei adolygu a chyhoeddwyd y canlyniadau yn yr Adroddiad Adolygu[3]. Er bod yr adolygiad hwn wedi canfod bod nifer o agweddau'r CDLl mabwysiedig yn gweithredu'n effeithiol, nododd fod problemau hefyd mewn perthynas â rhannau o'r cynllun a'i strategaeth. Dangosodd yr Adroddiad Adolygu nad oedd rhannau o'r strategaeth hon yn cael eu cyflwyno yn ôl y disgwyl a bod angen ystyried lefel a dosbarthiad gofodol twf ymhellach. Daeth i'r casgliad ein bod yn

[2] Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol 2005 yn gosod y fframwaith a chyd-destun cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru.
[3] https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1213043/ldp-review-report-welsh-version.pdf

dechrau paratoi CDLl diwygiedig yn lle'r Cynllun mabwysiedig presennol. Bydd CDLl Diwygiedig 2018 – 2033 yn disodli'r Cynllun mabwysiedig presennol ar ôl ei fabwysiadu.

## 2. Beth yw'r Cynllun Adneuo?

2.1 Mae'r 2[il] CDLl Diwygiedig Adneuo yn rhan o set o ddogfennau y mae'n ofynnol ein bod yn eu paratoi fel rhan o'r broses o gynhyrchu'r CDLl Diwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Mae'n gam hanfodol wrth baratoi'r Cynllun Datblygu ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac mae'n dilyn cyhoeddiad y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 25 Awst 2022[4] a'r Strategaeth a Ffefrir Cyn-adneuo a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori ym mis Rhagfyr 2018.

2.2 Mae'r 2[il] CDLl Adneuo hwn yn datblygu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran casglu tystiolaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith Cyn-adneuo, gan gynnwys yr hyn sydd yn y Strategaeth a Ffefrir, ac yn ceisio datblygu'r cyfeiriad strategol drwy bolisïau a chynigion mwy manwl o ran defnydd tir (gan gynnwys dyrannu tir i'w ddatblygu).

2.3 Mae'r CDLl Adneuo yn cynnwys datganiad ysgrifenedig sy'n manylu ar ei bolisïau a'i gynigion a map cynigion ar sail ddaearyddol. Mae ei strwythur a'i fformat yn fras fel a ganlyn:

- **Rhagarweiniad:** Gwybodaeth gefndir gyffredinol am CDLl Sir Gaerfyrddin gan gynnwys amlinellu rôl yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (yn ymgorffori'r Arfarniad Cynaliadwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn y broses o lunio'r cynllun.
- **Cyd-destun Polisi**: Yn nodi'r ffordd mae'r CDLl yn alinio â'r cyd-destun polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac yn rhoi sylw iddo.
- **Prif Faterion ac Ysgogwyr:** Yn amlinellu materion a nodwyd mewn perthynas â'r CDLl.
- **Gweledigaeth ac Amcanion Strategol:** Yn cyflwyno Gweledigaeth y CDLl a'r Amcanion Strategol cysylltiedig, gan gyfleu'r math o le y rhagwelir y dylai Sir Gaerfyrddin fod. Rôl yr Amcanion Strategol yw gosod y cyd-destun ar gyfer gwireddu'r weledigaeth.
- **Strategaeth a Pholisïau Strategol:** Yn amlinellu cyfeiriad strategol y CDLl sydd, ynghyd â'r fframwaith gofodol ac aneddiadau a'r polisïau strategol, yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer polisïau manwl a phenodol.

[4] https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2018-2033/cytundeb-cyflawni/#.XeUt1-RXWM2

- **Polisïau Penodol:** Polisïau manwl sy'n ymdrin â meysydd polisi penodol ac yn darparu polisïau cyffredinol ar gyfer rheoli datblygiadau y caiff pob cynnig ar gyfer datblygiad yn y sir ei asesu yn unol â hwy. Mae'r polisïau hyn yn nodi dyraniadau defnydd tir at ddibenion preswyl, cyflogaeth a dibenion eraill, ardaloedd a ddynodir i gael gwarchodaeth arbennig, a pholisïau (gan gynnwys polisïau meini prawf) sy'n llywio'r defnydd tir a datblygiadau yn ardal y cynllun. Maent yn creu sylfaen gadarn ar gyfer ystyried ceisiadau ac apeliadau cynllunio mewn ffordd resymegol a chyson. Mae'r polisïau wedi'u halinio â'r polisïau strategol ac yn cynnwys cyfiawnhad rhesymedig.
- **Gweithredu a Monitro:** Yn nodi ac yn cynnwys targedau allweddol a manylion am berfformiad y cynllun a mesurau i'w fonitro.
  Gwybodaeth dechnegol a chefndir sy'n rhoi manylion i gefnogi cynnwys y cynllun, neu i ddarparu gwybodaeth i helpu i'w ddehongli.
- **Map Cynigion ar Sail Ddaearyddol** - Mae'r Map Cynigion ynghyd â mapiau mewnosod o aneddiadau neu ardaloedd datblygu penodol yn nodi polisïau a chynigion ar sail ddaearyddol.

2.4 Mae gwybodaeth bellach ynghylch camau paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar gael o fewn y Cytundeb Cyflawni neu ar dudalennau gwe'r Cyngor.

2.5 Dylid darllen ac ystyried yr 2il Gynllun Adneuo hwn fel cyfanwaith, gan ystyried darpariaethau Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol perthnasol.

2.6 Cafodd y CDLl Adneuo hwn ei baratoi gan roi sylw i ddogfennau a strategaethau gofodol a thematig eraill a gynhyrchwyd ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol, ynghyd â'r rheiny â phwyslais lleol. Cydnabu'r broses o baratoi'r cynllun y pwys a roddwyd ar gydnawsedd a synergedd corfforaethol, ynghyd â'r angen i ystyried y berthynas rhwng y CDLl a'r Cynllun Llesiant[5]. Mae'r CDLl hefyd yn rhan annatod o Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor[6].

2.7 Mae Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) o'r CDLl Adneuo wedi'i gyhoeddi fel dogfen ar wahân ynghyd ag Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'r ddwy

[5] Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin: Y Sir Gâr a Garem – 2018 – 2023
https://www.ysirgaragarem.cymru/media/8332/cynllun-llesiant-sir-gar-terfynol-mai-2018.pdf

[6] Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: Strategaeth Gorfforaethol Newydd y Cyngor 2018 – 2023
https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/strategaethau-a-chynlluniau/strategaeth-gorfforaethol-y-cyngor-2018-2023/

ddogfen hyn ar gael ar gyfer ymgynghori a chroesawir sylwadau am eu cynnwys. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain fel a ganlyn:

### Yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

2.8 Mae cwblhau Arfarniad Cynaliadwyedd yn ofyniad statudol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol o dan Adran 62(6) o *Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*, *Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005*[7] [8] a chanllawiau cysylltiedig. Mae *Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) Ewropeaidd 2001/42*[9], a droswyd yn gyfraith yng Nghymru trwy *Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004*[10], hefyd nodi gofyniad gorfodol i ymgymryd ag AAS ar bob cynllun datblygu. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Baratoi Cynlluniau[11] Datblygu Lleol yn nodi bod yn rhaid i Arfarniad Cynaliadwyedd integreiddio gofynion Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol, ac mae'n dadlau ymhellach am ddull Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

2.9 Felly, ymgorfforwyd y gofynion cyfunol ar gyfer Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn y gofynion a nodwyd yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*[12], *Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*[13], *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20*[14][15], ac ystyriaethau o dan *Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017,* [16]o fewn un Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, nad yw'n gynhwysfawr, sy'n galluogi asesiad mwy tryloyw, cyfannol, a chytbwys o oblygiadau cynaliadwyedd yr opsiynau twf, yr amcanion, y polisïau, a'r cynigion a gynhwysir yn y CDLl diwygiedig.

2.10 Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi hwyluso archwiliad trylwyr ac ailadroddol o'r materion cynaliadwyedd, yr heriau, a'r cyfleoedd sy'n wynebu Sir Gaerfyrddin. Wrth wneud hynny, mae wedi'i blethu â'r broses o baratoi'r CDLl hwn ac roedd yn ganolog i'r gwaith o ddatblygu'r Materion a'r Amcanion, yn ogystal â nodi strategaeth, ac i'r CDLl.

2.11 Mae'r camau allweddol o baratoi'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (sy'n ymgorffori Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol) i'w gweld o fewn

[7] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/contents
[8] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2839/contents/made
[9] https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:32001L0042
[10] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/1656/made
[11] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/development-plans-manual-edition-3-march-2020.pdf
[12] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2
[13] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15
[14] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3
[15] https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-20-cynllunio-ar-gymraeg
[16] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2

Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Cynllun hwn.

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

2.12 Yn unol â'r *Gyfarwyddeb Cynefinoedd* (92/43/EEC)[17], mae'n ofynnol i awdurdodau cymwys gynnal Asesiad Priodol pan fydd cynllun defnydd tir, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag effeithiau cynlluniau neu brosiectau eraill, yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar un neu ragor o safleoedd dynodedig Ewropeaidd.

2.13 Wrth baratoi'r CDLl hwn, mae'r Cyngor wedi ymdrechu i addasu'r cynllun er mwyn sicrhau na fyddai effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd dynodedig Ewropeaidd. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ymdrin â'r canlynol:

- Pennu effeithiau arwyddocaol tebygol cynllun datblygu ar Safleoedd Ewropeaidd lle bo'n berthnasol;
- Edrych ar ba bolisïau/cynlluniau sy'n galw am Asesiad Priodol a sut y caiff ei gynnal;
- Cyflawni'r Asesiad Priodol, os oes angen; a
- Defnyddio "prawf cyfanrwydd y safle" er mwyn penderfynu a oes gan gynlluniau datblygu neu elfennau ynddynt unrhyw atebion amgen neu a oes rhesymau hanfodol dros fwrw ymlaen â'r datblygiad er budd y cyhoedd.

2.14 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei baratoi ochr yn ochr â'r CDLl fel proses ailadroddol ac integredig. Mae'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o lunio'r CDLl a'i bolisïau a'i ddarpariaethau. Yn hyn o beth, mae'r CDLl yn cyflwyno polisïau a chynigion sy'n sicrhau bod gofynion y rheoliadau'n cael eu bodloni ac nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd dynodedig Ewropeaidd.

[17] https://www.legislation.gov.uk/eudr/1992/43/

# 3. Dylanwadau ar y Cynllun

## Trosolwg

3.1 Er bod y CDLl yn chwarae rôl allweddol wrth lunio penderfyniadau a lleoliad a natur datblygiadau yn y Sir, mae'n cael ei baratoi a'i weithredu o fewn y fframwaith cenedlaethol sydd wedi ei osod gan ddeddfwriaeth a Pholisi Cynllunio Cymru[18] a Nodiadau Cyngor Technegol cysylltiedig. [19]

3.2 Mae'r broses ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i gosod o fewn rheoliadau statudol, a chynhwysir arweiniad gweithdrefnol ychwanegol o fewn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol fel y'i paratowyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd gwaith paratoi a chynnwys y CDLl yn cael eu hasesu wrth ystyried tri phrawf o gadernid,[20] sef:

1. A yw'r cynllun yn ffitio?
2. A yw'r cynllun yn briodol?
3. A fydd y cynllun yn cyflawni?

3.3 Bydd cam olaf y gwaith o baratoi'r Cynllun yn cael ei gyflawni gan yr arolygydd cynllunio (fel y'i penodir gan Lywodraeth Cymru). Bydd yr Arolygydd yn archwilio'r CDLl gan ystyried y tri phrawf hyn er mwyn asesu ei gadernid. Bydd canfyddiadau'r archwiliad yn cael eu cyhoeddi yn adroddiad yr arolygydd, y bydd yr awdurdod yn rhwym i'w gynnwys a'i argymhellion.

3.4 Wrth i'r Cyngor gynllunio ar gyfer y dyfodol, bydd yn rhaid i ni hefyd weithio gyda phartneriaid amrywiol, asiantaethau eraill, cyrff cyllido a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ac ymateb iddynt, a hynny er mwyn llywio, arwain a gweithredu rhaglenni a chynigion. Er bod gan y Cynllun Datblygu Lleol rôl ganolog wrth lywio polisïau, rhaglenni a strategaethau buddsoddi ar draws amrediad o asiantaethau a chyrff yn y dyfodol, bydd hefyd wedi cael ei ddylanwadu gan ac yn adlewyrchu'r rheini sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ei bolisïau a chynigion.

---

[18] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11_0.pdf

[19] https://gov.wales/technical-advice-notes

[20] Er mwyn i Gynllun Datblygu Lleol gael ei fabwysiadu, mae'n rhaid i'r arolygydd sy'n ei archwilio benderfynu ei fod yn 'gadarn' (Adran 64 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004). Nodir profion cadernid a gwiriadau yn Rhifyn 11 o Bolisi Cynllunio Cymru a Chytundeb Cyflawni'r CDLl Diwygiedig sydd wedi'i gymeradwyo.

3.5 Mae nifer o ddogfennau a strategaethau pwysig yn ymwneud â Sir Gaerfyrddin. Lle bo’n briodol, rydym wedi paratoi'r cynllun fel ei fod yn adlewyrchu’r fath ddogfennau a chynlluniau sy’n perthyn i sefydliadau eraill, gan gynnwys ein hawdurdodau cynllunio cyfagos, a pholisïau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol – a byddwn hefyd yn gwneud hyn yn y dyfodol. Byddwn yn gweithio gyda'n cymdogion ac eraill wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol fel sy'n briodol.

3.6 Cafwyd nifer o newidiadau cyd-destunol sylweddol mewn deddfwriaeth Gymreig ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol presennol. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ond yn fwyaf arwyddocaol, efallai, yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ddeddf hon yn newid mawr, ac mae'n ofynnol bod y cynllun yn cyfrannu at ei nod o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru wrth weithredu datblygu cynaliadwy. Mae hyn wedi ysgogi newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru wrth gyhoeddi Rhifyn 11 yn Chwefror 2021. Rhoddwyd sylw hefyd i Ddatganiad Ardal De-orllewin Cymru (SWWAS). Lluniwyd y Datganiad yn 2020 yng nghyd-destun datganiad Llywodraeth Cymru o Argyfyngau Hinsawdd a Natur. Mae'r ddau fater hyn yn gysylltiedig ac maent ynddynt eu hunain yn symptomau o reolaeth anghynaladwy ar adnoddau naturiol. Mae angen dull systemau cyfan arnynt, ac fel y cyfryw mae'r ddau fater yn ymddangos ar draws holl themâu SWWAS:

- Lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Sicrhau dulliau cynaliadwy o reoli tir
- Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a'i gwella
- Thema drawsbynciol: Addasu i newid yn yr hinsawdd a'i leihau

3.7 Datblygiad pwysig pellach yn y system gynllunio a chynlluniau datblygu yng Nghymru yw mabwysiadu Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040[21]. Hwn yw cynllun datblygu Cymru, yn y bôn, ac mae'n gosod y cyfeiriad ar gyfer gwaith datblygu yng Nghymru rhwng 2020 a 2040. Mae'n cynrychioli'r haen uchaf fel rhan o'r hierarchaeth cynlluniau datblygu ac wrth gael ei baratoi mae wedi llywio ac yn dilyn ei fabwysiadu mae wedi llywio'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig.

3.8 Mae'n ofynnol i'r CDLl Diwygiedig gydymffurfio â chynnwys Cymru'r Dyfodol.

[21] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/future-wales-the-national-plan-2040.pdf

3.9 Bydd y cynllun yn ystyried y nodau a'r amcanion llesiant cenedlaethol a chynnwys Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin, yn ogystal ag amcanion llesiant y Cyngor ei hun yn ei bolisïau a'i gynigion.[22][23]

3.10 Wrth baratoi ei Strategaeth Gorfforaethol Newydd, cyfunodd y Cyngor y cynlluniau canlynol mewn un ddogfen a fydd yn tanategu nifer o agweddau ar y CDLl yn y dyfodol:

1. Mae'n disodli Strategaeth Gorfforaethol 2015–20.
2. Mae'n ymgorffori ein Hamcanion Gwella fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol 2009.
3. Mae'n cynnwys ein Hamcanion Gwella, yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Am y tro cyntaf yng Nghymru, ceir gweledigaeth a rennir a set o nodau i bob corff cyhoeddus weithio tuag atynt. Bwriad ein Hamcanion Llesiant yw cyfrannu cymaint â phosibl at y rhain;
4. Mae'n cynnwys prosiectau a rhaglenni allweddol Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer y pum mlynedd nesaf fel y nodir yn 'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf.

3.11 Mae'r cynllun, wrth gydnabod yr amrywiaeth a geir yn Sir Gaerfyrddin, hefyd yn rhoi ystyriaeth bwysig i nifer o gynlluniau a mentrau'r Cyngor sydd wedi eu hanelu'n benodol at y materion sydd yn effeithio ar ein hardaloedd gwledig, yn enwedig mewn perthynas â chanfyddiadau Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig y Cyngor a'i 55 o argymhellion. Mae adroddiad Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen yn ystyried y materion sy'n effeithio ar gymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin ac yn nodi camau gweithredu y gall y Cyngor, mewn partneriaeth â sefydliadau a chyrff cyhoeddus eraill, eu cymryd i ymdrin â'r materion er mwyn cefnogi adfywio gwledig yn y blynyddoedd i ddod. [24].

3.12 Nododd y Grŵp Gorchwyl nifer o feysydd allweddol sy'n dylanwadu ar y materion sy'n wynebu cymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn, ac mae'r rhain wedi'u hadlewyrchu yng nghanfyddiadau'r adroddiad:

[22] Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin: Y Sir Gâr a Garem – 2018 - 2023

[23] Diffinnir y 15 amcan llesiant yn Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: Strategaeth Gorfforaethol Newydd y Cyngor 2018 – 2023 https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/strategaethau-a-chynlluniau/strategaeth-gorfforaethol-y-cyngor-2018-2023/

[24] Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen (Mehefin 2019): Adroddiad ac Argymhellion Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin. https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/strategaethau-a-chynlluniau/symud-sir-gâr-wledig-ymlaen/

- Datblygu Economaidd
- Cynllunio a Thai
- Addysg a Sgiliau
- Band Eang a Sgiliau Digidol
- Twristiaeth
- Trafnidiaeth a Phriffyrdd
- Amaethyddiaeth a Bwyd
- Cydnerthu Cymunedol, Mynediad at Wasanaethau a'r Trydydd Sector
- Ynni Adnewyddadwy
- Yr Amgylchedd a Gwastraff
- Y Ffordd Ymlaen

3.13 Roedd un o'r argymhellion allweddol a ddeilliodd o adroddiad Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen yn ymwneud ag adnewyddu Deg Tref yn ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin. Mae rhan o'r fenter hon wedi cynnwys gweithio gyda'r cymunedau a'r rhanddeiliaid lleol mewn deg tref wledig a nodir (a'u cymunedau cyfagos) i ddatblygu cynlluniau unigol sy'n ceisio darparu gweledigaeth strategol hirdymor i sicrhau eu cynaliadwyedd economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Y deg tref wledig a nodwyd yw:

- Llanymddyfri
- Llandeilo
- Sanclêr
- Hendy-gwyn ar Daf
- Castellnewydd Emlyn
- Talacharn
- Cwmaman
- Llanybydder
- Cydweli
- Cross Hands

3.14 Mae'r 2il Gynllun Adneuo hwn hefyd yn adlewyrchu adroddiad cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd, [25]gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol a gafodd eu nodi yn llawn ac yn ofalus. Wrth barhau â'r broses o baratoi'r cynllun, bydd yr arfarniad o gynaliadwyedd a'r

[25] https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/planning/local-development-plan-2018-2033/sustainability-appraisal-and-habitats-regulations-assessment/#.YqM4-ajMKUk

gofynion ar gyfer creu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ein cynorthwyo wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn ystyried y gwerthoedd cynaliadwyedd ac amgylcheddol hyn.

3.15 Mae newidiadau cyd-destunol o'r fath, canfyddiadau'r Adroddiad Adolygu a newidiadau mewn tystiolaeth wedi bod yn hanfodol wrth lywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, a'i gyfeiriad strategol trwy'r Strategaeth a Ffefrir hon ond hefyd ei gyfeiriad ar lefel polisi manwl yn yr 2il Gynllun Adneuo hwn.

3.16 Mae gwaith cysylltu helaeth wedi cael ei wneud – ac yn cael ei wneud o hyd – i greu a chodi ymwybyddiaeth a chyfathrebu ag amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion. Mae'r wybodaeth, materion a thystiolaeth sy'n codi o gyfathrebiadau o'r fath wedi bod yn amhrisiadwy yn y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn, a byddant yn parhau i sicrhau bod y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol mor wybodus a chydsyniol â phosibl.

# 4. Sir Gaerfyrddin – Cyd-destun Strategol

## Trosolwg

4.1 Mae Sir Gaerfyrddin yng nghanol De-orllewin Cymru. Mae ganddi gysylltiadau cryf ag economïau ehangach tua'r dwyrain ac i mewn i Loegr, ond hefyd tua'r gorllewin i Sir Benfro ac Iwerddon, yn ogystal â chanolbarth a gogledd Cymru. Mae gan Sir Gaerfyrddin sylfaen economaidd ddeinamig, sy'n adlewyrchu'i chanolfannau cyflogaeth cadarn yn ogystal â'i heconomi wledig bwysig. Mae'r sir wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu buddsoddiad, ac mae'n gosod adfywio fel ei blaenoriaeth gorfforaethol gyntaf.

4.2 Nodweddir y sir gan ei threfi a phentrefi amrywiol, parciau cyflogaeth mawr, canolfannau adwerthu rhanbarthol, economi wledig amlwg, a thirweddau ucheldirol, aberol ac arfordirol deniadol. Mae'r Gymraeg a'i diwylliant hefyd yn agweddau pwysig ar hunaniaeth a chymeriad Sir Gaerfyrddin ac mae'r sir yn amlwg fel cadarnle ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

4.3 O fewn y sir, ceir ysgogwyr economaidd allweddol, gan gynnwys y buddsoddiadau yn Cross Hands sy'n ymwneud â'r parc bwyd a safle cyflogaeth Dwyrain Cross Hands. Arwyddo'r fargen ddinesig gwerth £1.24 biliwn yn 2017 a'r cynnydd wrth gyflawni'r prosiectau cysylltiedig – clwstwr creadigol Yr Egin yng Nghaerfyrddin a phrosiect Llesiant a Gwyddor Bywyd Llanelli ym Mhentre Awel. Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi dod ag ardal eang, amrywiol a gwrthgyferbyniol ynghyd gyda phwyslais ar ysgogi buddsoddiad a chyfleoedd i greu swyddi.

4.4 Fel sir wledig yn bennaf, mae dwysedd y boblogaeth yn isel gyda 78 o bobl yn byw fesul cilomedr sgwâr, sy'n cymharu â 140 o bobl fesul cilomedr sgwâr ar gyfer Cymru yn gyffredinol. Mae'r prinder poblogaeth hwn yn adlewyrchu'r cymunedau gwledig yn bennaf yn hytrach na'r hyn a welir yn ne a dwyrain y sir, lle mae 65% o'r boblogaeth yn byw ar 35% o'r tir. Mae Sir Gaerfyrddin yn sir sydd â chymeriad amrywiol gyda'r economi amaethyddol a thirwedd yr ardaloedd gwledig yn cael eu cyfosod â'r ardal drefol ac ôl-ddiwydiannol yn y de-ddwyrain.


4.5 Mae prif ganolfannau trefol y sir yn cynnwys Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman / Cross Hands. Mae Caerfyrddin, oherwydd ei leoliad daearyddol canolog, yn bodloni anghenion ardaloedd gwledig y sir yn ogystal â'r rhanbarth ehangach o ran agweddau fel adwerthu. Mae gan Lanelli a Rhydaman / Cross Hands dreftadaeth ddiwydiannol

gyfoethog ond maent yn parhau yn gyfranwyr pwysig i'w cymunedau ehangach, gan weithredu fel canolbwyntiau ar gyfer cyflogaeth a chartrefi.

4.6 Mae gan y sir nifer fawr o aneddiadau sy'n adlewyrchu maint ac amrywiaeth y Sir. Maent yn amrywio o ran maint a rôl ac maent yn aml yn gwneud cyfraniadau nodedig i anghenion a gofynion eu cymunedau a'r ardaloedd cyfagos. Mae nifer o'r aneddiadau a'r pentrefi yn hunangynhaliol o ran cyfleusterau a gwasanaethau, gan gyflawni rôl wasanaethu ehangach yn aml. Fodd bynnag, mae rhai aneddiadau llai eraill yn brin o wasanaethau a chyfleusterau. Mae anghenion preswylwyr yn yr ardaloedd olaf hyn yn cael eu diwallu fel arfer gan y prif ganolfannau ac, mewn rhai achosion, gan yr aneddiadau llai eraill â gwasanaethau.


## Llesiant a Datblygu Cynaliadwy

4.7 Mae'r Cynllun hwn wedi'i baratoi gan roi ystyriaeth lawn i gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a dyletswyddau'r Cyngor i weithio tuag at saith nod llesiant Cymru a'r angen i gyfrannu at ddatblygu a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (gweler Ffigur 1).




Ffigur 1: *Saith Nod Llesiant Cenedlaethol*

4.8 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn cyflwyno 'Pum Ffordd o Weithio' ac mae angen i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r rhain wrth gyflawni eu dyletswydd datblygu cynaliadwy.




*Ffigur 2: Pum Ffordd o Weithio*

4.9 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi mai dull a arweinir gan gynllun yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau datblygu cynaliadwy (trwy'r system gynllunio) a'i bod yn hanfodol bod cynlluniau'n cael eu mabwysiadu a'u hadolygu. Yn y cyswllt hwn, mae deddfwriaeth yn sicrhau rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall i sicrhau bod materion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yn gytbwys ac yn integredig.

4.10 Fel y nodwyd uchod, bu'r 2il CDLl Adneuo yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (a oedd yn ymgorffori Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn gwella i ba raddau y mae'r cynllun yn cyflawni ac yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, i'r graddau y mae hynny'n bosibl trwy'r system cynllunio defnydd tir. Proses ailadroddol drwy gydol paratoi'r Cynllun yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ac adlewyrchir hyn yn strategaeth, polisïau a chynigion twf y cynllun.

4.11 Ystyr datblygu cynaliadwy yw datblygiadau sy'n bodloni anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion. Gellir dehongli'r cysyniad mewn sawl ffordd, ond yn y bôn mae'n ymagwedd at ddatblygu sy'n ceisio cydbwyso anghenion gwahanol, sy'n aml yn cystadlu â'i gilydd, ag ymwybyddiaeth o gyfyngiadau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

4.12 Er bod ystyriaethau amgylcheddol yn ganolog i egwyddor datblygu cynaliadwy, mae hefyd yn ymwneud â sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn, a diwallu anghenion pawb yn awr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo llesiant personol, cydlyniant cymdeithasol a chreu cyfle cyfartal.

4.13 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddatblygu'n gynaliadwy ac mae'n gofyn am welliant o ran cyflawni pob un o'r pedair agwedd ar lesiant: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

4.14 Edrychodd Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin (Mawrth 2017) ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn Sir Gaerfyrddin trwy wahanol gyfnodau bywyd ac mae'n rhoi crynodeb o'r canfyddiadau allweddol. Mae canfyddiadau'r asesiad hwn yn sail i'r amcanion a'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Gallwch weld yr Asesiad drwy'r ddolen gyswllt ganlynol: www.ysirgaragarem.cymru. Mae Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin yn amlinellu amcanion lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Sir a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn eu cyflawni. Mae Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2018-2023, ac mae'r amcanion a'r camau gweithredu a nodwyd yn edrych ar gyflwyno hyn yn y tymor hwy sef hyd at 20 mlynedd.

4.15 Bydd Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin yn canolbwyntio ar gyflwyno pedwar amcan:




*Ffigur 3: Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin: Pedwar Amcan*

## Y Cyd-destun Cynllunio Strategol

4.16 Mae'r Cynllun yn rhan o fframwaith Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol perthnasol eraill, a pholisïau a strategaethau rhanbarthol a lleol eraill. Mae'r rhain yn cael eu nodi yn Atodiadau'r cynllun.

4.17 Yn benodol dylid nodi Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 sy'n gosod polisïau cynllunio defnydd tir cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei ategu gan Nodiadau Cyngor Technegol (TANs); cyngor gweithredol mewn cylchlythyron; a llythyrau egluro polisi.

4.18 Nid yw Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol yn cael eu hailadrodd ym mholisïau'r cynllun, ond mae'n rhaid eu hystyried wrth ddatblygu cynigion ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Mae'r CDLl Adneuo wedi ystyried Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 a'i gynnwys a'i bolisïau ar lefel Cymru gyfan ac o fewn Rhanbarth y De-orllewin.


4.19 Mae'r cynllun wedi ystyried yr amcanion rhanbarthol strategol fel y'u nodir ar hyn o bryd yn Cymru'r Dyfodol a bydd yn parhau i wneud hynny. Yn hyn o beth, mae'r ddau yn cyd-fynd â'r dull strategol a nodir drwy Ddinas-ranbarth Bae Abertawe a lansiwyd yn 2013.

4.20 Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi dod ag ardal eang, amrywiol a gwrthgyferbyniol ynghyd gyda phwyslais ar ysgogi buddsoddiad a chyfleoedd i greu swyddi. Cafodd hyn ei ddatblygu ymhellach drwy lofnodi'r Fargen Ddinesig gwerth £1.24 biliwn yn 2017 gan gadarnhau ymhellach uchelgeisiau'r rhanbarthau a phwysigrwydd strategol a rhanbarthol Sir Gaerfyrddin. Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn cael ei harwain gan y pedwar awdurdod lleol yn y rhanbarth, sef Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Abertawe, Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Penfro - ynghyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a phartneriaid o'r sector preifat.

4.21 Mae cyfanswm y pecyn buddsoddi yn cynnwys cyllid o £235.7 miliwn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, £373.7 miliwn o gyllid cyhoeddus arall a £629.67 miliwn gan y sector preifat. Dros oes portffolio 15 mlynedd y Fargen Ddinesig, bydd yn ceisio rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi ranbarthol a chreu dros 9,000 o swyddi newydd ar draws y rhanbarth.

4.22 Mae prosiectau'r Fargen Ddinesig yn seiliedig ar themâu allweddol sef Cyflymu'r Economi, Gwyddor Bywyd a Llesiant, Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar. Caiff pob prosiect ei ategu gan seilwaith digidol o'r radd flaenaf a menter Sgiliau a Thalentau a fydd yn rhoi llwybr i bobl leol gael y swyddi a gaiff eu creu.

4.23 Mae uchelgeisiau'r rhanbarth a'r Fargen Ddinesig yn cael eu hadlewyrchu yn rhagolygon strategol y Cyngor ei hun. Yn y cyswllt hwn mae cynllun adfywio'r Cyngor yn ceisio darparu fframwaith strategol ar gyfer cyflawni prosiectau adfywio ledled y Sir gan adeiladu ar y dull dan arweiniad partneriaeth wrth greu cymunedau sy'n fywiog yn economaidd[26].




*Ffigur 4: Bargen Ddinesig Bae Abertawe*

## Cymdeithasol a Diwylliannol

4.24 Mae bron 6% o gyfanswm poblogaeth Cymru yn byw yn Sir Gaerfyrddin, sef 187,900 o bobl. Ers 2011, mae poblogaeth y sir wedi tyfu o ganlyniad i 4,100 o bobl ychwanegol, sef cynnydd o 2.2% mewn 10 mlynedd. Mae hyn yn uwch na'r cynnydd cyffredinol ar gyfer Cymru (1.4%)

[26] Cynllun adfywio strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2015-2030 - Trawsnewidiadau - https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1212060/strategic-regeneration-plan-for-carmarthenshire-2015-2030-pdf.pdf

4.25 Y prif ffactor sydd wedi dylanwadu ar y newid i boblogaeth Sir Gaerfyrddin ers 2001/2002 yw mewnfudo, lle mae mwy o bobl wedi symud i'r sir nag sydd wedi gadael. Mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth sy'n heneiddio, gyda nifer y marwolaethau yn fwy na genedigaethau bob blwyddyn ers 2001/2002.

4.26 Mae patrymau mudo net hanesyddol Sir Gaerfyrddin wedi gweld nifer mawr o'r grŵp oedran 15-19 yn gadael y Sir. Yn bennaf, mae hyn yn adlewyrchu'r nifer o fyfyrwyr sy'n gadael y sir er mwyn manteisio ar gyfleoedd addysg uwch. Cafwyd cynnydd mewn pobl sy'n symud i mewn i'r sir o fewn grŵp oedran teulu ifanc 30–44 a grŵp oedran 0–14. Cafwyd cynnydd hefyd yn y grŵp oedran dros 65, sydd wedi cyfrannu at broffil poblogaeth sy'n heneiddio yn Sir Gaerfyrddin.

4.27 Ers cychwyn y broses Cynllun Datblygu Lleol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pump amcanestyniad poblogaeth ac aelwydydd. Mae ystadegau mudo net uchel (yn fewnol ac yn rhyngwladol) wedi dylanwadu ar amcanestyniadau Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2006 a 2008. Nododd yr ystadegau hyn dwf sylweddol ar gyfer Sir Gaerfyrddin (fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig). Fodd bynnag, roedd amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2011 a 2014 yn adleisio cyfnod ôl-ddirwasgiad a ddangosai duedd mewnfudo is. O ganlyniad mae gofyniad twf disgwyliedig mewn aelwydydd llawer yn is ar gyfer Sir Gaerfyrddin.


4.28 Mae amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018 yn amcangyfrif nad yw maint aelwydydd ar gyfartaledd yn lleihau mor gyflym ag yr oedd amcanestyniadau cynnar yn awgrymu. Mae'r amcangyfrif uwch hwn ynglŷn â maint aelwydydd ynghyd â'r newidiadau o ran twf y boblogaeth o fewn y sir wedi arwain at ofyniad twf disgwyliedig mewn aelwydydd sy'n llawer is na'r hyn a nodwyd yn y CDLl mabwysiedig presennol. Mae'r CDLl Diwygiedig hwn yn ceisio gosod yr amcanestyniadau hyn yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin a datblygu cyfres o amcanestyniadau ar gyfer newid a thwf sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau Sir Gaerfyrddin a'i chymunedau.

4.29 Ceir amrywiadau sylweddol ar draws y Sir o ran dangosyddion amddifadedd cymdeithasol, gan gynnwys mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, iechyd ac addysg; ac ansawdd tai fel y dangosir gan ddata o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD). Mewn rhai cymunedau, mae diffyg canolbwynt cymdeithasol a/neu gyfleusterau allweddol i weithredu fel ffocws cymunedol. Mae gan eraill ystod o wasanaethau a chyfleusterau sy'n cyfrannu at fywyd cymunedol bywiog. Mae angen dosbarthiad mwy

cytbwys. Mae hyn i ryw raddau yn adlewyrchu cymeriad gwledig y Sir. Yn y cyd-destun hwn, mae llawer o gymunedau gwledig yn defnyddio cyfleusterau mewn anheddiad cyfagos neu ganolfannau lefel uwch. Mae hyn yn adlewyrchu patrwm o fywyd gwledig sydd bellach yn gyffredin ledled Cymru. Mae'r angen i adlewyrchu'r patrwm hwn a chydnabod bod angen cynnal cymunedau gwledig o'r fath yn ffactor allweddol ar draws y Sir ac yn y cynllun hwn.

4.30 Gyda 78,048 o siaradwyr Cymraeg ymhlith ei phoblogaeth, Sir Gaerfyrddin yw’r sir â’r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac mae ganddi’r bedwaredd gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 43.9% (data Cyfrifiad 2011). Felly, mae ffocws strategol clir ar y rôl ganolog y mae'n ei chwarae yn Sir Gaerfyrddin a'i chymunedau.

4.31 Mae'r llun isod yn dangos dosbarthiad siaradwyr Cymraeg fesul ward etholiadol fel y'i cofnodwyd yn nata Cyfrifiad 2011. Er nad oes crynhoad amlwg o siaradwyr Cymraeg mewn unrhyw ardal benodol, mae'n amlwg bod nifer o wardiau â chyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yn Nyffryn Aman a Chwm Gwendraeth a leolir yn y clwstwr a nodwyd fel 'Aman a Gwendraeth Uchaf’.




*Ffigur 5: % y siaradwyr Cymraeg yn Wardiau Etholiadol Sir Gaerfyrddin (ffigurau Cyfrifiad 2011)*

4.32 Fodd bynnag, nodir bod cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn gostwng yn raddol ers troad y ganrif ddiwethaf ac mae gostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi'i gofnodi gan bob Cyfrifiad ers 1901. Yn fwy diweddar, yn ystod y cyfnod rhwng Cyfrifiadau 1991 a 2011, mae canran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng o 54.9% i 43.9%. Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu cyhoeddiad data Cyfrifiad 2021 sydd ar ddod a newidiadau yng nghanran

siaradwyr y Gymraeg o fewn y Sir. O ystyried pwysigrwydd yr iaith Gymraeg, gan gynnwys o ran y gwead cymdeithasol, ar draws ein cymunedau mae'n bwysig ei bod yn cael ei chydnabod a'i diogelu. Yn hyn o beth mae'r Cynllun yn cydnabod bod y Sir gyfan yn sensitif yn ieithyddol.

## Economaidd

4.33 Mae uchelgeisiau corfforaethol y Cyngor ar gyfer twf ac adfywio, fel y nodwyd yn ei strategaeth adfywio a Bargen Ddinesig Bae Abertawe, yn dangos potensial i greu o leiaf 5,295 o swyddi newydd. Mae hyn yn adlewyrchu Sir uchelgeisiol sydd mewn safle strategol yn y porth i orllewin Cymru ac yn ganolog i'r Fargen Ddinesig.

4.34 Yn wir, dylid ystyried datblygiad economaidd y Sir yn y dyfodol yn y cyd-destun ehangach. Llofnodwyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn 2017, gan sicrhau £1.24 biliwn ar gyfer cynghorau Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro. Rhagwelir y bydd y fargen yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal, yn rhoi hwb i'r economi, ac yn creu bron 10,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf.

4.35 Hefyd cydnabyddir y potensial hwn o ran twf yn rhannol yn Cymru'r Dyfodol, ac mae hyn yn cynnwys de-orllewin y Sir sydd hefyd yn rhan o Ardal Twf Cenedlaethol y De-orllewin. Ffocws hwn yw Bae Abertawe ac ardal Llanelli yn ogystal â statws Twf Rhanbarthol Caerfyrddin[27].

4.36 Ers cyhoeddi Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn 2013, mae'r cyd-destun economaidd a pholisi wedi newid yn sylweddol ar lefel Cymru a'r DU. Mae hyn wedi dod i ffocws penodol yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd ac effaith y pandemig covid-19. Erbyn hyn mae'r dirwedd gyd-destunol newidiol hon hefyd yn cynnwys dyfodiad y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol newydd, a pharatoi Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol newydd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Fframweithiau hyn yn amlinellu gweledigaethau a blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru.

4.37 Er mwyn ymateb i amgylchiadau sy'n newid, lluniodd y pedwar awdurdod lleol yn Ne-orllewin Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Gynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol newydd a fydd yn disodli'r hen Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe.

[27] Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020 – 2040 (Drafft Ymgynghori)

4.38 Mae Cynllun Adfer Economaidd y Cyngor (Ebrill 2021) yn nodi rhyw 30 o gamau gweithredu i gefnogi adferiad economi Sir Gaerfyrddin yn sgil effeithiau cymdeithasol ac economaidd y pandemig COVID-19 a Brexit. Mae'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer cefnogi Busnes, Pobl a Lleoedd. Gyda'r cymorth hwn gall economi Sir Gaerfyrddin ymadfer cyn gynted â phosibl i ddod yn un sy'n fwy cynhyrchiol nag yr oedd o'r blaen, yn fwy cyfartal, yn fwy gwyrdd, yn iachach, a chyda chymunedau mwy cynaliadwy.

4.39 Mae'r modelau economaidd yn dangos sut y mae COVID-19 wedi effeithio ar economi Sir Gaerfyrddin a sut y mae'n debygol o barhau i effeithio arni. Mae lefel uchel o ansicrwydd o hyd ynghylch patrwm yr adferiad, yn ogystal ag effaith Brexit, felly mae'r Cynllun yn fyrdymor ac yn hyblyg, gan ganolbwyntio ar y cyfnod adfer critigol dros 24 mis, ac mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau ail-greu Llywodraeth Cymru.

4.40 Diben y Cynllun Adfer Economaidd yw nodi'r blaenoriaethau tymor byr a'r camau gweithredu uniongyrchol dros y ddwy flynedd sy'n diogelu swyddi a busnesau yn Sir Gaerfyrddin mewn ymateb i COVID-19 ac effeithiau uniongyrchol Brexit.

4.41 Mae angen economi wledig fywiog i gefnogi twf cyffredinol y Sir, ac i helpu i gynnal bywyd cymunedol. Mae twristiaeth gynaliadwy yn ffordd allweddol o sicrhau'r twf hwn a darparu swyddi lleol o ansawdd da, yn yr un modd â chyfleoedd a gynigir drwy gynlluniau arallgyfeirio ffermydd.

4.42 Mae angen cyfleoedd tir cyflogaeth ar gyfer amrywiaeth o fentrau a buddsoddiadau posibl, o fusnesau lleol ar raddfa fach i ardaloedd datblygu strategol ar raddfa fawr a allai apelio at fewnfuddsoddwyr. Gellir darparu cyfleoedd o'r fath drwy dir cyflogaeth presennol a thrwy ddyraniadau cynaliadwy newydd mewn lleoliadau priodol.

4.43 Gan fod swyddi'r sector cyhoeddus yn cael eu gorgynrychioli yn y Sir, bydd gofyn i'r swyddi ychwanegol sydd eu hangen *dros gyfnod y cynllun* gael eu darparu drwy ddatblygiadau sy'n hyrwyddo ac yn arallgyfeirio twf ar draws sectorau, ac sy'n ailgyfeirio'r economi tuag at sectorau sy'n seiliedig ar wybodaeth, o ansawdd uchel â gweithwyr medrus.

4.44 Yn sgil y gwahoddiad am safleoedd ymgeisio ar gyfer y CDLl, cyflwynwyd dros 40 o safleoedd ar gyfer cyflogaeth neu ddefnydd cymysg. Er bod rhai o'r rhain yn ddyraniadau yn y CDLl cyntaf ac wedi'u dwyn ymlaen i'r CDLl Diwygiedig, gallai eraill fod yn briodol fel

safleoedd 'wrth gefn' heb eu dyrannu a allai, os ydynt yn briodol ac yn gynaliadwy, fod yn lleoliadau ar gyfer cyflogaeth a swyddi newydd yn y dyfodol.

## Yr Amgylchedd

4.45 Mae cyfoeth amgylchedd naturiol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin yn ystyriaeth ofodol bwysig wrth gynllunio ar gyfer dyfodol y sir, yn enwedig o ran twf posib ac wrth leoli datblygiadau. Mae Sir Gaerfyrddin yn enwog, ac yn haeddiannol felly, am ei harfordir godidog, ei haberoedd tawel, ei dyffrynnoedd coediog, serth a'i hucheldiroedd garw. Mewn sawl man yn y sir ceir clytwaith o goetiroedd a chaeau wedi'u ffinio gan gloddiau sydd, yn aml iawn, o bwysigrwydd hanesyddol. Mae’r môr a gwely’r môr o amgylch arfordir Sir Gaerfyrddin yn gyfoethog mewn rhywogaethau hefyd, gan gynnwys rhai sydd o gryn bwysigrwydd i'r economi. Mae harddwch naturiol y sir yn ffactor pwysig y mae'r diwydiannau twristiaeth a hamdden lleol yn dibynnu arno. Mae bioamrywiaeth felly'n hanfodol i lesiant corfforol, economaidd ac ysbrydol pawb sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin.

4.46 Mae ardal y cynllun lleol yn cynnwys safleoedd sydd wedi’u dynodi ar lefel ryngwladol er mwyn diogelu a gwella cynefinoedd a rhywogaethau pwysig, yn ogystal â thirweddau trawiadol a threfi a phentrefi hanesyddol unigryw. Ceir hefyd nifer o safleoedd dynodedig o bwysigrwydd cadwraeth natur a bioamrywiaeth, gan gynnwys 8 Ardal Cadwraeth Arbennig, 3 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, 1 safle Ramsar, 81 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 5 Gwarchodfa Natur Genedlaethol, 5 Gwarchodfa Natur Leol a 7 tirwedd gofrestredig..

4.47 Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cwmpasu rhyw 17,088 hectar, ac yn amrywio o ran maint, o gaeau bach i ardaloedd mawr o ochrau mynydd ac afonydd hir. Maent yn cynnwys cynefinoedd fel coetiroedd hynafol, dolydd sy’n llawn blodau, gwlyptiroedd yn ogystal â chwareli segur. Maent yn cynnal planhigion a rhywogaethau o anifeiliaid nad ydynt yn cael eu gweld yn aml yn y cefn gwlad ehangach.

4.48 Dangosir pwysigrwydd treftadaeth adeiledig y sir gan y 27 ardal gadwraeth, 366 o Henebion Cofrestredig (sy'n amrywio o nodweddion cynhanesyddol i nodweddion ôl-ganoloesol/modern sydd â diddordeb hanesyddol diwylliannol) a nifer mawr o adeiladau rhestredig.

4.49 Amaethyddiaeth yw prif nodwedd ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin ac mae'r diwydiant amaeth a ffermio llaeth a defaid yn arbennig yn golygu bod y Sir yn un o'r

ardaloedd amaethyddol pwysicaf yng Nghymru. Yn ôl y Dosbarthiad Tir Amaethyddol, caiff tua 203,700 hectar o dir yn Sir Gaerfyrddin ei ddosbarthu'n dir amaethyddol, a dosberthir y rhan fwyaf ohono yn radd 3a a 4, gyda darn bach o dir gradd 2 yn ne-ddwyrain y Sir.

## Cysylltiadau

4.50 Mae Sir Gaerfyrddin mewn lleoliad da ar y rhwydwaith priffyrdd strategol, gyda'r cysylltiadau i'r gorllewin yn cysylltu â'r porthladdoedd fferi i Iwerddon, sydd gyda'r M4 yn ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd. Pwysleisir y ddolen dwyrain–gorllewin hon ymhellach gan Reilffordd Gorllewin Cymru, sy'n ymestyn o Abertawe (a'r rhwydwaith rheilffordd ehangach) i Sir Benfro trwy Gaerfyrddin a Llanelli. Mae rheilffordd Gorllewin Cymru hefyd yn rhan o'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd sy'n cysylltu â'r porthladdoedd fferi i Iwerddon yn Sir Benfro. Mae rheilffordd Calon Cymru, sy'n ymestyn o Abertawe trwy rannau dwyreiniol y Sir hyd at Amwythig, yn cynnig manteision trafnidiaeth ychwanegol er bod y gwasanaeth yn gyfyngedig.

4.51 Mae'r Sir yn cael ei gwasanaethu hefyd gan nifer o ffyrdd dosbarth A yn ogystal â ffyrdd dosbarth B, gyda phob un yn elfen bwysig o'r rhwydwaith priffyrdd. Mae ein prif rwydwaith priffyrdd yn cynnwys cefnffordd yr A48, sy'n arwain at ac oddi wrth draffordd yr M4 gyda'i chysylltiadau trwy dde-ddwyrain Cymru a thu hwnt. Mae cefnffyrdd yr A40 a'r A483, ar y llaw arall, yn cysylltu â chanolbarth a gogledd Cymru yn ogystal â chanolbarth a gogledd Lloegr. Darperir mynediad at ganolbarth Cymru ac ymlaen ymhellach i ogledd Cymru gan yr A484 a'r A485.

4.52 Mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i weithio ar draws y rhanbarth fel rhan o ddull cydweithredol gan gynnwys datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol fel rhan o swyddogaethau'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol. Yn hyn o beth cyfeirir hefyd at gynnwys Cymru'r Dyfodol a'r darpariaethau mewn perthynas â Metro De-orllewin Cymru.

4.53 Mae'r tabl canlynol yn dangos natur y rhwydwaith ffyrdd, gan gynnwys lefel y ddarpariaeth a fodlonir gan ffyrdd Dosbarth B ac is. Mae hyn, yn rhannol, yn adlewyrchu pa mor wledig yw'r sir ac mae'n pwysleisio'r heriau wrth ddarparu strategaeth integredig gynaliadwy ar gyfer yr ardal.

| Rhwydwaith Ffyrdd Sir Gaerfyrddin – Hyd y Ffordd (Km) | |
|---|---|
| Traffordd (M4) | 5 |
| Dosbarth A (Cefnffordd) | 147 |

| | |
|---|---|
| Dosbarth A (Ffordd Sirol) | 247 |
| Dosbarth B ac C | 1,579 |
| Ffyrdd Bach ag Wyneb | 1,496 |

*Tabl1*

4.54 Gwasanaethir yr ardal yn gyffredinol dda gan drafnidiaeth gyhoeddus trwy'r rhwydwaith bysiau, er bod lefel ac amlder y gwasanaeth yn amrywio yn ôl lleoliad a chyrchfan. Yn ogystal, mae nifer o wasanaethau sy'n gweithredu ar sail 'galw a theithio' mewn ardaloedd gwledig a 'Bwcabus' yn Nyffryn Teifi – mae gwasanaethau o'r fath yn cynnig buddiannau hygyrchedd ychwanegol i'r ardaloedd hyn.

# 5. Nodi Materion

5.1 Mae angen i’r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig fod yn strategol, yn gryno ac yn unigryw ar gyfer ein sir. Mae canolbwyntio ar y materion allweddol sy'n wynebu ein sir wedi'n helpu i gyflawni hyn.[28] Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, rydym wedi ceisio adolygu a diweddaru ein dealltwriaeth o'r materion perthnasol.

5.2 Cesglir y materion allweddol ynghyd o dan y nodau llesiant cenedlaethol. Golygai hyn fod y materion wedi'u fframio o fewn cyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[29] Mae hyn yn sicrhau bod buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu gwreiddio yn y broses o wneud Cynlluniau.

5.3 Mae adroddiad cwmpasu’r Arfarniad Cynaliadwyedd, yn ogystal â'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o broses "Y Sir Gâr a Garem",[30] wedi llywio'r materion. Mae Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin 2018–2033[31] hefyd wedi bod yn agwedd allweddol ar y gwaith hwn.

5.4 Rydym wedi ymgysylltu ac ymchwilio'n helaeth fel rhan o'r sgwrs ynghylch creu materion. Mae hyn yn cynnwys aelodau etholedig, cynghorau tref a chymuned, y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol, adolygiad o bolisi, adroddiad adolygu’r CDLl, amcanion/strategaethau corfforaethol, arolygon ar-lein a phroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.[32]

5.5 Rydym yn deall lle'r ydym ar hyn o bryd fel Sir a lle'r ydym i gyd am gyrraedd. Mae hyn wedi golygu bod modd cydsynio ynghylch y materion hynny y gall cynllun gofodol / defnydd tir geisio'u hateb hyd at 2033. Fodd bynnag, ategwyd hyn gan gyfres o faterion lefel uchel sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i newidiadau cyd-destunol sydd wedi codi ers cyhoeddi fersiwn Adneuo 1af y Cynllun.

---

[28] Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol Llywodraeth Cymru – Rhifyn 3
[29] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[30] https://www.ysirgaragarem.cymru/

[31] http://www.ysirgaragarem.cymru/media/8332/cynllun-llesiant-sir-gar-terfynol-mai-2018.pdf

[32] Mae gwybodaeth fanwl, gan gynnwys yr ymgysylltu a wnaed, wedi'i nodi yn y Papur Pwnc – Materion, Gweledigaeth ac Amcanion.

5.6 Mae'r 33 mater cryno fel a ganlyn. Nodir rhagor o fanylion yn y Papur Pwnc – Materion, Gweledigaeth ac Amcanion:[33]

## Sir Gaerfyrddin Ffyniannus

1. Bargen Ddinesig Bae Abertawe gwerth £1.24 biliwn, yn cynnwys prosiectau a nodwyd yn Llanelli a Chaerfyrddin.
2. Lefelau amrywiol o fywiogrwydd a phrysurdeb yn ein trefi adwerthu
3. Mae angen twf priodol mewn ardaloedd gwledig (gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth)
4. Economi ymwelwyr fywiog sydd â'r potensial i dyfu.

## Sir Gaerfyrddingydnerth

5. Risgiau o lifogydd a'r heriau y mae Newid Hinsawdd yn eu cyflwyno
6. Dynodiadau bioamrywiaeth yn amrywio o lefel ryngwladol i lefel leol.
7. Ôl troed ecolegol sy'n croesi lefelau cynaliadwy ar hyn o bryd.
8. Nodweddion tirwedd neu drefwedd cyfoethog.

## Sir Gaerfyrddin iachach

9. 9. Poblogaeth sy'n heneiddio a phobl ifanc yn mudo o'r Sir.
10. Adroddwyd bod 60% o oedolion dros bwysau neu'n ordew.
11. Mae bywyd cymunedol, addysg a'r gwasanaethau cyhoeddus yn dynodi llesiant mewn ardaloedd gwledig.
12. Mae harddwch, heddwch a thawelwch, man gwyrdd helaeth ac awyr iach hefyd yn cyfrannu at hapusrwydd mewn ardaloedd gwledig
13. Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Llandeilo.
14. "Y newid mawr i'n GIG" ac unrhyw oblygiadau.

## Sir Gaerfyrddin fwy cyfartal

15. Amddifadedd gwledig a threfol.
16. Mae mwy nag 1 ym mhob 3 o aelwydydd yn byw mewn tlodi.
17. Targed y Cyngor i ddarparu 1,000 o dai fforddiadwy (I gael ei ddiweddaru i adlewyrchu targed diweddaraf y Cyngor).

## Sir Gaerfyrddin o gymunedau cydlynus

[33] Nodir manylion manwl o fewn y Papur Pwnc – Materion, Gweledigaeth ac Amcanion.

18. Dim digon o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu mewn rhai Canolfannau Gwasanaethau a Chanolfannau Gwasanaethau Lleol.
19. Prinder cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai a'r angen am gymysgedd o dai: (Sylwer: mae'r gofyniad i gael cyflenwad pum mlynedd o dir wedi'i ddisodli gan baratoi Tafluniad Tir Tai fel y'i ceir o fewn y Cynllun hwn).
20. Mae newidiadau yn y rhagfynegiadau poblogaeth ac aelwydydd yn dangos fod angen llawer llai o gartrefi hyd at 2033.
21. Safleoedd tai ddim yn cael eu dynodi a'u hadeiladu
22. Sir o natur wledig yn bennaf lle mae 60% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig.
23. Gofalu y gall capasiti seilwaith gefnogi datblygiadau, gan gynnwys priffyrdd.
24. Yr angen i hyrwyddo a dod o hyd i ffurfiau amgen o drafnidiaeth.
25. Diffyg cyfleoedd gwaith, band eang a gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.
26. Angen gwerthfawrogi'r ymdeimlad o le - sir o gyferbyniadau.

## Sir Gaerfyrddin â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

27. Adeiladau segur ledled y Sir.
28. Angen mesur effaith datblygu ar y Gymraeg.
29. Mae angen tai fforddiadwy yn ein cymunedau er mwyn cadw teuluoedd ifanc
30. Safleoedd archaeolegol a nodweddion hanesyddol o bwys
31. Y nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

## Sir Gaerfyrddin sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

32. Ystyriaethau cenedlaethol a rhanbarthol datblygol, gan gynnwys Brexit, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol; y cynllun cenedlaethol 2040 – cyhoeddwyd 24 Chwefror 2021) a Chynlluniau Datblygu Strategol. Cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) ym mis Rhagfyr 2018.
33. Angen hyrwyddo effeithlonrwydd ynni mewn datblygiadau arfaethedig a'r rhai sy'n bodoli eisoes.

## Materion Cyd-destunol wedi'u Diweddaru

5.7 Mae'r materion cyd-destunol canlynol wedi dod i'r amlwg yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Adneuo 1af ac maent yn cynnwys materion sydd, er eu bod y tu hwnt i reolaeth y Cynllun, wedi effeithio ar y gwaith o'i baratoi ac ar ei gynnwys. Bydd y rhain yn cael eu hystyried yng nghynnwys y Cynllun hwn a'i ddogfennau a'i dystiolaeth ategol:

UCI 1 Ymateb i gyhoeddi Canllawiau CNC ar Lefelau Ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol gwarchodedig.

UCI 2 Cydnabod ac adlewyrchu'r effeithiau sy'n deillio o Covid-19.

UCI 3 Datganiad gan y Cyngor o Argyfwng Hinsawdd.

UCI 4 Datganiad gan y Cyngor o Argyfwng Natur.

UCI 5 Menter Deg Tref.

# 6. Gweledigaeth ar gyfer 'Un Sir Gâr'

6.1 Mae angen tanategu'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig gyda gweledigaeth a strategaeth gryno a hirdymor. Er mwyn cyflawni hyn, mae gweledigaeth glir wedi'i datblygu sydd wedi'i hadeiladu ar sail consensws. Mae'r Weledigaeth Strategol yn nodi sut y bwriedir datblygu, newid neu warchod y sir hyd at 2033.[34]

6.2 Mae gweledigaeth y CDLl Diwygiedig yn cynnwys y weledigaeth a nodir yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018 – 2023 (Diweddarwyd 2021)[35]. Er nad oes gweledigaeth i fanteisio ar Gynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin, mae gweledigaeth y CDLl Diwygiedig yn adlewyrchu ei bedwar amcan llesiant, sef *(1) Arferion Iach (2) Ymyrraeth Gynnar (3) Cysylltiadau Cryf a (4) Phobl a Lleoedd Ffyniannus.*

6.3 Mae testun ategol Amcan Llesiant 4 wedi'i ymgorffori yng ngweledigaeth y CDLl Diwygiedig oherwydd pwyslais yr amcan hwn ar *"wneud y gorau o gyfleoedd i bobl a lleoedd mewn rhannau trefol a gwledig o'n sir fel ei gilydd".* Mae hyn yn ymateb i'r pwyslais cryf ar gydnabod ardaloedd gwledig o fewn y sgyrsiau a geir ynghylch nodi materion. Mae gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig yn cydnabod ac yn dathlu'r ffaith fod ein sir yn gyferbyniol a'i bod yn ysbrydoli ymdeimlad o le.

6.4 Mae ymagwedd "*Un Sir Gâr*" yn cydnabod yr angen i gydbwyso gofynion a buddiannau sy'n tynnu'n groes i'w gilydd ac yn darparu cyfle ar gyfer consensws a pherchenogaeth a rennir ar y CDLl Diwygiedig. Mae gweledigaeth y CDLl Diwygiedig hefyd yn cydnabod y cyfleoedd a ddaw yn sgil amrywiaeth y Sir a'i chymunedau ynghyd â'r uchelgeisiau adfywio a nodir trwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe, gan osod y cywair cadarnhaol a chyraeddadwy ar gyfer y Cynllun yn ogystal â chaniatáu uchelgais priodol.

[34] Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11 a Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol Llywodraeth Cymru – Rhifyn 3 – Mawrth 2020
[35] https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/strategaethau-a-chynlluniau/strategaeth-gorfforaethol-y-cyngor-2018-2023/

***Un Sir Gâr***

**Bydd Sir Gaerfyrddin 2033 yn lle i ddechrau, byw a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a ffyniannus, lle caiff ei nodweddion diwylliannol ac amgylcheddol cyfoethog (gan gynnwys yr iaith Gymraeg) eu gwerthfawrogi a'u parchu gan drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.**

**Bydd gan y Sir gymunedau llewyrchus, cydlynol a chynaliadwy a fydd yn darparu mwy o gyfleoedd, ymyriadau a chysylltiadau ar gyfer pobl, lleoedd a sefydliadau yn rhannau gwledig a threfol ein Sir fel ei gilydd.**

**Bydd ganddi economi gref sy'n adlewyrchu ei safle fel ysgogwr hyderus ac uchelgeisiol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.**

# 7. Amcanion Strategol (AS)

7.1 Cafodd amcanion strategol y CDLl Mabwysiedig presennol eu defnyddio fel man cychwyn i nodi'r amcanion strategol ar gyfer y CDLl Diwygiedig.

7.2 Roedd ymddangosiad amrediad o ysgogwyr cyd-destunol a pholisi ers 2014, yn fwyaf nodedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gweithio rhanbarthol gan gynnwys llofnodi Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn 2017 a darpariaethau Cymru'r Dyfodol a gwaith datblygol y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, yn golygu bod angen adolygu amcanion strategol y CDLl Mabwysiedig. Roedd hefyd angen sicrhau bod amcanion strategol y CDLl diwygiedig yn cydblethu â'r materion allweddol a'r weledigaeth.

7.3 Mae amcanion llesiant Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin wedi cael eu defnyddio i grwpio Amcanion Strategol y CDLl Diwygiedig. Mae hyn yn sicrhau bod dehongliad lleol o lesiant yn cael ei blethu yn yr amcanion llesiant a strategaeth y Cynllun o'r dechrau. Er nad ydynt yn cael eu nodi'n uniongyrchol fel amcanion strategol y CDLl diwygiedig yn eu rhinwedd eu hunain, mae amcanion llesiant y Cyngor, fel y'u hamlinellir o fewn Strategaeth Gorfforaethol 2018 – 2023 (Diweddarwyd 2021) wedi chwarae rôl bwysig[36].

7.4 Mae amcanion strategol y CDLl Diwygiedig yn ddigon uchelgeisiol ond mae modd hefyd eu cyflawni yng nghyd-destun cynllunio gofodol. Maent wedi'u seilio ar faterion allweddol y Cynllun ac yn ymateb iddynt, ac maent yn darparu platfform ar gyfer gwireddu'r weledigaeth. Maent yn darparu llwyfan ar gyfer cynllun cadarn, yn arbennig o ran eu haddasrwydd, priodoldeb a chyflawnadwyedd [37]

7.5 Mae'r amcanion strategol yn cael eu croesgyfeirio â mater perthnasol y CDLl Diwygiedig ac maent hefyd yn destun dadansoddiad o ran a ydynt yn amcanion CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol).

[36] Mae'r Papur Pwnc – Materion, Gweledigaeth ac Amcanion yn cynnwys asesiadau cydnawsedd rhwng amcanion strategol y CDLl Diwygiedig ac amcanion llesiant y Cyngor, ac amcanion strategol y CDLl Diwygiedig yn erbyn fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd.
[37] Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol Llywodraeth Cymru – Rhifyn 3

7.6 Mae amcanion strategol y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig isod.

## Arferion Iach - Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maen nhw'n gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'r amgylchedd.

| **AS1 Sicrhau bod yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau, yn cael ei ddiogelu a'i wella.** | |
|---|---|
| Y materion Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael sylw | 6, 7, 12, 13, 26, 32 UCI 1, UCI 3, UCI 4 |
| Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol | ✓ |
| Uchelgeisiol a Synhwyrol | ✓ |

| **AS2 Cynorthwyo i ehangu a hyrwyddo cyfleoedd llesiant trwy fynediad i gyfleusterau cymunedol a hamdden yn ogystal â chefn gwlad.** | |
|---|---|
| Y materion Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael sylw | 10, 11, 12, 15, 22, 26, 32 |
| Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol | ✓ |
| Uchelgeisiol a Synhwyrol | ✓ |

| **AS5 Diogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol a hyrwyddo'r arfer o ailddefnyddio adeiladau segur yn briodol.** | |
|---|---|
| Y materion Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael sylw | 8, 26, 27, 30, 32, UCI 5 |
| Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol | ✓ |
| Uchelgeisiol a Synhwyrol | ✓ |

## Ymyrraeth Gynnar - Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt.

| **AS3 Helpu i ehangu a hyrwyddo cyfleoedd am addysg a hyfforddiant sgiliau i bawb.** | |
|---|---|
| Y materion Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael sylw | 11, 15, 16, 22, 25, 26, 32, UCI 5 |
| Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol | ✓ |
| Uchelgeisiol a Synhwyrol | ✓ |

| **AS4 Sicrhau bod egwyddorion cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol yn cael eu cynnal drwy hyrwyddo mynediad i wasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd, siopau, cyfleusterau hamdden a chyfleoedd gwaith amrywiol ac o ansawdd uchel, yn ogystal â chanol trefi bywiog.** | |
|---|---|
| Y materion Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael sylw | 2, 3, 9, 11, 14,16,18, 22, 25, 26, 32, UCI2 |
| Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol | ✓ |
| Uchelgeisiol a Synhwyrol | ✓ |

## Cysylltiadau Cadarn – Pobl, llefydd a sefydliadau sydd wedi'u cysylltu'n gadarn ac sy'n gallu addasu i newid.

| **AS6 Sicrhau bod egwyddorion cynaliadwyedd gofodol yn cael eu cynnal trwy gyfeirio datblygiadau i leoliadau cynaliadwy sydd â mynediad i wasanaethau a chyfleusterau, a rhoi anogaeth i ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen lle bynnag y bo hynny'n bosibl.** | |
|---|---|
| Y materion Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael sylw | 5, 7,13, 22, 23, 26, 32 |
| Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol | ✓ |
| Uchelgeisiol a Synhwyrol | ✓ |

| **AS7 Gwneud cyfraniad sylweddol tuag at fynd i'r afael ag achos Newid yn yr Hinsawdd ac addasu ei effeithiau, gan gynnwys hyrwyddo ynni adnewyddadwy a'r defnydd effeithlon o adnoddau a'u diogelu.** | |
|---|---|
| Y materion Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael sylw | 5, 7,13, 24, 26, 32, 33, UCI 3, UCI 4 |
| Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol | ✓ |
| Uchelgeisiol a Synhwyrol | ✓ |

| **AS8 Cyfrannu at ddarparu system drafnidiaeth integredig a chynaliadwy sydd ar gael i bawb, gan gynnwys cysylltiadau â dulliau trafnidiaeth amgen.** | |
|---|---|
| Y materion Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael sylw | 22 ,23 , 24, 26, 32 |

| | |
|---|---|
| Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol | ✓ |
| Uchelgeisiol a Synhwyrol | ✓ |

## Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i bobl a lleoedd yn ardaloedd trefol a gwledig ein sir.

| **AS9 Diogelu a gwella cymeriad amrywiol, nodweddion unigryw, diogelwch a bywiogrwydd cymunedau'r Sir drwy hyrwyddo dull o greu lle ac ymdeimlad o le.** | |
|---|---|
| Y materion Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael sylw | 8, 26, 28, 31, 32, UCI 2, UCI 5 |
| Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol | ✓ |
| Uchelgeisiol a Synhwyrol | ✓ |

| **AS10 Darparu cymysgedd a nifer priodol o dai o ansawdd ledled y Sir, yn seiliedig ar egwyddorion datblygu economaidd-gymdeithasol cynaliadwy a chyfleoedd cyfartal.** | |
|---|---|
| Y materion Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael sylw | 3, 17, 18,19, 20, 21, 22, 23, 26,28, 29, 32 |
| Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol | ✓ |
| Uchelgeisiol a Synhwyrol | ✓ |

| **AS11 Helpu i warchod, gwella a hyrwyddo'r Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw'r Sir ynghyd â'i hasedau a'i gwead cymdeithasol.** | |
|---|---|
| Y materion Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael sylw | 3, 17, 18, 20, 26, 28, 29, 31, 32, UCI 5 |
| Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol | ✓ |
| Uchelgeisiol a Synhwyrol | ✓ |

| **AS12 Annog buddsoddiad ac arloesedd mewn ardaloedd gwledig a threfol trwy sicrhau darpariaeth ddigonol i ddiwallu'r angen am waith a chyfrannu ar lefel ranbarthol tuag at gyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe.** | |
|---|---|
| Y materion Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael sylw | 1, 2, 3, 4, 15, 16, 23, 25, 26, 32 |


| | |
|---|---|
| Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol | ✓ |
| Uchelgeisiol a Synhwyrol | ✓ |

| **AS13 Darparu ar gyfer mentrau twristiaeth cynaliadwy o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn.** | |
|---|---|
| Y materion Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael sylw | 4, 25, 26, 32, UCI 2 |
| Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol | ✓ |
| Uchelgeisiol a Synhwyrol | ✓ |

| **AS14 Adlewyrchu'r gofynion sy'n gysylltiedig â chyflwyno datblygiadau newydd, o safbwynt seilwaith caled a meddal (gan gynnwys band eang).** | |
|---|---|
| Y materion Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael sylw | 23, 24, 25, 26, 32 |
| Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol | ✓ |
| Uchelgeisiol a Synhwyrol | ✓ |

*Tabl2*

# CDLl DIWYGIEDIG - DRAFFT
# GWELEDIGAETH A PHROSES




*Ffigur 6*

# 8. Twf Strategol a Dewisiadau Gofodol

## Opsiynau Twf

8.1 Er mwyn llywio cyfeiriad twf poblogaeth ac aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol dros gyfnod CDLl Diwygiedig 2018-2033, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o batrymau demograffig a ffurfio aelwydydd ar gyfer ardal y cynllun. Cyhoeddwyd Papur Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd (2018) fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir, a chyhoeddwyd atodiad pellach (2019) gyda'r CDLl Adneuo 1af. Nododd y papurau hyn ofyniad twf o 8,835 o anheddau yn ystod cyfnod y Cynllun. Roedd hyn yn seiliedig ar senario amcanestyniad 10 mlynedd amgen ac roedd yn defnyddio cyfradd swyddi gwag o 3.4%.

8.2 Mae'r 2il CDLl Adneuo yn defnyddio amcanestyniadau is-genedlaethol Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018 fel y brif set o amcanestyniadau, ac mae gwaith tystiolaethol wedi'i baratoi i gael dealltwriaeth bellach o ganlyniadau senario demograffig yr opsiynau twf dan arweiniad y boblogaeth a than arweiniad cyflogaeth yng ngoleuni amgylchiadau sy'n newid. Mae pob senario yn cael ei ystyried yn erbyn cyfradd anheddau gwag o 3.8% yng ngoleuni cofnodion Treth Gyngor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru..

8.3 Mae Papur Twf Poblogaeth a Thwf Economaidd 2022 yn rhoi cryn bwyslais ar y cysylltiadau rhwng twf poblogaeth a thwf cyflogaeth amcangyfrifiedig. Cydberthynir hyn gan adnabod sut mae twf y boblogaeth a gwahaniaethau yn y gweithlu a demograffeg yn cynnal cyfleoedd gwaith a thwf economaidd. Ystyrir penawdau'r casgliad cyfan o opsiynau twf demograffig isod.

**Senario a Ffefrir y CDLl Adneuo 1af**

8.4 Mae'r prif ffigurau ar gyfer y senario Twf Poblogaeth dros 10 mlynedd a ddefnyddiwyd fel yr opsiwn twf a ffefrir ar gyfer y Cynllun Adneuo 1af yn cael eu nodi yn y tabl isod.

| **Twf Poblogaeth dros 10 mlynedd (Adroddiad Atodiad 2019)** |
|---|
| Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth rhwng 2018-2033: **+15,115**<br>Amcanestyniad o'r newid yn yr aelwydydd rhwng 2018-2033: +8,538<br>Gofyniad tai newydd: **8,835 o dai**<br><br>Gwerth Creu Swyddi: **354 o swyddi y flwyddyn** |

| **Casgliad** |
|---|
| Mae'r senario hon bellach yn seiliedig ar wybodaeth wedi dyddio a ddefnyddiodd amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014 fel man cychwyn. |

**2il CDLl Adneuo**

8.5 Mae'r tablau canlynol yn rhoi crynodeb o'r opsiynau twf aelwydydd a ystyriwyd fel rhan o'r dystiolaeth wedi'i diweddaru.

| **Amcanestyniad Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2018** |
|---|
| Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth rhwng 2018-2033: **+6,197**<br>Gofyniad tai newydd: **+ 291 y flwyddyn**<br>Gofyniad tai newydd yn ystod cyfnod y cynllun: 4,359 o dai<br>Gwerth creu swyddi y flwyddyn: **+201**<br><br>**Casgliad:**<br>Byddai defnyddio'r duedd hon o ran twf ar gyfer CDLl Diwygiedig Sir Gaerfyrddin yn cael effaith anffafriol ar uchelgeisiau strategol y Cyngor o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Byddai'r senario twf cartrefi a thwf swyddi o'r prif amcanestyniad yn seiliedig ar 2018 yn arwain at lawer llai o dwf nag a nodwyd yn y cyfraddau adeiladu hanesyddol ers 2007. Byddai hyn yn arwain at y fod gofyniad tai blynyddol 42% yn is na'r duedd hanesyddol ar ôl cwblhau.<br><br>O ystyried yr effeithiau negyddol posibl a amlygir uchod, ni ystyrir ei bod yn ddoeth defnyddio prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru sy’n seiliedig ar 2018 ar gyfer y CDLl Diwygiedig.<br><br>Ni fyddai defnyddio'r senario hwn yn cyflawni gweledigaeth ac amcanion strategol y Cynllun. |
| **Amrywiolyn "Poblogaeth Uchel" Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018** |
| Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth rhwng 2018-2033: **+9,460**<br>Gofyniad tai newydd: **+ 378 y flwyddyn**<br>Gofyniad tai newydd yn ystod cyfnod y cynllun: 5,670 o dai<br>Gwerth creu swyddi y flwyddyn: **+257** |

**Casgliad:**

Mae'r senario hwn yn defnyddio prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018 ond yn ychwanegol mewnbynnau ffrwythlondeb uchel, disgwyliad oes a rhagdybiaethau mudo i'r model. Mae'r gofyniad tai newydd yn sylweddol is na chyfradd y ddarpariaeth a gofnodwyd yn y tueddiadau hanesyddol. Byddai hyn yn arwain at y fod gofyniad tai blynyddol 24.5% yn is na'r duedd hanesyddol ar ôl cwblhau.

Byddai'r ffigur creu swyddi (er yn fwy na'r prif Amcanestyniad) yn dal i ddangos twf economaidd gwannach.

O ystyried yr effeithiau negyddol posibl a amlygir uchod, ni ystyrir ei bod yn ddoeth defnyddio'r senario Amcanestyniad Uchel fel yr opsiwn twf ar gyfer y CDLl diwygiedig. Ni fyddai'n cyflawni gweledigaeth ac amcanion strategol y cynllun.

## Amcanestyniad sy'n seiliedig ar duedd deng mlynedd

Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth rhwng 2018-2033: +**14,468**

Gofyniad tai newydd: + **588** y flwyddyn

Gofyniad tai newydd yn ystod cyfnod y cynllun: 8,822

Gwerth creu swyddi y flwyddyn: **+276**

**Casgliad:**

Mae'r senario hwn yn ail-sylfaenu prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru i gymryd dwy flynedd arall o ddata hysbys i ystyriaeth ac yn cynyddu hyd y cyfnod tueddiad i 10 mlynedd.

At ei gilydd, byddai defnyddio'r senario hwn yn darparu rhagolwg cadarnhaol a darpariaeth briodol ar gyfer codi tai yn y sir. Byddai hyn yn arwain at fod y gofyniad tai blynyddol 17.3% yn uwch na'r duedd hanesyddol ar ôl cwblhau. Byddai'n caniatáu'r hyblygrwydd i yrru twf tai cynaliadwy ac yn cyfrannu at gefnogi uchelgeisiau economaidd y sir.

## Amcanestyniad sy'n seiliedig ar duedd pymtheng mlynedd

Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth rhwng 2018-2033: **+15,854**

Gofyniad tai newydd: + **618** y flwyddyn

Gofyniad tai newydd yn ystod cyfnod y cynllun: 9,272

Gwerth creu swyddi y flwyddyn: **+353**

**Casgliad:**
Mae'r senario hwn yn ail-sylfaenu prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru i gymryd dwy flynedd arall o ddata hysbys i ystyriaeth ac yn cynyddu hyd y cyfnod tueddiad i 15 mlynedd.

At ei gilydd, byddai defnyddio’r senario hwn yn darparu rhagolwg cadarnhaol ar gyfer twf tai a chreu swyddi. Byddai hyn yn arwain at fod y gofyniad tai blynyddol 23.3% yn uwch na'r duedd hanesyddol ar ôl cwblhau. Ystyrir fodd bynnag bod y gofyniad o 618 o dai newydd y flwyddyn ychydig yn fwy na photensial twf tai'r Cynllun.

Byddai defnyddio'r senario hwn yn cynorthwyo o ran cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun

## Senario dan arweiniad cyflogaeth sylfaenol

Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth rhwng 2018-2033: +**16,407**
Gofyniad tai newydd: + **662 y flwyddyn**
Gofyniad tai newydd yn ystod cyfnod y cynllun: 9,933
Gwerth creu swyddi y flwyddyn: **+337**

**Casgliad:**
Mae'r senario hwn yn defnyddio data sylfaenol Experian a'r prif amcanestyniad i gyfateb y swyddi a gaiff eu creu i dwf aelwydydd.

Er y byddai'r senario hwn yn uchelgeisiol o ran hyrwyddo dyheadau economaidd, byddai gosod gofyniad twf mor uchel drwy'r senario dan arweiniad cyflogaeth sylfaenol yn arwain at strategaeth twf na ellir ei chynnal na'i chyflawni. Byddai'r senario hwn yn arwain at fod y gofyniad tai blynyddol 32.1% yn uwch na'r duedd hanesyddol ar ôl cwblhau

Ni fyddai'r senario hwn yn cyflawni gweledigaeth ac amcanion strategol y cynllun.

## Prif amcanestyniad wedi'i ail-sylfaenu

Amcanestyniad o'r newid yn y boblogaeth rhwng 2018-2033: +**17,635**
Gofyniad tai newydd: + **697 y flwyddyn**
Gofyniad tai newydd yn ystod cyfnod y cynllun: 10,461
Gwerth creu swyddi y flwyddyn: **+401**

**Casgliad:**

| |
|---|
| Mae'r senario hwn yn ail-sylfaenu prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru i gymryd dwy flynedd arall o ddata hysbys i ystyriaeth ond mae'n cadw hyd y cyfnod tueddiad i 5 mlynedd.<br><br>Er y byddai'r senario hwn yn uchelgeisiol o ran hyrwyddo dyheadau economaidd, byddai gosod gofyniad twf mor uchel yn arwain at strategaeth twf na ellir ei chyflawni, yn enwedig o ystyried y byddai'n arwain at fod y gofyniad tai blynyddol 39.1% yn uwch na'r duedd hanesyddol ar ôl cwblhau. |

## Nodi'r Opsiwn Twf Strategol a Ffefrir

8.6 Mae nodi'r opsiwn twf strategol a ffefrir wedi deillio o ystyried yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd uchod, o ganlyniad i ymgysylltu cyn-adneuo, a'r angen i gael canlyniad cytbwys, gan gynnwys strategaethau a chynlluniau eraill megis, ond heb eu cyfyngu i, y rhai a ganlyn:

- Llywodraeth Cymru – Polisi Cynllunio Cymru
- Cynllun Adfywio Strategol y Cyngor 2015 – 2030 – Trawsnewidiadau
- Bargen Ddinesig Bae Abertawe
- Strategaeth Gorfforaethol Newydd y Cyngor 2018 – 2023
- Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin: Y Sir Gâr a Garem 2018-2033;
- Amcanion Llesiant y Cyngor
- Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy y Cyngor; a
- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol[38];
- Dogfen y cyngor 'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf;
- Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen; a
- Cynllun Adfer Economaidd Sir Gaerfyrddin (Ebrill 2021).

8.7 Cynigir defnyddio'r amcanestyniad deng mlynedd o Adroddiad Tai a Thwf Economaidd (Twf Poblogaeth) Turley a defnyddio cyfradd eiddo gwag Treth y Cyngor o 3.8% i danategu gofynion twf yn y dyfodol ar gyfer y CDLl diwygiedig hwn. Mae hyn yn rhoi amcanestyniad o gynnydd poblogaeth cyffredinol o 14,468 gyda'r gofyniad ar gyfer 8,822 o gartrefi newydd dros gyfnod y CDLl diwygiedig sef 2018-2033. Mae hyn yn cyfateb i 588 o gartrefi newydd y flwyddyn. Bydd y senario hwn yn helpu i gyflawni amcanion Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor o ran adfywio a chreu swyddi.

[38] Cafodd asesiad rhanbarthol o'r farchnad dai leol ei gynnal, a fydd yn llywio'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig wrth iddo fynd rhagddo drwy'r broses baratoi.

8.8 Byddai defnyddio'r opsiwn hwn a ffefrir yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer darparu tai fforddiadwy ledled y sir.

## Opsiynau Gofodol

8.9 Mae'r adran hon yn amlinellu nifer o opsiynau gofodol posibl a nodwyd i lywio dethol ein fframwaith gofodol yn y dyfodol a sut y gallai twf yn y dyfodol gael ei ddosbarthu ar draws y sir ar gyfer cyfnod y cynllun.

8.10 Mae'r gwaith o ystyried yr opsiynau strategol yn rhan bwysig o baratoi'r CDLl ac mae'n un o ofynion y broses Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol.

8.11 Mae pob opsiwn gofodol wedi bod yn destun ymgysylltu er mwyn asesu a gwerthuso ei briodoldeb gyda nod o sefydlu neu ddatblygu opsiwn a ffefrir. Mae eu cynnwys yn adlewyrchu'r angen i ystyried deddfwriaeth, polisi cynllunio cenedlaethol a strategaethau lleol a rhanbarthol wrth gydnabod nodweddion, asedau a materion sy'n gyffredin yn Sir Gaerfyrddin ac yn ffurfio dull gweithredu strategol sy'n cyflawni'r weledigaeth ac yn hyrwyddo a llywio datblygiad ar gyfer y sir.

8.12 Wrth ddatblygu'r opsiynau, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r amcanion llesiant a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

8.13 Dylid nodi bod creu opsiynau yn un o ofynion pwysig cyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Cafodd yr opsiynau strategol eu hasesu yn ôl yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol o fewn Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd - Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae hyn yn ffurfio elfen bwysig yn y broses o ddewis yr opsiwn strategol mwyaf priodol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

8.14 Mae'r opsiynau a nodir yn rhagdybio bod datblygiadau tai heb gyfleoedd cyflogaeth yn yr un lleoliad eang, ac fel arall, yn llai cynaliadwy ac y dylid eu hosgoi. Yn yr un modd, mae angen i welliannau seilwaith gyd-fynd â datblygiadau newydd, gan gynnwys gwelliannau i rwydweithiau trafnidiaeth, cyfleustodau, seilwaith gwyrdd a glas, iechyd, addysg a chyfleusterau cymdeithasol. O ganlyniad, caiff y term 'datblygu' ei ddefnyddio yn yr Opsiynau Gofodol ar gyfer Twf i gyfeirio at y cydbwysedd rhwng tai, gwaith a'r seilwaith ategol.

8.15 Nid oes yr un opsiwn o reidrwydd yn cael ei ystyried fel yr un a ffefrir wrth baratoi a thrafod ac mae lle a hyblygrwydd i'r opsiynau hyn gael eu haddasu er mwyn ystyried ffactorau ychwanegol. Cydnabyddir y gallai'r opsiwn a ffefrir gyfuno elfennau o fwy nag un opsiwn.

8.16 Mae'r tablau isod yn rhoi esboniad o bob un o'r opsiynau gofodol wrth iddynt gael eu hystyried. Ar ôl hyn, nodir Opsiwn Gofodol a Ffefrir.

| **Opsiwn 1 – Cynllun Datblygu Lleol Cyfredol** |
|---|
| **Disgrifiad**<br>Defnyddio'r hierarchaeth aneddiadau er mwyn caniatáu dosbarthiad cymesurol o ddatblygiadau yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd. |
| **Mynegiant Gofodol / Aneddiadau yr Effeithir arnynt**<br>Mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar yr hierarchaeth aneddiadau pedair haen. |
| **Asesiad Cryno**<br>Mae'r dewis hwn yn canolbwyntio twf mewn modd cymesur ar draws hierarchaeth a gaiff ei thanategu gan egwyddorion cynaliadwyedd. Drwy wneud hyn, mae'r opsiwn hwn:<br>• Yn rhoi anogaeth i wasgaru cyflogaeth, tai a mathau eraill o ddatblygiad rhwng aneddiadau a nodwyd a grwpiau neu glystyrau pentrefi mewn modd sy'n adlewyrchu eu graddfa bresennol, eu poblogaeth a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yno.<br>• Yn adlewyrchu amrywiaeth y sir ac mae twf yn cael ei ddosrannu yn briodol i ardaloedd trefol a gwledig.<br>• Yn canolbwyntio mwyafrif y twf cyflogaeth yn y trefi a'r pentrefi mwyaf. |
| **Casgliad**<br>Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli parhad o'r strategaeth CDLl bresennol ac felly mae cyfeiriad at ganlyniadau'r adroddiad monitro ac adolygu blynyddol. Er bod y ddau yn nodi llwyddiannau wrth weithredu'r strategaeth, maent hefyd yn nodi gwendidau o ran cyflawni twf mewn agweddau o'r hierarchaeth aneddiadau.<br><br>Cydnabyddir y bu elfennau o'r strategaeth yn llwyddiannus, ond mae hefyd yn glir y gallai fod angen adolygiad a dull gweithredu diwygiedig i fynd i'r afael nid yn unig â'r gwendidau ond hefyd y newidiadau cyd-destunol. |

| **Opsiwn 2 – Opsiwn Seilwaith a Rhwydwaith Trafnidiaeth** |
|---|
| **Disgrifiad**<br>Yn seilio'r rhan fwyaf o'r twf yn yr ardaloedd sydd gerllaw'r prif rwydwaith priffyrdd a rheilffyrdd lle mae seilwaith ar gael i gefnogi'r datblygiad arfaethedig. |

**Mynegiant Gofodol / Aneddiadau yr Effeithir arnynt**

Mae'r opsiwn hwn yn nodi aneddiadau a choridorau allweddol ar hyd y prif lwybrau ac ardaloedd trafnidiaeth lle y mae seilwaith neu y cynllunnir seilwaith er mwyn derbyn y lefelau twf gofynnol.

**Asesiad Cryno**
Mae'r opsiwn hwn yn edrych ar ddarpariaeth bresennol y seilwaith cyfleustodau a'r rhwydwaith priffyrdd ar draws y sir ac mae'n anelu at ganolbwyntio'r rhan fwyaf o dwf mewn ardaloedd sydd â'r capasiti ar gyfer twf. Mae'r dewis hwn yn ceisio annog twf yn yr ardaloedd lle gellir darparu ar ei gyfer yn fwyaf ymarferol trwy:

- Annog twf ar hyd llwybrau trafnidiaeth allweddol a chyffyrdd yr M4, yr A40, yr A48, yr A484, yr A474 a'r A485 a hefyd mewn mannau sy'n hygyrch i ddulliau trafnidiaeth eraill gan gynnwys y rhwydwaith rheilffyrdd, y rhwydwaith beicio a chysylltiadau cerddwyr.
- Annog twf mewn ardaloedd lle mae naill ai capasiti cyfredol neu gapasiti a gynllunnir ar gyfer cyflenwi a thrin dŵr a dŵr gwastraff.
- Annog twf mewn ardaloedd lle ceir digon o wasanaethau a chyfleusterau i gynnal y cymunedau.

**Casgliad**

Mae'r opsiwn hwn yn cysylltu twf a'r strategaeth aneddiadau yn uniongyrchol â'r seilwaith sydd ar gael. Er y byddai hyn yn cyfyngu ar y potensial ar gyfer twf mewn ardaloedd gwledig, cydnabyddir bod y berthynas rhwng datblygiad a'r ddarpariaeth seilwaith briodol yn elfen sy'n angenrheidiol fel rhan o unrhyw opsiwn a gaiff ei ddethol.

**Opsiwn 3 – Opsiwn Gwasgariad**

**Disgrifiad**

Dim sail resymegol neu strwythur ar gyfer dosbarthu twf; byddai datblygu yn cael ei wasgaru ar draws y Sir.

**Mynegiant Gofodol / Aneddiadau yr Effeithir arnynt**

Gellid effeithio ar yr holl aneddiadau'n gyfartal o dan yr opsiwn hwn am nad oes unrhyw strategaeth i nodi dosbarthiad twf. Fodd bynnag, byddai hyn yn debygol o arwain at lefelau twf sydd ar lefel gymharol gyfartal ar draws aneddiadau'r sir.

**Asesiad Cryno**
Mae'r dewis hwn yn dosbarthu tai, cyflogaeth a mathau eraill o ddatblygiadau mewn modd eang rhwng aneddiadau'r Sir, gan gynnwys aneddiadau trefol a gwledig fel ei gilydd. Mae'n caniatáu i aneddiadau dyfu'n raddol heb o reidrwydd ystyried y gwasanaethau neu'r cyfleusterau sydd ar gael nac ychwaith yr effaith y gallai twf ei chael ar y cymunedau presennol a'u gallu i ddarparu ar gyfer twf a'i dderbyn.

O'i gymharu â strategaeth y CDLl mabwysiedig presennol, byddai'r dewis hwn yn arwain at gyfeirio cyfran uwch o dwf y Sir i'r ardaloedd gwledig a chyfran is i'r ardaloedd trefol presennol.

**Casgliad**

Mae hwn yn opsiwn sy'n anghynaliadwy ar y cyfan ac yn opsiwn na ellir ei gyflenwi - ac yn un a fyddai o ganlyniad yn annhebygol o fodloni'r mesurau angenrheidiol fel rhan o'r broses Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol. Fodd bynnag, mae'r opsiwn hwn drwy ei ddull cyffredinol o ddosbarthu twf yn canolbwyntio twf ychwanegol mewn ardaloedd gwledig.

Cydnabyddir y bydd angen i'r opsiwn a ffefrir a gaiff ei ddethol roi ystyried priodol i ystyriaethau gwledig.

## Dewis 4 - Dewis dan Arweiniad y Gymuned

**Disgrifiad**

Byddai datblygiad yn cael ei wasgaru o fewn ardaloedd cymunedol mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r rôl mae aneddiadau yn ei chwarae o fewn yr ardaloedd hynny a'r ardal ddaearyddol ehangach.

**Mynegiant Gofodol / Aneddiadau yr Effeithir arnynt**

Byddai'r rhan fwyaf o'r twf yn canolbwyntio ar y tair ardal ganlynol: Caerfyrddin a'r ardal gyfagos; Llain Arfordirol Llanelli; ac ardal Rhydaman / Cross Hands.

**Asesiad Cryno**

Mae'r dewis hwn yn canolbwyntio ar rôl aneddiadau yn eu hardal a'u cymuned ehangach, sy'n cydnabod y berthynas a'r gyd-ddibyniaeth rhwng aneddiadau ac yn ystyried sut mae'r cymunedau lleol yn gweithio ac yn byw.

Bydd yr opsiwn hwn yn annog twf yn yr ardaloedd hynny sydd yn chwarae rôl sylweddol yn y gymuned ehangach; mae hyn yn debygol o fod drwy ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau yn hytrach na graddfa bresennol yr anheddiad neu'r niferoedd poblogaeth presennol. Byddai'r dewis hwn hefyd yn ceisio adlewyrchu anghenion y cymunedau, gan gynnwys eu galw am dai. Mae hyn yn cydnabod nodweddion unigol pob anheddiad ac mae'n ceisio nodi'r rôl y mae aneddiadau yn ei chwarae yn eu hardal ac ar draws y sir.

Dylai'r opsiwn hwn adlewyrchu dealltwriaeth o anghenion cymunedau lleol a sicrhau bod twf yn digwydd mewn ardaloedd lle mae ei angen, er mwyn cefnogi cymunedau a'u dyheadau ar gyfer twf yn y dyfodol a materion parhaus yn ymwneud â chynaliadwyedd cyfleusterau a gwasanaethau. Mae hyn yn debygol o arwain at ddyrannu safleoedd llai a chyfeirio cyfran uwch o dwf i aneddiadau llai.

**Casgliad**

| |
|---|
| Mae'r opsiwn hwn yn ceisio bod yn fwy ymatebol i agweddau unigol y sir a'i chymunedau. Er y byddai ffocws canfyddedig y twf mewn canolfannau sefydledig, mae'n rhoi cyfle i adlewyrchu dosbarthiad ehangach.<br><br>Mae adborth yn awgrymu y byddai angen i'r opsiwn fod yn briodol gytbwys i sicrhau bod twf yn cael ei ddosbarthu mewn ffordd briodol y gellir ei chyflawni. |

| **Opsiwn 5 – Opsiwn Dylanwad Dinas Ranbarth Bae Abertawe** |
|---|
| **Disgrifiad**<br><br>Mae'n canolbwyntio twf i alinio â'r ardaloedd a nodwyd ar gyfer prosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe. |
| **Mynegiant Gofodol / Aneddiadau yr Effeithir arnynt**<br><br>Byddai'r rhan fwyaf o'r twf yn canolbwyntio ar ardaloedd Llanelli a Chaerfyrddin gyda'r rheini sydd yn yr ardaloedd cyfagos hefyd yn derbyn cyfran o'r twf. |
| **Asesiad Cryno**<br>Mae'r dewis hwn yn canolbwyntio ar y prosiectau a'r buddsoddiad a gynllunnir fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe ac yn sianelu twf i gyd-fynd â'r ardaloedd daearyddol hyn. Y prosiectau a gynigir ar gyfer Sir Gaerfyrddin yw:<br><br>• Pentre Awel, Llanelli. Pentref yw hwn a fydd yn darparu cyfleusterau a gwasanaethau i hyrwyddo a gwella llesiant. Bwriedir iddo fod yn gyfleuster amlochrog sy'n cyfuno datblygiad busnesau, addysg, gofal iechyd, hamdden, twristiaeth, cymorth llesiant ac ymchwil mewn gwyddorau bywyd mewn un lleoliad; ac<br>• Yr Egin, Caerfyrddin. Byddai'r cyfleuster hwn yn ganolfan greadigol, ddigidol a chyfryngau newydd i'w lleoli ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant<br><br>Mae'r Dewis hwn yn debygol o arwain at ganolbwyntio'r rhan fwyaf o'r twf yng Nghaerfyrddin a Llanelli a'r ardaloedd cyfagos; fodd bynnag, efallai mai ychydig iawn o dwf y bydd yr aneddiadau ymhellach i ffwrdd o Gaerfyrddin a Llanelli yn ei weld. Mae'n bosibl y bydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer buddsoddiadau deilliedig a gweithgareddau seiliedig ar entrepreneuriaeth trwy adeiladu ar flaenoriaethau'r Fargen Ddinesig. |
| **Casgliad**<br><br>Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys, ac yn cael ei lywio gan y cyfleoedd a gyflwynwyd drwy'r Fargen Ddinesig. Mae'n canolbwyntio ar leoliadau'r ddau brif brosiect o fewn Sir Gaerfyrddin ac felly byddai'n llai cynhwysol ar gyfer gweddill y sir.<br><br>Fodd bynnag, dylid cydnabod bod adlewyrchu potensial y Fargen Ddinesig i gyflawni newid gwirioneddol yn hanfodol ar gyfer unrhyw opsiwn a ffefrir. |

| Opsiwn 6 – Opsiwn wedi'i Arwain gan y Farchnad |
|---|
| **Disgrifiad**<br><br>Yn canolbwyntio twf yn yr ardaloedd sydd wedi profi'n fwyaf poblogaidd gyda'r farchnad dai dros y blynyddoedd diweddar. |
| **Mynegiant Gofodol / Aneddiadau yr Effeithir arnynt**<br><br>Byddai twf yn cael ei ganolbwyntio ar haen uchaf yr hierarchaeth aneddiadau sydd gan y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, sy'n cynnwys ardaloedd Caerfyrddin, Llanelli, Rhydaman a Cross Hands. |
| **Asesiad Cryno**<br>Bydd yr opsiwn hwn yn anelu at ddiwallu anghenion a dyheadau'r diwydiant datblygu drwy nodi safleoedd ac ardaloedd sydd fwyaf atyniadol yn economaidd i'w datblygu. Mae'r dewis hwn yn edrych ar lwyddiant marchnad aneddiadau'r sir ers 2008 ac yn dosrannu twf yn unol â chyfraddau cyflawni'r gorffennol.<br><br>Mae cyfraddau cyflawni'r gorffennol yn dangos bod y rhan fwyaf o'r twf wedi digwydd yn ardaloedd Llanelli, gyda chryn dipyn o ddatblygu hefyd yn digwydd yn ardal dwf Caerfyrddin ac mewn rhannau o ardal dwf Rhydaman/Cross Hands.<br><br>Gellid dehongli'r dull hwn fel 'cynllunio ar sail niferoedd'.  Byddai'n ceisio cyfeirio twf yn unol â chyfraddau cyflawni uchaf y gorffennol ac yn cymhwyso'r duedd hon er mwyn nodi lleoliad datblygiadau yn y dyfodol.  Byddai darpariaeth cyflogaeth y dyfodol yn adlewyrchu'r defnydd a wneir o dir cyflogaeth ar hyn o bryd, a byddai perthynas agos rhwng hynny a dosraniad y tai. |
| **Casgliad**<br><br>Byddai'r opsiwn hwn drwy ei ffocws ar y farchnad, tra bo'n gyflawnadwy mewn dehongliad gor-syml, yn agored i ystyriaethau a chyfyngiadau eraill a byddai'n gwaredu'n sylweddol ar unrhyw ddylanwad lleol.  Ni chaiff ei ystyried yn opsiwn cyflawnadwy yn ymarferol ond mae'n cyfeirio'n glir at rôl y farchnad a'r diwydiant datblygu o ran cyfrannu at gynllun cadarn a chyflawnadwy.<br><br>Yn anochel, bydd rôl y farchnad yn cyfrannu at ddatblygiad yr opsiwn a ffefrir. |

## Yr Opsiwn Gofodol a Ffefrir

8.17 Mae datblygu'r opsiwn a ffefrir wedi dod i'r amlwg o ystyried yr opsiynau gofodol ac ystyriaethau eraill, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- yr amcanion llesiant
- cynnwys yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a'r Adroddiad Adolygu ac
- y prosesau ymgysylltu, yn arbennig drwy'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol

8.18 Wrth ddatblygu'r opsiwn gofodol a ffefrir, derbyniwyd bob amser y byddai amrywiaethau posibl ar y opsiynau strategol a nodwyd, gan gynnwys opsiwn a fyddai'n ystyried cymysgedd o'r canlyniadau cadarnhaol o nifer o'r opsiynau hynny. Gan ystyried yr uchod, a chan gyfeirio at y materion, amcanion a gweledigaeth a drafodwyd eisoes yn y Strategaeth a Ffefrir, daeth opsiwn hybrid i'r amlwg fel y dull gweithredu mwyaf priodol o ran cyflenwi strategaeth ofodol gytbwys a chynaliadwy ar gyfer yr holl gymunedau ar draws y sir.

8.19 O ganlyniad, mae'r opsiwn hybrid canlynol wedi dod i'r amlwg sy'n adlewyrchu nifer o nodweddion o'r opsiynau a nodwyd uchod. Daw hyn yn rhannol o'r sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r broses ymgysylltu.

## Opsiwn a Ffefrir – Strategaeth Twf Cynaliadwy a Chymuned Gytbwys

8.20 Mae'r opsiwn hybrid hwn yn adeiladu ar y dull gweithredu y tynnwyd sylw ato drwy Opsiwn Strategol 4 – Dan Arweiniad y Gymuned, ond mae'n cael gwared ar y dull gweithredu cyfarwyddol o ran nodi cymeriad ardaloedd yn y sir. Fodd bynnag, bydd y strategaeth hon yn cadw dull gweithredu sy'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth yr aneddiadau a bydd yn ceisio bod yn ymatebol o ran sut mae'n aseinio twf i ardaloedd trefol a gwledig yn y sir.

- Bydd yr opsiwn yn cydnabod ac adlewyrchu manteision buddsoddi a manteision economaidd i'r Sir a'i chymunedau drwy'r Fargen Ddinesig, a chyfleoedd eraill economaidd.
- Bydd yn ceisio darparu cyfleoedd i ardaloedd gwledig, gan sicrhau bod amrywiaeth y sir a'i chymunedau yn cael ei chydnabod.
- Bydd yn cydnabod drwy gyflenwi twf cynaliadwy fod angen iddo gael ei gefnogi gan argaeledd amrediad o seilwaith priodol.

- Bydd yn cydnabod y dylai twf fod yn gyflawnadwy ac wedi'i deilwra i anghenion y gymuned a galw ar y farchnad.

# 9. Strategaeth Newydd

9.1 Mae'r strategaeth yn anelu at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion strategol a mynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd yn Strategaeth a Ffefrir y CDLl. Bydd y CDLl Diwygiedig, wrth iddo fynd rhagddo i gael ei fabwysiadu, yn amlinellu sut y bydd y newidiadau yn Sir Gaerfyrddin dros gyfnod y cynllun yn cael eu rheoli a sut y cynllunnir ar eu cyfer. Drwy ei bolisïau a'i gynigion, bydd y CDLl Diwygiedig yn ceisio darparu ar gyfer y newidiadau hyn a'r lefelau perthynol o dwf, a nodi lle y bydd twf o'r fath yn dderbyniol. Caiff hyn ei gyflawni drwy nodi safleoedd ar gyfer defnyddiau tir penodol wrth warchod a gwella buddiannau amgylcheddol, tirwedd ac adeiladau hanesyddol cyfoethog y sir.

9.2 Mae'r broses o baratoi'r 2[il] CDLl Adneuo hwn wedi'i llywio gan arweiniad cenedlaethol a rhanbarthol, gyda chynlluniau a strategaethau ar bob lefel yn cyfrannu, lle yr 2ilhon bo'n briodol, at ddatblygu sylfaen dystiolaeth a gwybodaeth ddatblygol. Mae ymgysylltu hefyd wedi chwarae rhan ganolog wrth baratoi'r CDLl Diwygiedig.

## Dull Gweithredu Gofodol Newydd

9.3 Mae'r CDLl Diwygiedig yn cydnabod yr amrywiaeth a geir yn y Sir a'r angen i adlewyrchu hyn yn ei ymagwedd strategol. Mae'r Strategaeth Ofodol yn nodi hierarchaeth aneddiadau ond yn ei gosod o fewn fframwaith aneddiadau sydd wedi'i grwpio o dan chwe chlwstwr. Bydd y clystyrau hyn a'r dosbarthiad twf yn canolbwyntio ar egwyddorion cynaliadwy ond byddant hefyd yn cydnabod rôl, swyddogaeth a chyfraniad pob anheddiad yn ei glwstwr penodol. Caiff twf ei ddosbarthu yn unol â hynny i ganolfannau a nodwyd, ac mae rôl aneddiadau llai yn Sir Gaerfyrddin o ran sicrhau twf lleol a chynaliadwy hefyd wedi cael ei nodi.

9.4 Mae'r ardaloedd twf strategol yn adlewyrchu'r ffurf drefol gyfredol yn Llanelli, Rhydaman/Cross Hands a Chaerfyrddin gyda'u cymwysterau cynaliadwyedd priodol ac ysgogwyr economaidd cryf o safbwynt galw yn y farchnad a chyflenwi. Mae'r tair ardal dwf hyn wedi'u dynodi'n brif ganolfannau ac er y byddant yn derbyn cyfran briodol o'r twf a ragwelir, bydd ymagwedd gytbwys at y dosbarthiad.

9.5 Bydd ardaloedd eraill yn cynnwys ffocws ar Dwf Lleol ac Arallgyfeirio. Mae'r ardaloedd hyn yn rhai lle y bydd twf yn adlewyrchu'r gymuned wrth ddeall y disgwyliadau cyflawni ehangach sy'n gysylltiedig â llunio Cynllun (e.e. polisi ac arweiniad cenedlaethol). Yn aml, drwy ymgorffori ardaloedd sy'n fwy gwledig o ran cymeriad, mae ardaloedd o'r fath

yn chwarae rôl gyfannol, nid yn unig o ran bywyd bob dydd eu cymunedau, ond maent hefyd yn hanfodol i Sir Gaerfyrddin fywiog a llewyrchus.

9.6 Mae adfywio a chreu swyddi yn elfennau pwysig ar draws y Sir. Bydd safleoedd a ddynodwyd a'r defnydd o bolisïau yn darparu fframwaith ar gyfer darparu cyfleoedd cyflogaeth a chreu swyddi. Bydd hyn yn ceisio darparu dull gweithredu cadarnhaol i helpu'r ardaloedd hyn i ddiwallu eu potensial llawn ac adeiladu ar y cyfleoedd o fewn holl gymunedau Sir Gaerfyrddin. Felly mae'r strategaeth wedi'i gwreiddio'n gadarn o fewn ethos "Un Sir Gâr" fel yr amlinellir yn y weledigaeth.

9.7 Bydd y Cynllun yn defnyddio dyraniadau a chyfyngiadau datblygu lle y bo'n briodol, yn ogystal â defnyddio polisïau a meini prawf i sicrhau bod y datblygiad cywir yn y man cywir, yn ychwanegol at atal datblygiadau annerbyniol o fewn cymunedau Sir Gaerfyrddin.

9.8 Ar draws ardal y cynllun, bydd cyffredinedd polisïau, ond gallai fod amrywiadau penodol i ganiatáu ar gyfer dull gweithredu polisi ymatebol.

## Twf Cyflawnadwy

9.9 Mae'r Strategaeth newydd yn ceisio sicrhau twf cytbwys sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion ein cymunedau ac yn cyflawni amcanion strategol ac adfywio'r Cyngor a'r rhanbarth.

9.10 Bydd y CDLl hwn yn rhoi'r cyfle i gyflenwi 8,822 o dai dros gyfnod y Cynllun. Mae hyn yn cyfateb i 588 o dai y flwyddyn o 2018 i 2033. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer darparu tai newydd mewn ffordd gynaliadwy sy'n cefnogi dyheadau ein cymunedau ac yn darparu hyblygrwydd priodol i ymateb i amcanion tai fforddiadwy'r cyngor. Bydd yr agenda hon ar gyfer Sir Gaerfyrddin, sy'n uchelgeisiol ond yn gyflawnadwy, yn caniatáu i'r Cynllun adeiladu ar oddeutu'r 588 o dai sy'n cael eu darparu y flwyddyn o dan y CDLl mabwysiedig presennol[39].

9.11 Drwy ddarparu nifer y tai a nodir uchod, mae'r Strategaeth a Ffefrir hon yn cynnwys hyblygrwydd ychwanegol fel rhan o'i chyflenwi (ymgodiad) i sicrhau twf cynaliadwy a goresgyn unrhyw broblemau cyflawni annisgwyl posibl. Mae 10% o hyblygrwydd drwy 882 o dai pellach wedi'i gynnwys. Mae hyn yn cyfateb i gyflenwad tai o 9,704 o anheddau i gyflenwi'r 8,822 o gartrefi.

[39]Data cwblhau 2015 – 2018 (Adroddiad Monitro Blynyddol 2017 - 2018 y CDLl Mabwysiedig)

9.12 Mae'r strategaeth newydd yn sicrhau bod digon o gyfle i ddarparu cynifer o dai fforddiadwy â phosibl i gefnogi anghenion gwledig a threfol, wrth ddarparu sail gref ar gyfer darpariaeth marchnad dai gyflawnadwy.

9.13 Mae'r strategaeth newydd yn rhoi cyfle i wrthbwyso demograffeg y Sir drwy'r posibilrwydd o gadw ac ymfudo oedolion iau i'r sir, a mynd i'r afael â rhai o'r problemau y gellid eu canfod o boblogaeth sy'n heneiddio.

9.14 Bydd dull gweithredu o'r fath yn cael ei gefnogi gan amgylchedd economaidd cryf ac mae cyflenwi isafswm o 4,140 o swyddi dros gyfnod y Cynllun yn elfen bwysig ohono. Mae hyn yn cefnogi uchelgeisiau strategol y Cyngor, yn ogystal ag uchelgeisiau strategol y rhanbarth o ran twf a chreu swyddi. .

9.15 At hynny, bydd cefnogi dull gweithredu cadarnhaol tuag at dwf yn Sir Gaerfyrddin yn darparu cyfle pellach i'r demograffig iau fyw a gweithio yn y Sir.

## Cymunedau Gwledig

9.16 Mae gan aneddiadau ac agweddau gwledig y Sir ran bwysig i'w chwarae o ran gwella cynaliadwyedd ardal ddaearyddol ehangach y Sir. Mae strategaeth a fframwaith aneddiadau'r cynllun yn adlewyrchu'r rôl sylweddol y mae cymunedau gwledig yn ei chwarae trwy gefnogi twf ar raddfa gymesur sy'n gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gydlyniant a chynaliadwyedd hirdymor cymunedau gwledig a'r economi wledig.

9.17 Fodd bynnag, mae'r cynllun yn cydnabod bod angen i leoliad a lefel y twf mewn ardaloedd a chymunedau gwledig fod yn gymesur ac yn briodol, ac y byddai lefel ormodol o ddatblygiad yn niweidiol i ardaloedd o'r fath. Wrth roi sylw i rai o'r effeithiau hyn yn y CDLl Diwygiedig, mae'r Cyngor wedi cynnal Asesiad o Anghenion Tai Gwledig sy'n ceisio cydbwyso twf yn erbyn rhai o'r materion allweddol sy'n wynebu aneddiadau gwledig. Mae'r Cynllun felly yn ceisio darparu lefel o dwf sy'n ofynnol i gadw a gwella'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir yn aneddiadau gwledig y Sir a darparu lefel a dewis addas o opsiynau tai ar gyfer y boblogaeth leol yn wyneb heriau lleol megis marchnad dai heriol a nifer yr ail gartrefi a thai gwyliau.

9.18 Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod y gall datblygu, os caiff ei leoli a'i gyflawni ar y raddfa briodol, hefyd hyrwyddo'r Gymraeg a gwella cyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig.

9.19 Bydd y Cynllun yn ceisio rheoli graddfa neu gyfradd y twf i sicrhau bod yr effeithiau ar y seilwaith lleol ac ar fywiogrwydd y Gymraeg yn cael eu hymgorffori a'u lleddfu'n foddhaol. Bydd y Cynllun hefyd yn ceisio gwarchod a gwella'r gefn gwlad a'r amgylchedd naturiol.

## Yr Economi Wledig

9.20 Mae cydnabyddiaeth glir bod economi wledig gref yn hanfodol er mwyn cynnal cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog.

9.21 Mae mentrau newydd ac ehangu busnesau sy'n bodoli eisoes yn bwysig o ran cyfrannu at dwf a sefydlogrwydd ardaloedd gwledig. Gellir cynnal llawer o weithgareddau masnachol a gweithgynhyrchu ysgafn mewn ardaloedd gwledig heb beri aflonyddwch annerbyniol nac effeithiau andwyol eraill. Fodd bynnag, mae'n rhaid i raddfa defnydd o'r fath fod yn briodol hefyd. Mae'r cynllun yn ceisio cydnabod y gwerthoedd hyn.

9.22 Mae 'Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen' yn garreg filltir arwyddocaol i'r Awdurdod, gan osod strategaeth i adfywio ein cymunedau gwledig. Canlyniad uniongyrchol ei hargymhellion yw'r fenter 'Deg Tref' sy'n cefnogi adfywiad economaidd a thwf trefi gwledig ledled y Sir, gan gynnwys datblygu cynlluniau twf economaidd i hyrwyddo agenda o newid ar gyfer pob un o'r trefi perthnasol a'u cefnwlad ehangach: Cross Hands, Cwmaman, Cydweli, Talacharn, Llandeilo, Llanymddyfri, Llanybydder, Castellnewydd Emlyn, San Clêr a Hendy-gwyn ar Daf.

## Adfywio a'r Economi

9.23 Mae Sir Gaerfyrddin yn sir sy'n ystyried adfywio a thwf economaidd fel rhan annatod o'i huchelgeisiau strategol. Mae ei hanes llwyddiannus o ysgogi a denu buddsoddiad wedi arwain at ddenu cyfres o ddatblygiadau sylweddol i'r Sir, yn enwedig y rhai mwyaf diweddar sef Pentre Awel yn Llanelli a datblygiad Canolfan S4C Yr Egin yng Nghaerfyrddin.

9.24 Yn ogystal ag ysgogi gwelliannau yn y canolfannau cyflogaeth traddodiadol, mae'r cyfleoedd hyn hefyd wedi cyfrannu at ddatblygiadau masnachol sylweddol, cyfleoedd creu lleoedd newydd, gwelliannau i adeiladau a seilwaith newydd, gan wella darpariaeth a gwead cymunedau'r Sir.

9.25 Er bod llawer o'r ymyriadau hyn wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran creu sir gynaliadwy ac amrywiol yn economaidd, mae'n golygu nad oes unrhyw gyfleoedd i'r Sir orffwys ar ei rhwyfau, ac yn wir mae effeithiau Covid yn un mater sydd wedi'i gwneud yn

ofynnol i'r awdurdod fyfyrio ac ymateb. Yn dilyn hynny cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Adfer Economaidd ym mis Ebrill 2021. Roedd hwn yn nodi rhyw 30 o gamau gweithredu i gefnogi adferiad economi Sir Gaerfyrddin yn sgil effeithiau cymdeithasol ac economaidd y pandemig COVID-19 a Brexit. Mae'n amlinellu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer cefnogi Busnesau, Pobl a Lleoedd gan bennu'r cymorth sydd ei angen i sicrhau bod yr economi yn ymadfer cyn gynted â phosibl i ddod yn un sy'n fwy cynhyrchiol nag yr oedd o'r blaen, yn fwy cyfartal, yn fwy gwyrdd, yn iachach, a chyda chymunedau mwy cynaliadwy.

9.26 Mae'r amgylchedd heriol ym maes adwerthu sy'n effeithio ar rai o'n canol trefi yn golygu bod angen amrywio'r dull gweithredu gan adlewyrchu newid i ganolfannau 'byw' ac amrywiol. Caiff yr heriau ôl-Covid-19 hynny eu hadlewyrchu'n glir ym mhapur Adeiladu Lleoedd Gwell Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2020 ac sy'n nodi blaenoriaethau polisi cynllunio yn y cyfnodau adfer ar ôl Covid-19 – mae elfen allweddol o hyn yn ymwneud ag adfywio canol trefi. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r angen am ddatblygiadau da o ansawdd uchel sy'n cael eu harwain gan egwyddorion creu lleoedd. Mae'n cydnabod bod darparu lleoedd da ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i Gynllunwyr fod yn greadigol ac yn ddynamig.

9.27 Caiff hyn ei grisialu yn y dull rhagweithiol a gymerwyd yn wreiddiol yng nghanol tref Llanelli lle mae gwaith y Tasglu fel rhan o ddull ehangach sy'n canolbwyntio ar adfywio wedi arwain at gyflwyno Gorchymyn Datblygu Lleol. Tra bod yr enghraifft hon yn Llanelli bellach wedi dod i ben mae'r dull wedi cael ei efelychu yng Nghanol Trefi Caerfyrddin a Rhydaman gan adlewyrchu'r uchelgeisiau adfywio ehangach. Caiff yr uchelgeisiau hyn eu cyfleu yn Strategaethau Adfywio Canol Tref y Cyngor ar gyfer Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli.

9.28 Bydd y cynllun yn adlewyrchu cyfraniad pwysig canolfannau adwerthu sefydledig mwy o faint ond hefyd y swyddogaeth bwysig y mae darpariaeth nwyddau cymharol a chyfleus lai yn ei chyflawni ar draws set amrywiol o aneddiadau a chymunedau.

9.29 Bydd y Cynllun yn ceisio darparu cyfleoedd i sicrhau bod cymaint o fuddsoddiad a chynifer o swyddi â phosibl yn cael eu creu ar draws amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys cyflogaeth draddodiadol, yn ogystal â'r sectorau twristiaeth a gwasanaethu. Yn hyn o beth mae'r cynllun yn ceisio darparu fframwaith cadarnhaol ar gyfer creu sylfaen economaidd well gyda chyfleoedd priodol ar gyfer twf masnachol a chyflogaeth.

9.30 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddefnyddio dulliau cadarnhaol megis Gorchmynion Datblygu Lleol lle bo hynny'n briodol, i hwyluso a galluogi cyfleoedd adfywio a datblygu economaidd.

**Datblygu Cynaliadwy, Llesiant a’r Newid yn yr Hinsawdd**

9.31 Mae'r Cynllun yn ceisio adlewyrchu a hyrwyddo egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ac ymgorffori'r dyletswyddau sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae gan y system gynllunio gefndir hirsefydlog o hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy ac, o ran hynny, bydd y CDLl yn ceisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymunedau. Yn dilyn targed Llywodraeth Cymru o ddod yn sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, datganodd Cyngor Sir Caerfyrddin argyfwng hinsawdd yn 2019 gan ymrwymo i gyrraedd y targedau hyn erbyn 2030. Fel rhan o'r agenda hon bydd y Cynllun yn chwarae ei ran mewn mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau Newid yn yr Hinsawdd gan adlewyrchu cyfraniad y system gynllunio yn gyfan gwbl

9.32 Mae'r CDLl yn ceisio rhoi fframwaith polisi ar waith sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau Newid yn yr Hinsawdd o fewn ein cymunedau drwy fabwysiadu egwyddorion a datblygu cynaliadwy.

9.33 Bydd y CDLl yn hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd drwy wneud y canlynol:

- Diogelu a gwella bioamrywiaeth, trefluniau a thirweddau.
- Lleihau'r galw a'r defnydd o ynni drwy hwyluso cyflenwi adeiladau a chartrefi carbon niwtral, gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau, gan gynnwys cyfeirio datblygiad i dir a ddatblygwyd yn flaenorol, lle bynnag y bo'n bosibl.
- Dosbarthu a lleoli datblygiad yn unol â'r fframwaith aneddiadau gyda golwg ar leihau dibyniaeth heb ei hangen ar geir modur preifat. Bydd yn hyrwyddo dewisiadau teithio amgen 'gwyrdd' a chynaliadwy, gan adeiladu ar ddatblygiadau mewn technoleg, ac yn hyrwyddo hygyrchedd dulliau teithio amgen.
- Hyrwyddo rheoli gwastraff yn gynaliadwy.
- Hyrwyddo rheoli dŵr yn gynaliadwy (gan gynnwys sicrhau cyflenwad cynaliadwy o adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr, hyrwyddo dulliau draenio cynaliadwy a mynd i'r afael â phroblemau llifogydd). Mae hyn yn cynnwys lleihau bregusrwydd cymunedau drwy sicrhau nad yw gwaith datblygu yn cael ei leoli mewn ardaloedd mewn perygl o lifogydd.
- Hyrwyddo gwella llesiant a chynhwysiant cymdeithasol drwy gefnogi cymunedau iach, hygyrch a chydlynol.
- Cefnogi’r gwaith o ddatblygu economi wydn a hwyluso twf priodol yn y dyfodol. a
- Hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg a'i diwylliant.

- Datgarboneiddio'r gymdeithas, datblygu economi gylchol a gwneud datblygiadau'n rhai sy'n gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

## Creu Lleoedd, Seilwaith a Chymunedau Cydlynus

9.34 Mae twf ein cymunedau yn cynnig cyfle cadarnhaol i ddatblygu a chyflwyno cyfres gydlynol wedi'i chynllunio o ddatblygiadau sy'n canolbwyntio ar anghenion cymunedau a darparu lleoedd lle bydd pobl, yn y pen draw, yn byw, yn gweithio ac yn treulio eu hamser hamdden.

9.35 Mae'r CDLl yn ceisio cynnal a gwella cymunedau presennol yn ogystal â chreu datblygiadau newydd a chynaliadwy. Mae'r cysyniad hwn o greu lleoedd wedi'i sefydlu ym Mholisi Cynllun Cymru a bydd yn egwyddor arweiniol allweddol o ran twf ein sir a'i chymunedau yn y dyfodol. Yn y cyswllt hwn dylid ystyried creu lleoedd yn rhan o agenda gynaliadwy sy'n cynnwys pawb sydd â diddordeb proffesiynol neu bersonol yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau, gwneud penderfyniadau a darparu datblygiadau sy'n cyfrannu at greu a gwella lleoedd cynaliadwy[40].

9.36 Mae'r Cynllun yn cydnabod y canlynol:

### Beth yw Creu Lle?

**Ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd yw "creu lle", sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf.**

**Mae "creu lle" yn ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle'r datblygiad a'i gyffiniau, hynny yn achos datblygiadau mawr sy'n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy'n cael eu creu mewn lle ehangach.**

**Ni ddylai "creu lle" ychwanegu at gostau datblygiad ond rhaid wrth feddwl clyfar, amlddimensiwn ac arloesol a'i ystyried cyn cynhared yn y broses â phosib. Mae "creu lle" yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at y datblygiad gan arwain at fuddiannau sy'n fwy na'r ffisegol a chryfhau penderfyniadau cynllunio.**

*Ffigur 7* [41]

9.37 Mae Sir Gaerfyrddin yn un o lofnodwyr y Siarter Creu Lleoedd. Mae hyn yn cydnabod ymrwymiad y Cyngor i gefnogi'r gwaith o greu lleoedd ym mhob maes perthnasol o'n gwaith a hyrwyddo'r chwe egwyddor creu lleoedd wrth gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd newydd a lleoedd sy'n bodoli eisoes.

[40] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11
[41] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11

Creu Lleoedd Cymru Placemaking Wales
Llofnodydd y Siarter Charter Signatory

9.38 Mae'r Sir yn cefnogi *rhwydwaith mannau gwyrdd* eang, sy'n hanfodol ar gyfer llesiant economaidd, amgylcheddol a chymunedol. Mae Seilwaith Gwyrdd a Glas yn cyfeirio at ddefnyddio elfennau o'r amgylchedd naturiol, megis nodweddion ecolegol, mannau gwyrdd, mannau agored a systemau rheoli dŵr er budd cymdeithasol, economaidd ac iechyd amgylcheddol ardal. Er bod y dull Seilwaith Gwyrdd a Glas yn nodi'r amgylchedd naturiol fel ased y gall datblygwyr ei ddefnyddio i sicrhau twf economaidd, mae hefyd yn darparu'r modd i allu diogelu a gwella'r 'asedau' hyn. Mae'r cynllun yn ceisio gosod agenda gadarnhaol y gellir cydnabod gwerth seilwaith gwyrdd a glas i'r Sir a'i chymunedau drwyddi. Yn hyn o beth ystyrir bod systemau seilwaith gwyrdd a glas yn elfen allweddol wrth sicrhau datblygu cynaliadwy.

9.39 Mae enghreifftiau o 'asedau' seilwaith gwyrdd a glas yn cynnwys, er enghraifft, parciau a gerddi, mannau gwyrdd amwynder (e.e. mannau chwarae a chaeau chwaraeon), mannau tyfu cymunedol, rhandiroedd, mynwentydd, mannau gwyrdd trefol, coridorau gwyrdd a glas (e.e. afonydd, camlesi, llwybrau beicio), safleoedd o werth ecolegol, daearegol a thirwedd, a mannau gwyrdd swyddogaethol megis systemau draenio trefol cynaliadwy a mannau storio llifogydd.

9.40 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith gwyrdd a glas amlswyddogaethol. Gall gyfrannu'n sylweddol at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn arbennig o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

9.41 Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 yn pwysleisio y dylai'r system gynllunio ddiogelu a gwella asedau a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd a glas. Mae'r cynllun yn mabwysiadu dull strategol a rhagweithiol o ymdrin â seilwaith gwyrdd a glas a bioamrywiaeth drwy lunio stocrestrau a mapiau cyfredol o'r seilwaith gwyrdd a glas presennol ac asedau a rhwydweithiau ecolegol, ac integreiddio polisïau yn y Cynllun.

9.42 Mae'r Cynllun yn ceisio cydnabod amrywiaeth gyfoethog Sir Gaerfyrddin gan gydnabod y gall hyn hefyd beri heriau o ystyried nodweddion gwledig y sir. Bydd y cynllun yn cymryd golwg gytbwys, gan roi sylw priodol i rinweddau'r anheddiad o ran cynaliadwyedd,

neu fel arall, yn ogystal â'r seilwaith addas sydd ar gael, gan gynnwys mannau agored a darpariaeth hamdden. Lle mae'r seilwaith yn annigonol ar hyn o bryd, neu fod yr ansawdd yn wael, nid yw hyn bob amser yn gyfiawnhad dros wrthwynebu datblygiad. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, gall datblygiad newydd fod y ffordd fwyaf realistig o fynd i'r afael â diffygion neu anghydraddoldebau o'r fath.

9.43 Bydd y Cyngor yn defnyddio rhwymedigaethau cynllunio ynghyd â threfniant cydweithredol agos â darparwyr seilwaith, i weithio gyda datblygwyr i sicrhau dull cydgysylltiedig o ddarparu'r seilwaith ategol angenrheidiol.

9.44 Mae effaith hygyrchedd trafnidiaeth a chyfyngiadau yn y rhwydwaith trafnidiaeth ffyrdd yn ystyriaeth bwysig wrth greu cymunedau cydlynus a chynaliadwy. Mae hygyrchedd i ddulliau teithio cynaliadwy gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau beicio, a llwybrau troed yn rhoi cyfle i gymunedau ddewis dulliau Teithio Llesol a dulliau mwy cynaliadwy. Gall hyn helpu i sicrhau bod cysylltedd ar gael ond ei fod yn cael ei ystyried yng nghyd-destun sir wledig a gofodol amrywiol yn bennaf. Nodir y gydnabyddiaeth y bydd ardaloedd o'r fath yn parhau i ddibynnu'n fawr ar gar preifat, ond cydnabyddir y gall y cynllun hwn ddarparu ymyriadau i helpu i hwyluso newid i ymagwedd fwy cynaliadwy at drafnidiaeth. Yn hyn o beth, caiff y gwelliannau mewn technoleg ar gyfer Cerbydau Allyriadau Isel Iawn eu nodi a'u hadlewyrchu yn y cynllun hwn.

9.45 Mae'r berthynas rhwng trafnidiaeth a phroblemau llygredd yn ystod yr oriau brig mewn ardaloedd penodol wedi cael ei chydnabod drwy ddynodi Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Bydd ystyriaethau o'r fath ac agweddau ehangach ar lygredd yn cael eu hystyried drwy ddarpariaethau'r cynllun hwn a byddant yn ystyriaethau mewn cynigion datblygu.

9.46 Mae sicrhau bod systemau telathrebu modern, cyflym, diogel a fforddiadwy ar gael yn rhan fwyfwy hanfodol o fywydau modern. Yn benodol, mae'r cynllun hwn yn nodi ac yn cydnabod yr effaith y mae mynediad gwael i fand eang cyflym a diogel yn ei chael ar gynwysoldeb a chreu cymunedau ffyniannus ac economaidd hyfyw. Yn wir, mae hyn yn cael ei gydnabod yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe.

9.47 Mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am gyflenwi a thrin dŵr yn y Sir. Mae Dŵr Cymru yn fodlon ar lefel y twf a nodir yn y cynllun hwn, ond mae wedi gofyn ei bod yn ofynnol i ddatblygiadau mwy yn ardal Llanelli gymryd camau lliniaru i gael gwared ar ddŵr wyneb o'r system garthffosiaeth fel rhan o'r broses o roi'r caniatâd cynllunio. O ganlyniad, mae'r cynllun hwn yn cynnwys ymyriad polisi penodol i'r perwyl hwn. Mae rhagor o wybodaeth am sut y caiff y polisi ei roi ar waith wedi'i nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

9.48 Mae'r Cynllun yn cydnabod y duedd a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â pherygl llifogydd ar draws y Sir a'r angen i fabwysiadu dull cynaliadwy o reoli ac osgoi perygl llifogydd O ganlyniad, mae polisïau a chynigion y Cynllun yn trafod ac yn darparu fframwaith mewn modd priodol ar gyfer ystyried materion o'r fath ochr yn ochr â'r rhai a nodir mewn polisi cynllunio cenedlaethol.

## Rhinweddau Amgylcheddol ac Ardaloedd i'w Gwarchod

9.49 Mae'r CDLl hwn yn canolbwyntio datblygiadau o fewn aneddiadau sefydledig, gan gydnabod yr angen i warchod cefn gwlad, ac ar yr un pryd yn sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer rhai defnyddiau penodol (gan gynnwys cynigion eithriadau) os bernir bod lleoliad gwledig yn hanfodol.

9.50 Mae'n ceisio gwarchod a gwella gwerth Sir Gaerfyrddin o ran cadwraeth natur a bioamrywiaeth, gan gynnwys ei chyfuniad gwych o gynefinoedd a rhywogaethau. Mae hefyd yn ceisio gwarchod a gwella amgylchedd adeiledig a hanesyddol y Sir, y nodweddion hynny sy'n cyfrannu at ei chymeriad a thirweddau'r ardal sydd o ansawdd uchel.

9.51 Yn hyn o beth mae'r cynllun yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod a gwella'r amgylchedd, boed yr amgylchedd naturiol neu'r amgylchedd adeiledig hanesyddol. Cydnabyddir gwerth dynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol a hefyd y mannau hynny sydd o werth lleol. Mae'r angen i gydbwyso gofynion twf yn erbyn yr angen i warchod a gwella'r rhinweddau amgylcheddol yn her ganolog ac yn un y mae'r Strategaeth yn ceisio mynd i'r afael â hi.

9.52 Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru 'gyngor cynllunio interim' i sicrhau nad yw'r capasiti amgylcheddol yn dirywio ymhellach. Mae'r 'cyngor' hwn yn ymwneud â phob Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonol y mae ei dalgylch yn ymestyn i Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Afon Teifi, Afon Tywi, Afon Gwy ac Afon Cleddau. Ar hyn o bryd mae ar drydydd fersiwn y canllawiau.

9.53 Fel Awdurdod Cynllunio Lleol, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried y cyngor a roddir gan CNC wrth wneud penderfyniadau cynllunio (ar gyfer ceisiadau cynllunio unigol ac ar gyfer y CDLl hwn). Mae'r Cyngor yn cymryd ymagwedd mor rhagweithiol â phosibl tuag at y mater hwn ac mae wedi rhoi cyfres o ddulliau ar waith gan gynnwys cyfrifydd maetholion a chanllawiau lliniaru.

9.54 Mae'r cyfrifydd yn galluogi datblygwyr/ymgeiswyr ac ati i gyfrifo lefel y ffosffad a gynhyrchir gan ddatblygiad ac felly ddyfeisio cynlluniau lliniaru priodol. Caiff hyn yn ei dro ei gefnogi gan ganllawiau lliniaru manwl i'w cynorthwyo i nodi dulliau posibl. Ni hefyd oedd y cyntaf i sefydlu a chynnal Bwrdd Rheoli Maetholion yng Nghymru (ar gyfer Afon Tywi) ac rydym hefyd yn aelodau o Fyrddau Rheoli Maetholion Afon Cleddau ac Afon Teifi a ffurfiwyd yn ddiweddar.

9.55 Bydd y Cynllun yn cael ei gefnogi gan ystod o ddulliau gan gynnwys Strategaethau Lleihau Ffosfforws y Dalgylch a fydd yn nodi ystod o fesurau lliniaru, yn ogystal â mesurau ehangach sydd y tu allan i gylch gwaith y Cyngor ac sy'n dod o dan gyrff cyfrifol eraill mewn perthynas â'r amgylchedd afonol ehangach. Bydd y rhain yn gysylltiedig â chyfres o gerrig milltir cyflawni sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod camau lliniaru addas yn cael eu rhoi ar waith yn y fath fodd ag sy'n gymorth i ryddhau datblygiadau yn y Cynllun.

9.56 Mae’r cynllun hefyd yn adlewyrchu’r angen i ddiogelu natur unigryw a chymeriad ardaloedd yn y Sir. Yn hyn o beth, mae rôl creu lleoedd a sut mae datblygiadau yn cysylltu â'u hamgylchoedd yn nodwedd gref o'r cynllun hwn.


## Strategaeth Newydd - Elfennau Allweddol

9.57 Mae elfennau allweddol y strategaeth fel a ganlyn:

- Darparu 9,704 o dai newydd er mwyn cyflenwi'r gofyniad o 8,822 o dai.
- Darparu cyfleoedd i gyflenwi isafswm o 4,140 o swyddi newydd yn y Sir gan gyfrannu at yr uchelgeisiau economaidd a chyflogaeth strategol ac adfywio o fewn y Sir a'r rhanbarth yn ogystal ag amcanion adfywio'r Cyngor i gyflenwi 5,295 o swyddi;
- Darparu digon o dir cyflogaeth i gefnogi twf economaidd a chreu swyddi.
- Hyrwyddo fframwaith aneddiadau sy'n cefnogi cydlyniad rhwng aneddiadau a chymunedau.
- Dosbarthu datblygiad yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau, gan adlewyrchu nodweddion cynaliadwyedd a swyddogaethol yr aneddiadau, eu gwasanaethau a chyfleusterau yn ogystal â’u gallu i addasu ar gyfer twf.
- Parchu a gwella rhinweddau amgylcheddol cyfoethog ac amrywiol y sir.
- Adlewyrchu anghenion ardaloedd gwledig a'r economi wledig.
- Cydnabod cymeriad diwylliannol ac ieithyddol y Sir ac adlewyrchu'r Rhybudd o Gynnig y cytunwyd arno gan y Cyngor Sir ar 10 Gorffennaf 2019 mewn perthynas â'r Gymraeg;

- Cyfrannu at gyflenwi cyfleoedd ffisegol ac adfywio cymdeithasol a darparu ar gyfer amrediad amrywiol a chydlynol o aneddiadau a chymunedau.
- Adlewyrchu'r amrywiaeth ar draws y sir, ac o fewn ei haneddiadau a chymunedau.
- Darparu ar gyfer cyflogaeth drwy safleoedd a ddynodwyd a thrwy ddarpariaethau polisi ar draws y sir, gan gydnabod yr angen i gynnal a gwella economïau gwledig.
- Canolbwyntio newidiadau adwerthu mewn canolfannau a sefydlwyd wrth ddarparu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth drwy'r hierarchaeth mewn ffordd a fydd yn cynorthwyo o ran gwella hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau a helpu i gyflenwi aneddiadau a chymunedau hyfyw, hunangynhaliol a chynaliadwy.
- Darparu a gweithredu strategaeth liniaru strategol ar lefel Cynllun i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â llygredd Ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol gwarchodedig.  Integreiddio dulliau sy'n canolbwyntio ar atebion gan gynnwys darparu mesurau lliniaru, dulliau masnachu credyd a gwaith y Byrddau Rheoli Maetholion;
- Cydnabod cyfraniad 'tir a ddatblygwyd yn flaenorol' a'i ddefnyddio fel y bo'n briodol wrth gydnabod cyd-destun gwledig yn bennaf y sir.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer economi ymwelwyr y sir.
- Gwarchod a gwella rhinweddau naturiol, hanesyddol, a chadwraeth adeiledig Sir Gaerfyrddin a'i thirweddau o werth uchel;
- Cyfrannu at ddatganiadau Hinsawdd a Natur ar Lefel Genedlaethol a Lleol; a
- Cyfrannu at rwydwaith trafnidiaeth integredig yn y sir a'r rhanbarth. Yn ceisio gwneud defnydd effeithlon o'r rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd presennol drwy ystyried y gall y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus roi'r cyfle ar gyfer atgyfnerthu a gwella'r gwasanaeth, gan felly gynnal a gwella hygyrchedd. Hyrwyddo cyfleoedd teithio llesol – trwy gael mynediad at ddulliau trafnidiaeth amgen, gan gynnwys cerdded a beicio.

# 10. Y Clystyrau




*Ffigur 8*

10.1 Mae ffigur 8 uchod yn dangos y diagram allweddol ac yn nodi sut y caiff ardaloedd y cynllun eu hisrannu'n glystyrau dynodedig, gyda phob un yn cynnwys aneddiadau cydrannol fel y diffinnir yn y fframwaith aneddiadau ym Mholisi Strategol SP16. Mae'r clystyrau wedi isrannu ardal y cynllun yn chwe ardal ddaearyddol, y mae gan bob un ohonynt brif ganolfan neu ganolfan wasanaethau neu wedi'i gefnogi gan rwydwaith o aneddiadau eraill.

10.2 Mae'r clystyrau a ddiffinnir, yn eu trefn, fel a ganlyn:

1. Caerfyrddin a'i hardaloedd gwledig
2. Llanelli a Gwendraeth Isaf
3. Aman a Gwendraeth Uchaf
4. Teifi
5. Tywi Uchaf
6. Gorllewin Sir Gaerfyrddin

## Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig

10.3 Mae clwstwr Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig wedi'i nodweddu gan ardal wledig ac mae'r aneddiadau yn amrywio o ganolfan ranbarthol Caerfyrddin i drefi marchnad a phentrefi bach a mawr mewn ardaloedd gwledig. Lleolir yr aneddiadau mewn tirweddau gwledig lle mai amaethyddiaeth yw'r brif economi.

10.4 Mae’n ganolog i’r Sir a’r rhanbarth, ac mae wedi’i leoli ar gyfres o lwybrau priffyrdd a rheilffyrdd strategol sydd wedi’u canoli ar dref farchnad hanesyddol Caerfyrddin. Fel canolfan ranbarthol gyda’i swyddogaethau cysylltiedig, mae Caerfyrddin yn dal i fod yn ffocws ar gyfer darparu tai a swyddi newydd ac fel canolfan adwerthu fywiog, ac mae'r sector cyhoeddus yn gyflogwr craidd. Bydd cyfleoedd twf yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddarparu cymysgedd ac amrywiaeth ehangach o safleoedd datblygu. Rhagwelir y bydd cyfran fawr o ddatblygiad y clwstwr wedi'i lleoli yng Nghaerfyrddin. ,

10.5 Mae rôl Caerfyrddin ar draws y rhanbarth ac mewn perthynas â'i chefnwlad yn cael ei hadlewyrchu drwy ei nodi fel 'ardal dwf ranbarthol' yn Cymru’r Dyfodol [42].

10.6 O amgylch y dref mae nifer o bentrefi gwledig â chysylltiadau da sy'n ymwneud â Chaerfyrddin fel yr anheddiad mwy, yn rhinwedd cysylltiadau ffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, a mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. Mae'r rhain yn gwneud cyfraniad pwysig at y clwstwr ehangach gan weithredu'n aml fel mannau lle mae pobl yn byw ac yn gweithio.

10.7 Ceir llawer o ymwelwyr â'r ardal, ac mae ganddi nifer o atyniadau i ymwelwyr, gan gynnwys Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne, Fforest Brechfa lle ceir llwybrau beicio mynydd a cherdded, Rheilffordd Stêm Gwili, a thraeth a chastell Llansteffan.

## Ardal Llanelli a De Cwm Gwendraeth

10.8 Mae’r clwstwr hwn ar hyd morlin Llanelli yn cadw ffocws datblygiadol cryf, ac mae ei botensial adfywio’n cael ei gydnabod yn y Strategaeth Trawsnewidiadau, y Fargen Ddinesig a’r CDLl Mabwysiedig presennol yn ogystal â Cymru’r Dyfodol sydd wedi nodi Llanelli ac ardal gydgysylltiedig ehangach fel rhan o 'ardal dwf genedlaethol'.

10.9 Mae wedi'i lleoli yn ne-ddwyrain y Sir, sydd o natur drefol yn bennaf. Mae ganddi fynediad uniongyrchol i'r M4 a chysylltiadau rheilffyrdd cryf. Mae ei lleoliad ar lwybrau

[42] Cymru’r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/future-wales-the-national-plan-2040.pdf

seilwaith allweddol, ei safle daearyddol a'i hagosrwydd at Abertawe yn sicrhau ei phwysigrwydd strategol nid yn unig i Sir Gaerfyrddin ond hefyd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

10.10 Mae Llanelli yn dal i fod yn ffocws ar gyfer darpariaeth yn yr ardal hon, ynghyd â phentrefi ar gyrion y dref. Mae'r canolfannau gwasanaethau sy'n rhan o'r clwstwr hwn yn elfennau allweddol yn y gwaith o ddarparu tai a swyddi newydd o ystyried eu perthynas gyffredinol â gweddill y clwstwr. Mae gan y clwstwr hwn y dwysedd poblogaeth uchaf yn y sir.

10.11 Er gwaethaf y cymeriad trefol ac ôl-ddiwydiannol sy'n aml yn gysylltiedig â'r ardal hon, mae cefndir gwledig iddi ac mae llawer o'r aneddiadau mwy yn darparu canolbwynt ar gyfer swyddi, gwasanaethau a thai yn ogystal â chefnogi'r aneddiadau a chymunedau gwledig hynny. Yn hyn o beth mae 'Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen'[43] yn nodi Cydweli fel un o'r deg tref wledig ym Mhennod 3. Mae hyn yn adlewyrchu nid yn unig rôl yr anheddiad ond yr amrywiaeth sy'n nodweddu ardal y clwstwr.

10.12 Mae'r ardal yn gyfrannwr cryf o safbwynt adwerthu, ac mae'r ddarpariaeth adwerthu yn amrywio o ran maint o fewn yr aneddiadau ac o fewn y clwstwr. Mae ei photensial o ran twristiaeth hefyd wedi'i nodi, gyda chyfranwyr allweddol megis Cae Rasio Ffos Las yn Nhrimsaran, Llwybr Arfordirol y Mileniwm a Pharc Gwledig Pen-bre. .

10.13 Llanelli sydd â'r rhan fwyaf o gyfleoedd cyflogaeth mawr. Mae'r sector gweithgynhyrchu traddodiadol yn parhau i fod yn amlwg yn yr ardal hon, ond mae'r swyddi cyferbyniol a gynigir yn y Bynea, Dafen ac ardaloedd yn Ne Llanelli yn adlewyrchu'r modd y mae sectorau'r ardal yn ehangu.

## Aman a Phen Uchaf Cwm Gwendraeth

10.14 Er ei bod yn bennaf yn drefol ac yn ôl-ddiwydiannol, gellir nodweddu'r ardal yn rhannol gan gyfres o aneddiadau cydgysylltiedig. Mae’r broses o ddarparu tai a swyddi newydd wedi cael ei ganoli ar goridor yr A48, ac mae Cross Hands ac aneddiadau cyfagos yn ffocws allweddol. Mae hyn yn adlewyrchu ei safle ar ran allweddol o'r rhwydwaith strategol sy'n cysylltu Sir Gaerfyrddin â gweddill gorllewin Cymru a Sir Benfro, ond hefyd, yn

[43] Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen (Mehefin 2019): Adroddiad ac Argymhellion Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin. https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/strategaethau-a-chynlluniau/symud-sir-gâr-wledig-ymlaen/

allweddol, â Chaerdydd, Abertawe a Chanolbarth Cymru. Mae wedi tyfu fel canolfan gyda ffocws ar fuddsoddi mewn swyddi, tai, a gwasanaethau.

10.15 Mae Rhydaman yn ganolfan sefydledig yn sgil cael ei sefydlu fel sylfaen ddiwydiannol. Yn dilyn y dirywiad yn ei sylfaen cyflogaeth mae ei rôl wrth gefnogi'r cymunedau cyfagos wedi datblygu. Bellach mae'n chwarae rôl bwysig fel canolfan wasanaeth trwy ddarparu cyfleusterau adwerthu, cyflogaeth, addysg a hamdden lleol.

10.16 . Caiff aneddiadau mwy eraill a chanddynt gysylltiadau da eu nodi ym mhapur Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen[44] sy'n nodi Cwmaman (yn cynnwys aneddiadau Glanaman a'r Garnant) a Cross Hands fel dwy o'r deg 'tref wledig' y cyfeirir atynt ym Mhennod 3.

10.17 Datblygodd Glanaman/y Garnant o gwmpas y gweithgareddau diwydiannol a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith tunplat a'r pyllau glo yn yr ardal. Fodd bynnag, mae'r anheddiad wedi'i leoli mewn cyd-destun gwledig yn bennaf rhwng y Mynydd Du a Mynydd y Betws.

10.18 Mae Cross Hands, sef hen gymuned lofaol, wedi datblygu yn ystod y degawdau diweddar drwy ei safle ar lwybr trafnidiaeth strategol yr A48. Fodd bynnag, mae hanes gwledig iddi ac ynghyd ag aneddiadau eraill sy'n rhan o Brif Ganolfan Rhydaman/Cross Hands (Polisi Strategol SP3) a'r rhai ar draws y clwstwr, mae'n rhyngweithio â'r cymunedau a'r aneddiadau gwledig.

10.19 Mae ardaloedd ôl-ddiwydiannol Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth (uchaf) yn cael eu hystyried yn gadarnleoedd ieithyddol allweddol o ran y Gymraeg ac maent yn elfennau allweddol o ran diffinio’r ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol. Mae'r aneddiadau hyn yn y Cymoedd yn cyflawni swyddogaeth fel canolfannau gwasanaethau lleol yn hytrach na bod yn brif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Mae amgylchedd naturiol yr ardal yn cyfrannu at ei chymeriad hefyd, ac mae prosiect Caeau'r Mynydd Mawr yn elfen annatod o ran cyfryngu a chydbwyso galwadau croes.

## Dyffryn Teifi

10.20 Adlewyrchir cymeriad yr ardal sy’n wledig yn bennaf a’i dwysedd poblogaeth is wrth ddosbarthu'r aneddiadau yn yr ardal. Er nad yw'n cynnwys Prif Ganolfan haen 1, adlewyrchir y cyfraniad pwysig yn y Sir wrth nodi clwstwr ar draws yr ardal. Cydnabyddir bod

---

[44] Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen (Mehefin 2019): Adroddiad ac Argymhellion Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin. https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/strategaethau-a-chynlluniau/symud-sir-gâr-wledig-ymlaen/

gan ardaloedd gwledig o'r fath a'u haneddiadau rôl bwysig o ran darparu tai a swyddi a darparu gwasanaethau i'w cymunedau.

10.21 Mae Castellnewydd Emlyn yn cyflawni rôl fel canolfan wasanaethau bwysig ar gyfer yr ardal (yn enwedig o ran addysg, cyflogaeth a adwerthu lleol) yn hytrach na bod yn ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Nodir perthynas drawsffiniol agos yr ardal â'r cymunedau hynny yng Ngheredigion, ac felly hefyd rôl aneddiadau megis Llandysul, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi i gymunedau yn yr ardal hon. Cydnabyddir y berthynas hon mewn gwahanol ddogfennau polisi, ac mae'n ystyriaeth allweddol wrth ddosbarthu a chyflenwi tai yn yr 2il CDLl Adneuo. Cydnabyddir bod nifer o'r aneddiadau yn y clwstwr hwn yn dibynnu ar Gaerfyrddin fel y brif ganolfan ar gyfer adwerthu, gweinyddu, iechyd a chyfleoedd gwaith y tu allan i'r rhai sy'n aml yn gysylltiedig ag ardaloedd gwledig. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn amharu ar ei botensial i ddatblygu i wasanaethu anghenion ei gymuned.

10.22 Mae safle gofodol yr ardal, ei chyfyngiadau ar ddatblygu a'i hanghenion o ran tai, yn adlewyrchu amrywiaeth y sir gyfan. Yn hyn o beth, mae'r cymeriad gwledig yn gofyn am ddull gwahanol o ddarparu tai a swyddi o gymharu â'r ardaloedd hynny sy'n fwy trefol yn bennaf. Mae'r cynllun yn ceisio ymateb i'r gwahaniaeth hwn a rôl yr ardal o ran derbyn twf.

10.23 Castellnewydd Emlyn a Llanybydder yw dwy o'r deg 'tref wledig '[45] sy'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth yr aneddiadau a'u cyfraniad o fewn y gymuned ehangach ac ardal y clwstwr. Caiff Castellnewydd Emlyn a Llanybydder eu cydnabod fel Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Gwledig yng Nghynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022.

10.24 Mae Afon Teifi yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonol ddynodedig y mae Canllawiau CNC ar lefelau ffosffad yr afon yn effeithio'n uniongyrchol arni. Mae hyn o ganlyniad wedi effeithio ar allu'r system gynllunio i roi caniatâd i rai datblygiadau o fewn dalgylch yr afon ac o ganlyniad mae'n effeithio ar gynnwys y CDLl Diwygiedig. Mewn ymateb mae'r Cynllun yn nodi ymateb strategol ac integredig cadarnhaol ar lefel Cynllun (dylid cyfeirio at CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr).

## Dyffryn Tywi Uchaf

[45] Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen (Mehefin 2019): Adroddiad ac Argymhellion Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin. https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/strategaethau-a-chynlluniau/symud-sir-gâr-wledig-ymlaen/

10.25 Adlewyrchir cymeriad yr ardal sy’n wledig yn bennaf a’i dwysedd poblogaeth is wrth ddosbarthu'r aneddiadau yn yr ardal. Er nad yw'n cynnwys Prif Ganolfan haen 1, adlewyrchir y cyfraniad pwysig yn y Sir wrth nodi clwstwr ar draws yr ardal. Yn hyn o beth cydnabyddir bod gan ardaloedd gwledig o'r fath a'u haneddiadau rôl bwysig ar draws sir amrywiol o ran darparu tai a swyddi a darparu gwasanaethau i'w cymunedau.

10.26 Llandeilo, Llanymddyfri a Llangadog sy'n cyflawni'r rolau allweddol fel canolfannau gwasanaeth, ac maent yn cefnogi darpariaeth gymdeithasol, cyflogaeth, addysg, ac adwerthu lleol ar gyfer yr aneddiadau llai. Mae’r ardal wedi’i chysylltu’n dda â’r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach trwy’r A40, yr A476 a Rheilffordd Calon Cymru.

10.27 Gall ystyried safle gofodol yr ardal, y cyfyngiadau ar ddatblygu (e.e. perygl llifogydd ac ansawdd y dirwedd) ac anghenion tai fod o gymorth i ddeall a llywio unrhyw ran y gallai'r ardal ei chwarae yn y dyfodol yn nhermau datblygu. Mae lleoliad deniadol yr ardal yn cael ei ffurfio gan ddyffryn yr afon.

10.28 Er bod llawer o'r aneddiadau yn y clwstwr hwn yn dibynnu ar Gaerfyrddin neu Rydaman/Cross Hands fel y canolfannau mawr ar gyfer darpariaeth fwy o ran adwerthu a chyflogaeth, mae rôl a swyddogaeth Llandeilo a Llanymddyfri fel y nodwyd ym Mhennod 3 o 'Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen' fel dwy o'r deg 'tref wledig', yn adlewyrchu eu cyfraniad at ddarparu gwasanaethau, tai, a swyddi wrth wasanaethu'r gymuned ehangach ac ardal y clwstwr. [46]

10.29 Mae Afon Tywi yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonol ddynodedig y mae Canllawiau CNC ar lefelau ffosffad yr afon yn effeithio'n uniongyrchol arni. Mae hyn o ganlyniad wedi effeithio ar allu'r system gynllunio i roi caniatâd i rai datblygiadau o fewn dalgylch yr afon ac o ganlyniad mae'n effeithio ar gynnwys y CDLl Diwygiedig. Mewn ymateb mae'r Cynllun yn nodi ymateb strategol ac integredig cadarnhaol ar lefel Cynllun (dylid cyfeirio at CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr).

## Gorllewin Sir Gaerfyrddin

10.30 Adlewyrchir cymeriad yr ardal sy’n wledig yn bennaf a’i dwysedd poblogaeth is wrth ddosbarthu'r aneddiadau yn yr ardal. Er nad yw'n cynnwys Prif Ganolfan haen 1, adlewyrchir y cyfraniad pwysig yn y Sir wrth nodi clwstwr ar draws yr ardal. Yn hyn o beth

[46] Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen (Mehefin 2019): Adroddiad ac Argymhellion Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin. https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/strategaethau-a-chynlluniau/symud-sir-gâr-wledig-ymlaen/

cydnabyddir bod gan ardaloedd gwledig o'r fath a'u haneddiadau rôl bwysig ar draws sir amrywiol o ran darparu tai a swyddi a darparu gwasanaethau i'w cymunedau.

10.31 Gyda'i gysylltiadau â gorllewin Cymru, mae datblygu yn y clwstwr hwn wedi canolbwyntio ar aneddiadau Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf yn draddodiadol. Yr aneddiadau hyn yn bennaf sy'n cyflawni rolau'r canolfannau gwasanaethau allweddol yn y clwstwr hwn, ac maent yn cefnogi'r ddarpariaeth gymdeithasol a'r ddarpariaeth o ran cyflogaeth, addysg, ac adwerthu lleol ar gyfer yr aneddiadau llai. Mae'r ardal wedi'i chysylltu'n dda â'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach trwy'r A40, yr A477 a rheilffordd Llundain – Abergwaun. Hefyd mae gan ardal ogledd-orllewinol y clwstwr gysylltiadau da ar yr A478 â Cheredigion a Sir Benfro, gan integreiddio â'r rhanbarth ehangach.

10.32 Mae ei pherthynas â Sir Benfro yn golygu bod darpariaeth gref i dwristiaid wedi datblygu o fewn yr aneddiadau, gyda Thalacharn a Phentywyn yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi ymwelwyr. O ran twristiaeth, mae'r hyn a gynigir yn yr ardal gymeriad hon (sy'n seiliedig ar yr arfordir) at ei gilydd yn wahanol i'r dwristiaeth seiliedig ar weithgareddau a geir yn ardal wledig gogledd y Sir a'r atyniadau hynny ar raddfa fwy yn ardal Llanelli a De Cwm Gwendraeth.

10.33 Er bod llawer o'r aneddiadau yn y clwstwr hwn yn dibynnu ar Gaerfyrddin, neu dros y ffin i Sir Benfro, ar gyfer darpariaeth fwy o ran adwerthu a chyflogaeth, mae rôl a swyddogaeth Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf yn cael eu hadlewyrchu yn 'Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen' fel dwy o'r deg 'tref wledig' a nodwyd.[47] Mae hyn yn cydnabod eu cyfraniad at ddarparu gwasanaethau, tai a swyddi wrth wasanaethu'r gymuned ehangach ac ardal y clwstwr.

[47] Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen (Mehefin 2019): Adroddiad ac Argymhellion Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin. https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/strategaethau-a-chynlluniau/symud-sir-gâr-wledig-ymlaen/

# 11. Polisïau

11.1 Yn yr adrannau a ganlyn, nodir y Polisïau Strategol a fydd yn sail i'r fframwaith ar gyfer gweithredu a chyflawni'r CDLl. Mae'r fformat a'r strwythur yn adlewyrchu elfennau craidd cynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy, a'r pedwar amcan llesiant neu'r themâu a nodir yng Nghynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn golygu bod modd croesgyfeirio'r Polisïau Strategol i'r amcanion strategol a nodir yn y ddogfen hon, yn ogystal â'r nodau Llesiant perthnasol. Bydd y polisïau strategol felly wedi'u seilio ar y themâu a ganlyn:

**Ymyrraeth Gynnar - Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt.**

**Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i bobl a lleoedd yn ardaloedd trefol a gwledig ein sir.**

**Arferion Iach - Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maen nhw'n gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'r amgylchedd.**

**Cysylltiadau Cryf - Pobl, lleoedd a sefydliadau y mae cysylltiad cryf rhyngddynt, sy'n gallu addasu i newid.**

11.2 Cydnabyddir y bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y themâu unigol a'u polisïau ac felly dylent gael eu darllen ar y cyd â'i gilydd. Mae testun esboniadol gyda phob polisi strategol.

## Ymyrraeth Gynnar - Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt.

11.3 Cydnabyddir y goblygiadau o ran llesiant unigolion, eu teuluoedd a'u cymunedau o fewn y Cynllun drwy ganolbwyntio ar greu lleoedd cynaliadwy a chynhwysol. Mae'r ymagwedd gysylltiedig hon ar draws yr holl themâu yn galluogi datrysiadau hirdymor er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gael i gynnal a gwella llesiant.

11.4 Mae'n cydnabod bod lleoedd cynaliadwy yn cael eu creu drwy gydbwyso nodweddion ecogyfeillgar, economi ffyniannus a chynhwysiant cymdeithasol sy'n anelu i fod o fudd i genedlaethau'r dyfodol yn ogystal â thrigolion presennol.

11.5 Cydnabyddir bod y themâu a'r polisïau a ddyrennir iddynt yn gorgyffwrdd â'i gilydd, ond nodwyd y canlynol o dan y thema Ymyrraeth Gynnar:

- **Polisi Strategol - SP 1:** Twf Strategol
- **Polisi Strategol - SP 2:** Canolfannau Adwerthu a Chanol Trefi

11.6 Mae'r polisïau a ganlyn yn ceisio cefnogi cyflawniad amcanion strategol y Cynllun, ond hefyd yn creu cysylltiadau lefel uchel ac yn sicrhau y cydymffurfir yn fras â'r Nodau Llesiant.

## Polisi Strategol – SP1: Twf Strategol

**Bydd y CDLl yn darparu ar gyfer twf economi gynaliadwy a gofynion tai yn y dyfodol drwy ddarparu:**

**a) 9,704 o dai newydd i fodloni'r gofyniad tai a nodwyd o 8,822.**
**b) Dyrannu isafswm o 71.21ha o dir cyflogaeth.**

**Mae'r ffocws ar adfywio a thwf yn adlewyrchu uchelgeisiau strategol craidd y Cyngor gan ddosbarthu datblygiad mewn modd cynaliadwy sy'n gyson â'r strategaeth ofodol a'r fframwaith aneddiadau.**

11.7 Yr hyn sydd wrth wraidd y CDLl Diwygiedig hwn yw creu Sir gytbwys a chydlynol. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n cydnabod bod rôl y Sir fel sbardun cryf ac economaidd ar gyfer twf yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn rhoi lle canolog i Sir Gaerfyrddin mewn Cymru ffyniannus a chynaliadwy. Mae strategaeth twf y Cynllun wedi'i seilio ar egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn gyson â nodau a dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae strategaeth y Cynllun hefyd yn adlewyrchu arwyddocâd Llanelli fel rhan o Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli a nodwyd ym Mholisi 28 o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chaerfyrddin fel ardal ar gyfer twf rhanbarthol fel y nodwyd ym Mholisi 29 - Ardaloedd Twf Rhanbarthol - Caerfyrddin a Threfi'r Daugleddau.

11.8 Mae'r ymagwedd strategol yn adeiladu ar y pwyslais corfforaethol ar adfywio a'r cyfleoedd a gyflwynir drwy'r Fargen Ddinesig a thrwy gyfleoedd adfywio a buddsoddi eraill. Ar yr un pryd, y mae hefyd yn cydnabod y cyfleoedd a geir drwy'r economi wledig ac anghenion amrywiol cymunedau ledled y Sir. Mae'r strategaeth yn cydnabod rôl cyflogaeth o ran creu Sir ffyniannus - gyda thwf priodol o ran tai ynghyd â chyfleoedd am swyddi a chyflogaeth.

11.9 Yn rhan o'i bolisi corfforaethol, adfywio yw prif amcan y Cyngor. Adlewyrchir hyn drwy:

- Datganiad Gweledigaeth y Cabinet 2022–2027;
- Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin (2021);
- Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: Strategaeth Gorfforaethol Newydd y Cyngor 2018–2033;
- Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen (2019);
- Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru (2021);
- Cynllun Rhanbarthol De-orllewin Cymru ar gyfer Adfywio;
- Bargen Ddinesig Bae Abertawe (2017);
- Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013-2030; a
- Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2015–2030.

11.10 Mae'r ffocws hwn ar greu swyddi a buddsoddi yn seiliedig ar leoliad strategol Sir Gaerfyrddin a'i swyddogaeth ranbarthol o ran yr economi. Mae'r strategaeth hon yn ceisio cydnabod ac adlewyrchu hyn, a'r amcanion corfforaethol, trwy gefnogi a chreu lle sy'n ddeniadol i weithwyr a buddsoddwyr.

11.11 Drwy sicrhau bod ein gofynion o ran twf tai yn adlewyrchu, ac yn cefnogi, ein huchelgeisiau economaidd, mae'n galluogi ymagwedd gydgysylltiedig ac integredig er mwyn sicrhau na chaiff y gyd-swyddogaeth o sicrhau twf economaidd ei hystyried ar wahân i dai, ac fel arall.

11.12 Mae'r dull hwn yn gofyn am ddatblygu set gytbwys o amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd sy'n datblygu ar egwyddorion amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol o dai i gefnogi cyflawni ein huchelgeisiau economaidd a bodloni anghenion ein cymunedau.

11.13 Mae'r tueddiadau poblogaeth ac aelwydydd, a bennwyd drwy amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018, yn dilyn patrymau demograffig twf is tebyg amcanestyniadau blaenorol Llywodraeth Cymru. Nid ydynt fodd bynnag yn adlewyrchu uchelgeisiau cadarnhaol y Sir a'r Rhanbarth dros gyfnod y cynllun. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid ystyried cyfraddau cwblhau tai dros y blynyddoedd cynt, sydd yn llawer uwch na gofynion amcanestyniad 2018 Llywodraeth Cymru. Bwriedir i'r strategaeth hon a'i lefelau twf fod yn uchelgeisiol ond yn gyflawnadwy, ac adlewyrchu amcanion ehangach na'r CDLl Diwygiedig hwn yn unig.

11.14 Bydd y Strategaeth hon yn ceisio dosbarthu twf drwy hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy sy'n deillio o'r opsiwn gofodol a ffafrir. Mae'n cydnabod yr amrywiaeth ar draws y Sir a chyfoeth ei rhinweddau o ran yr amgylchedd, bioamrywiaeth a'i thirlun naturiol ac adeiledig. Wrth gyflawni'r strategaeth hon, mae hefyd yn cydnabod cyfraniad ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin a'i hardaloedd trefol tuag at gyflawni ei gweledigaeth ar gyfer 'Un Sir Gâr'.

11.15 Byddwn yn cydweithio'n agos â phartneriaid, darparwyr seilwaith, datblygwyr, buddsoddwyr a chymunedau i gyflawni'r CDLl Diwygiedig a'i strategaeth, polisïau, a chynigion.

## SG1: Adfywio a Safleoedd Defnydd Cymysg

**Darperir ar gyfer dyraniadau defnydd cymysg ar y safleoedd a ganlyn:**

| Cyf. Safle. | Lleoliad a Defnyddiau Arfaethedig |
|---|---|
| **PrC1/MU1** | **Gorllewin Caerfyrddin, Caerfyrddin**<br><br>Cymysgedd o ddefnyddiau, yn cynnwys defnydd preswyl (darpariaeth ar gyfer 700 o dai newydd o fewn cyfnod y cynllun hwn), cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol ac amwynder. Roedd Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin yn ddangosydd cyflawnadwyedd allweddol. Mae'r ffordd hon bellach wedi'i chwblhau ac ar agor. |
| **PrC1/MU2** | **Pibwr-lwyd, Caerfyrddin**<br><br>Yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau sy'n adlewyrchu ei leoliad strategol a'i gyfraniad at Gaerfyrddin. Mae'r defnydd yn cynnwys cyflogaeth, hamdden masnachol, addysg yn gysylltiedig â Choleg Sir Gâr a phreswyl (ceir darpariaeth ar gyfer 247 o dai newydd). |
| **PrC2/MU1** | **Cyn Safle Gwaith yr Hen Gastell, Llanelli**<br><br>Cymysgedd o ddefnyddiau yn canolbwyntio ar yr economi ymwelwyr, treftadaeth a hamdden. Dim darpariaeth breswyl wedi'i gwneud. |
| **PrC2/MU2** | **Porth Trostre, Llanelli**<br><br>Cymysgedd o ddefnyddiau sy'n adlewyrchu ei leoliad amlwg a'i hanes cynllunio. |
| **PrC2/MU3** | **Hen Adeilad yr YMCA, Stryd Stepney, Canol Tref Llanelli**<br><br>Cymysgedd o ddefnyddiau mewn lleoliad yng nghanol tref, gyda darpariaeth ar gyfer 8 uned breswyl |

| | |
|---|---|
| **PrC3/MU1** | **Gwaith Brics Emlyn, Pen-y-groes**<br><br>Darpariaeth i adfywio safle a ddatblygwyd o'r blaen. Mae Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands yn ddangosydd cyflawnadwyedd allweddol, ac yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd. Ceir darpariaeth i gyflawni datblygiad sy'n canolbwyntio ar y gymuned ynghyd â 177 o dai newydd. |
| **SeC4/MU1** | **Glannau Porth Tywyn**<br><br>Cymysgedd o ddefnyddiau sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth adwerthu briodol, ynghyd â defnyddiau masnachol / twristiaeth cysylltiedig. Dim darpariaeth breswyl wedi'i gwneud. |
| **SeC16/MU1** | **Beechwood, Llandeilo**<br><br>Yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau sy'n adlewyrchu ei leoliad strategol a'i gyfraniad at Landeilo. Yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau cyflogaeth, masnachol a adwerthu priodol. Mae'r safle yn rhan o ardal fwy a nodwyd yn barth perygl llifogydd C2. Bydd angen i geisiadau fodloni'r holl ofynion o ran hyn. |
| **SeC20/MU1** | **Parc Gwyliau Talacharn**<br><br>Cymysgedd o ddefnyddiau sy'n canolbwyntio ar gynigion twristiaeth a hamdden ac sy'n gysylltiedig ag ailddatblygu Parc Gwyliau Talacharn. |
| **PrC1/MU3** | **Safle adfywio a Defnydd Cymysg Nant-y-caws**<br><br>Safle mewn man strategol a ddefnyddir eisoes i reoli gwastraff mewn modd cynaliadwy. Mae'n cynnig cyfle yn y dyfodol i ddefnyddio ynni sy'n deillio o wastraff, a gweithgareddau cysylltiedig sy'n seiliedig ar gyflogaeth. Gellid nodi cyfleoedd i'r dyfodol drwy ddatblygu prif gynllun ar gyfer y safle. |

*Tabl 3: Adfywio a Defnydd Cymysg*

11.16 Bydd yr uchod a'r defnyddiau a nodwyd, lle bo'n briodol, yn cael eu hystyried ymhellach drwy'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar ffurf briffiau datblygu. Bydd y briffiau hyn yn ymdrin yn fanylach â datblygu'r safleoedd, mewn modd cynhwysfawr a chydgysylltiedig, gan sicrhau bod cynigion wedi'u hintegreiddio o ran trefnu gwahanol elfennau fesul cam a darparu sbardunau cyflawnadwyedd allweddol fel seilwaith.

## SG2: Safleoedd wrth Gefn

**Bydd Safleoedd Wrth Gefn yn cael eu rhyddhau i'w datblygu os na fydd y safleoedd a ddyrannwyd (a nodwyd o dan bolisïau HOM1, EME1 ac SG1) yn cyfrannu yn ôl y disgwyl at gyflawni strategaeth y Cynllun, neu lle bo angen ymateb i newid perthnasol a sylweddol i'r cyd-destun - gan gynnwys newidiadau i'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol ymhlith newidiadau eraill.**

**Yr Awdurdod Cynllunio Lleol fydd yn penderfynu rhyddhau safle neu ddileu safle presennol sydd wedi'i ddyrannu oherwydd diffyg cyflawniad, a hynny'n unol â'r fframwaith monitro ac Adroddiad Adolygu'r CDLl yn y dyfodol.**

| Cyf. Safle: | Disgrifiad |
|---|---|
| SG2/1 | **Hen Lofa Morlais, Llangennech**<br>Mae cyfraniad strategol posibl y safle, gan gynnwys cynigion yn seiliedig ar ddatblygiadau cyflogaeth a phreswyl yng nghyd-destun safle Bae Abertawe a Llanelli yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sydd ar ddod. |
| SG2/2 | **Tir ger Teras Arian, Porth Tywyn**<br>Mae'r wefan yn cynnig potensial i ddarparu gofod cyflogaeth sy'n cynnwys elfen byw/gwaith. |
| SG2/3 | **Parth Cyflogaeth Cross Hands**<br>Safle mewn man strategol yn gyfagos â chanolfan gyflogaeth sefydledig a all gynnwys unrhyw alw yn y dyfodol am unedau mawr sy'n fwy na 10,000 metr sgwâr. Mae'r safle'n agos at y cyfleusterau yn Cross Hands ac at y rhwydwaith priffyrdd strategol. |
| SG2/4 | **Hen Safle Ennis Caravans, Cross Hands**<br>Mae'r safle hwn yn y Brif Ganolfan yn Cross Hands yn safle a ddatblygwyd o'r blaen ac yn cynnig cyfleoedd am ddatblygiadau preswyl yn y dyfodol. Mae'r penderfyniad i beidio â'i gynnwys fel dyraniad yn adlewyrchu amheuon ynghylch y gallu i gyflawni arno ar unwaith. Fodd bynnag, bydd yn cael ei fonitro a'i adolygu, a bydd ei gyfraniad yn y dyfodol yn cael ei ystyried yn unol â'r polisi hwn. |

*Tabl 4: Safleoedd wrth Gefn*

**Mae'n rhaid i gynigion i ddatblygu ar Safleoedd Wrth Gefn, gan gynnwys yn rhan o ddatblygiad defnydd cymysg:**

i. **Gael eu cyflwyno'n unol â phrif gynllun cytunedig, a chan gydymffurfio â darpariaethau'r Cynllun hwn, a chynnwys yr holl Safle Wrth Gefn, a**

### ii. Pheidio ag arwain at or-ddarpariaeth a fyddai'n peryglu'r gallu i gyflawni ar safleoedd wedi'u dyrannu ac ar safleoedd cyflawnadwy.

11.17 Pwrpas y Polisi hwn yw sefydlu'r egwyddor o ddatblygiad defnydd cymysg (gan gynnwys tai) ar y safleoedd hyn a sbarduno'r farchnad i ddatrys materion a chyflwyno'r safleoedd lle bo angen.

11.18 Dylid darparu tystiolaeth benodol sy'n dangos yn glir, fel bo'r awdurdod cynllunio lleol yn fodlon, fod cynigion datblygu'n gyson â'r polisïau a ganlyn o fewn y CDLl:

- PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd
- PSD2: Egwyddorion Prif Gynlluniau - Creu Cymdogaethau Cynaliadwy
- PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas
- PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd
- TRA1: Gwelliannau i'r Seilwaith Trafnidiaeth a Phriffyrdd
- TRA2: Teithio Llesol
- SP9: Seilwaith
- INF1: Rhwymedigaethau Cynllunio
- CCH6: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel mewn Datblygiadau Newydd

11.19 Bydd yr angen am safleoedd wrth gefn yn cael ei fonitro'n agos drwy'r defnydd o safleoedd wedi'u dyrannu yn rhan o fframwaith monitro'r Cynllun hwn, ac adroddir ar hynny drwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol. Os na fydd y safleoedd sydd wedi'u dyrannu (a nodwyd o dan bolisïau HOM1, EME1 ac SG1) yn cyfrannu yn ôl y disgwyl at gyflawni strategaeth y Cynllun, yna bydd y penderfyniad i ddefnyddio Safle Wrth Gefn yn cael ei wneud fel rhan o adolygiad ffurfiol o'r cynllun.

11.20 Mae angen nodi amrywiaeth o safleoedd wrth gefn er mwyn sicrhau bod strategaeth y CDLl yn rhoi digon o hyblygrwydd os bydd datblygiad ar dir wedi'i ddyrannu ac ymrwymiadau presennol yn dod i stop. Bydd sylw yn cael ei roi i ofynion Cymru’r Dyfodol a'r gwaith sydd ar y gweill o baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth.

## SG3: Penrhyn Pen-bre

**Cefnogir cynigion sy'n cyfrannu at ddatgloi potensial y Penrhyn fel cyrchfan ar gyfer gwyliau, gweithgareddau a gwaith os ydynt yn parchu rôl a swyddogaeth yr ardal a'i hymdeimlad o le.**

**Dylai cynigion adeiladu ar ddefnyddiau a nodweddion sy'n bodoli o fewn yr arfordir helaeth hwn er mwyn cydnabod rhinweddau naturiol yr ardal a'i rhinweddau adeiledig hanesyddol.**

11.21 Mae'r Penrhyn yn cynnwys tua 1,780 o hectarau ar hyd ffordd yr A484 a choridor trafnidiaeth Llinell Reilffordd Llundain i Abergwaun. Mae'n ymestyn o gyrion tref hanesyddol Cydweli wrth geg Gwendraeth Fach tua'r gogledd. Mae'r A484, Llinell Reilffordd Llundain i Abergwaun a gwastatir Pinged yn ffinio â dwyrain y safle. Mae Parc Arfordirol y Mileniwm yn ffinio â de/de ddwyrain y safle.

11.22 Er bod y Penrhyn mewn lleoliad da i ddenu pecyn integredig a strategol o gynlluniau adfywio a buddsoddi, y mae hefyd mewn ardal ecolegol sensitif sy'n destun amrywiaeth o ystyriaethau o ran datblygu.

11.23 Mae amrywiaeth gyferbyniol o ddefnyddiau a nodweddion yn creu'r cyd-destun ar gyfer y naws am le. Mae'r rhain yn cynnwys Parc Gwledig Pen-bre i'r de, a'r cylchffordd rasio cerbydau modur a maes awyr i'r gogledd.

11.24 Mae'r ardal yn parhau i fod yn adodd allweddol i breswylwyr, ymwelwyr a bioamrywiaeth fel ei gilydd. O ran hynny, ni ellid cefnogi cynigion datblygu a fyddai'n amharu'n ormodol ar barhad yr adnodd i genedlaethau'r dyfodol.

11.25 Bydd y Cyngor yn llunio Canllawiau Cynllunio Atodol er mwyn ymhelaethu ar ddarpariaethau'r polisi hwn a chyfleoedd ar y Penrhyn yn y dyfodol.

## Polisi Strategol - SP 2: Adwerthu a Chanol Trefi

**Bydd cynigion am ddatblygiadau adwerthu ac at ddefnydd arall yn chanol trefi yn cael eu hystyried yn unol â'r hierarchaeth adwerthu a ganlyn a'r darpariaethau isod:**

| | |
|---|---|
| **Is-ranbarthol - Canol Tref Lefel Uwch** | **Caerfyrddin** |
| **Canol Trefi Lefel Ganol** | **Llanelli** |
| | **Rhydaman** |
| **Canol Trefi Lefel Is** | **Porth Tywyn** |
| | **Llandeilo** |

**Llanymddyfri**

**Castellnewydd Emlyn**

**Sanclêr**

**Hendy-gwyn ar Daf**

**a) Caniateir cynigion ar gyfer adwerthu a defnyddiau canol tref priodol eraill o fewn ffin canol tref Caerfyrddin (gan gynnwys defnydd hamdden, dinesig, diwylliannol, addysg, busnes, iechyd a phreswyl (ar loriau uchaf)) sy'n cefnogi twf Caerfyrddin fel canol tref adwerthu is-ranbarthol lle maent yn cynnal ac yn gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac apêl Canol Tref Caerfyrddin. Ni ddylai cynigion:**

**1) danseilio swyddogaeth adwerthu canol y dref, neu amharu ar fywiogrwydd neu hyfywedd yr ardal; na**

**2) chreu crynodiad o ffryntiau nad ydynt yn rhai adwerthu ar loriau gwaelod sy'n amharu ar gymeriad a swyddogaeth adwerthu yr ardal.**

**b) Bydd bywiogrwydd, hyfywedd ac apêl ein canolfannau adwerthu yn cael ei gynnal a'i wella ynghyd â'r ystod o ddefnyddiau presennol ynddynt, gan gynnwys marchnadoedd lleol. Cefnogir cynigion o fewn ffiniau canol y dref sy'n ehangu ystod y defnyddiau ac yn annog cyfleoedd siopa, gwasanaethau, gwasanaethau cyhoeddus a chyfleusterau a chyflogaeth/busnes cyfleus a hygyrch.**

**c) Bydd cynigion ar gyfer siopau cyfleustra y tu allan i ffin canol tref ddiffiniedig yn destun:**

1) **Cyflwyno asesiad effaith i ddangos na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd y ganolfan adwerthu bresennol;**
2) **Tystiolaeth o fod wedi cymhwyso prawf dilyniannol wrth ddewis y safle;**
3) **Tystiolaeth o angen meintiol ac ansoddol am y datblygiad; a,**
4) **Thystiolaeth o hygyrchedd y safle i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy.**

**d) Bydd cynigion ar gyfer adwerthu a defnyddiau canol tref eraill o fewn ffin canol y dref yn cael eu cefnogi a fydd, lle bo hynny'n berthnasol:**

1) **Yn darparu cyfleoedd i'r sectorau adwerthu a masnachol annibynnol;**
2) **Yn cefnogi a pheidio â thanseilio parhad swyddogaeth canol trefi lefel uwch a lefel ganol fel canolfannau adwerthu;**
3) **Hyrwyddo ac arallgyfeirio addysg, hamdden, cyfleusterau diwylliannol a'r economi gyda'r nos;**
4) **Darparu ar gyfer creu gofodau cyhoeddus o ansawdd a gwelliannau amgylcheddol gan gynnwys gwarchod a gwella cymeriad lleol**

**unigryw yr amgylchedd adeiledig hanesyddol a naturiol, ac ymrwymiad i ddylunio o ansawdd uchel;**

5) **Gwella lleoedd i gerddwyr, beicwyr a phobl anabl, gan wella trafnidiaeth gyhoeddus, hygyrchedd, mynediad i gyfleusterau cyhoeddus, mannau parcio i geir, arwyddion a'r strydlun; a,**
6) **Gwarchod, gwella ac integreiddio â'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas.**

**Y tu allan i'r ffiniau canol tref uchod gellir caniatáu'r mathau canlynol o ddarpariaeth adwerthu a defnyddiau canol tref eraill:**

1) **Unedau warws adwerthu newydd nad ydynt ar gyfer bwyd (gan gynnwys canolfannau garddio, neuaddau arddangos ceir a chyfleusterau ategol), cyfleusterau hamdden priodol mewn parciau adwerthu dynodedig a defnyddiau canolfan fasnachu ar safleoedd cyflogaeth, ble maent yn cael eu cefnogi gan y dystiolaeth berthnasol a nodir isod:**

    i. **asesiad effaith yn dangos na fyddai'r cynnig yn niweidio canol trefi sefydledig;**
    ii. **tystiolaeth o fod wedi mabwysiadu ymagwedd ddilyniannol sy'n dangos nad oes safleoedd addas a chynaliadwy ar gael mewn lleoliadau oddi mewn i ganol trefi diffiniedig neu'n union wrth eu hymyl;**
    iii. **tystiolaeth o angen meintiol, ansoddol ac/neu angen arall perthnasol am y datblygiad;**
    iv. **tystiolaeth o hygyrchedd y safle i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy.**

2) **Cynigion am gyfleusterau siopa cyfleustra lleol mewn ardaloedd gwledig a threfol o fewn y ffiniau datblygu os yw eu graddfa'n briodol i'r anheddiad hwnnw. Bydd cynigion am ddatblygiadau adwerthu gwledig yn cael eu hystyried yn unol â pholisi RTC2.**

11.26 Mae'r polisi'n ceisio cydnabod patrwm cyffredinol y ddarpariaeth mewn hierarchaeth draddodiadol o ganolfannau, sy'n amrywio rhwng mân ddarpariaeth leol a'r canolfannau mwy sy'n darparu dewis mwy dros ystod ehangach o gynnyrch. Mae'r canolfannau mwy hefyd yn gweithredu fel lleoliadau ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig ym maes hamdden ac adloniant, gan gynnwys sinemâu a bwytai ac ati, ac ar gyfer defnydd swyddfa masnachol, gan gynnwys cyfreithwyr, cyfrifwyr a gwerthwyr tai ac ati.

11.27 At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth leol yn cynrychioli nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen o ddydd i ddydd (eitemau cyfleustra), ac y gall trigolion wneud teithiau byr mynych i'w nôl, tra bo'r canolfannau mwy nid yn unig yn darparu'r cyfleusterau hynny, ond hefyd yn darparu eitemau mwy arbenigol (nwyddau cymharu) y bydd siopwyr yn chwilio

amdanynt yn llai aml ac yn barod i deithio ymhellach i'w prynu. Yn draddodiadol, mae darpariaeth siopa wedi esblygu yn hierarchaeth o ganolfannau gyda dalgylchoedd yn gorgyffwrdd y naill a'r llall i adlewyrchu eu maint a'u pwysigrwydd.

11.28 O ran darpariaeth adwerthu, dyma'r patrwm sy'n nodweddu Sir Gaerfyrddin, gyda chanolfannau mwy Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman yn gwasanaethu dalgylchoedd mwy yn y gorffennol, gan gynnig ystod eang ac arbenigol o nwyddau ac eitemau.

11.29 Wrth ddiffinio hierarchaeth adwerthu, rhoddwyd sylw i rolau a swyddogaethau perthynol y trefi mwy a'r pentrefi bach. Cydnabyddir, yn hyn o beth, er bod ystod y ddarpariaeth siopa ar hyd a lled yr hierarchaeth yn chwarae rhan hanfodol, ym Mhrif Ganolfannau Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman y ceir ffocws gweithgarwch adwerthu canol tref. Y canolfannau hyn yw'r prif gyrchfannau siopa am nwyddau cymharol (nid bwyd) ac maent yn darparu ar gyfer siopa am brif fwyd a swmp-brynu bwyd a siopa am fwydydd (groser). Mae gan ganol trefi llai eraill ystod a dewis cyfyngedig o siopau nwyddau cymharol ac maent yn darparu'n bennaf ar gyfer siopa am fwyd ychwanegol a siopa am fwydydd (groser). Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd fod pob un o'r canolfannau hyn yn cyflawni gwahanol rolau yng nghyd-destun eu cymunedau a'u swyddogaethau daearyddol ehangach. O ran hynny, mae canol tref Caerfyrddin yn cyflawni swyddogaeth is-ranbarthol tra bo canol trefi Rhydaman a Llanelli yn canolbwyntio mwy ar wasanaethu'r cymunedau o'u hamgylch. Fodd bynnag, mae'r polisi hefyd yn ceisio cydnabod yr effaith y mae Covid-19 a'r newid mewn patrymau siopa wedi'i chael ar ein stryd fawr a chanol ein trefi. Yn hyn o beth, mae'r polisi yn ceisio adlewyrchu eu swyddogaeth adwerthu gynhenid gan gydnabod rôl amlswyddogaethol newydd ar gyfer canolfannau o'r fath.

11.30 Cydnabyddir fodd bynnag, er gwaethaf y gwahaniaethau cynhenid rhyngddynt, fod pob canol tref yn profi gwahanol heriau wrth i rôl y stryd fawr newid mewn ymateb i bwysau amrywiol y byd adwerthu. Yn hyn o beth, mae TAN4 yn cynnwys darpariaeth i gymhwyso polisïau priodol i'r canolfannau hynny ar sail eu nodweddion a'u cynaliadwyedd. Wrth ymateb i'r ymagwedd hon a gaiff ei hysgogi'n lleol, bydd amrywio'r hyn a ystyrir yn ganolfan lefel uwch a lefel is yn golygu bod modd ymateb yn fanylach ond yn fwy hyblyg ar sail eu gwahanol raddfeydd a nodweddion. Y mae hefyd yn galluogi'r Cynllun i ymateb i newid mewn amgylchiadau economaidd, a cheisio ymdrin ag amrywio mewn gweithgarwch adwerthu.

11.31 Wrth ddisgrifio nodweddion canolfannau adwerthu a masnachol lefel uwch, nodir yn TAN4 eu bod yn hygyrch i nifer fawr o bobl, a bod graddfa ac ystod amrywiol y defnyddiau sy'n bresennol yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth - sydd fel arfer yn cynnwys mwy

na'r gymuned leol. Nodweddir y canolfannau hynny fel arfer gan gyfuniad o siopau, swyddfeydd, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, sefydliadau bwyd a diod, gwestai, cyfleusterau addysg, adloniant a hamdden, sefydliadau amhreswyl yn ogystal â phreswyl. (TAN4 paragraff 4.2).

11.32 Ar y llaw arall, nodweddir canolfannau lefel is gan ddarpariaeth ar raddfa lai a llai o ddefnyddiau, gyda'r bwriad o wasanaethu anghenion y gymuned leol yn bennaf. Bydd y rhain fel arfer yn cynnwys siopau, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, bwyd a diod, sefydliadau amhreswyl sydd ar lefel briodol, ond gall gynnwys defnyddiau eraill yn ddibynnol ar y ganolfan (TAN4 paragraff 4.3).

11.33 O ystyried statws blaenorol Llanelli a Rhydaman, mae eu strydoedd mawr wedi profi cyfnodau heriol ac mae'r naill a'r llall wedi cynnal eu swyddogaeth bwysig fel canolfannau adwerthu, er bod y swyddogaeth honno wedi gwanio rhywfaint. Wrth roi ystyriaeth bellach i'r posibiliadau ar eu cyfer hwy, ynghyd â Chaerfyrddin, o ran hierarchaeth adwerthu'r dyfodol, y mae'n bwysig ystyried sut y byddant yn datblygu a'u rôl yn y dyfodol, yn ogystal â'r modd y mae'r Cynllun yn ceisio ymateb i ddirywiad posibl yng nghanol y dref.

11.34 Mae gan Gaerfyrddin rôl is-ranbarthol hirsefydlog ac yn draddodiadol mae wedi bod â phresenoldeb cenedlaethol cryf ar ei stryd fawr ynghyd ag amrywiaeth o siopau lleol. Fodd bynnag, mae Covid-19 wedi cael effaith amlwg ar natur ei darpariaeth adwerthu gyda nifer o gwmnïau cenedlaethol wedi tynnu'n ôl yn sgil yr heriau ariannol a'r ad-drefnu o fewn y sector adwerthu. O ganlyniad, er bod y ganolfan yn gwasanaethu amrywiaeth o anghenion ar gyfer y boblogaeth y tu hwnt i'w chymuned leol a bydd yn parhau i wneud hynny, rhaid i natur ei darpariaeth a'r ystod o ddefnyddiau o fewn y craidd adwerthu traddodiadol allu addasu wrth gadw'r sylfaen adwerthu draddodiadol honno. Mae'r ganolfan yn parhau i fod yn un y gellir ei galw'n rhwydd yn ganolfan adwerthu lefel uwch ar sail y darpariaethau uchod.

11.35 O ran Llanelli a Rhydaman, ceir llai o gwmnïau cenedlaethol yng nghanol y dref, ac i raddau cynyddol mae'r cynnig yng nghanol y dref yn adlewyrchu canol tref sy'n gwasanaethu cymuned fwy lleol. Mae hyn, ynghyd â'r heriau'n gysylltiedig â throsiant unedau adwerthu, a phroblemau o ran cyfraddau unedau gwag, yn golygu bod angen ailwerthuso eu statws blaenorol fel canol trefi lefel uwch. Mae canol trefi Rhydaman a Llanelli, y naill a'r llall, wedi denu ymyraethau sylweddol o ran adfywio, ac mae Tasgluoedd wedi cael eu sefydlu i wynebu rhai o'r heriau a welir yn y ddwy ganolfan. Cafodd

Gorchymyn Datblygu Lleol manwl hefyd ei greu ar gyfer canol tref Llanelli, sydd bellach wedi darfod. Mae Gorchmynion Datblygu Lleol pellach am amser cyfyngedig wedi'u mabwysiadu ar gyfer Canol Trefi Caerfyrddin a Rhydaman fel rhan o fentrau adfywio i helpu'r adferiad ar ôl Covid-19 ac i adfywio canol trefi. Bydd rôl y rhain yn y dyfodol a'r posibilrwydd o gael Gorchymyn Datblygu Lleol arall ar gyfer Canol Tref Llanelli arall yn cael eu hadolygu ymhellach er mwyn helpu i weithredu'r CDLl Diwygiedig hwn.

11.36 Yn sgil y ddynameg newidiol yn narpariaeth adwerthu'r naill ganolfan a'r llall ceir mwy o ffocws ar yr angen i'r hierarchaeth a'r polisïau adwerthu gynnig ymateb wedi'i ysgogi'n lleol i'w problemau. O ganlyniad i hyn, mae'r hierarchaeth wedi cael ei sefydlu gyda pholisïau priodol er mwyn caniatáu ar gyfer gwahanol fathau o gyd-destunau adwerthu a masnachol yn nhair Prif Ganolfan y Cynllun. Bydd y rhain yn caniatáu ymagwedd fwy hyblyg o ran y modd y bydd y canolfannau hyn yn datblygu yn y dyfodol.

11.37 Mae trefi llai neu drefi marchnad Castellnewydd Emlyn, Llandeilo a Sanclêr, er enghraifft, gyda'u dalgylchoedd llai fel arfer yn bodloni anghenion lleol gyda rhywfaint o ddarpariaeth arbenigol. Bydd pentrefi mwy yn aml yn ychwanegu at hyn, gan ddarparu eitemau hanfodol i fodloni anghenion o ddydd i ddydd. Bydd ystyriaeth wedi'i rhoi i oblygiadau cynigion ar gyfer siopau cyfleustra newydd y tu allan i'r canolfannau Lefel Uwch, Lefel Ganolig a Lefel Is a nodwyd (a ddiffinnir o fewn y Polisi) ar ganolfannau adwerthu diffiniedig o fewn awdurdodau cyfagos. Dylid cyflwyno asesiad cadarn o'r effaith ar adwerthu i gyd-fynd â chynigion a allai gael effaith andwyol.

11.38 Mae strategaeth adwerthu'r CDLl yn adlewyrchu egwyddorion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol datblygu cynaliadwy sy'n tanategu'r Cynllun. Y mae hefyd yn ceisio adlewyrchu natur newidiol adwerthu a'r angen i ganol trefi traddodiadol addasu i gyd-fynd â'r newidiadau hynny. Mae'r Strategaeth yn ceisio:

1. Gwarchod a gwella rôl canolfannau adwerthu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn atyniadol fel canol trefi, cyrchfannau siopa, masnachol a hamdden, a gwarchod darpariaeth adwerthu leol sydd wedi'i sefydlu yn y sir, yn ogystal â'r busnesau lleol sydd wrth wraidd y ddarpariaeth honno.] Yr her fydd cynnal eu cyfran o'r farchnad a sicrhau eu bod yn dal i allu cystadlu, gan ddeall anghenion pob canolfan a'i rôl a'i chyfraniad perthynol yn nhermau adwerthu;
2. Lleoli darpariaeth adwerthu a'i llywio tuag at fannau cynaliadwy sy'n hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus neu ar lwybrau teithio llesol er mwyn lleihau'r angen i deithio;

3. Mewn canolfannau lefel is llai, sicrhau bod gan gymunedau lleol fynediad rhesymol at ystod foddhaol o gyfleusterau a gwasanaethau stryd fawr, yn enwedig nwyddau cyfleustra (bwyd a hanfodion beunyddiol eraill); ac,
4. Yn y pentrefi mwy, cynnal hyfywedd siop y pentref a chyfleusterau lleol eraill.

11.39 Mae'r Astudiaeth Adwerthu Gyfredol (2022) ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn archwilio materion adwerthu, hamdden a chanol trefi ar draws y Sir, ac yn asesu'r capasiti ar gyfer twf ar draws y sectorau adwerthu, bwyd/diod a hamdden masnachol. Caiff ei llunio er mwyn darparu tystiolaeth yn gysylltiedig â ffurfio polisi, ac i fod yn sail ar gyfer pennu hierarchaeth adwerthu ar gyfer ardal y Cynllun er mwyn llywio penderfyniadau, fel sy'n ofynnol ym Mholisi Cynllunio Cymru. O ganlyniad i hynny, defnyddir yr egwyddor "canol trefi yn gyntaf" ar y cyd â dull dilyniannol o ddewis safleoedd i hyrwyddo canol trefi fel prif leoliadau cyfleusterau adwerthu, swyddfa, hamdden ac iechyd newydd. Nod hynny fydd creu mwy o resymau pam y dylai pobl ymweld â'r canolfannau, a chynnydd wedyn mewn gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd a fydd yn cynnal eu hyfywedd.

11.40 Gan ganiatáu amrywio o fewn yr hierarchaeth, bydd disgwyl i adwerthu barhau fel y prif weithgarwch ym mhob un o'r tair canolfan is-ranbarthol a chanolig. Fodd bynnag, nid yw hyn ond un o'r ffactorau a fydd yn cyfrannu at eu llesiant. Ni ellir gwahanu polisïau adwerthu oddi wrth swyddogaethau ehangach y trefi mwy fel canolfannau ar gyfer gwasanaethau a chyfleusterau eraill, gan gynnwys sefydliadau bwyd a diod (caffis, bwytai, tafarndai ac ati) a datblygiadau hamdden masnachol. Mae'r asesiad o anghenion adwerthu, bwyd/diod a hamdden yn yr Astudiaeth Adwerthu Gyfredol yn awgrymu y gallai fod yna rywfaint o le ar gyfer datblygiadau adwerthu yn y dyfodol ac y dylai unrhyw dwf a ragwelir geisio ail-lenwi gofod llawr gwag o fewn canol trefi lle bo modd. Fodd bynnag, mae yna botensial i wella'r sectorau bwyd/diod a hamdden masnachol. Mae'r defnyddiau amrywiol hyn mewn yng nghanol trefi o gymorth i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hyfyw ac - yn enwedig o ran defnyddiau hamdden a phreswyl - yn cyfrannu at fywiogrwydd economi lwyddiannus yn y nos, ac at eu rôl fel canol trefi byw.

11.41 Mae'r CDLl Diwygiedig yn ceisio cael cydbwysedd rhwng diogelu cymeriad adwerthu cyffredinol canol y trefi a darparu ar gyfer amrywiaeth briodol o ddefnyddiau sy'n adlewyrchu eu safle o fewn yr hierarchaeth. Wrth wneud hynny, cydnabyddir bod eu cymeriad a'i hunaniaeth yn cael ei ategu gan bresenoldeb masnachwyr annibynnol sy'n draddodiadol yn gweithredu o'r strydoedd mwy ymylol ac mewn lleoliadau ac y gall hynny fod yn agored i gystadleuaeth. Fodd bynnag, cydnabyddir bod arallgyfeirio yn ei gwneud hi'n bosibl i ychwanegu defnyddiau eraill economaidd a buddiol sy'n ategu'r darpariaeth

adwerthu, ac i gynnal adeiladwaith ac ymddangosiad strydoedd ac adeiladau a fyddai fel arall mewn perygl o ddirywio.

11.42 Mae'r potensial am arallgyfeirio priodol o fewn canol y trefi a alluogir drwy'r polisi hwn, yn cydnabod eu cyfraniad at gynyddu eu hapêl yn gyffredinol. Gall cyflwyno darpariaeth adwerthu, hamdden a busnes ategol ac ati gyfrannu at apêl ehangach. Serch hynny, mae'r polisi'n cydnabod pwysigrwydd cael elfen adwerthu gref, ac yn ceisio cynnal bywiogrwydd a hyfywedd darpariaeth adwerthu'r trefi.

11.43 Bydd darpariaeth y tu allan i'r canolfannau is-ranbarthol a chanolig, gan gynnwys siopau pentref lleol, yn gwneud cyfraniad pwysig at swyddogaeth adwerthu Sir Gaerfyrddin. Yn hyn o beth, mae'r canolfannau hynny sy'n bodloni angen am ddarpariaeth adwerthu gyfleus a mân anghenion siopa o ddydd i ddydd yn creu amrywiaeth sy'n gyson â'r amcanion o gynnal cymunedau a lleihau'r angen i deithio hyd yr eithaf. Gall yr aneddiadau hyn a'u cynnig adwerthu ategu swyddogaeth adwerthu aneddiadau sydd yn uwch i fyny'r hierarchaeth a chyfrannu hefyd at weithredu Strategaeth y Cynllun. Gall fod yn ofynnol i gynigion adwerthu cyfleustra y tu allan i ffiniau canol y dref mewn canolfannau o'r fath ddangos tystiolaeth briodol o'r angen am ddarpariaeth adwerthu er mwyn sicrhau nad ydynt yn tanseilio'r gweithgarwch adwerthu yng nghanol y trefi.

11.44 Mae polisïau'r CDLl hefyd yn ceisio sicrhau bod datblygiadau adwerthu, datblygiadau nad ydynt yn rhai adwerthu a datblygiadau hamdden wedi'u lleoli yn y lleoliadau mwyaf priodol. Fel arfer, bydd y lleoliadau mwyaf priodol mewn canolfannau presennol, sy'n hygyrch drwy amrywiaeth o fathau o drafnidiaeth, a gallant hyrwyddo teithiau cysylltiedig i ddefnyddiau eraill yn y ganolfan. Bydd yn ofynnol i ddatblygwyr chwilio'n fanwl am safleoedd mewn canolfannau cyn ystyried safleoedd mewn ardaloedd llai canolog.

11.45 Ceir arweiniad pellach o ran y polisi cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 - Pennod 4 Lleoedd Actif a Chymdeithasol ac yn TAN4 Adwerthu a Chanol Trefi.

11.46 Nid yw Canol Trefi bob amser yn gallu cynnwys siopau adwerthu neilltuol neu ddefnyddiau canol tref eraill fel nwyddau swmpus, gan fod angen safleoedd ac adeiladau mawr ac oherwydd y goblygiadau o ran creu traffig a pharcio. O ganlyniad, caniatawyd lleoliadau y tu allan i ganol y dref ar gyfer safleoedd gwerthu o'r fath, yn unol â chanllawiau cenedlaethol, naill ai ar ffurf unedau unigol neu gyda'i gilydd mewn parciau adwerthu. Os yw'r pwysau am safleoedd gwerthu o'r fath yn parhau, yna mae'r CDLl Diwygiedig yn ceisio

ymdrin â pharciau adwerthu ac yn diffinio'r meini prawf y dylid eu cymhwyso i ddatblygiadau arfaethedig. Yn hyn o beth, mae'r polisïau yn gysylltiedig â pharciau adwerthu yn hyrwyddo cydleoli cyfleusterau adwerthu priodol a lleihau casgliadau ar wahân o gyrchfannau adwerthu o fewn y Sir, ar yr amod bod y profion o'r angen, profion o'r effaith a phrofion dilyniannol yn cael eu bodloni. Mae strategaeth o'r fath yn fwy cynaliadwy o ran trafnidiaeth, a bydd yn galluogi busnesau adwerthu i elwa ar apêl cydleoli darpariaeth.

11.47 Mae'r Cynllun yn cydnabod nad yw lleoliadau mewn canol trefi o bosibl yn addas i gynnwys rhai mathau o gyfleusterau adwerthu a hamdden, ac y gall Canolfannau Rhanbarthol (Parciau Adwerthu) gyfrannu at fodloni'r angen hwn. Fodd bynnag ni ddylai graffa, natur na lleoliad datblygiad adwerthu danseilio apêl, bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi presennol.

11.48 Dylid mabwysiadu dull dilyniannol sy'n golygu y dylid ffafrio lleoliadau mewn canol trefi presennol i ddechrau, fel y cânt eu rhestru yn yr hierarchaeth adwerthu ac, ar ôl hynny safleoedd sy'n union am y ffin â chanol trefi. Os nad oes safleoedd addas ar gael yn y lleoliadau hyn, dim ond wedyn y ceir ystyried datblygu mewn lleoliadau ar ymyl canol y dref, ac yn dilyn hynny'r canolfannau rhanbarthol presennol (parciau adwerthu) a ganlyn ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

11.49 Canolfannau Rhanbarthol: (Parciau Adwerthu)

- Ffordd Steffan a Pharc Pensarn, Caerfyrddin;
- Parc Trostre a Pharc Pemberton, Llanelli;
- Parc Adwerthu Cross Hands.
- Parc Adwerthu Maes Yr Eithin, Cross Hands

11.50 Mae Caerfyrddin a Llanelli yn cynnwys darpariaeth adwerthu sylweddol ar barciau adwerthu y tu allan i'r canol trefi perthynol. Prif barciau adwerthu Caerfyrddin yw Heol Steffan a Pharc Pensarn, sy'n cynnwys safleoedd gwerthu amrywiaeth o nwyddau swmpus a nwyddau eraill.

11.51 Parc Trostre a Pharc Pemberton sy'n gwasanaethu Llanelli, ac mae Parc Trostre yn cynnwys nifer fawr o unedau wedi'u meddiannu'n bennaf gan siopau sy'n lluosogi'r stryd fawr. I'r gwrthwyneb, ffocws pennaf Parc Pemberton yw DIY, nwyddau trydanol a dodrefn, sy'n adlewyrchu cyfyngiad ar nwyddau swmpus nad yw'n weithredol ym Mharc Trostre.

11.52 Er bod y parc adwerthu yn Cross Hands yn llai na pharciau Caerfyrddin a Llanelli, mae'n cyflawni rôl bwysig drwy ategu'r ddarpariaeth canol tref yn Rhydaman, drwy gynnig nwyddau DIY, trydanol a dodrefn yn bennaf.

11.53 Lle cynigir datblygiad adwerthu y tu allan i ffiniau canol y dref, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno asesiad effaith i ddangos na fyddai'r cynnig yn niweidio canol trefi sefydledig. Dylai'r asesiad hefyd ystyried effeithiau cronnus datblygiadau a gwblhawyd yn ddiweddar â safleoedd lle bo caniatâd cynllunio yn dal yn weithredol. Dylai'r asesiad amlinellu'r math o ddarpariaeth adwerthu a gynigir gan yr ymgeisydd, a'r modd y gallai hyn effeithio ar ddarpariaeth adwerthu sy'n cystadlu mewn canol trefi cyfagos, ac a allai arwain at wyro masnach o ganol y dref.

11.54 Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 yn rhoi cydnabyddiaeth benodol i rôl siopau lleol, siopau pentref a thafarndai mewn cymunedau a'r effaith bosibl yn sgil eu colli. O ganlyniad i hynny, dylid cyfeirio at bolisi RTC2 isod.

11.55 Dylid ystyried cynigion am weithgarwch adwerthu yn ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin yn unol â pholisi RTC2.

## RTC1: Diogelu siopau a chyfleusterau lleol

**Ni fydd cynigion a fyddai'n arwain at golli siop, gwasanaeth neu gyfleuster cymunedol lleol (gan gynnwys Tafarndai) y tu allan i Ganol Trefi a nodwyd ym Mholisi Strategol SP2 ond yn cael eu caniatáu yn yr achosion a ganlyn:**

- **a) Pe na bai'r golled honno'n niweidio ffabrig cymdeithasol ac economaidd y gymuned;**
- **b) Os oes siop neu wasanaeth o ddefnydd cydnaws tebyg ar gael i gwsmeriaid o fewn yr anheddiad neu o fewn pellter cerdded cyfleus.**

**Os na cheir darpariaeth arall, ni chaiff cynigion a fydd yn arwain at golli siop neu wasanaeth lleol ond eu caniatáu os yw pob ymdrech resymol i werthu neu osod y busnes dros gyfnod o 12 mis wedi methu.**

11.56 Wrth geisio diffinio a chreu cymunedau cynaliadwy, mae'r Cynllun yn nodi ac yn cydnabod cyfraniad gwasanaethau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau fel siopau, swyddfeydd post, tafarndai, gorsafoedd petrol, a fydd yn cyfrannu at hyfywedd aneddiadau a chymunedau yn y dyfodol, o ran darparu gwasanaeth ond hefyd drwy gynnig 'mannau cyfarfod' lle gall y gymuned ryngweithio a lle gellir cynyddu'r ymdeimlad o gymuned. Ar ben

hynny, mae'r CDLl yn cefnogi darpariaeth adwerthu leol a'r budd economaidd a ddaw yn ei sgil yn y cymunedau.

11.57 Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol os ceir dibyniaeth gref arnynt yn lleol. Mae gwasanaethau o'r fath yn hollbwysig i sicrhau llesiant economaidd cymunedau a hefyd yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, yn enwedig ymhlith aelodau llai symudol y gymuned.

11.58 Cydnabyddir mai'r aneddiadau gwledig yw'r rhai sydd yn fwyaf agored i golli'r cyfleusterau hynny. Bydd ffactorau fel y galw am dir preswyl a gwerth uchel tir preswyl mewn ardaloedd gwledig yn aml yn arwain at bwysau gan berchnogion eiddo i newid neu ailddatblygu'r cyfleusterau hynny i ddibenion preswyl, hyd yn oed lle bo busnes yn ffynnu. Gall yr incwm o siop neu weithgarwch arall fod yn llai na'r hyn y gellir ei ennill o fath arall o ddatblygiad. Mae'r polisi hwn yn ceisio cymedroli'r pwysau i newid drwy sicrhau na chaniateir colli siop neu gyfleuster os yw'n ddichonadwy a bod lefel y rhent yn briodol, onid oes cyfleusterau eraill rhesymol ar gael.

11.59 Er bod y polisi yn ceisio gwarchod rhag colli cyfleusterau, ceir darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau hynny lle gellir dangos nad oes angen y cyfleusterau hynny mwyach, neu lle nad ydynt yn ddichonadwy.

11.60 I dibenion y polisi hwn, mae pellter cerdded yn unol â'r hyn a nodir yn y Llawlyfr Strydoedd: Yr Adran Drafnidiaeth/Cymunedau a Llywodraeth Leol/Llywodraeth Cynulliad Cymru - 2007[48]. Nodir yn y Llawlyfr mai'r hyn sydd fel arfer yn nodweddu cymdogaethau cerddadwy yw ystod o gyfleusterau o fewn 10 munud (hyd at tua 800m) o bellter cerdded o ardaloedd preswyl, y gall preswylwyr eu cyrraedd yn rhwydd ar droed.

11.61 Gellir diffinio marchnata eiddo i ddibenion y polisi hwn fel hysbysebu mewn cyhoeddiad o fewn y diwydiant priodol neu, lle bo'n briodol, drwy werthwyr tai lleol am gyfnod rhesymol o amser ac am bris rhesymol.

## RTC2: Adwerthu mewn Ardaloedd Gwledig

**Caniateir cynigion am siopau graddfa fach ategol neu estyniadau ar siopau presennol y tu allan i ffiniau datblygu os ydynt yn cydymffurfio â'r canlynol:**

[48] Llawlyfr Strydoedd: Paragraff 4.4
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/341513/pdfmanforstreets.pdf

**a) Os ydynt yn cynrychioli elfen sy'n israddol i weithgarwch busnes presennol ar y safle;**
**b) Os na fyddant yn niweidio hyfywedd siopau pentref cyfagos i raddau sylweddol;**
**c) Os na fyddant yn cael effaith andwyol ar gymeriad, gosodiad ac ymddangosiad yr ardal a'r dirwedd a, lle bo'n briodol, y dreflun, gyfagos;**
**d) Os ydynt yn hygyrch drwy ddulliau teithio cynaliadwy; a,**
**e) Os yw'r trefniadau mynediad a pharcio yn dderbyniol ac na fydd y datblygiad yn amharu ar ddiogelwch priffyrdd i raddau sylweddol.**

11.62 Yn aml gall cynigion am siopau newydd mewn ardaloedd gwledig sy'n ychwanegol at ddefnyddiau eraill wneud cyfraniad pwysig i'r economi wledig. Bydd darpariaeth o'r fath, boed hynny ar ffurf siopau fferm (a fydd o gymorth i fodloni'r galw am gynnyrch ffres), siopau crefft a siopau'n gysylltiedig â gorsafoedd petrol, nid yn unig yn bodloni gofynion lleol ond hefyd yn ffynhonnell i greu swyddi.

11.63 Er bod potensial i'r ddarpariaeth honno wasanaethu cymunedau gwledig, mae'n rhaid iddi adlewyrchu ei chyd-destun gwledig. Yn hynny o beth, dylai'r siop fod yn gysylltiedig â busnes presennol ac yn israddol i'r busnes hwnnw, ac ni ddylai fod â mwy na 200 metr sgwâr gros o ofod llawr.

11.64 Cydnabyddir y gall siopau mewn ardaloedd gwledig greu cyfleoedd am swyddi ychwanegol a chefnogi arallgyfeirio economaidd yng nghefn gwlad yn ogystal â darparu gwasanaeth i gymunedau lleol.

11.65 Caiff y Cyngor geisio defnyddio amodau cynllunio i gyfyngu ar ystod y nwyddau a werthir neu i gyfyngu ar yr arwynebedd llawr lle bo'n briodol, er mwyn atal unrhyw niwed sylweddol i weithgarwch adwerthu cyfagos. Yn ogystal â hyn, bydd yn rhaid ystyried y potensial i'r cynnig weithredu ar sail dymhorol os nad yw'n ddymunol iddo weithredu drwy gydol y flwyddyn.

11.66 Fel y nodwyd, gall siopau sy'n ategol i ddefnyddiau eraill, fel siopau fferm a fydd o gymorth i ateb y galw am gynnyrch ffres, siopau crefft a siopau'n gysylltiedig â gorsafoedd petrol, chwarae rôl bwysig mewn ardaloedd gwledig drwy ddarparu ffynonellau newydd ar gyfer swyddi a gwasanaethau. Fodd bynnag, wrth asesu'r cynigion hynny bydd yn rhaid ystyried yr effaith bosibl ar ganolfannau adwerthu a masnachol cyfagos, ac yn enwedig ar siopau pentref[49]. Ystyrir defnyddio amodau cynllunio i gyfyngu ar ystod y nwyddau a werthir neu gyfyngu ar arwynebedd y llawr os yw hynny'n galluogi bwrw ymlaen â'r datblygiad.

---

[49] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11

## Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i bobl a lleoedd yn ardaloedd trefol a gwledig ein sir.

11.67 Cydnabyddir y problemau economaidd gymdeithasol gan gynnwys tlodi ac amddifadedd yn wynebu rhannau gwledig a threfol ein Sir yng ngweledigaeth "Un Sir Gâr" y Cynllun hwn. I'r perwyl hwn, mae'r Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau hyn drwy sicrhau bod pawb yn cael cymaint o gyfle ag sy'n bosibl i gynnal neu gynyddu eu ffyniant a'u hymdeimlad o lesiant.

11.68 Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys darparu ar gyfer tai newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy, a swyddi, yn ogystal â llywio buddsoddiad newydd a blaenoriaethau o ran seilwaith, gan barchu ffabrig cymdeithasol y Sir ar yr un pryd, gan gynnwys y Gymraeg, diwylliant Cymreig a'i naws am le.

11.69 Cydnabyddir bod y themâu a'r polisïau a ddyrennir iddynt yn gorgyffwrdd â'i gilydd, ond nodwyd y canlynol o dan y thema hon:

- **Polisi Strategol – SP3:** Dosbarthu Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau
- **Polisi Strategol – SP 4:** Darparu Tai Newydd
- **Polisi Strategol – SP 5:** Tai Fforddiadwy
- **Polisi Strategol – SP 6:** Safleoedd Strategol
- **Polisi Strategol – SP 7:** Cyflogaeth a'r Economi
- **Polisi Strategol – SP 8:** Y Gymraeg a Diwylliant Cymru
- **Polisi Strategol – SP 9:** Seilwaith
- **Polisi Strategol – SP 10:** Darpariaeth i Sipsiwn a Theithwyr
- **Polisi Strategol – SP 11:** Yr Economi Ymwelwyr
- **Polisi Strategol – SP 12:** Gwneud Lle, Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Uchel

11.70 Mae'r polisïau a ganlyn yn ceisio cefnogi cyflawniad amcanion strategol y Cynllun, ond hefyd yn creu cysylltiadau lefel uchel ac yn sicrhau y cydymffurfir yn fras â'r Nodau Llesiant.

## Polisi Strategol – SP 3: Dosbarthu Cynaliadwy – Fframwaith Anheddu

**Bydd y ddarpariaeth o dwf a datblygiad yn cael ei chyfeirio at leoliadau cynaliadwy yn unol â'r fframwaith gofodol canlynol.**

| | Clwstwr 1 | Clwstwr 2 | Clwstwr 3 | Clwstwr 4 | Clwstwr 5 | Clwstwr 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Haen 1 – Prif Ganolfan** | Caerfyrddin | ▪ Llanelli | ▪ Rhydaman/ Cross Hands | | | |
| **Haen 2 – Canolfan Gwasanaethau** | ▪ Pont-iets/ Meinciau/ Pont-henri<br>▪ Glanyfferi | ▪ Cydweli<br>▪ Porth Tywyn<br>▪ Pen-bre<br>▪ Yr Hendy / Fforest<br>▪ Llangennech<br>▪ Trimsaran/<br>▪ Carwe | • Brynaman<br>• Glanaman / Y Garnant<br>• Pontyberem / Bancffosfelen | ▪ Castellnewydd Emlyn<br>▪ Llanybydder<br>▪ Pencader | ▪ Llanymddyfri<br>▪ Llandeilo / Rhos-maen / Ffair-fach<br>▪ Llangadog | ▪ Sanclêr / Pwll-trap<br>▪ Hendy-gwyn ar Daf<br>▪ Talacharn |
| **Haen 3 – Pentrefi Cynaliadwy** | ▪ Cynwyl Elfed<br>▪ Llan-y-bri<br>▪ Llansteffan<br>▪ Bronwydd<br>▪ Cwmdwyfran<br>▪ Cwm-ffrwd<br>▪ Llangyndeyrn<br>▪ Brechfa<br>▪ Llan-gain<br>▪ Idole / Pentre-poeth<br>▪ Peniel<br>▪ Alltwalis<br>▪ Llanpumsaint<br>▪ Llandyfaelog<br>▪ Rhydargaeau<br>▪ Llanarthne<br>▪ Capel Dewi<br>▪ Nantgaredig<br>▪ Pont-ar-gothi<br>▪ Llanddarog<br>▪ Porth-y-rhyd<br>▪ Cwmduad | ▪ Mynyddygarreg<br>▪ Pum-hewl / Horeb<br>▪ Llan-saint / Broadway | ▪ Carmel<br>▪ Cwmgwili<br>▪ Foelgastell<br>▪ Ystradowen<br>▪ Llannon<br>▪ Llanedi | ▪ Dre-fach / Felindre<br>▪ Waungilwen<br>▪ Llangeler<br>▪ Pentre-cwrt<br>▪ Saron/Rhos<br>▪ Llanllwni<br>▪ Cwm-ann<br>▪ Capel Iwan<br>▪ Llanfihangel-ar-arth<br>▪ Tre-lech<br>▪ Pontyweli<br>▪ Cenarth<br>▪ New Inn | ▪ Caio<br>▪ Ffarmers<br>▪ Llansawel<br>▪ Talyllychau<br>▪ Cwrt-henri<br>▪ Llanfynydd<br>▪ Llanwrda<br>▪ Cwmifor<br>▪ Salem<br>▪ Abergorlech | ▪ Llanboidy<br>▪ Glandy Cross<br>▪ Efail-wen<br>▪ Llangynin<br>▪ Meidrim<br>▪ Bancyfelin<br>▪ Llangynog<br>▪ Pentywyn<br>▪ Llanddowror<br>▪ Llanmilo |

| | Clwstwr 1 | Clwstwr 2 | Clwstwr 3 | Clwstwr 4 | Clwstwr 5 | Clwstwr 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Haen 4 – Pentrefi Gwledig (Dim terfynau datblygu)** | ▪ Hermon<br>▪ Aber-nant<br>▪ Blaen-y-coed<br>▪ Bancycapel<br>▪ Nant-y-caws<br>▪ Croesyceiliog<br>▪ Crwbin<br>▪ Felin-gwm Uchaf<br>▪ Felin-gwm Isaf<br>▪ Llanegwad<br>▪ Pontantwn<br>▪ Nebo<br>▪ Talog<br>▪ Pen-y-bont<br>▪ Felin-wen<br>▪ Pontnewydd<br>▪ Pont-ar-sais | ▪ Cynheidre<br>▪ Pedair-hewl<br>▪ Pen-y-mynydd | ▪ Capel Seion<br>▪ Derwydd<br>▪ Heol Ddu<br>▪ Maes-y-bont<br>▪ Milo<br>▪ Pant-llyn<br>▪ Pentregwenlais<br>▪ Temple Bar<br>▪ Cefn-bryn-brain<br>▪ Rhosaman<br>▪ Dre-fach (Llandyfan)<br>▪ Stag and Pheasant<br>▪ Mynyddcerrig | ▪ Pen-boyr<br>▪ Drefelin<br>▪ Cwm-pen-graig<br>▪ Cwmhiraeth<br>▪ Pentrecagal<br>▪ Gwyddgrug<br>▪ Dolgran<br>▪ Banc-y-ffordd<br>▪ Bryn Iwan<br>▪ Pencarreg | ▪ Ffaldybrenin<br>▪ Crug-y-bar<br>▪ Cwm-du<br>▪ Ashfield Row<br>▪ Felindre (Llangadog)<br>▪ Cynghordy<br>▪ Llwyn Aur<br>▪ Derwen-fawr<br>▪ Trap<br>▪ Maenordeilo<br>▪ Pen-y-banc<br>▪ Felindre, (Dryslwyn)<br>▪ Dryslwyn<br>▪ Rhydcymerau<br>▪ Waun Ystrad Meurig<br>▪ Bethlehem<br>▪ Capel Isaac<br>▪ Llangathen<br>▪ Llansadwrn<br>▪ Rhandir-mwyn<br>▪ Porth-y-rhyd<br>▪ Pumsaint<br>▪ Cil-y-cwm | ▪ Cwmfelinmynach<br>▪ Cwm-bach<br>▪ Blaen-waun<br>▪ Llanglydwen<br>▪ Cwmfelin-boeth<br>▪ Cross Inn<br>▪ Llansadyrnin<br>▪ Broadway<br>▪ Rhos-goch<br>▪ Llanfallteg |

*Tabl 11: Hierarchaeth Aneddiadau*

11.71 Mae'r Cynllun yn ceisio dosbarthu twf a datblygu yn ofodol ar draws y sir, gan ddyrannu aneddiadau i un o 6 chlwstwr yn yr hierarchaeth. Mae'r dull sy'n seiliedig ar glystyrau yn hyblyg wrth ddosrannu twf newydd ac mae'n osgoi unrhyw dybiaeth bod yn rhaid i bob anheddiad ym mhob haen gyfrannu at dwf. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i aneddiadau sy'n croesi ffiniau, a sut maent yn effeithio ar rôl a swyddogaeth aneddiadau ffiniol Sir Gaerfyrddin. Mae'r rhain yn cynnwys: Pontarddulais, Llanbedr Pont Steffan, Adpar, Arberth a Llandysul. Cyfeirir at y sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â dosbarthiad tai.

11.72 Er y bydd y rhan fwyaf o'r datblygiadau'n cael eu cyfeirio at haenau uchaf yr hierarchaeth aneddiadau, cydnabyddir amrywiaeth y Sir a rhoddir ystyriaeth i dai mewn ardaloedd gwledig a gwerth ardaloedd o'r fath i'r Sir. O fewn pentrefi gwledig (Haen 4) ac aneddiadau heb eu diffinio, bydd datblygiadau tai newydd yn gyfyngedig i gyfleoedd ar raddfa fach. Cyfeirir at Bolisi HOM3 a HOM4 o'r Cynllun hwn.

11.73 Er bod yr uchod yn cyfeirio'n benodol at dwf preswyl, bydd y fframwaith aneddiadau, ar y cyd â pholisïau penodol, hefyd yn arwain y gwaith o ystyried lleoliadau cynaliadwy priodol - gyda mynediad at wasanaethau a chyfleusterau - a maint datblygiadau eraill (gan gynnwys cyflogaeth).

11.74 Mae'r canlynol yn rhoi amlinelliad dangosol o natur y datblygiadau sy'n debygol fesul haen, gan gynnwys eu maint a'u math.

### Prif Ganolfannau

Safleoedd Strategol
Ardaloedd cyflogaeth mawr a bach
Dyraniadau tai
Safleoedd tai bach (llai na 5 cartref);
Darpariaeth Tai Fforddiadwy ar safleoedd sy'n cynnwys 5 neu fwy o unedau
Cyfleoedd tai ar hap-safleoedd

### Canolfannau Gwasanaeth:

Ardaloedd Cyflogaeth Graddfa Fach
Dyraniadau Tai
Darpariaeth Tai Fforddiadwy ar safleoedd sy'n cynnwys 5 neu fwy o unedau
Safleoedd tai bach (llai na 5 cartref);
Cyfleoedd tai ar hap-safleoedd

### Pentrefi Cynaliadwy:

Dyraniadau Tai
Tai fforddiadwy ar safleoedd tai sy'n cynnwys 5 neu fwy o unedau.
Safleoedd tai bach (llai na 5 cartref);
Cyfleoedd tai ar hap-safleoedd

Cynlluniau Eithriedig Gwledig Graddfa Fach ar gyfer Tai Fforddiadwy sy'n ffinio ag anheddiad

**Pentrefi Gwledig (dim terfynau datblygu):**

Safleoedd bach - tai ar safleoedd mewnlenwi neu estyniadau/rowndio
Cynlluniau Eithriadau Gwledig Bach ar gyfer tai fforddiadwy

**Aneddiadau Gwledig heb eu Diffinio:**

Tai i ddiwallu anghenion lleol a Chynlluniau Eithriadau Gwledig Bach ar gyfer tai fforddiadwy.

## SD1: Terfynau Datblygu

**Caiff Terfynau Datblygu eu diffinio ar gyfer yr aneddiadau hynny sy'n cael eu nodi fel Prif Ganolfannau, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Cynaliadwy o fewn Polisi Strategol SP3.**

**Bydd cynigion o fewn Terfynau Datblygu a ddiffinnir yn cael eu caniatáu, yn amodol ar bolisïau a chynigion y Cynllun hwn, polisïau cenedlaethol ac ystyriaethau cynllunio eraill perthnasol.**

11.75 Wrth baratoi'r Cynllun hwn, mae terfynau datblygu wedi'u diffinio ar draws yr holl aneddiadau o fewn Haenau 1, 2, a 3, er mwyn:

- Atal datblygu amhriodol yng nghefn gwlad a rhoi sicrwydd ac eglurder ynghylch lle y gellir ystyried bod cynigion eithriadau (yn gyfagos i derfynau) yn briodol;
- Atal cyfuno aneddiadau (neu rannau ar wahân o'r un anheddiad), datblygiad hirgul annerbyniol neu ddatblygiad tameidiog.
- Nodi'r ardaloedd hynny lle byddai cynigion datblygu yn cael eu caniatáu (gweler uchod); a
- Hyrwyddo defnydd effeithiol a phriodol o dir sy'n canolbwyntio twf o fewn aneddiadau diffiniedig.

11.76 Nid yw pob tir ar Fap Cynigion a Mapiau Mewnosod wedi ei nodi ar gyfer datblygiad penodol, nac yn destun polisi penodol. Gall ardaloedd sylweddol o dir ymddangos fel tir heb ei anodi yn y Cynllun. Bydd cynigion datblygu yn cael eu hystyried ar sail eu rhinweddau unigol yn erbyn darpariaethau'r CDLl hwn, ac ystyriaethau perthnasol eraill.

## Polisi Strategol – SP4: Dull Cynaliadwy o Ddarparu Cartrefi Newydd

**Er mwyn sicrhau bod y gofyniad tai cyffredinol o 8,822 o dai dros gyfnod y cynllun yn cael ei fodloni, darperir ar gyfer 9,704 o dai newydd yn unol â'r fframwaith aneddiadau er mwyn hyrwyddo creu a gwella cymunedau cynaliadwy.**

**Mae'r dull cynaliadwy o ddarparu tai newydd yn adlewyrchu'r egwyddorion a ganlyn:**

- **a) Creu lleoedd drwy'r fframwaith aneddiadau a nodwyd gan adlewyrchu cymeriad a chyd-destun y clwstwr neu'r anheddiad dan sylw;**
- **b) Dyrannu safleoedd ar gyfer tai newydd mewn aneddiadau sefydledig;**
- **c) Cefnogi datblygiadau preswyl ar hap-safleoedd priodol o fewn aneddiadau, gyda ffocws ar ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen;**
- **d) Darparu cyfleoedd am dai fforddiadwy er mwyn bodloni angen a nodwyd yn lleol.**

**Caniateir cynigion o fewn y ffiniau datblygu diffiniedig yn amodol ar bolisïau a chynigion y Cynllun hwn. Ceir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau tai amhriodol y tu allan i'r ffiniau diffiniedig onid ydynt yn ddarostyngedig i bolisïau eraill y Cynllun hwn.**

11.77 Nod y Cynllun yw hwyluso'r gwaith o ddarparu'r nifer a'r dewis o dai newydd sy'n ofynnol. Bydd y rhain yn bodloni'r anghenion am dai a nodwyd ac yn hyrwyddo cymunedau cydlynus sydd yn ddeniadol, yn hygyrch, yn ddiogel, wedi'u cysylltu'n dda ac yn cynnig mynediad at gyfleusterau diwylliannol a hamdden, gwasanaethau cymunedol a chyfleoedd am gyflogaeth.

11.78 Cafodd Strategaeth y Cynllun a'i dull cynaliadwy o ddarparu tai newydd ei seilio ar egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn gyson â nodau a dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pholisi cynllunio cenedlaethol[50]. Mae'n canolbwyntio ar fodloni anghenion tai ar draws cymunedau amrywiol y Sir mewn modd sy'n gynaliadwy, yn parchu rhinweddau amgylcheddol y Sir a'i nodweddion o safbwynt diwylliant a'r Gymraeg.

11.79 Mae'r Cynllun hwn yn cyfrifo nifer o gydrannau cyflenwi tai er mwyn bodloni'r angen am dai, ynghyd â hyblygrwydd (cynnydd) er mwyn sicrhau y bydd nod cyffredinol y polisi strategol i ddarparu tai newydd yn cael ei gyflawni. Mae'r cyflenwad tai yn cynnwys y cydrannau a ganlyn:

[50] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11

- Dyraniadau Tai (5+ cartref)
    - Ymrwymiadau banc tir
    - Anheddau wedi'u Cwblhau
- Darpariaeth ar gyfer hap-safleoedd
    - Cydran Safleoedd Bach (llai na 5 cartref)
    - Cydran ar Hap-safleoedd (5+ Cartref)
- Hyblygrwydd (+10%)

### Dyraniadau Tai

11.80 Cydran fwyaf y cyflenwad tai yw safleoedd a ddyrannwyd i'w datblygu'n breswyl. Caiff dyraniadau tai eu nodi mewn polisïau tai penodol neu eu cynnwys yn rhan o ddyraniadau defnydd cymysg.

11.81 Bydd y polisïau penodol yn ystyried y datblygiadau sydd wedi cael eu cychwyn neu yr ymrwymwyd iddynt ers dyddiad sylfaen y CDLl diwygiedig, a byddant yn cael eu monitro'n barhaus drwy'r Taflwybr Tai (Atodiad 7).

### Hap-safleoedd

11.82 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hap-safleoedd wedi'i seilio ar y ffactorau a ganlyn:

1. Cyfraniadau posibl o safleoedd sy'n cynnwys llai na phum annedd (safleoedd bach)
2. Lwfans annisgwyl trwy safleoedd o bum annedd neu fwy sydd yn draddodiadol wedi gwneud cyfraniad pwysig at gyflenwi tai yn Sir Gaerfyrddin.

11.83 Bydd datblygiadau ar hap-safleoedd yn cael eu hystyried ar sail eu rhinweddau unigol, ac yn erbyn polisïau a chynigion y Cynllun hwn. Cydnabyddir nad yw hi bob amser yn ymarferol nac yn briodol dyrannu pob safle i'w ddatblygu. Yn aml ceir safleoedd sy'n addas i'w datblygu nad ydynt wedi'u pennu fel dyraniadau, a bydd eu cyfraniad at y cyflenwad o dir ar gyfer tai wedi'i nodi drwy'r ddarpariaeth hap-safleoedd.

## HOM1: Dyraniadau Tai

**Dyrennir tir ar gyfer datblygiadau preswyl ar y safleoedd canlynol.** **(* yn dynodi safleoedd 100% fforddiadwy)**

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| **Clwstwr 1** | | | | | |
| **Caerfyrddin** | | | | | |
| PrC1/h2 | Heol Maesyffynnon | 29 | 8.7 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC1/h3 | *113 Heol y Prior | 37 | 37 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC1/h4 | Tir oddi ar Barc y Delyn | 17 | 1.7 | Blwyddyn 11-15 | |
| PrC1/h5 | I'r dwyrain o Lôn Devereaux | 10 | 5 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC1/h7 | Fferm Penybont, Heol Llysonnen | 9 | 0 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC1/h8 | *Heol Llansteffan | 50 | 50 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC1/h9 | Mounthill | 5 | 0 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC1/h10 | Brynhyfryd | 20 | 2.4 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC1/h11 | Estyniad Rhiw Babell | 12 | 0 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC1/h12 | Heol Castell Pigyn, Abergwili | 35 | 4.2 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| PrC1/h14 | Heol Bronwydd (de) | 44 | 2 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| PrC1/h15 | Gerllaw Tyle Teg, Ffordd Llysonnen | 7 | 2 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| PrC1/h16 | Rhiw Babell | 9 | 1.5 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC1/h17 | 4-5 Heol y Cei | 5 | 0 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC1/h18 | Castell Howell | 7 | 2.1 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC1/h19 | Tir gerllaw Ty Gwynfa | 10 | 10 | Blwyddyn 1-5 | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| PrC1/h20 | 5-8 Heol Spilman | 12 | 12 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC1/h21 | Clos Tawelan | 18 | 18 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC1/MU1 | Gorllewin Caerfyrddin | 700 | 84 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | 291 |
| PrC1/MU2 | Pibwr-lwyd | 247 | 61.75 | Blwyddyn 11-15 | |
| **Pont-iets / Y Meinciau / Pont-henri** | | | | | |
| SeC1/h1 | Heol Pisgwydd | 19 | 3.8 | Blwyddyn 6-10 | |
| SeC1/h3 | Tir yn ffinio â Chapel y Tabernacl | 11 | 1 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| SeC1/h4 | Cae Canfas, Heol Llanelli | 8 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10 | |
| SeC1/h5 | Tir yn 8 Heol Llanelli | 6 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10 | |
| SeC1/h6 | Tir oddi ar Heol Llanelli | 10 | 2 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SeC1/h7 | Tir oddi ar Heol Glyndwr | 9 | 2 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Glanyfferi** | | | | | |
| Sec2/h1 | Llys Caradog | 12 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| Sec2/h2 | Tir y tu ôl i Barc y Ffynnon | 12 | 1.2 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Cynwyl Elfed** | | | | | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| SuV1/h1 | Gerllaw Fron Heulog | 8 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SuV1/h2 | Tir ger Lleine | 13 | 1.3 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Llansteffan** | | | | | |
| SuV3/h1 | Tir y tu ôl i Faesgriffith | 16 | 5 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Bronwydd** | | | | | |
| SuV4/h1 | Tir ar fferm Troed Rhiw | 6 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10 | |
| **Cwm-ffrwd** | | | | | |
| SuV5/h1 | Tir ym Maesglasnant | 20 | 4 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| **Llan-gain** | | | | | |
| SuV8/h1 | I'r de o Ddôl y Dderwen | 36 | 10.8 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Peniel** | | | | | |
| SuV10/h1 | I'r de o Pentre | 9 | 1 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| SuV10/h2 | Aberdeuddwr/Pantyfedwen | 38 | 4.56 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Alltwalis** | | | | | |
| SuV11/h1 | *Tir yn Ysgol Alltwalis | 12 | 12 | Blwyddyn 6-10 | |
| Llanpumsaint | | | | | |
| SuV12/h1 | Ger Gwyn Villa | 20 | 2.4 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| SuV12/h2 | Llandre | 8 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Rhydargaeau** | | | | | |
| SuV14/h1 | Fferm Cefn | 36 | 3.7 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Llanarthne** | | | | | |
| SuV15/h1 | Ysgol Llanarthne | 8 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5 | |
| **Capel Dewi** | | | | | |
| SuV16/h1 | Heol Llwynddewi | 8 | Cyfraniadau Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| **Nantgaredig** | | | | | |
| SuV17/h1 | Cefn yr Hen Waith Saer, Heol yr Orsaf | 35 | 4.2 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Pontargothi** | | | | | |
| SuV18/h1 | Tir oddi ar yr A40, Pontargothi | 15 | 1 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Llanddarog** | | | | | |
| SuV19/h1 | Tir gyferbyn â Neuadd y Pentref | 16 | 3.2 | Blwyddyn 6-10 | |
| SuV19/h2 | Tir ger Haulfan a'r tu ôl i Haulfan | 10 | 1 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Porth-y-rhyd** | | | | | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| SuV20/h1 | Tir ger Fferm Llwynhenri | 6 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| | **Clwstwr 1 Cyfanswm** | **1690** | | | |
| **Clwstwr 2** | | | | | |
| **Llanelli** | | | | | |
| PrC2/h1 | Beech Grove, y Pwll | 10 | 1 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC2/h2 | Hen Labordy Lôn Pen y Fai | 13 | 2 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| PrC2/h3 | Parc y Strade | 94 | 0 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC2/h4 | Doc y Gogledd | 210 | 42 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| PrC2/h6 | 107 Heol yr Orsaf | 7 | 0 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC2/h7 | 13 Heol yr Orsaf | 9 | 0 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC2/h9 | *3-5 Heol Goring | 8 | 8 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC2/h10 | Tir ger The Dell, Ffwrnes | 13 | 1.3 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC2/h12 | *Llys yr Hen Felin, Canol y Dref | 26 | 26 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC2/h13 | *Tir oddi ar Rodfa Frondeg | 29 | 29 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC2/h14 | Cefn 22c, 22d a 22e Heol Llwynhendy | 6 | 0 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC2/h15 | Heol Maesarddafen / Erw Las, Llwynhendy | 94 | 18.8 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC2/h16 | Ynys Las, Llwynhendy | 33 | 6.6 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| PrC2/h18 | *Dylan, Trallwm | 32 | 32 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC2/h19 | Genwen, y Bryn | 240 | 48 | Blwyddyn 1-5 | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| PrC2/h20 | *Harddfan | 6 | 6 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC2/h21 | *Maes y Bryn, y Bryn | 34 | 34 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC2/h22 | Cwm y Nant, Dafen | 202 | 40.4 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| PrC2/h23 | Porth Dwyrain Dafen | 150 | 45 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC2/h24 | Clos Ffordd Fach | 13 | 0 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| PrC2/h25 | *Tir oddi ar Clos-y-Berllan | 20 | 20 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC2/h26 | Gerllaw Rhif 19 Heol Llwynhendy | 6 | 1 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC2/h27 | 42 Stryd Stepney | 8 | 0 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC2/h28 | Heol Y Graig, Llwynhendy | 5 | Cyfraniadau Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| PrC2/MU3 | Hen Adeilad yr YMCA, Stryd Stepney, Canol Tref Llanelli | 8 | 8 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC2/SS1 | Pentre Awel | 240 | 60 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Cydweli** | | | | | |
| SeC3/h2 | Tir oddi ar Stryd y Prior | 20 | 2.4 | Blwyddyn 11-15 | |
| SeC3/h3 | Llys Felin | 24 | 1.5 + Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| SeC3/h4 | Tir yn Dinas Yard gynt | 71 | 5 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Porth Tywyn** | | | | | |
| SeC4/h1 | Fferm Gwdig | 105 | 21 | Blwyddyn 1-5 | |
| SeC4/h2 | Harbwr Porth Tywyn | 364 | 72.8 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| SeC4/h3 | *Teras Glanmor | 32 | 32 | Blwyddyn 1-5 | |
| **Pen-bre** | | | | | |
| SeC5/h1 | *Garreglwyd | 14 | 14 | Blwyddyn 1-5 | |
| SeC5/h2 | Awel y Mynydd | 100 | 20 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| **Yr Hendy / Fforest** | | | | | |
| SeC6/h1 | Llwyngwern | 20 | 5 | Blwyddyn 1-5 | |
| SeC6/h2 | Tir rhwng Heol Clayton a Dwyrain Heol Bronallt | 20 | 2.2 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| SeC6/h3 | Coed y Bronallt | 6 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| SeC6/h4 | Ger Clos Benallt Fawr, Fforest | 35 | 4 | Blwyddyn 1-5 | |
| **Llangennech** | | | | | |
| SeC7/h1 | Box Farm | 7 | 1.4 | Blwyddyn 6-10 | |
| SeC7/h3 | Golwg yr Afon | 50 | 25 | Blwyddyn 6-10 | |
| SeC7/h4 | Gyferbyn â Pharc Morlais | 32 | 3.84 | Blwyddyn 6-10 | |
| SeC7/h5 | *Maesydderwen | 5 | 5 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Trimsaran / Carwe** | | | | | |
| SeC8/h1 | Ffos Las | 159 | 10 | Blwyddyn 1-5 | |
| SeC8/h2 | Cae Linda | 45 | 5.4 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SeC8/h3 | Golwg Gwendraeth | 141 | 14 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Mynyddygarreg** | | | | | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| SuV22/h1 | Gerddi Gwenllian | 25 | 5 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| SuV22/h2 | Tir ger Tŷ Newydd, Heol y Meinciau | 8 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Pump-hewl / Horeb** | | | | | |
| SuV23/h1 | Clos y Parc | 16 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5 | |
| SuV23/h2 | Ger Little Croft | 25 | 3 | Blwyddyn 11-15 | |
| | **Clwstwr 2 Cyfanswm** | **2840** | | | |
| **Clwstwr 3** | | | | | |
| **Rhydaman (gan gynnwys y Betws a Phen-y-banc)** | | | | | |
| PrC3/h1 | Tir y tu ôl i 16-20 a 24-30 Heol y Betws | 9 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 11-15 | |
| PrC3/h2 | Hen Orsaf Betrol, Stryd y Gwynt | 6 | 6 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC3/h3 | *Tir yng Ngwynfryn Fawr | 28 | 28 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC3/h4 | Fferm Tirychen | 150 | 37.5 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| PrC3/h5 | Yr Hen Felin, Heol Pontaman | 6 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC3/h6 | Tir sy'n ffinio â Maes Ifan, Ffordd Maescwarrau | 18 | 1.8 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| PrC3/h33 | Llys Dolgader | 9 | 0 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC3/h36 | Glofa'r Betws | 66 | 0 | Blwyddyn 11-15 | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| **Castell y Rhingyll** | | | | | |
| PrC3/h34 | Clos y Gât | 5 | 0 | Blwyddyn 1-5 | |
| **Cefneithin** | | | | | |
| PrC3/h8 | Tir oddi ar Heol y Parc | 18 | 1.8 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Cross Hands** | | | | | |
| PrC3/h9 | Tir ger Maesyrhaf | 5 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC3/h11 | *Ffordd y Neuadd a Clos yr Eithin | 60 | 60 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC3/h12 | Tir sy'n ffinio â'r A48 a Heol y Parc | 9 | 0 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC3/h13 | Tir ar Heol Cae Pownd | 135 | 4 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| **Dre-fach (Tymbl)** | | | | | |
| PrC3/h14 | *Nantydderwen | 33 | 33 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| PrC3/h15 | Tir oddi ar Heol Caegwyn | 7 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| PrC3/h16 | Uwch Gwendraeth | 6 | 1 | Blwyddyn 1-5 | |
| **Gors-las** | | | | | |
| PrC3/h18 | Tir yn ffinio â Brynlluan | 29 | 3.48 | Blwyddyn 11-15 | |
| **Llandybïe** | | | | | |
| PrC3/h19 | Tir oddi ar Lys y Nant | 9 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC3/h20 | Tir i'r gogledd o Faes Piode | 45 | 5.4 | Blwyddyn 6-10 | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| PrC3/h21 | *Maes Piode | 8 | 8 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC3/h37 | *Clos Felingoed | 24 | 24 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Pen-y-groes** | | | | | |
| PrC3/h22 | Ger Pant y Blodau | 79 | 8 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| PrC3/h23 | Tir ar Heol Waterloo | 13 | 0 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| PrC3/h24 | Tir rhwng 123 a 137 Heol Waterloo | 7 | 0 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC3/h25 | *Tir oddi ar Heol y Gât | 8 | 8 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC3/h35 | Clos Penpont | 9 | 0 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| PrC3/MU1 | Gwaith Brics Emlyn | 177 | 44.25 | Blwyddyn 11-15 | |
| **Saron** | | | | | |
| PrC3/h26 | Tir oddi ar Barc-y-Mynydd | 15 | 1.5 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| PrC3/h27 | Tir oddi ar Heol Nant-y-Ci | 18 | 1.8 | Blwyddyn 11-15 | |
| **Y Tymbl** | | | | | |
| PrC3/h28 | Tir ar safle Ffatri rhwng 22 a 28 Heol Bethesda | 30 | 3.6 | Blwyddyn 6-10 | |
| PrC3/h29 | Garej Central | 24 | 5 | Blwyddyn 1-5 | |
| **Tŷ-croes** | | | | | |
| PrC3/h31 | Tir yn Fforest-fach | 17 | 1 | Blwyddyn 1-5 | |
| PrC3/h32 | *Tir i'r de o Heol Tŷ-croes | 37 | 37 | Blwyddyn 1-5 | |
| **Brynaman** | | | | | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| SeC9/h2 | Heol y Gelynnen | 8 | 8 | Blwyddyn 11-15 | |
| **Glanaman / y Garnant** | | | | | |
| SeC10/h1 | Ysgol Gynradd Gymunedol y Garnant, Heol Ysgol Newydd | 12 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5 | |
| SeC10/h2 | Tir yn gyfagos ag 13 Heol yr Esgob | 8 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| **Pontyberem / Bancffosfelen** | | | | | |
| SeC11/h1 | Tir oddi ar Heol Llan-non | 15 | 1.5 | Blwyddyn 11-15 | |
| SeC11/h2 | Tir yn Ffynnon Fach | 19 | 2 | Blwyddyn 1-5 | |
| **Llan-non** | | | | | |
| SuV25/h1 | Tir i'r gogledd o Glos Rebecca | 47 | 3 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| **Llanedi** | | | | | |
| SuV26/h1 | Y tu ôl i 16 Y Garreg Lwyd | 11 | 1.1 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Carmel** | | | | | |
| SuV27/h1 | Tir ger Tŷ Newydd | 5 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10 | |
| **Cwmgwili** | | | | | |
| SuV28/h1 | Ger Coed y Cadno | 18 | 2 | Blwyddyn 1-5 | |
| **Ystradowen** | | | | | |
| SuV30/h1 | Tir oddi ar Bant y Brwyn | 5 | 5 | Blwyddyn 6-10 | |
| | | | | | |
| | **Clwstwr 3 Cyfanswm** | **1267** | | | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| **Clwstwr 4** | | | | | |
| **Castellnewydd Emlyn** | | | | | |
| SeC12/h1 | Trem y Ddôl | 17 | 1.7 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SeC12/h2 | Heol Dewi | 14 | 0 | Blwyddyn 1-5 | |
| SeC12/h3 | Tir y tu ôl i Ddolcoed | 20 | 3.4 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Llanybydder** | | | | | |
| SeC13/h1 | Ger Y Neuadd | 10 | 1 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SeC13/h4 | Bro Einon | 9 | 2 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Pencader** | | | | | |
| SeC14/h1 | Garej Blossom | 20 | 3.4 | Blwyddyn 6-10 | |
| SeC14/h2 | Tir ger Maescader | 24 | 2.88 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Waungilwen** | | | | | |
| SuV32/h1 | Gyferbyn â Springfield | 6 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| **Llangeler** | | | | | |
| SuV33/h1 | Tir gyferbyn â Brogeler | 5 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Saron/Rhos** | | | | | |
| SuV35/h1 | Tir ger Arwynfa | 6 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10 | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llanllwni** | | | | | |
| SuV36/h1 | Cae Pensarn Helen | 6 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SuV36/h2 | *Tir ym Mryndulais | 16 | 16 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Cwm-ann** | | | | | |
| SuV37/h2 | Tir i'r de o Cae Coedmor | 20 | 2.4 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SuV37/h3 | Tir gerllaw Lleinau | 10 | 1 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Capel Iwan** | | | | | |
| SuV38/h1 | Maes y Bryn | 6 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10 | |
| **Llanfihangel ar arth** | | | | | |
| SuV39/h1 | Ger Yr Hendre | 7 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Pont-tyweli** | | | | | |
| SuV41/h2 | Cilgwyn Bach | 14 | 2 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| **New Inn** | | | | | |
| SuV43/h1 | Blossom Inn | 8 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| | **Clwstwr 4 Cyfanswm** | **218** | | | |
| **Clwstwr 5** | | | | | |
| **Llanymddyfri** | | | | | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| SeC15/h1 | Tir i'r gogledd o Dan y Crug | 61 | 12 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SeC15/h2 | Tir ger Bryndeilog, Rhodfa Tywi | 8 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 11-15 | |
| **Llandeilo** | | | | | |
| SeC16/h1 | Chwarter Gogleddol Llandeilo | 27 | 3.24 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Llangadog** | | | | | |
| SeC17/h1 | Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Llangadog | 16 | 1.6 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SeC17/h2 | Tir oddi ar Heol Pendref | 8 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SeC17/h3 | *Ger yr Ysgol | 21 | 21 | Blwyddyn 1-5 | |
| **Llanfynydd** | | | | | |
| SuV49/h1 | Awel y Mynydd | 13 | 2 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| **Cwmifor** | | | | | |
| SuV51/h1 | Gyferbyn â Neuadd y Pentref | 8 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 11-15 | |
| | **Clwstwr 5 Cyfanswm** | **162** | | | |
| **Clwstwr 6** | | | | | |
| **Sanclêr / Pwll Trap** | | | | | |
| SeC18/h1 | Ger Brittania Terrace | 60 | 12 | Blwyddyn 11-15 | |
| SeC18/h2 | *Hen Ffatri Fenyn | 45 | 45 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| SeC18/h3 | Tir ger Cefn Maes | 100 | 20 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SeC18/h4 | Tir ar Heol Llaindelyn | 6 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SeC18/h5 | Tir ger Gwynfa, Heol yr Orsaf | 8 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SeC18/h6 | Tir y tu ôl i Heol yr Orsaf | 25 | 3 | Blwyddyn 11-15 | |
| SeC18/h7 | Tir ger Caeau Gardde | 8 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SeC18/h8 | Tir yng Nghae Glas | 5 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 11-15 | |
| SeC18/h9 | Tir i'r gorllewin o'r Stryd Fawr (Heol Fawr) | 64 | 5 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Hendy-gwyn ar Daf** | | | | | |
| SeC19/h1 | Tir yn Park View, Trefechan | 8 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SeC19/h2 | Tir yn Hufenfa Hendy-gwyn ar Daf | 48 | 5.76 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| SeC19/h3 | Gerddi Lingfield | 57 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| SeC19/h4 | *Parc y Dressig | 15 | 15 | Blwyddyn 1-5 | |
| **Talacharn** | | | | | |
| SeC20/h1 | Pludds Meadow | 24 | 2 | Blwyddyn 1-5 | |
| SeC20/h2 | Ger Ysgol Talacharn | 42 | 12.6 | Blwyddyn 11-15 | |
| SeC20/h3 | Tir oddi ar Clifton Street | 6 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 11-15 | |
| **Glandy Cross** | | | | | |

| Cyf. Safle | Enw'r Safle | Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun | Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun | Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15 | Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| SuV55/h1 | Tir y tu ôl i Faes-glas | 9 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10 | |
| SuV55/h2 | Tir i'r gogledd o Dafarn Cross Inn | 6 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Efail-wen** | | | | | |
| SuV56/h1 | Tir y tu ôl i Dalar Wen | 6 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Meidrim** | | | | | |
| SuV58/h1 | *Tir ger Lôn Dewi | 10 | 10 | Blwyddyn 6-10 | |
| SuV58/h2 | Tir oddi ar Heol Drefach | 15 | 1.5 | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Bancyfelin** | | | | | |
| SuV59/h1 | Maes y Llewod | 17 | 4 | Blwyddyn 1-5 | |
| SuV59/h2 | I'r gogledd o Faes y Llewod | 19 | 1.9 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Llangynog** | | | | | |
| SuV60/h1 | Tir yn College Bach | 6 | Cyfraniad Swm Cyfnewid | Blwyddyn 6-10<br>Blwyddyn 11-15 | |
| **Pentywyn** | | | | | |
| SuV61/h1 | Tir ar Fferm Nieuport | 10 | 1 | Blwyddyn 6-10 | |
| **Llanmilo** | | | | | |
| SuV63/h1 | Tir yn Woodend | 28 | 4 | Blwyddyn 1-5<br>Blwyddyn 6-10 | |
| | **Clwstwr 6 Cyfanswm** | **647** | | | |

*Tabl 5: Tabl Dyrannu Tai*

11.84 Mae'r tir a ddyrannwyd ar gyfer tai a nodwyd drwy'r polisi hwn a thrwy ddarpariaethau eraill y Cynllun hwn yn ceisio bodloni'r gofynion tir ar gyfer tai yn y Sir. Wrth eu dosbarthu, cafodd y dyraniadau hynny eu llywio at aneddiadau mewn modd a oedd yn gyson â strategaeth gyffredinol y Cynllun. Fodd bynnag, mae'r Cynllun yn ceisio cyflawni hyn drwy hierarchaeth strwythuredig a thrwy ddosbarthu twf mewn modd sy'n golygu bod mwyafrif y tir sydd ei angen ar gyfer y tai yng nghanolfannau cynaliadwy Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman/Cross Hands. Mae dyraniadau pellach wedi'u dosbarthu ar draws gweddill yr hierarchaeth.

11.85 Bwriedir i'r niferoedd ar safleoedd a amlygwyd ym Mholisi HOM1 fod yn niferoedd dangosol, ac iddynt gael eu hystyried fesul safle. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r niferoedd hynny wrth gyflwyno ceisiadau. Bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i bolisïau a darpariaethau'r cynllun hwn, ac i egwyddorion dylunio eraill perthnasol.

11.86 I gyd-fynd â chynigion i ddatblygu safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer tai a gyflwynir mewn ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio Llawn neu ganiatâd ar gyfer Materion a Gadwyd yn Ôl, dylid cyflwyno cynllun o'r safle sydd wedi'i ddyrannu yn ei gyfanrwydd, er mwyn sicrhau bod y safle'n cael ei ddatblygu'n unol â'i botensial llawn, ei fod yn darparu cymysgedd o dai o wahanol fathau, maint a deiliadaeth, a'i fod yn diwallu anghenion y boblogaeth leol. Dylid cyfeirio hefyd at bolisi PSD2 yn gysylltiedig â gofynion prif gynlluniau.

11.87 I ategu'r Cynllun ceir Cynllun Cyflawni Seilwaith sy'n rhoi manylion pellach ynghylch amserlennu, ariannu a chyflawni seilwaith sydd ei angen ar gyfer pob safle allweddol. Yn hyn o beth, bydd yn ofynnol hefyd i gynigion liniaru yn erbyn unrhyw effeithiau polisi posibl sy'n gysylltiedig â'i ddatblygiad.

## HOM2: Tai o fewn Terfynau Datblygu

**Caniateir cynigion am ddatblygiadau tai ar safleoedd heb eu dyrannu o fewn ffiniau datblygu anheddiad diffiniedig yn Haenau 1, 2 a 3, ar yr amod eu bod yn gyson â'r egwyddorion yn strategaeth, polisïau a chynigion y Cynllun.**

11.88 Mae safleoedd a all gynnwys pum neu fwy o anheddau wedi'u cynnwys fel safleoedd tai wedi'u dyrannu yn y Cynllun (gweler Polisi HOM1). Fodd bynnag, o fewn ffiniau datblygu aneddiadau diffiniedig gallai cyfleoedd godi i ddatblygu ar safleoedd heb eu dyrannu. O fewn yr hierarchaeth aneddiadau, gelwir tir nad yw wedi'i ddyrannu yn hap-

safle yn gysylltiedig â datblygiad tai. Dylai cynigion adlewyrchu cymeriad yr ardal a bod yn gyson â darpariaethau'r Cynllun.

## HOM3: Cartrefi mewn Pentrefi Gwledig

**Yn yr aneddiadau hynny a nodir yn bentrefi gwledig o dan Bolisi SP3, caniateir cynigion am 1 i 4 annedd ar gyfer y canlynol:**

- **safle mewnlenwi bach neu fwlch bach rhwng y ffurf adeiledig bresennol; neu,**
- **estyniadau rhesymegol ac/neu gwblhau'r patrwm datblygu mewn modd sy'n cydweddu â chymeriad ffurf a thirlun y pentref; neu**
- **addasu neu isrannu anheddau mawr.**

**Bydd ystyriaethau cynllunio eraill manwl a nodir ym mholisïau'r CDLl yn berthnasol wrth drafod y cynigion hynny.**

**Cyfeirir at y canllawiau ar blotiau derbyniol ym mhentrefi gwledig y Sir (gweler isod).**

**Ni chaiff cynigion sydd yn fwy na'r cap o 10% yn ychwanegol at nifer y tai presennol yn yr anheddiad, ar ddyddiad sylfaen y CDLl, onid ydynt yn cydymffurfio â Pholisi AHOM1 o ran darparu tai fforddiadwy.**

11.89 Mae'r fframwaith aneddiadau ar gyfer ardal y Cynllun a nodir ym Mholisi Strategol SP3 yn cydnabod ac yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a'i chymunedau. Wrth nodi'r Pentrefi Gwledig, mae'r Cynllun yn ceisio darparu ar gyfer yr aneddiadau hynny sy'n gwneud cyfraniad pwysig o fewn eu cymunedau a chynnig cyfleoedd ar gyfer tai newydd addas ac ar raddfa fach mewn lleoliadau gwledig.

11.90 Mae'r rhan hon o fframwaith polisi gwledig y Cynllun yn ceisio sefydlu ymagwedd hyblyg ond rheoledig at ddarparu tai newydd o fewn yr aneddiadau hynny. Mae'r Cynllun yn defnyddio asesiad seiliedig ar feini prawf i ddiffinio cyfleoedd tai ar raddfa fach mewn pentrefi gwledig ac i ddiwallu'r angen am dai newydd mewn rhannau gwledig o Sir Gaerfyrddin, ar raddfa ac mewn lleoliadau sy'n cynnal cymeriad hanfodol cefn gwlad.

11.91 Er mwyn adlewyrchu'r cymeriad gwledig ac atal lefelau twf annerbyniol a allai fod yn niweidiol, caniateir cap o 10% yn ychwanegol at nifer y tai presennol yn yr anheddiad, ar ddyddiad sylfaen y Cynllun.

11.92 Cyhoeddir canllawiau pellach ar ffurf Canllaw Cynllunio Atodol er mwyn cynorthwyo i ddehongli a chymhwyso'r uchod, a'r polisi. Bydd y canllaw yn rhan o gyfres o Ganllawiau

Cynllunio Atodol i gynorthwyo gydag ystyriaethau ynghylch dylunio a lleoli yn gyffredinol, ac yn galluogi cynigion i gyfrannu at ddatblygu cymunedau cydlynus a chynaliadwy, ac integreiddio'n effeithiol iddynt.

**Canllawiau ar Leiniau Derbyniol**

1. Bydd safleoedd mewnlenwi o fewn y pentrefi gwledig hyn yn cael blaenoriaeth dros leoliadau eraill;

2. Lle bo'n briodol, bydd safleoedd sy'n ffinio â phentref gwledig hefyd yn dderbyniol. Bydd yn ofynnol i safleoedd o'r fath ffinio ag un eiddo sy'n rhan o grŵp y pentref gwledig. Bydd yn ofynnol i bob cynnig sy'n ffinio â grŵp (yn wahanol i safleoedd mewnlenwi) ddangos y canlynol:

    - nodwedd ffisegol neu weledol bresennol sy'n creu ffin i'r grŵp - gan leihau pwysau am ddatblygiad hirgul neu flerdwf trefol annerbyniol;
    - os nad oes nodwedd o'r fath yn bodoli, gellid darparu nodwedd o'r fath ar yr amod ei bod yn cyd-fynd â chymeriad y grŵp o ran graddfa ac ymddangosiad;

3. Ni fydd cynigion mewn caeau agored sy'n ffinio â grŵp, nad oes ganddynt unrhyw nodweddion ffisegol i'w hamgylchynu yn cael eu hystyried yn dderbyniol;

4. Ni chaiff cynigion y tu hwnt i nodweddion ffisegol clir sy'n creu ffiniau cryf o amgylch grŵp (ee, priffyrdd, lleiniau sylweddol o goed, afonydd ac ati) yn cael eu hystyried yn dderbyniol.

## HOM4 - Tai mewn Aneddiadau Gwledig Anniffiniedig

**Caniateir cynigion am dai sengl newydd mewn aneddiadau, pentrefannau a grwpiau o anheddau (fel y'u diffinnir yn y eirfa) nad ydynt wedi'u dynodi o dan Bolisi Strategol SP3 os ydynt yn bodloni angen lleol am dai fforddiadwy ac yn cydymffurfio â'r canlynol:**

- **a) Ei fod yn ddatblygiad mewnlenwi sensitif mewn bwlch bach mewn ffryntiad adeiledig sydd fel arall yn ddi-dor; neu, mae'n cwblhau'r patrwm datblygu mewn modd addas;**
- **b) Bod y datblygiad ar raddfa sy'n gyson â chymeriad yr ardal ;**
- **c) Na fydd y cynnig yn arwain at ddatblygu i'r dirwedd mewn modd ymwthiol, ac na fydd yn cyflwyno patrwm datblygu tameidiog,**
- **d) Bod maint yr eiddo yn adlewyrchu'r angen penodol am annedd fforddiadwy yn nhermau maint y tŷ a nifer yr ystafelloedd gwely;**
- **e) Bod deiliadaeth yr annedd wedi'i chyfyngu i rai ac arnynt angen annedd fforddiadwy, wrth feddiannu am y tro cyntaf ac am byth wedi hynny.**

11.93 Ceir nifer nodedig o aneddiadau bach neu grwpiau o anheddau ledled y Sir nad ydynt wedi'u diffinio o fewn y fframwaith aneddiadau, ac fel y cyfryw nid oes ganddynt derfynau datblygu.

11.94 Nodir hefyd fod angen cyflenwi'r ddarpariaeth honno yn erbyn agenda genedlaethol sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd â chreu lleoedd yn rhan greiddiol o hynny. Yn hyn o beth, cyfeirir at ddarpariaethau Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol arfer rheolaeth lem dros bob datblygiad preswyl nad yw wedi'i leoli ger aneddiadau presennol. Gan adlewyrchu darpariaethau polisi cenedlaethol, mae'r polisi felly'n mynnu bod anheddau i fodloni angen lleol am dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig yn cael eu cyfyngu i grwpiau sefydledig o anheddau.

11.95 Er bod sylfaen gadarn o dystiolaeth i gefnogi'r CDLl Diwygiedig, cydnabyddir bod manylion anghenion tai yn newid dros amser. Ar gyfer cynigion am dai fforddiadwy, bydd yn ofynnol cyflwyno tystiolaeth i ddangos yr angen penodol lleol a sicrhau bod y cynnig yn darparu tai o'r maint, o'r math ac o'r ddeiliadaeth sydd ei hangen. Ni chaiff cynigion i fodloni angen lleol tybiannol eu hystyried. Yn lle hynny, dylent fod yn gysylltiedig ag angen a nodwyd gan unigolion/teuluoedd o fewn yr ardal benodol.

11.96 Lle bônt ar gael, dylid defnyddio arolygon anghenion tai lleol i ddarparu'r dystiolaeth hon. Fel arall, gellir ystyried bod ffurfiau eraill ar dystiolaeth yn briodol, gan gynnwys Asesiadau Ardal Marchnad Dai Strategol, a chofrestrau anghenion/gosod tai lleol.

11.97 Bydd mesurau'n cael eu gorfodi i reoli meddiannaeth, er mwyn sicrhau bod manteision fforddiadwyedd yn cael eu cadw am byth i feddianwyr dilynol. Ceir diffiniad o Aneddiadau Gwledig Anniffiniedig a Thai sy'n Bodloni Anghenion Lleol yn y Rhestr Termau.

## HOM5: Addasu neu Isrannu Anheddau Presennol

**Caniateir cynigion i addasu neu isrannu anheddau priodol yn fflatiau neu'n anheddau amlbreswyl, os:**

- **a) Na fydd hynny'n arwain at or-ddwysáu'r defnydd;**
- **b) Oes mannau parcio addas ar gael, neu os darperir hynny;**
- **c) Bydd ansawdd pensaernïol, cymeriad ac ymddangosiad yr adeilad yn cael ei warchod, lle bo'n berthnasol, ac na chaiff ei leoliad ei niweidio i raddau annerbyniol.**

11.98 Mae'r polisi hwn yn ceisio adlewyrchu potensial cyfleoedd i addasu anheddau presennol priodol yn lle adeiladu o'r newydd. Yn aml gall cyfleoedd o'r fath greu ystod a deis ychwanegol o fewn y stoc tai, a chynnig opsiynau eraill i berchnogion eiddo, lle nad yw meddiannaeth unigol mewn anheddau mwy yn briodol mwyach.

11.99 Dylai estyniadau fod yn israddol i'r annedd bresennol, a cydweddu â maint, math a chymeriad yr annedd bresennol, a pheidio ag achosi gorddatblygu (dylid cyfeirio at bolisi PSD10: Estyniadau). Lle bo'n briodol, anogir ailddefnyddio deunyddiau yn rhan o unrhyw ddatblygiad mewn cynigion.

11.100 Fel rhan o unrhyw gynnig datblygu, dylid cyfeirio at Bolisi PSD1 o'r Cynllun hwn sy'n ymwneud ag Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd.

## HOM6: Tai Arbenigol

**Caniateir cynigion am ddatblygiadau cartref gofal newydd ac estyniadau i gyfleusterau tai arbenigol sefydledig oddi mewn i derfynau datblygu aneddiadau diffiniedig presennol (Polisi SP3) neu'n ffinio â hwy os:**

a) **Ydynt yn adlewyrchu anghenion y meddianwyr arfaethedig o ran sicrhau bod ganddynt fynediad diogel a chyfleus at siopau, gwasanaethau, cyfleusterau cymunedol a thrafnidiaeth gyhoeddus neu lwybrau teithio llesol; ac,**
b) **Ydynt yn darparu llety addas a phriodol o ran ansawdd, dyluniad a math, yn ogystal â lefel briodol o gymorth a gofal i'r meddianwyr arfaethedig**

**Caniateir cynigion am dai arbenigol y tu allan i'r terfynau datblygu diffiniedig a heb fod yn ffinio â hwy dim ond os gellir dangos eu bod yn hyfyw ac yn gynaliadwy a:**

c) **Lle mae'r cynnig yn ychwanegiad at gartref gofal presennol, a'i raddfa heb fod yn anghymesur; neu,**
d) **Os yw'n golygu addasu eiddo presennol mewn modd priodol, sydd yn cyd-fynd ag anghenion y meddianwyr arfaethedig, ac yn gyson â maen prawf a) a b) uchod.**

11.101 Gallai proffil oedran newidiol y Sir a'r symudiad parhaus a ragwelir dros gyfnod y cynllun tuag at boblogaeth sy'n heneiddio gynyddu'r angen am Dai Arbenigol. Bydd modd bodloni rhai gofynion am ddarpariaeth byw gyda chymorth neu anghenion cymorth drwy addasu tai presennol neu drwy gyfleusterau presennol. Er hynny, cydnabyddir bod angen i'r Cynllun gynnwys darpariaeth i ystyried yr angen am gartrefi gofal newydd. Gan hynny,

mae'r polisi hwn yn ceisio darparu fframwaith ar gyfer ystyried cynigion, er mwyn sicrhau ystyriaeth briodol o anghenion y rhai y mae angen gofal arnynt.

11.102 I ddibenion y polisi hwn, mae'r diffiniad o Dai Arbenigol yn gysylltiedig â chartrefi nyrsio, tai gwarchod, cartrefi gofal ychwanegol neu ofal agos (warden), cyfleusterau ymddeol sy'n adlewyrchu anghenion gofal parhaus, a chyfleusterau eraill lle darperir gofal. Pan gynigir cartref gofal ar safle sydd wedi'i ddyrannu at ddefnydd preswyl yn y Cynllun, rhoddir ystyriaeth i natur y cynnig a'i addasrwydd ar gyfer y lleoliad arfaethedig. Bydd lefel annibyniaeth y preswylwyr yn ystyriaeth bwysig, ac ni fydd tai 'drws caeedig' fel arfer yn cael eu hystyried yn briodol.

11.103 Bydd cynnwys cartrefi gofal oddi mewn i'r terfynau datblygu neu sy'n ffinio â hwy yn sicrhau bod preswylwyr yn cael cyfle i integreiddio i'r gymuned a bod y datblygiadau yn rhan o'r ffurf drefol neu adeiledig. Mae hygyrchedd y seilwaith a'r cyfleusterau hynny yn elfen bwysig ymhlith anghenion pobl.

## HOM7: Adnewyddu Adeiladau Adfeiliedig neu Adawedig

**Caniateir cynigion i adnewyddu anheddau adfeiliedig neu anheddau wedi'u gadael y tu allan i Derfynau Datblygu anheddiad diffiniedig (Polisi SP3) os:**

a. **Gellir dangos bod rhan sylweddol o'r strwythur gwreiddiol yn gadarn ac yn ddigon cyfan, gan olygu nad oes angen ond ychydig o waith adfer strwythurol;**
b. **Bod yr adeilad yn arddangos ac yn cadw nodweddion pensaernïol o ansawdd digonol a deunyddiau traddodiadol heb golli gormod o gymeriad a hygrededd y strwythur gwreiddiol;**
c. **Na cheir unrhyw effaith andwyol ar leoliad na hygrededd yr amgylchedd hanesyddol.**

**Mewn achosion eithriadol lle gellir dangos bod yr annedd wreiddiol wedi chwarae rhan gydnabyddedig a sylweddol yn hanes, diwylliant a datblygiad Sir Gaerfyrddin, gellir derbyn ffotograffau neu ddogfennau yn dystiolaeth o fanylion gwreiddiol yr annedd.**

11.104 Drwy adnewyddu anheddau wedi'u gadael, gellir gwneud cyfraniad bach ond pwysig at anghenion ardal. Bydd gwerth pensaernïol nifer o anheddau adfeiliedig neu anheddau wedi'u gadael yn aml yn adlewyrchu'r arddull draddodiadol gynhenid, a dylid cydnabod hynny wrth gyflwyno cynigion ar eu cyfer. Dylai estyniadau, gofynion mynediad neu unrhyw agweddau eraill sy'n gysylltiedig â'r cynnig fod yn ystyriol o gymeriad yr

adeilad gwreiddiol a'r tirlun. Bydd cynigion sy'n ceisio gwneud cyfraniad cadarnhaol at rinweddau tirweddol yr ardal yn cael eu hannog.

11.105 Os na fydd cynigion yn bodloni'r uchod (gan gynnwys ailadeiladu), fe'u hystyrir yn ddatblygiad mewn ardal o gefn gwlad agored, a gwneir penderfyniad yn eu cylch yn unol â hynny.

## HOM8: Carafanau Preswyl

**Caniateir cynigion ar gyfer carafanau preswyl dros dro os:**

a. **Oes angen y garafán fel llety i weithiwr hanfodol, mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth neu gyflogaeth arall briodol, y mae'n rhaid iddo fyw ar y safle yn hytrach na mewn anheddiad cyfagos; neu,**
b. **Os oes angen y garafán yn gysylltiedig â gwaith adeiladu annedd sengl ar lain hunanadeiladu, neu wrth adeiladu annedd sy'n cael ei chodi yn lle annedd flaenorol; a,**
c. **Bydd y garafán neu'r cartref symudol wedi'i leoli'n agos at adeiladau eraill lle bo modd, ac na fydd yn achosi unrhyw broblemau sylweddol o ran mynediad, parcio, seilwaith neu amwynder; ac,**
d. **Na fydd yn cael effaith andwyol annerbyniol ar amcanion ehangach o ran y dirwedd neu gadwraeth natur.**

11.106 Bydd amodau'n cael eu gosod ynghylch lleoli carafán/cartref symudol sydd ei angen yn gysylltiedig â'r uchod, er mwyn sicrhau y bydd yn cael ei symud o'r safle pan na fydd angen ei defnyddio mwyach. Asesir hyd unrhyw ganiatâd dros dro yn erbyn manylion neilltuol pob cais. Bydd yr hyn a benderfynir o ran yr amserlen angenrheidiol ar gyfer lleoli carafanau / cartrefi symudol yn gysylltiedig ag adeiladu annedd hunanadeiladu wedi'i seilio ar hyd y gwaith adeiladu disgwyliedig.

## HOM9: Datblygiad Preswyl Ategol

**Cefnogir cynigion am lety preswyl ategol ar ffurf rhandy os:**

a) **Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan berthynas annibynnol yn unig, neu gan unigolyn sy'n ddibynnol ar yr aelwyd, lle bwriedir rhoi elfen o annibyniaeth; gan ddibynnu'n rhannol ar gyfleusterau'r brif annedd;**
b) **Yw'n ategu'r brif annedd, gyda chyfyngiadau llym arno o ran maint, graddfa ac arwynebedd llawr er mwyn adlewyrchu anghenion y defnyddiwr;**
c) **Yw wedi'i leoli ar gwrtil presennol y brif annedd, heb unrhyw ardal ar wahân o ardd, mynedfa ar wahân i gerbydau na man parcio ar wahân;**

**d) Yw wedi'i gynllunio i fod yn israddol i'r brif annedd, ac yn parchu ac yn gwella cymeriad y brif annedd, ac na fyddai'n orddatblygiad i'r ardd a/neu'r cwrtil.**

**Na fydd y llety ond yn cael ei ganiatáu os bydd y berchnogaeth arno yr un peth â pherchnogaeth y brif annedd. Bydd meddiannaeth yn y dyfodol yn gysylltiedig â pherchnogaeth fuddiol y brif annedd drwy gyfrwng cytundeb Adran 106.**

11.107 Gall llety preswyl ategol fod o ddefnydd werthfawr gan alluogi perthynas i fyw gyda'i deulu gan gadw rhywfaint o annibyniaeth. Fodd bynnag, mae angen lefel o reolaeth dros y llety hwnnw er mwyn sicrhau bod ei swyddogaeth o natur ategol, ac nad arwain at greu annedd hunangynhaliol ar wahân.

11.108 Dylai unrhyw gynnig adlewyrchu ei swyddogaeth ategol a pheidio cynnwys yr ystod lawn o gyfleusterau a gysylltir ag annedd annibynnol. Ni ddylid ychwaith ei ddylunio mewn modd a fyddai'n golygu y gellir ei addasu neu ei feddiannu fel annedd annibynnol. Dylid dylunio cynigion i adlewyrchu anghenion hanfodol a nodwyd gan y meddiannydd, gyda'r darpariaethau syml yn adlewyrchu natur ategol y rhandy. Ar gyfer un preswylydd byddai hyn fel arfer yn cynnwys un ystafell wely en-suite ac ardal fyw gyda chegin fach.

11.109 Bydd yn ofynnol i berchnogaeth y rhandy fod yr un peth â pherchnogaeth y brif annedd, a dylid cynnwys manylion ei feddianwyr gydag unrhyw gais, gan gynnwys perthynas y meddianwyr hynny ac/neu eu dibyniaeth â meddianwyr y brif annedd, a manylion ynghylch perchnogaeth y rhandy.

11.110 Bydd yn rhaid ystyried angen y deiliad mewn perthynas â maint unrhyw adeilad allanol y cynigir ei drawsnewid. Yn hyn o beth, mae'n bosibl na fydd hi ond yn dderbyniol addasu rhan o'r adeilad er mwyn sicrhau nad yw'r rhan sy'n cael ei haddasu ond yn darparu cyfleusterau cyfyngedig sy'n gymesur â'i phwrpas ategol.

11.111 Ni ddylai'r rhandy ddisodli defnydd presennol a fyddai'n golygu bod angen codi adeilad arall fel bo modd parhau â'r defnydd hwnnw. Ni ystyrir rhandy ar wahân wedi'i adeiladu o'r newydd ond os dangosir i raddau boddhaol nad yw estyniad nac addasu yn briodol nac yn bosibl, ac ni chaniateir hyn mewn lleoliadau y tu allan i ffiniau anheddiad diffiniedig.

## Polisi Strategol – SP 5: Strategaeth Tai Fforddiadwy

**Bydd y Cynllun yn sicrhau bod cymaint o dai fforddiadwy ag sy'n bosibl yn cael eu darparu hyd at 2033, drwy ddarparu isafswm o 1,900 o dai fforddiadwy. Bydd hyn o gymorth i ddatblygu a gwella cymunedau cynaliadwy a chytbwys.**

11.112 Mae tai fforddiadwy yn fater allweddol i'w ystyried wrth baratoi'r CDLl Diwygiedig, yn enwedig er mwyn cyfrannu at ddatblygu cymunedau cynaliadwy, cytbwys a chydlynus.

11.113 Mae'r polisi hwn yn ceisio adlewyrchu'r gofynion a nodir yn TAN 2 - Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006) sy'n ceisio sefydlu trefniadau diogel 'er mwyn sicrhau eu bod o fewn cyrraedd i'r rheini sydd heb fod yn gallu fforddio tai ar y farchnad agored, gan gynnwys pobl sy'n eu meddiannu gyntaf a'r bobl sy'n dod ar eu hôl'.

11.114 Ceir dau brif fath o dai fforddiadwy, fel y'u diffinnir yn TAN2:

- Tai Rhent Cymdeithasol: wedi'u darparu gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; a
- Thai Canolradd: lle bo'r prisiau neu'r rhent yn uwch na thai rhent cymdeithasol ond yn is na thai'r farchnad [511]

11.115 Wrth asesu'r angen am anheddau fforddiadwy, rhoddir sylw i'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) diweddaraf ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Yn LHMA 2019, nodir ymraniad 76% / 24% rhwng yr aelwydydd ac arnynt angen tai ar y farchnad a'r aelwydydd hynny ac arnynt angen tai fforddiadwy. I ddibenion yr LHMA, mae'r Sir wedi cael ei rhannu i 4 Ardal Gweithredu ar Dai Fforddiadwy, ac mae cyfran sylweddol o'r aelwydydd ac arnynt angen tai fforddiadwy yn Ardal Weithredu Llanelli (47%). Mae'r LHMA hefyd yn nodi math a maint y tai sydd eu hangen drwy'r Sir, ac mae gan Lanelli amrediad cyson o angen ar draws cartrefi 1, 2 a 3 ystafell wely. Yn gyffredinol ar draws yr Ardaloedd Gweithredu eraill, mae angen datblygu tai 2 a 3 ystafell wely er mwyn bodloni'r angen am dai fforddiadwy. Wrth ddadansoddi'r data hyn, gwelir cydberthynas gref rhwng lleoliad yr angen am dai fforddiadwy a dosbarthiad y twf tai arfaethedig a nodir yn strategaeth y CDLl a'r fframwaith aneddiadau (gweler polisi SP3).

11.116 Er bod y CDLl a'r system gynllunio yn ceisio cefnogi darparu tai fforddiadwy, nid yw ond un ymhlith amryw o fecanweithiau a ddefnyddir i fodloni'r angen hwn. Adlewyrchir hyn

[1] [51] Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy 2006 – Paragraff 5.2

yng Nghynllun Cyflenwi Tai Fforddiadwy y Cyngor, sy'n pennu gweledigaeth pum mlynedd ar gyfer darparu tai fforddiadwy. Nodir cyfraniad y CDLl at y targed yn SP5 drwy:

- Ddarparu tai fforddiadwy ar-safle fel canran o'r holl ddatblygiad, neu ar safleoedd a gaffaelir gan ddarparwyr tai cymdeithasol;
- Tai fforddiadwy oddi ar y safle yn lle darpariaeth ar-safle;
- Darpariaeth o hap-safleoedd mawr
- Cyfraniadau ar ffurf symiau cyfnewid gan drydydd partïon i gefnogi'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy a
- Thai i fodloni Anghenion Lleol.

11.117 Cyfeirir hefyd at Astudiaeth Anghenion Gwledig Sir Gaerfyrddin 2019 sy'n nodi bod cyfran uwch o anheddau mwy yn yr ardaloedd gwledig, a bod hynny'n cyfrannu at brisiau tai uwch. [52] Mae'r CDLl yn ceisio cefnogi twf unedau mwy fforddiadwy mewn cymunedau gwledig, er mwyn hyrwyddo datblygiadau i brynwyr tro cyntaf neu rai ar aelwydydd incwm isel.

## AHOM1: Darparu Tai Fforddiadwy

### Cyfraniadau Ar-safle

**Bydd angen cyfraniad ar-safle at dai fforddiadwy ar bob safle a ddyrannwyd ar gyfer tai'r farchnad ac ar hap-safleoedd sy'n cynnwys 10 neu fwy o dai, er mwyn bodloni'r targed ar gyfer tai fforddiadwy a nodwyd ym Mholisi SP5. Mae'r targed canrannol ar gyfer tai fforddiadwy yn seiliedig ar raddfa'r datblygiad:**

- **bydd yn ofynnol i safleoedd sy'n cynnwys 10 - 19 o gartrefi ddarparu cyfraniad tai fforddiadwy o 10%**
- **bydd yn ofynnol i safleoedd sy'n cynnwys 20 - 50 o dai ddarparu cyfraniad tai fforddiadwy o 12%**
- **bydd yn ofynnol i safleoedd sy'n cynnwys 51 - 100 o dai ddarparu cyfraniad tai fforddiadwy o 20%**
- **bydd yn ofynnol i safleoedd sy'n cynnwys 101 o dai neu fwy ddarparu cyfraniad tai fforddiadwy o 25%.**

**Mae'r ganran targed tai fforddiadwy a nodir yn darged i'w defnyddio fel man cychwyn ar gyfer trafodaethau tai fforddiadwy**

**Pan fydd cynigion preswyl cyfagos a chysylltiedig yn peri bod cyfanswm y niferoedd yn cyrraedd neu'n mynd heibio'r trothwyon uchod, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau elfen o dai fforddiadwy sy'n seiliedig ar gymhwyso'r canrannau targed uchod i gyfanswm yr anheddau.**

**Bydd yn ofynnol i gynigion sicrhau bod yr annedd yn parhau i fod yn fforddiadwy am byth i'r holl feddianwyr dilynol.**

[52] Astudiaeth Anghenion Gwledig Sir Gaerfyrddin 2019

### Symiau Cyfnewid

**Bydd angen swm cyfnewid tuag at dai fforddiadwy ar gyfer cynigion sy'n cynnwys 1 - 9 annedd. Bydd taliadau swm cyfnewid yn seiliedig ar arwynebedd y llawr (cost fesul metr sgwâr).**

**Bydd cynigion am anheddau sengl yn y categori annedd 3 ystafell wely i 4 unigolyn neu lai, sy'n cynnwys llai nag 88 metr sgwâr, wedi'u heithrio.**

**Lle na ellir bodloni'r gofynion uchod oherwydd eu heffeithiau ar hyfywedd ariannol y cynnig, gellir cytuno ar amrywiad fesul achos unigol.**

11.118 Nod polisïau AHOM1 ac AHOM2 yw cynorthwyo'r Cyngor i fodloni ei angen am dai, ac yn enwedig i fodloni'r angen am dai fforddiadwy a nodwyd ym Mholisi SP5.

11.119 Mae'r polisi'n pennu'r cyfraniadau y dylid eu darparu ar gyfer tai fforddiadwy. Mae gofynion y polisi yn adlewyrchu canfyddiadau Astudiaeth Hyfywedd barhaus y CDLl Diwygiedig ac yn ystyried ffactorau eraill fel yr LHMA, cyfraddau darparu yn y gorffennol a'r angen am hyblygrwydd er mwyn caniatáu amrywio rhwng safleoedd.

11.120 Mae gofynion y Polisi ar gyfer cyfraniadau ar-safle yn berthnasol i bob datblygiad tai arfaethedig sydd wedi'i leoli o fewn ffiniau anheddiad, a chanddo'r capasiti i sicrhau cynnydd net o 10 neu fwy o anheddau newydd. Bydd y safleoedd hynny sydd y tu allan i ffiniau'r anheddiad yn ddarostyngedig i ofynion Polisi AHOM2.

11.121 Mae gofynion y polisi am symiau cyfnewid yn berthnasol i holl gynigion arfaethedig y farchnad agored sy'n creu cynnydd net o 1 - 9 o anheddau newydd, ac eithrio anheddau sengl sydd wedi'u cynnwys yn y categori tai 3 ystafell wely, 4 unigolyn nad yw ei arwynebedd llawr mewnol trigiadwy yn fwy nag 88 metr sgwâr.

11.122 Bydd y gymysgedd o anheddau y mae angen ei darparu ar bob safle o ran maint, math a deiliadaeth, yn amrywio yn ôl anghenion penodol yr ardal leol wrth gyflwyno'r cais. Yn rhan o hyn, bydd angen ystyried yr wybodaeth ddiweddaraf am anghenion tai o'r LHMA, ynghyd ag unrhyw wybodaeth leol berthnasol, fel rhestr aros y Cyngor ac unrhyw unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd yn ddiweddar o fewn yr ardal.

## AHOM2: Tai Fforddiadwy - Safleoedd Eithriadau

**Mewn amgylchiadau eithriadol, caniateir cynigion ar gyfer datblygiadau 100% o dai fforddiadwy ar safleoedd sy'n ffinio â Therfynau Datblygu aneddiadau diffiniedig (Haenau 1-3 ym Mholisi SP3), os ydynt yn bodloni gwir angen a nodwyd yn lleol (fel y diffinnir yn y Rhestr Termau) ac:**

**a) Lle bo'r safle'n cynrychioli estyniad rhesymegol i'r ffiniau datblygu, ac ar raddfa sy'n briodol ac yn cydweddu â chymeriad yr anheddiad;**
**b) Lle cedwir y budd yn gysylltiedig â'r fforddiadwyedd cychwynnol i'r holl feddianwyr dilynol;**
**c) Lle bo maint, graddfa a dyluniad yr annedd yn gyson ag annedd fforddiadwy ac ar gael i bobl mewn grwpiau incwm isel neu ganolig;**
**d) Nad oes unrhyw gynlluniau tai marchnad o fewn yr anheddiad ar gael, neu y rhagwelir y byddant ar gael, sy'n cynnwys gofyniad am dai fforddiadwy.**

11.123 Rhoddir caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau a rhwymedigaethau cynllunio sy'n sicrhau bod y tai fforddiadwy yn parhau i fod ar gael i fodloni'r angen lleol am dai fforddiadwy yn y dyfodol.

11.124 Rhaid i annedd fforddiadwy fod yn gydnaws â safonau Gofyniad Ansawdd Dylunio Llywodraeth Cymru i gyfyngu ar ei faint, ei raddfa a'i ddyluniad i sicrhau bod yr annedd yn dod o fewn cost annedd fforddiadwy rhesymol a derbyniol ar gyfer deiliaid yn y dyfodol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir ystyried ei bod yn briodol gwyro o'r safonau hyn lle maent i ddiwallu anghenion y deiliad a lle ceir tystiolaeth a chyfiawnhad clir drostynt.

11.125 Gall y Cyngor ddileu neu gyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir i osod cyfyngiadau ar welliannau i faint, graddfa a dyluniad yr annedd i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn fforddiadwy i ddeiliaid dilynol.

11.126 Ni fydd safleoedd eithriadau ond yn cael eu caniatáu os oes tystiolaeth foddhaol ar gael i gefnogi'r ddarpariaeth. Ni chaiff cynigion i fodloni angen lleol tybiannol eu hystyried. Yn lle hynny, dylent fod yn gysylltiedig ag angen a nodwyd gan unigolion/teuluoedd o fewn yr ardal benodol.

11.127 Fel arfer, ni ddylid ystyried safleoedd eithriadau mewn anheddiad lle mae dyraniadau presennol yn cael eu cyflwyno, a lle bo elfen o fforddiadwyedd yn cael ei ddarparu yn rhan o'r datblygiad hwnnw. Bydd angen tystiolaeth i ddangos nad oes disgwyl i unrhyw gynlluniau ar safleoedd wedi'u dyrannu ddechrau o fewn cyfnod rhesymol.

11.128 Darperir gwybodaeth bellach drwy'r polisi cenedlaethol ar ffurf PCC, TAN2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy a TAN6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol sydd ar ddod yn ymhelaethu ac yn rhoi arweiniad pellach ar weithredu a dehongli tai fforddiadwy.

## Polisi Strategol – SP 6: Safleoedd Strategol

**Gan adlewyrchu eu cyfraniad at ofynion twf Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol, ac fel cydrannau allweddol ym Margen Ddinesig Bae Abertawe, mae dau Safle Strategol wedi cael eu nodi fel safleoedd sy'n gwneud cyfraniad pwysig at ddarparu twf yn gyffredinol dros gyfnod y Cynllun:**

**Pentre Awel, Llanelli (PrC2/SS1); a'r Egin - Clwstwr Digidol Creadigol, Caerfyrddin (PrC1/SS1)**

Pentre Awel, Llanelli

11.129 Bydd Pentre Awel yn darparu cyfleusterau a gwasanaethau sy'n hyrwyddo a gwella llesiant, yn integreiddio datblygiad busnes, addysg, gofal iechyd, hamdden, twristiaeth, cymorth llesiant ac ymchwil i wyddorau bywyd mewn un lleoliad, ac yn creu budd cymdeithasol ac economaidd gweddnewidiol.

11.130 Bydd Pentre Awel yn cynnwys sefydliad gwyddor bywyd sy'n cynnig lle i ddatblygu ac ymchwilio i ddyfeisiau meddygol a thechnolegau gofal iechyd newydd. Bydd y sefydliad hefyd yn cynnig gofodau swyddfa, labordy a gofodau clinigol ar gyfer cwmnïau rhanbarthol newydd sy'n tyfu yn ogystal â chyfleoedd i gychwyn busnes.

11.131 Ceir canolbwynt llesiant a fydd yn cynnwys canolfan hamdden, cyfleusterau chwaraeon awyr agored, cyfleoedd hamdden yn ogystal â gweithgareddau sy'n hyrwyddo llesiant. Ceir llety byw gyda chymorth, cartref gofal a thai penodol (o dan ddosbarth defnydd C3) ar gyfer pobl â nam gwybyddol neu sy'n cael eu hailsefydlu'n feddygol.


11.132 Ceir canolfan gwyddor bywyd a llesiant a fydd yn cynnwys ystod o wasanaethau llesiant o'r sector iechyd, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector fel eu bod ar gael mewn un lleoliad. Bydd y ganolfan hefyd yn cynnwys cyfleoedd hyfforddi a ddatblygir mwyn ymateb i brinder sgiliau. [53]

11.133 Bydd y datblygiad hwn sy'n arwain y byd wedi'i leoli ar hyd arfordir Llanelli. Dyma fydd y prosiect adfywio mwyaf erioed yn Ne-orllewin Cymru, a'i nod yw gwella iechyd a llesiant pobl ledled y rhanbarth, gan greu hyd at 2,000 o swyddi o ansawdd uchel sy'n talu'n dda a rhoi hwb o £467 miliwn i'r economi dros 15 mlynedd. Bydd yn cael ei gydgysylltu a'i integreiddio o fewn y dirwedd naturiol, o amgylch llyn dŵr croyw, ac o fewn pellter cerdded Parc Arfordir y Mileniwm.[54]

---

[53] https://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/prosiectau/pentref-gwyddor-bywyd-a-llesiant/ /
[54] https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/datblygu-a-buddsoddiad/llynnoedd-delta/#.XeQ8_3d2tPY

11.134 Wrth nodi'r cyd-destun strategol, mae'r prosiect hwn yn parhau i fod wedi'i ymwreiddio'n ddwfn mewn gwaith i hyrwyddo llesiant ar raddfa leol.



*Ffigur 9: Cyngor Sir Caerfyrddin - detholiad o brif gynllun dangosol ar gyfer Pentre Awel, Llanelli*

Yr Egin - Clwstwr Digidol Creadigol, Caerfyrddin

11.135 Clwstwr digidol a chreadigol yw Canolfan S4C Yr Egin, ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin.

11.136 S4C yw'r tenant allweddol ac mae nifer o fusnesau newydd a busnesau bach yn y sector digidol a chreadigol wedi'u lleoli gyda'i gilydd yn yr ardaloedd swyddfa hyblyg sydd ar gael yn yr adeilad.

11.137 Nod Yr Egin yw bod yn gatalydd ar gyfer creu clwstwr creadigol bywiog yn y rhanbarth drwy ysbrydoli cydweithio a datblygu talent, yn ogystal â chryfhau'r Gymraeg.

11.138 Cynigir cyfleoedd amrywiol gan y prosiect hwn gan fod gan yr adeilad eiconig awditoriwm, cysylltedd cyflym iawn, ardaloedd swyddfa o'r radd flaenaf a chyfleusterau ôl-gynhyrchu ar gyfer gweithgareddau proffesiynol a chymunedol. Rhagwelir y bydd yn cynnal rôl Caerfyrddin fel canolfan allweddol i'r sector creadigol yn Ne-orllewin Cymru.[55]

[55] Canolfan S4C Yr Egin | Bargen Ddinesig Bae Abertawe

11.139 Mae prosiect arall (Egin Cam 2) yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd y prosiect yn ategu ac yn cefnogi llwyddiant Egin Cam 1 a bydd yn seiliedig ar ganlyniadau ymarfer Gwersi a Ddysgwyd Cam 1 yn ogystal â dadansoddiad o'r galw gan y sector creadigol.




*Ffigur 10: Cyngor Sir Caerfyrddin – Prif Gynllun Safle'r Egin*

## Polisi Strategol – SP 7: Cyflogaeth a'r Economi

**Mae digon o dir wedi'i ddyrannu ar gyfer darparu 71.21 hectar o ddarpariaeth cyflogaeth ar gyfer cyfnod y Cynllun yn unol â Fframwaith Anheddau'r Cynllun (Polisi SP3) ac egwyddorion cynaliadwyedd.**

**Mae'r dull cynaliadwy o ddarparu tir cyflogaeth yn adlewyrchu'r canlynol:**

1) **Dyrannu a chyflawni:**
   - **Pentre Awel, Llanelli ac**
   - **Yr Egin - Clwstwr Digidol Creadigol, Caerfyrddin;**
2) **Dyrannu tir cyflogaeth mewn lleoliad cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag egwyddorion cynaliadwyedd y Cynllun;**
3) **Diogelu safleoedd cyflogaeth presennol – cydnabod eu cyfraniad fel rhan o'r portffolio cyflogaeth wrth ddiwallu'r angen parhaus;**
4) **Cefnogi datblygiadau a mentrau cyflogaeth gynaliadwy ar raddfa fach mewn aneddiadau ar haen is.**
5) **Sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei ddarparu i entrepreneuriaeth fel rhan o greu economi amrywiol sy'n tyfu;**
6) **Caniatáu cyfleoedd cyflogaeth priodol ar raddfa fach a mentrau gwledig yng nghefn gwlad i gefnogi cymunedau gwledig ac i ddarparu economi wledig amrywiol a chynaliadwy.**

Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe

11.140 Dylai'r gwaith o ddatblygu safleoedd cyflogaeth yn y dyfodol, ac yn wir datblygiad economaidd y sir yn y dyfodol, gael ei ystyried yn y cyd-destun ehangach. Llofnodwyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn 2017, gan sicrhau £1.24 biliwn ar gyfer cynghorau Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro. Rhagwelir y bydd y Fargen Ddinesig yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal, yn cynnig hwb o £1.8 biliwn i'r economi ranbarthol, ac yn creu bron i 9,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf.

11.141 Bydd y Fargen yn golygu tri phrosiect penodol ar gyfer Sir Gaerfyrddin - gyda dau ohonynt yn gysylltiedig â datblygiadau ffisegol. Y rhain yw Pentre Awel, Llanelli a phrosiect diwydiant creadigol yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin. Mae'r trydydd prosiect yn ymwneud â menter sgiliau a thalentau sydd wedi'i chanoli yn Sir Gaerfyrddin, ac sy'n cefnogi datblygiad sgiliau yn y rhanbarth. Gan gyfeirio at y 3 phrosiect hyn sy'n benodol i Sir Gaerfyrddin, dylid nodi mai nod y 'prosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer' yw darparu cartrefi clyfar, carbon isel, ynni-effeithlon trwy ddull a gydlynir ar draws y Dinas-ranbarth, tra bod nodau'r prosiect 'Seilwaith Digidol' yn cynnwys cefnogi economi ddigidol ffyniannus ar draws y Dinas-ranbarth.[i]

Tystiolaeth am angen cyflogaeth y dyfodol

11.142 Mae'r Cyngor wedi casglu tystiolaeth i ddarparu dealltwriaeth am yr angen o ran cyflogaeth yn y dyfodol, yn anad dim yn y naw sector y rhoddir blaenoriaeth iddynt gan Lywodraeth Cymru.[56] Paratowyd tystiolaeth bellach ar y cyd â Chyngor Sir Penfro i sefydlu dadansoddiad meintiol o'r galw a ragwelir am safleoedd cyflogaeth ar lefel mwy na lleol. Ategwyd yr Astudiaeth Dwy Sir hon gan dystiolaeth o'r farchnad a chan gyflogwyr mewn perthynas â'r galw yn y farchnad. Yn ogystal, gwnaed gwaith mewn perthynas â'r cysylltiadau rhwng cydraddoli lefelau tir cyflogaeth a swyddi gyda'r gofyniad am dwf tai newydd i'r Sir.

11.143 Mae Astudiaeth y Ddwy Sir yn ceisio taro cydbwysedd rhwng ateb gofynion Nodyn Cyngor Technegol 23 ar Ddatblygu Economaidd (Chwefror 2014), a gosod pwyslais cryf ar hyblygrwydd, gwireddu twf sectorau a'r gallu i ateb y galw ar raddfa ranbarthol.

11.144 Mae TAN 23 yn ystyried 'efallai y bydd y targedau darparu tir yn uwch na'r galw disgwyliedig', i ddarparu ar gyfer y siawns i ateb y galw. Mae'r Canllawiau Ymarfer sy'n cyd-fynd â'r Nodyn Cyngor Technegol (Awst 2015) yn ystyried, lle gellir cyfiawnhau hynny, efallai y bydd y targedau darparu tir yn uwch na'r galw disgwyliedig, i ddarparu ar gyfer y siawns bod yr asesiadau'n rhy isel ac i sicrhau nad oes unrhyw gyfleoedd yn cael eu colli. Wrth gydnabod pwysigrwydd peidio â dibynnu dim ond ar ragolygon cyflogaeth pan eir ati i adnabod portffolio o dir cyflogaeth, mae Astudiaeth y Ddwy Sir yn pwysleisio galw a hyder busnesau brodorol i aros a thyfu, a dyhead gan randdeiliaid i warchod manteision lleoliadol ac asedau strategol ar gyfer twf yn y dyfodol.

11.145 Gan gydnabod yr uchod, mae Astudiaeth y Ddwy Sir wedi adnabod portffolio o safleoedd yn ardal yr astudiaeth yr ystyrir eu bod yn cynnig manteision strategol a chyfle i dyfu a chreu swyddi.

Ymyrraeth gan y Sector Cyhoeddus

11.146 Roedd adroddiad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020 [57]i lywio'r Cynllun Cyflenwi Eiddo newydd yn tynnu sylw at y ffaith, tra bod y gwaith o ddarparu adeiladau diwydiannol a swyddfeydd yn cael ei arwain yn gyffredinol gan y sector preifat, mae yna seiliau cryf dros ymyrraeth gan y sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys ymateb i

[57]Eiddo Masnachol: Dadansoddiad o'r Farchnad ac Ymyriadau Posibl (Mawrth 2020)

dystiolaeth o'r galw am gapasiti newydd neu ychwanegol, denu a chadw buddsoddiad na fyddai fel arall yn dod i ardal, neu drwy ddylanwadu ar benderfyniadau masnachol, er enghraifft trwy ddod â gweithgarwch economaidd newydd i safle segur.

Isadeiledd Cyfathrebu

11.147 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod profiadau amlwg yn deillio o'r pandemig Covid 19 sydd â goblygiadau mawr i arferion gwaith yn y dyfodol ac anghenion gweithle yn y dyfodol (gan gadarnhau pwysigrwydd hyblygrwydd); Yn y cyd-destun hwn, maes allweddol yw pwysigrwydd seilwaith cyfathrebu o ansawdd uchel (band eang, derbyniad ffonau symudol a'r gallu i ddiogelu/uwchraddio yn y dyfodol). Mae hyn yn bwysig i drigolion a busnesau, yn enwedig yng nghyd-destun mwy o weithio o bell a'i rôl wrth fynd i'r afael â natur ymylol yr ardaloedd gwledig (dylid cyfeirio at Bolisi EME5: Gweithio Gartref a Pholisi INF3: Band Eang a Thelathrebu).

Hierarchaeth Cyflogaeth

11.148 Er bod y ffocws strategol yn gysylltiedig â Bargen Ddinesig Bae Abertawe a chamau posibl i greu swyddi 'â gwerth ychwanegol', bydd y CDLl Diwygiedig yn darparu ystod o safleoedd a chyfleoedd ar gyfer mewnfuddsoddi ac adleoliadau posibl. Mae hyn yn cynnwys safleoedd posibl i gyflogwyr mwy, yn ogystal â safleoedd i ddarparu ar gyfer defnydd busnes newydd ar raddfa lai a busnesau newydd o fewn y fframwaith polisi. .

11.149 Rhoddwyd sylw pellach hefyd i ystod o ystyriaethau i sicrhau bod lefel y ddarpariaeth dir yn adlewyrchu nid yn unig ystod o safleoedd y gellir eu cyflawni ond hefyd ei bod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'u cymeriad ac ardaloedd y safleoedd.

11.150 Mae'r pwyslais ar y Prif Ganolfannau nid yn unig yn adlewyrchu eu rhinweddau cynaliadwyedd ond hefyd eu hetifeddiaeth hanesyddol. Mae dosbarthiad y tir cyflogaeth hefyd cyd-fynd yn dda â'r lleoliadau cynaliadwy yn y Sir sy'n hygyrch gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu lwybrau teithio llesol sy'n lleihau i'r eithaf yr angen i deithio.

11.151 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r ddarpariaeth tir cyflogaeth yn y polisi ac yn nodi lefelau cwblhau a safleoedd lle mae caniatâd cynllunio dilys.

| | A. Dyraniad CDLl | B. Cwblhawyd | C. Cwblhawyd ond heb ffurfio rhan o'r ffigur a ddyrannwyd.[1] | D. Ymrwymedig | E. Cyflenwad Gweddilliol (A-B-D=E) |
|---|---|---|---|---|---|
| PC1 - Caerfyrddin | 18.687 | 0 | 0 | 2.18 | 16.507 |
| PC2 - Llanelli | 17.489 | 0 | 0 | 1.90 | 15.589 |
| PC3 – Rhydaman / Cross Hands | 28.118 | | | 9.91 | 18.598 |
| Canolfannau Gwasanaeth | 6.916 | | | 3.53 | 3.225 |
| Pentrefi Cynaliadwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pentrefi Gwledig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **71.21** | | | **17.29** | **53.92** |

Tabl 6: Darpariaeth Tir Cyflogaeth

11.152 Dylid nodi bod y ddarpariaeth safleoedd cyflogaeth wedi'u dyrannu'n cynnwys tir nad yw'n weithredol gyda chyfle ar gyfer tirlunio, clustogfeydd a defnyddiau eraill tebyg.

## EME1: Cyflogaeth - Diogelu Safleoedd Cyflogaeth

**Bydd safleoedd a nodwyd at ddibenion cyflogaeth trwy bolisi SP7 a safleoedd cyflogaeth presennol yn cael eu diogelu ar gyfer y defnyddiau hynny (B1, B2, B8 a'r rhai a adnabuwyd trwy ddarpariaethau polisi perthnasol).**

**Yn eithriadol, bydd cynigion sy'n arwain at eu colli'n cael eu caniatáu dim ond lle gellir dangos:**

- **a. Nad oes angen y safle neu'r adeiladau mwyach neu nad yw'n addas mwyach ar gyfer defnydd cyflogaeth;**
- **b. Na allai'r defnydd arfaethedig gael ei leoli'n rhesymol yn rhywle arall yn unol â pholisïau'r Cynllun hwn;**
- **c. Bod tir neu adeiladau cyflogaeth sy'n ddigonol o ran eu nifer, eu hansawdd a'u hamrywiaeth y gellir eu dwyn ymlaen i ddiwallu anghenion cyflogaeth y Sir a'r ardal leol;**
- **d. Nad oes unrhyw ddefnyddiau cyflogaeth diwydiannol na busnes sy'n hyfyw yn economaidd ar gyfer y safle a'r adeiladau;**
- **e. Bod defnydd cyflogaeth yn anghydnaws â defnyddiau cyfagos/yn yr ardal o amgylch;**
- **f. Lle y bo'n berthnasol bod y defnyddiau arfaethedig yn ategu prif ddefnydd cyflogaeth yr ardal o amgylch ac na fydd yn achosi effaith annerbyniol ar weithrediadau busnesau presennol.**

11.153 Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod safleoedd cyflogaeth presennol yn cael eu gwarchod rhag defnyddiau eraill. Er mwyn cynnal cyflenwad digonol o dir cyflogaeth sy'n darparu ar gyfer ystod a dewis o ddefnyddiau posibl, mae'r polisi hwn yn ceisio gwarchod

ardaloedd cyflogaeth diffiniedig rhag defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth a ddylai fod mewn lleoliadau sy'n well ac, o bosibl, yn fwy priodol.

11.154 Gan gydnabod y pwysau ar ardaloedd cyflogaeth o du defnyddiau eraill (nad ydynt yn perthyn i Ddosbarth B), mae'r polisi'n derbyn y gall fod angen rhywfaint o hyblygrwydd mewn rhai achosion. Mae defnyddiau o'r fath yn aml yn ddefnyddiau dosbarth B rhannol sy'n cyfuno elfen adwerthu ar raddfa fach â defnydd busnes, diwydiannol neu storio yn bennaf, neu'n ddefnyddiau sui generis. Derbynnir hefyd, wrth ddiwallu anghenion defnyddiau o'r fath, bod ardaloedd cyflogaeth yn aml yn debygol o fod yn fwy derbyniol na lleoliadau eraill megis ardaloedd preswyl, neu hyd yn oed canol trefi. Bydd disgwyl i unrhyw elfen adwerthu fod yn atodol i'r prif ddefnydd, ac at ddibenion masnach yn hytrach na'r cyhoedd.

11.155 Lle y bo angen, bydd yn ofynnol i gynigion datblygu ymgorffori mesurau priodol i warchod amwynder eiddo cyfagos neu gerllaw. Gall mesurau o'r fath gynnwys nodi clustogfeydd a chynigion tirlunio addas.

11.156 Lle y bo'n briodol, bydd amodau cynllunio'n cael eu gosod i atal cyflogaeth rhag cael ei cholli fel y prif ddefnydd.

## EME2: Cyflogaeth – Estyniadau a Dwysáu

**Bydd cynigion ar gyfer estyniadau i fentrau cyflogaeth presennol a/neu i ddwysáu'r mentrau hynny'n cael eu caniatáu ar yr amod:**

**a) Nad yw'r cynigion datblygu'n debygol o achosi niwed amgylcheddol na pheryglu cynigion ailddatblygu eraill;**
**b) Nad yw'r cynnig yn estyn a/neu'n dwysáu defnydd neu weithgarwch a allai arwain at faterion sy'n niweidiol i amwynderau defnyddiau cyfagos, neu nad ydynt yn gydnaws â'r defnyddiau hynny o bosibl;**
**c) Bod y cynigion datblygu ar raddfa a ffurf briodol sy'n gydnaws â'u lleoliad;**

**Bydd cynigion i ehangu mentrau gwledig presennol yn cael eu cefnogi yn amodol ar y darpariaethau uchod a pholisïau a chynigion y Cynllun hwn.**

11.157 Ni fydd cynigion sy'n ceisio estyn a/neu ddwysáu defnydd neu weithgaredd yn cael ystyriaeth ffafriol os nad ydynt yn gydnaws â defnyddiau o'u hamgylch, neu os ydynt yn debygol o arwain at faterion sy'n niweidiol i amwynder a fyddai'n peryglu cynigion ailddatblygu eraill.

11.158 Gall datblygiadau priodol i ehangu busnesau presennol gyfrannu'n sylweddol at yr economi leol, a bydd cefnogaeth i ailddatblygu safleoedd presennol lle bydd yn gwella ansawdd arwynebedd llawr cyflogaeth yn enwedig i ddiwallu anghenion cyflogaeth modern.

11.159 Mae'r polisi hwn yn cefnogi'r economi wledig ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer ehangu mentrau gwledig sefydledig yn briodol.[58] Dylid cyfeirio hefyd at Bolisi Cynllunio Cymru a TAN23 Datblygu Economaidd.

## EME3: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Dyranedig

**Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau cyflogaeth B1, B2 a B8 yn cael eu caniatáu ar y safleoedd cyflogaeth dyranedig canlynol lle maent yn cydymffurfio â'r defnydd arfaethedig o'r safle:**

| Cyf. Safle: | Enw'r Safle: | Lleoliad: | Dosbarth Defnydd: | Ha: |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| PrC1/E1 | Ystad Ddiwydiannol Cillefwr | Caerfyrddin | B1, B2, B8 | 4.167 |
| PrC1/E1 (i) | Tir i'r gorllewin o Heol Cillefwr (Gorllewin). | | | 2 |
| PrC1/E1 (ii) | Tir i'r gogledd o Heol Allt-y-cnap | | | 1.215 |
| PrC1/E1 (iii) | Tir i'r de o Heol Allt-y-cnap | | | 0.952 |
| PrC1/MU1 | Gorllewin Caerfyrddin | Caerfyrddin | B1, B2, B8 | 4.53 |
| PrC1/MU2 | Pibwr-lwyd | Caerfyrddin | B1,B2, B8 | 8.95 |
| PrC1/SS1 | Yr Egin | Caerfyrddin | B2 | 1.04 |
| PrC2/E2 | Dafen | Llanelli | B1,B2,B8 | 17.489 |
| PrC2/E2 (i) | Tir i'r dwyrain o Calsonic | | | 4.723 |
| PrC2/E2 (ii) | Tir i'r gorllewin o Gestamp Tallent | | | 1.547 |
| PrC2/E2 (iii) | Tir ar Heol Aur | | | 1.657 |
| PrC2/E2(iv) | Tir i'r gorllewin o Heol Gors | | | 1.449 |
| PrC2/E2 (v) | Tir ar Heol Croppin | | | 0.355 |
| PrC2/E2 (vi) | Tir i'r gorllewin o'r Goleudy | | | 1.881 |
| PrC2/E2 (vii) | Tir i'r dwyrain o'r Ganolfan Ambiwlans Awyr | | | 1.316 |
| PrC2/E2 (viii) | Tir ym Mhorth Llanelli, oddi ar Heol Aur | | | 3.755 |
| PrC2/E2 (ix) | Tir i'r gorllewin o Llys Aur | | | 0.806 |
| PrC3/E1 | Dwyrain Cross Hands | Rhydaman / Cross Hands | B1,B8 | 8.31 |
| PrC3/E2 | Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands | Rhydaman / Cross Hands | B1,B2,B8 | 5.647 |

[58] (TAN 6 Para 3.1.3)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PrC3/E2(i) | Tir i'r gorllewin o Castell Howell | | | 1 |
| PrC3/E2(ii) | Tir i'r de o Heol Parc Mawr | | | 2.712 |
| PrC3/E2(iii) | Tir i'r gogledd o Dunbia | | | 1.935 |
| PrC3/E3 | Parc Busnes Cross Hands | Rhydaman / Cross Hands | B1,B2,B8 | 4.76 |
| PrC3/E3 (i) | Heol Stanllyd (Gorllewin) | | | 2 |
| PrC3/E3 (ii) | Heol Stanllyd (De) | | | 2.156 |
| PrC3/E3 (iii) | Heol Stanllyd (Dwyrain) | | | 0.604 |
| PrC3/E6 | Ystad Ddiwydiannol Capel Hendre | Rhydaman / Cross Hands | B1,B2,B8 | 0.538 |
| PrC3/E7 | Parc Hendre, Capel Hendre1 | Rhydaman / Cross Hands | B1,B2,B8 | 8.112 |
| PrC3/E7(i) | Parc Hendre (Gorllewin) | | | 2.165 |
| PrC3/E7(ii) | Parc Hendre (Gogledd) | | | 1.955 |
| PrC3/E7(iii) | Parc Hendre (Dwyrain) | | | 1.05 |
| PrC3/E7(iv) | Parc Hendre (De) | | | 2.942 |
| PrC3/E8 | Ystad Ddiwydiannol Cilyrychen | Cilyrychen | B1,B2,B8 | 0.751 |
| SeC4/E1 | Dyfaty | Porth Tywyn | B1,B2,B8 | 3.036 |
| SeC16/E1 | Ystad Ddiwydiannol Beechwood | Llandeilo / Rhos-maen | B1,B2,B8 | 0.289 |
| SeC16/MU1 | Beechwood | Llandeilo / Rhos-maen | | 0.755 |
| SeC16/E2 | Hen Neuadd y Farchnad | Llandeilo | B1 | 0.2 |
| SeC18/E1 | Parc Busnes Sanclêr | Sanclêr | B1,B8 | 0.421 |
| SeC19/E1 | Ystad Ddiwydiannol Hendy-gwyn ar Daf | Hendy-gwyn ar Daf | B1,B8 | 0.489 |
| SeC19/E2 | Tir i'r De o'r Hen Hufenfa | Hendy-gwyn ar Daf | B1,B2,B8 | 1.321 |
| SeC13/E1 | Hen Ffowndri | Llanybydder | B1,B8 | 0.405 |
| **Cyfanswm** | | | | **71.21** |

*Tabl 7: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Dyranedig*

11.160 Mae’r cyfanswm yn y tabl uchod yn cynnwys ffigyrau tybiannol ar gyfer cyflogaeth defnydd B ar safleoedd Defnydd Cymysg (Polisi SG1) a safleoedd Strategol (Polisi SP6).

11.161 Lle bo’n briodol bydd defnyddiau cyflogaeth eraill a defnyddiau atodol cysylltiedig nad ydynt yn rhai dosbarth B yn cael eu caniatáu ar safleoedd cyflogaeth dyranedig lle mae’r datblygiad arfaethedig yn ategu ac yn gwella rôl y safle fel a nodir yn y tabl Dyrannu Safleoedd Cyflogaeth. Rhaid ystyried amwynder defnyddiau cyflogaeth cyfagos a'u bod yn gweithredu'n ddiogel i osgoi gwrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddiau tir.

11.162 Mae'r Polisi hwn hefyd yn ei gwneud yn bosibl darparu defnyddiau cyflogaeth atodol sydd y tu allan i’r dosbarthiadau defnydd B lle mae hyn yn gwella hyfywedd y safle ac yn ei gwneud yn bosibl datblygu safleoedd newydd. Mae defnyddiau atodol a allai fod yn ategol yn cynnwys meithrinfeydd dydd, canolfannau hyfforddi, ailgylchu gwastraff ac atgyweirio cerbydau. Bydd defnyddiau adwerthu’n cael eu hystyried yn erbyn polisïau adwerthu’r CDLl.

## EME4: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Nas Dyrannwyd

**Bydd cynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth ar safleoedd nas dyrannwyd, ond sydd o fewn terfynau datblygu anheddiad diffiniedig yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:**

**a) lle dangosir na all unrhyw safleoedd cyflogaeth presennol neu ddyranedig addas arall neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol yn rhesymol dderbyn y cynnig;**
**b) lle mae'r cynigion datblygu ar raddfa a ffurf briodol, a lle nad ydynt yn niweidiol i briod gymeriad ac edrychiad y treflun/ y dirwedd;**
**c) lle mae'r datblygiad yn gydnaws â'i leoliad ac â defnyddiau cyfagos.**

**Bydd cynigion cyflogaeth y tu allan i derfynau datblygu anheddiad diffiniedig (Polisi SP3) yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:**

**d) Lle mae'r cynnig yn uniongyrchol gysylltiedig ag anheddiad neu bentrefan; neu**
**e) Lle caiff y cynnig ei ategu gan achos busnes sy'n dangos bod cyfiawnhad dros ei leoliad; a**
**f) Lle mae'r cynnig o raddfa, maint a dyluniad priodol.**

11.163 Mae'n amlwg na fydd safleoedd cyflogaeth dyranedig yn briodol ar gyfer pob cynnig cyflogaeth. Felly mae Polisi EME4 yn cefnogi'r economi trwy ei gwneud yn bosibl, mewn ardaloedd trefol a gwledig, i ddarparu cyfleoedd economaidd ar safleoedd heb eu dyrannu. Mae hyn yn bwysicach o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 a'r goblygiadau tebygol o ran tueddiadau gweithio/gweithfannau yn y dyfodol, yn ogystal â'r angen am fand eang dibynadwy cyflym iawn (dylid cyfeirio at Bolisi INF3: Band Eang a Thelathrebu).

11.164 O fewn terfynau datblygu aneddiadau diffiniedig, mae'r polisi'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion ddangos eu gofyniad lleoliadol trwy ddull dilyniannol o ddethol safleoedd. Yn y lle cyntaf, rhaid iddynt ystyried dyraniadau arfaethedig a phresennol i ddiwallu'r angen o ran cyflogaeth. Dim ond wedyn y dylid ystyried safleoedd heb eu dyrannu.

11.165 Ar gyfer cynigion y tu allan i derfynau datblygu anheddiad diffiniedig, rhaid iddynt ddangos eu bod yn uniongyrchol gysylltiedig ag anheddiad neu bentrefan, neu'n cael eu hategu gan achos busnes sy'n cyfiawnhau eu lleoliad. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod gan fentrau ar raddfa fach rôl hanfodol yn yr economi wledig a'u bod yn cyfrannu at gystadleurwydd a ffyniant lleol a chenedlaethol. Gall nifer o weithgareddau masnachol a gweithgynhyrchu ysgafn gael eu lleoli'n briodol mewn ardaloedd gwledig heb darfu mewn modd annerbyniol neu achosi unrhyw effeithiau niweidiol eraill. Yn hyn o beth, byddai datblygu busnesau bach yn mynd i'r afael ag unrhyw angen lleol am adeiladau cyflogaeth.

11.166 Cyfeirir at bolisïau RD3 Arallgyfeirio ar Ffermydd, RD4 Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig ar gyfer Defnydd Amhreswyl ac EME5 Busnesau wedi'u Lleoli Gartref i gael gwybodaeth am gyfleoedd pellach ar gyfer ymgymeriadau cyflogaeth y tu allan i derfynau datblygu.

## EME5: Busnesau wedi'u Lleoli Gartref

**Bydd cynigion ar gyfer busnesau wedi'u lleoli gartref (lle mae caniatâd cynllunio’n ofynnol) yn cael eu caniatáu lle gellir dangos y byddai’n gydnaws â defnyddiau tir cyfagos, ac na fyddai’n achosi unrhyw effeithiau niweidiol ar amwynder lleol a/neu gymeriad yr ardal.**

11.167 Mae’r polisi’n ymwneud â busnesau bach sy’n gweithredu gartref gan ddarparu ar gyfer ystyriaethau sy’n deillio o’r duedd gynyddol ar gyfer gweithio gartref (yn awr ac yn y dyfodol).

11.168 Mae’r Cynllun hwn yn cydnabod y gall busnesau o’r fath fod â rôl bwysig o ran datblygu a chefnogi economi amrywiol ledled ardal y Cynllun. Cydnabyddir bod nifer o fusnesau bach yn cael eu dechrau gan unigolion sy’n gweithio yn eu cartrefi eu hunain, a bod achosion o’r fath yn debygol o gynyddu wrth i arloesi technolegol gynyddu. Wrth ystyried gweithio gartref yng nghyd-destun cynllunio, cydnabyddir nad yw’n ofynnol cael caniatâd cynllunio o anghenraid. Er enghraifft, ni fydd caniatâd cynllunio’n ofynnol fel arfer lle nad yw defnydd arfaethedig o ran o’r tŷ at ddibenion busnes yn achosi newid i gymeriad cyffredinol yr eiddo a’i ddefnydd fel annedd.

11.169 Ar y cyfan mae’r gofyniad am ganiatâd cynllunio’n deillio lle mae’r gweithgaredd busnes yn peidio â bod yn atodol i’w ddefnydd fel annedd neu lle mae cymeriad preswyl yr eiddo’n cael ei addasu. Lle mae busnesau o’r fath ar raddfa a dwyster sy’n golygu y byddai caniatâd cynllunio’n ofynnol, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i oblygiadau’r cynnig ar gyfer eiddo cyfagos ac ar gyfer y trefniadau mynediad a pharcio tebygol a fyddai’n deillio o natur y cynnig.

11.170 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi anogaeth i dyfu hunangyflogaeth a microfusnesau mewn ardaloedd gwledig. Mae’r polisi’n ceisio mabwysiadu ymagwedd gefnogol tuag at weithio gartref a chynigion lle mae’n ofynnol cael caniatâd cynllunio (gan gynnwys newid defnydd).

11.171 Wrth ystyried cynigion ar gyfer mentrau gwledig dylid rhoi ystyriaeth i ddarpariaethau polisi cenedlaethol ar ffurf Polisi Cynllunio Cymru a TAN6 a Pholisi EME4.

## Polisi Strategol – SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

**Mae'r Cynllun yn cefnogi cynigion datblygu sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y Sir. Ni fydd cynigion datblygu sy'n cael effaith anfanteisiol ar fywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg a diwylliant Cymru'n cael eu caniatáu oni bai y gellir lliniaru'r effaith. Bydd disgwyl i'r holl gynigion datblygu y mae WL1 yn berthnasol iddynt nodi mesurau sy'n gwella buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru.**

11.172 Mae gan y Gymraeg a diwylliant Cymru rôl bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd preswylwyr ag ymwelwyr â Sir Gaerfyrddin. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn sylweddol uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru ac, oherwydd hyn, mae'n rhan sylweddol o ffabrig cymdeithasol cymunedau'r sir, gan gynnig ymdeimlad o le a hunaniaeth gref.

11.173 Ystyrir Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Mae Cyfrifiad 2011 yn dynodi bod 19.0% o boblogaeth Cymru'n gallu siarad Cymraeg, tra bo'r ffigwr cyfatebol yn Sir Gaerfyrddin yn 43.9%. O ran dadansoddiad daearyddol o gyfran y siaradwyr ledled y Sir, mae ar ei hisaf yn ward etholiadol Glan-y-môr lle mae 19.2% yn siarad Cymraeg, ac ar ei huchaf yn Chwarter Bach lle mae 68.7% yn siarad Cymraeg. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws pob ward yn y Sir, ac am y rheswm hwn yn bennaf y mae Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn cael ei hystyried yn sensitif yn ieithyddol. Hefyd, mae data'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled y Sir sy'n dangos natur fregus yr iaith yn Sir Gaerfyrddin.

11.174 Nod y cynllun yw 'hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant' [59] [60]ac mae hefyd yn ymrwymedig i gyfrannu at nod hirdymor Llywodraeth Cymru o sicrhau 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. I gyrraedd y nod hwn bydd y Cyngor yn cefnogi, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg fel iaith gymunedol hyfyw trwy sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth a thai digonol a chymesur i gynnal cymunedau gwledig a threfol yn y Sir a thrwy roi fframwaith monitro effeithiol ar waith. Wrth wneud hynny, mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau bod y boblogaeth leol yn cael y cyfle i aros yn Sir Gaerfyrddin yn hytrach na gadael i chwilio am gyfleoedd gwaith a thai, yn ogystal â'r cyfle i ddychwelyd. Trwy amcanu at dwf cynaliadwy, bydd y Cynllun hefyd yn cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i siaradwyr di-Gymraeg sy'n symud i mewn i'r Sir gael eu hintegreiddio i fywyd cymunedol ar raddfa a chyflymder na fydd yn tanseilio bywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg a diwylliant Cymru.

---

[59] Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin 2017-18
[60] *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg*, Llywodraeth Cymru (2017)

11.175 Mae'r angen i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg yn berthnasol i ddatblygiadau a gynigir ledled y Sir ac nid yw'n gyfyngedig i ardaloedd penodol yn y Sir. Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu gydnabod statws swyddogol y Gymraeg ac ymrwymo i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

11.176 Mae polisïau penodol yn darparu canllawiau pellach i sicrhau bod datblygiadau ar raddfa ac o fath a chymeriad priodol yn cael eu cyflawni i ddiwallu anghenion y cymunedau. Yn ogystal â hyn, bydd y CDLl Diwygiedig yn ceisio sicrhau bod datblygu'n mynd rhagddo ar raddfa y gellir ei derbyn a'i chymhathu heb niweidio cymeriad y gymuned.

11.177 Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio diogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin trwy amcanion polisi perthnasol eraill, sef trwy ddarparu tai a thai fforddiadwy, hybu economi ffyniannus a chyfleoedd cyflogaeth a darparu a chadw cyfleusterau cymunedol, ymhlith eraill.

## WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig datblygu ledled Sir Gaerfyrddin ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg.**

**Bydd yn ofynnol i'r cynigion datblygu canlynol gyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith, a hwnnw'n nodi'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg:**

- **a) Datblygiadau preswyl o 5 neu fwy o anheddau a fydd yn unigol neu gyda'i gilydd yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai ddangosol a nodir ar gyfer yr anheddiad ym Mholisïau HOM1 a HOM3; neu**
- **b) Datblygiad preswyl o 5 neu fwy o anheddau ar safleoedd wedi'u dyrannu neu hap-safleoedd nad ydynt yn mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a'r galw am dai a gofnodwyd mewn Asesiad o'r Farchnad Dai neu ffynonellau tystiolaeth lleol eraill sy'n berthnasol; neu,**
- **c) Datblygiadau adwerthu, masnachol neu ddiwydiannol â chyfanswm arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy ar arwynebedd safle sy'n fwy nag 1 hectar.**

**Mae'n ofynnol i gynigion ar hap-safleoedd nas rhagwelwyd ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n arwain at lif gweithlu sylweddol gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a fydd yn nodi sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella'r Gymraeg.**

**Bydd yn ofynnol bod cynigion nad ydynt yn gyson â dosbarthiad tai'r Cynllun (Atodiad 7) yn darparu cynllun fesul cyfnod sy'n nodi'r graddfeydd amser ar**

**gyfer darparu'r tai a gynigir ar y safle, a dangos na fyddent yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg na ellir ei lliniaru.**

11.178 Mae'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn nodi'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg. Dylai'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg nodi hefyd sut y mae'r datblygiad yn cynnig gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at grwpiau iaith Gymraeg y gymuned. Gallai hyn, ymhlith mesurau eraill, gynnwys rhoi cymorth a chyllid i sefydliadau a chyrff sy'n darparu gweithgareddau, cyfleusterau ac addysg ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, a chymorth a chyllid tuag at ddosbarthiadau Cymraeg. Bydd yn ofynnol bod Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi effeithiau disgwyliedig y datblygiad arfaethedig ar y Gymraeg yn y Sir. Mae Canllawiau[61] Cynllunio Atodol y Gymraeg yn rhoi canllawiau pellach ynghylch pryd mae angen Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg, gan egluro beth yw datblygiad ar raddfa fawr, yn ogystal â sut i lunio Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg.

11.179 Er y gellir darparu cymorth ar gyfer prosiectau drwy gyfraniadau ariannol, gellid hefyd ddarparu cymorth drwy ddulliau eraill hefyd. Bydd caniatâd cynllunio'n cael ei roi gydag amodau neu'n amodol ar gytundebau cyfreithiol i sicrhau bod y mesurau lliniaru a gwella a gynigir yn y Cynllun Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith. Bydd canllawiau pellach ar gynnwys Cynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg yn cael eu darparu trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol.

11.180 Mae dosbarthiad tai'r CDLl wedi'i nodi yn Atodiad 7 y Cynllun. Mae effeithiau graddfa, lleoliad a chyfradd datblygu wedi cael eu hasesu yn unol â'r dosbarthiad y cytunwyd arno. O ganlyniad nid yw cynigion ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn gyson â graddfeydd amser y dosbarthiad yn cael eu hasesu'n llawn. Felly bydd angen i gynigion o'r fath gael eu hategu gan gynllun fesul cam sy'n nodi nifer yr anheddau a fydd yn cael eu cyflawni ym mhob blwyddyn ariannol. Mewn achosion o'r fath, gellir rhoi caniatâd cynllunio gydag amod i sicrhau bod anheddau'n cael eu cyflawni yn unol â'r cynllun fesul cam lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol. Gall ymgeiswyr hefyd gynnig lliniaru'r effeithiau disgwyliedig trwy ddulliau heblaw cyflawni'r datblygiad fesul cam; bydd rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar fesurau lliniaru yn cael eu hamlinellu trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol.

11.181 Mae Strategaeth y Cynllun yn darparu ar gyfer twf organig ar raddfa fach o fewn y Pentrefi Gwledig ac mae polisïau HOM1 ac HOM3 yn adeiladu ar hyn gan ganiatáu

[61] Cyngor Sir Caerfyrddin (2014), Canllawiau Cynllunio Atodol: Y Gymraeg

datblygu ar raddfa briodol ac mewn lleoliadau priodol. Ystyrir bod datblygiad bob yn dipyn ar y raddfa hon yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at dwf cynaliadwy'r Gymraeg mewn cymunedau gwledig, a bod unrhyw effeithiau negyddol yn debygol o gael eu hamsugno gan y gymuned. Efallai nad yw datblygiad nas rhagwelwyd ar raddfa sylweddol nas caniateir ym mholisïau'r Cynllun yn gydnaws â Strategaeth y Cynllun, ac felly mae ei effeithiau heb eu hasesu ac yn anhysbys. Os caiff cynigion o'r fath eu cyflwyno i gael eu hystyried, bydd angen cyflwyno asesiad llawn gyda hwy sy'n nodi eu heffeithiau tebygol ar y Gymraeg.

11.182 Mae'n ofynnol bod yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y CDLl yn asesu effeithiau tebygol y CDLl ar y Gymraeg. Gwneir hyn yn ailadroddol ar adegau allweddol trwy gydol y broses o gynhyrchu'r Cynllun. Caiff yr effeithiau disgwyliedig tebygol eu cyflwyno yn yr adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael o fewn sail dystiolaeth y CDLl.

11.183 Mae'r CDLl yn darparu canllawiau pellach ynghylch darparu hysbysebion dwyieithog ym Mholisi PSD9 – Hysbysebion. Er mwyn hybu hunaniaeth ddiwylliannol ac i ddiogelu cymeriad ieithyddol lleol Sir Gaerfyrddin, bydd y Cyngor yn rhoi anogaeth i farchnata datblygiadau tai a masnachol newydd yn ddwyieithog yn ogystal a rhoi anogaeth i roi enwau Cymraeg i strydoedd a datblygiadau. Caiff canllawiau ychwanegol ynglŷn â darparu enwau strydoedd Cymraeg eu darparu ym Mholisi Enwi a Rhifo Strydoedd Sir Gaerfyrddin.

## Polisi Strategol – SP 9: Seilwaith

**Bydd datblygiadau'n cael eu cyfeirio i leoliadau cynaliadwy lle mae'r seilwaith, y gwasanaethau a'r cyfleusterau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i gyflawni a chefnogi'r cynnig datblygu ar gael, neu'n gallu cael eu darparu.**

**Bydd angen i gynigion datblygu ddangos bod digon o gapasiti yn y seilwaith presennol i gyflawni a chefnogi'r datblygiad arfaethedig. Lle na ellir cyflawni hyn, bydd angen i gynigion ddangos bod trefniadau addas a chyllid yn eu lle i ddarparu'r capasiti o ran seilwaith yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol i gyflawni a chefnogi'r datblygiad.**

**Caiff cynigion ar gyfer datblygiadau atodol i'r seilwaith cyfleustodau eu caniatáu**

**a) Os ydynt yn rhoi sylw i'w lleoliad;**
**b) Os ydynt yn ymgorffori gwaith tirweddu;**
**c) Os nad ydynt yn gwrthdaro â phriodweddau'r ardal o ran yr amgylchedd adeiledig, hanesyddol a diwylliannol, cadwraeth natur a'r dirwedd.**

**Rhaid cyflawni seilwaith newydd neu well, neu gyfleusterau neu wasanaethau eraill i gefnogi gofynion y safle, mewn modd amserol i ddiwallu anghenion cymunedau cyn, neu o ddechrau, camau perthnasol.**

11.184 Mae darparu seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau priodol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod polisïau a chynigion y cynllun yn cael eu cyflawni. Mae seilwaith priodol yn allweddol i hwyluso'r gwaith o ddatblygu ond mae hefyd yn angenrheidiol i gefnogi anghenion a galwadau parhaus datblygiadau a chymunedau Sir Gaerfyrddin.

11.185 Efallai y bydd amrywiaeth o seilwaith yn ofynnol, a bydd y rhain yn amrywio'n fawr yn ôl y natur neu fath, graddfa, lleoliad a darpariaeth bresennol o ran seilwaith. Wrth ystyried anghenion cynigion datblygu, gall y seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau canlynol fod yn ofynnol:

- Ffyrdd a chyfleusterau trafnidiaeth eraill, gan gynnwys trafnidiaeth gynaliadwy, trafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau cerdded a beicio
- Ysgolion a chyfleusterau addysgol a hyfforddi eraill
- Tai Fforddiadwy
- Darpariaeth Iechyd
- Mannau Agored cyhoeddus a seilwaith gwyrdd a glas
- Amddiffynfeydd Llifogydd
- Hamdden a Chwaraeon
- Gwasanaethau cyfleustod,

- Bioamrywiaeth a diogelu a gwella'r amgylchedd
- Cyfleusterau cymunedol
- Seilwaith Digidol
- Cefnogi'r Gymraeg
- Ansawdd ac effeithlonrwydd dŵr
- Uwchraddio a gwella cyfleusterau a seilwaith Trin Dŵr Gwastraff.
- Cyfleusterau a gwasanaethau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol

11.186 Mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau bod y seilwaith, y gwasanaethau a'r cyfleusterau y mae eu hangen i gefnogi datblygu'n cael eu cyflawni mewn modd amserol cyn dechrau, neu ar ôl dechrau'r datblygiad, neu lle y bo'n briodol yn cael eu cyflawni fesul cam trwy'r broses ddatblygu. Mae'r cynllun yn annog bod y gwaith o ddarparu seilwaith yn cael ei gynnal mewn ffordd gydlynol, gan amharu i'r graddau lleiaf posibl ar gymunedau presennol.

11.187 Bydd cyfraniadau tuag at seilwaith yn cael eu sicrhau trwy amodau neu Rwymedigaethau Cynllunio yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi a ddarperir.[62] Dylid cyfeirio at Bolisi INF1: Rhwymedigaethau Cynllunio.

11.188 Dylai datblygwyr ystyried Atodiad 7: Taflwybr Tai a'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar weithredu a chyflawni sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â gofynion safleoedd allweddol y CDLl o ran cyflawni a seilwaith. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ofynion Polisi PSD2: Uwchgynllunio. Anogir datblygwyr i gychwyn deialog gynnar gyda'r Cyngor er mwyn adnabod y seilwaith sy'n ofynnol i gyflawni a chefnogi cynllun arfaethedig.

11.189 Cyfeirir at baratoi Cynlluniau Draenio a Rheoli Dŵr Gwastraff fel y'u paratowyd gan Dŵr Cymru. Rhagwelir y bydd y Cynlluniau Draenio a Rheoli Dŵr Gwastraff yn ategu'r broses o weithredu'r CDLl hwn drwy reoli'r rhwydwaith draenio a charthffosiaeth.

## INF1: Rhwymedigaethau Cynllunio

**Pan fydd angen, gofynnir am rwymedigaethau cynllunio i sicrhau yr ymdrinnir yn llwyr ag effeithiau datblygiadau er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol. Bydd angen cyfraniadau i gyflawni neu gyllido gwelliannau i isadeiledd, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau a chyfleusterau eraill i fynd i'r afael â gofynion neu effeithiau sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.**

[62] Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd); Polisi Cynllunio Cymru; Cylchlythyr Swyddfa Cymru 13/97 Rhwymedigaethau Cynllunio

**Lle bo'n berthnasol, gofynnir hefyd am gyfraniadau tuag at waith cynnal a chadw darpariaeth o'r fath yn barhaus ac yn y dyfodol.**

**Mewn achosion lle ceir anghydfod ynghylch materion sy'n ymwneud â hyfywedd ariannol cyflawni'r gofynion, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd dalu costau'r Cyngor am sicrhau arfarniad / asesiad annibynnol o hyfywedd ariannol.**

11.190 Bydd y rhwymedigaethau cynllunio sydd eu hangen yn cael eu hystyried fesul achos yn ddarostyngedig i natur y cynnig a'r gofynion sy'n codi ohono. Gall fod achosion lle na ellir sicrhau'r holl rwymedigaethau sy'n ofynnol oherwydd eu heffaith ar hyfywedd ariannol y cynllun. Mewn achosion o'r fath, bydd angen nodi'r blaenoriaethau seilwaith ar gyfer y safle hwnnw. Er bod y blaenoriaethau'n gallu amrywio yn ôl anghenion penodol pob safle a'u cymunedau, dylid nodi y bydd gofynion Polisi NE4 Datblygiad o fewn Ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr yn cael eu blaenoriaethu uwchlaw cyfraniadau eraill mewn perthynas â safleoedd o fewn Ardal y Canllawiau Cynllunio Atodol. Ym mhob achos arall, ystyrir yn gyffredinol mai'r flaenoriaeth i'r Awdurdod fydd darparu tai fforddiadwy ac yn y rhan fwyaf o achosion bydd ei ddarpariaeth yn cael ei blaenoriaethu uwchben cyfraniadau eraill.

11.191 Bydd gofynion y rhwymedigaethau cynllunio yn ystyried hyfywedd ariannol datblygiad arfaethedig. Mewn achosion lle ceir anghydfod ynghylch yr effaith y mae'r gofynion yn ei chael ar hyfywedd ariannol y cynllun, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno Arfarniad Hyfywedd Datblygu o'r safle i ddeall ei hyfywedd ariannol. Bydd yr arfarniad yn cael ei ddadansoddi gan drydydd parti, gyda'r holl gostau yn cael eu talu gan yr ymgeisydd. Darperir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Rhwymedigaethau Cynllunio.

## INF2: Cymunedau Iach

**Byd cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n darparu ar gyfer teithio llesol, mannau gwyrdd a seilwaith defnyddiadwy hygyrch, ac sy'n ceisio lleihau anghydraddoldebau iechyd trwy annog pobl i ddilyn ffyrdd iach o fyw, gan fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd a darparu cyfleusterau gofal iechyd hygyrch yn cael eu cefnogi.**

**Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygu a nodir o fewn y testun ategol isod gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn unol â'r dull dilyniannol.**

11.192 Caiff y cysylltiadau rhwng iechyd a llesiant a chynllunio eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth a pholisi cynllunio cenedlaethol. Yn hyn o beth mae Polisi Cynllunio Cymru yn ceisio darparu fframwaith i gyflawni cyfres o Ganlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy. Mae’r dull cyfannol hwn o gynllunio a dylunio datblygiadau a mannau’n adlewyrchu ffocws ar ganlyniadau cadarnhaol sy’n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl. Mae hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol fel Canlyniad Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach yn adlewyrchu’r cysylltiadau hyn rhwng iechyd, llesiant a chynllunio a’r angen i adlewyrchu unrhyw effeithiau posibl a all godi o’r broses gynllunio.

11.193 Gall Asesiad o’r Effaith ar Iechyd wneud cyfraniad gwerthfawr wrth gynnig neu wneud penderfyniadau ynghylch datblygiadau newydd. Gall tystiolaeth o’r effeithiau ar iechyd helpu’r system gynllunio i ddatblygu dulliau cryfach a mwy cydlynol o gynyddu iechyd a llesiant i’r eithaf. [63] Mae Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 yn nodi darpariaethau ar gyfer gwneud gwelliannau i iechyd gan gynnwys bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi strategaeth genedlaethol ar drechu gordewdra ac yn gwneud rheoliadau ynglŷn â chwblhau asesiadau o’r effaith ar iechyd gan gyrff cyhoeddus.

11.194 Mae Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd yn asesu effaith unrhyw newid neu ddiwygiad i bolisi, gwasanaeth, cynllun, gweithdrefn neu raglen ar iechyd y boblogaeth ac ar ddosbarthiad yr effeithiau hynny o fewn y boblogaeth, yn enwedig o fewn grwpiau agored i niwed. Mae cynnal Asesiad o’r Effaith ar Iechyd yn cynhyrchu gwybodaeth am y modd y gellir lleihau effeithiau negyddol ar iechyd a rhoi anogaeth ar gyfer manteision i iechyd. Gall tystiolaeth o’r fath o effeithiau ar iechyd helpu’r system gynllunio i ddatblygu dulliau cryfach a mwy cydlynol o gynyddu iechyd a llesiant i’r eithaf.

11.195 Mae’n bwysig bod cynigion yn ystyried ystod eang o ffactorau sy’n gysylltiedig ag iechyd a llesiant fel rhan o lunio a pharatoi unrhyw gynllun neu ddatblygiad. Mae’n bwysig bod y rhain yn cael eu hystyried o’r dechrau un. O ganlyniad, anogir datblygwyr i ymgysylltu â’r awdurdod cynllunio lleol a rhanddeiliaid eraill, megis y Bwrdd Iechyd Lleol mor gynnar â phosibl yn y broses o baratoi cynigion datblygu. Dylid darparu Asesiad o’r Effaith ar Iechyd gydag unrhyw gais ar gyfer mwyngloddio brig.

**Cymunedau Iach: Rhestr Wirio Ddilyniannol ar gyfer Asesu’r Effaith ar Iechyd**

11.196 I helpu i hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, dylai’r dull dilyniannol canlynol gael ei ystyried gan ddatblygwyr i bennu’r gofyniad am Asesiad o’r Effaith ar Iechyd a

[63] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11

chwmpas a chynnwys posibl hyn. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i ddatblygiadau mawr a ddiffinnir mewn deddfwriaeth cynllunio fel:

- Datblygiadau preswyl o 10 annedd neu fwy neu 0.5 hectar neu fwy;
- Darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr a fydd yn cael ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
- Datblygiad ar safle sydd ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy

11.197 Mae'r dull dilyniannol canlynol o ystyried yr angen i gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn adlewyrchu'r canllawiau a nodir yn Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd – Canllaw Ymarferol.[64]

- CAM 1: Sgrinio – Penderfynu a ddylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
  Mae sgrinio yn bwrw golwg gychwynnol ar effeithiau posibl y cynnig ar y boblogaeth leol ac unrhyw grwpiau agored i niwed penodol a ddiffiniwyd ynddi. Dylai amlygu unrhyw risgiau neu fanteision posibl i iechyd ac unrhyw grwpiau y gallai'r cynnig effeithio'n arbennig arnynt. Mae canlyniad y broses sgrinio'n benderfyniad a ddylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ai peidio ac, os felly, pa fath o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd sy'n ofynnol. Dylai hefyd ddarparu esboniad o'r modd y daethpwyd i'r penderfyniad.

- CAM 2: Ymarfer Cwmpasu – Pennu'r ffocws, dulliau a chynllun gwaith. Mae'r cam hwn yn golygu gofyn nifer o gwestiynau a gwneud nifer o benderfyniadau i gadarnhau'r amodau gorchwyl, rolau a chyfrifoldebau a'r cynllun y cytunwyd arno ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

- CAM 3: Arfarniad o'r Dystiolaeth – Adnabod yr effeithiau ar iechyd. Hwn yw'r cam allweddol yn yr asesiad o'r effaith ar iechyd. Y diben yw casglu gwybodaeth am natur, maint, tebygolrwydd a dosbarthiad posibl effeithiau'r cynnig ar iechyd. Mae hefyd yn gyfle i awgrymu ffyrdd posibl o gynyddu i'r eithaf y manteision i iechyd a lleihau'r risgiau i'r eithaf, yn enwedig i'r rhai sydd â'r iechyd mwyaf bregus o bosibl neu'r grwpiau mwyaf difreintiedig yn y boblogaeth. Mae hefyd yn gyfle i adnabod ac awgrymu camau gweithredu a allai fynd i'r afael â 'bylchau' yn y cynnig neu'r cynllun.

[64] Health Impact Assessments A Practical Guide - Wales HIA Support Unit

Er nad yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ynddo'i hun yn ddull ymchwil, mae'n tynnu ar ystod o ffynonellau gwybodaeth a dulliau o gasglu a dadansoddi data, y bydd rheolau a gweithdrefnau methodolegol priodol yn berthnasol iddynt.

- CAM 4: Adrodd ac Argymhellion – Unwaith y mae'r dystiolaeth a'r data wedi cael eu casglu, dylid datblygu set o argymhellion, a'r rheiny wedi'u goleuo gan gamau blaenorol yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Dylai'r argymhellion hyn geisio cynyddu i'r eithaf unrhyw fanteision posibl i iechyd a llesiant a lliniaru effeithiau negyddol posibl. Gallant fod yn gyfle i 'lenwi' unrhyw fylchau a ganfuwyd yn y cynnig a mynd i'r afael o'r newydd ag unrhyw anghydraddoldebau iechyd (neu eraill) a all gael eu hachosi.

  Mae angen i argymhellion fod:
  - Yn eglur a chryno
  - Yn realistig
  - Yn rhai y gellir eu cyflawni
  - Yn hydrin o ran eu nifer
  - Yn ddiduedd
  - Yn rhai sy'n adlewyrchu'r holl dystiolaeth a barn yr holl gynrychiolwyr
  - Yn rhai y cytunwyd arnynt drwy gonsensws

  Dylid cyfeirio at ganllawiau ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol.

  Ni fydd yr holl faterion sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant yn berthnasol i bob math o ddatblygiad ac mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen am ddull cytbwys o benderfynu ynghylch cynigion datblygu lle mae materion sy'n gysylltiedig ag iechyd yn un o nifer o ystyriaethau perthnasol. Bydd disgwyl i ddatblygwyr ddefnyddio'r dull dilyniannol a nodir uchod i nodi'r hyn sy'n berthnasol a sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys yn y ddogfennaeth ategol a anfonir gydag unrhyw gynnig fel y bo'n briodol.

## INF3: Band Eang a Thelathrebu

**Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r diwydiant telathrebu a'r corff rheoleiddio cyfathrebu Ofcom i gynyddu i'r eithaf fynediad at fand eang cyflym iawn, llecynnau diwifr ac argaeledd darpariaeth symudol gwell ar gyfer yr holl breswylwyr a busnesau, gan eu cynorthwyo (lle y bo'n briodol) i gyflawni eu cynlluniau buddsoddi i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion mewn seilwaith.**

**Dylai datblygiadau newydd gynnwys darparu seilwaith band eang sy'n gallu trosglwyddo ar gyfradd Gigabit o'r cychwyn cyntaf.**

**Rhaid i ddatblygiadau pwysig newydd gael eu gwasanaethu gan gyswllt band eang cyflym iawn a dibynadwy â'r adeiladau.**

**Dylai datblygiadau llai ddarparu mynediad at y cyswllt cyflym iawn mwyaf hyfyw yn ogystal â dwythellau ychwanegol ar gyfer Cysylltiad Ffeibr i'r Adeilad (FTTP) neu ddarpariaeth arall yn y dyfodol.**

**Bydd eithriadau'n cael eu gwneud lle mae ymgeiswyr wedi dangos trwy ymgynghori â darparwyr seilwaith band eang na fyddai hyn yn bosibl, yn ymarferol nac yn hyfyw yn economaidd. Mewn achosion o'r fath, gellid ceisio cyfraniad cyfwerth gan ddatblygwr tuag at waith oddi ar y safle a allai wneud mwy o fynediad yn bosibl yn y dyfodol.**

11.198 Mae'r polisi'n ceisio adlewyrchu galwadau Cymru fodern ar gyfer rhwydweithiau cyfathrebu cyflym a chapasiti uchel dibynadwy. Yn hyn o beth mae'n ategu amcan Llywodraeth Cymru i gynnig band eang cyflym a dibynadwy i bob eiddo yng Nghymru ac i roi cymorth i roi seilwaith symudol ar waith ledled y wlad.[65] Mae'n ceisio adlewyrchu cyd-destun seilwaith band eang fel gwasanaeth hanfodol ac un a all helpu i gefnogi a datblygu'r economi leol yn ogystal â chymunedau ffyniannus a chynhwysol. Mae'r polisi'n adlewyrchu darpariaethau Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith digidol sy'n gallu trosglwyddo ar gyfradd Gigabit i ddatblygiadau newydd lle mae pobl yn bresennol, er enghraifft tai, adeiladau busnes a masnachol newydd, ac adeiladau cyhoeddus.

11.199 Wrth roi'r polisi ar waith, dylid nodi bod BT Openreach a darparwyr eraill yn cynnig cyswllt band eang cyflym iawn ar gyfer pob datblygiad newydd, naill ai'n rhad ac am ddim, neu fel rhan o bartneriaeth a ariennir ar y cyd gan gynnwys partneriaethau a ariennir gan gymunedau. Bydd cysylltiad ffeibr i'r adeilad (FTTP) yn cael ei ddarparu am ddim i ddatblygiadau tai gan BT Openreach yn seiliedig ar eu trothwyon bryd hynny. Efallai y bydd rhaid i ddatblygiadau llai na hyn ddarparu cyfraniadau i sicrhau cysylltiad ffeibr i'r adeilad, neu efallai y byddant yn cael cysylltiadau copr am ddim.

11.200 Wrth roi cymorth i gyflawni ffeibr llawn, mae BT Openreach wedi pennu targedau ledled y DU, ac maent yn rhoi arweiniad a chymorth i ddatblygwyr ynghylch adeiladu rhwydweithiau FTTP llawn ar safleoedd preswyl neu breswyl/masnachol cymysg newydd.

11.201 Mae'r polisi hefyd yn cydnabod, mewn cyfran fach o achosion, na fydd yn bosibl darparu band eang ar gyfer datblygiadau newydd oherwydd eu lleoliad gwledig iawn. Felly

[65] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11

mae’r polisi’n cynnwys y potensial i ddarparu swm o arian i gyfrannu tuag at ddatrysiad arall. Fodd bynnag, lle bynnag y bo’n bosibl dylai’r datrysiad gynnwys bod y datblygiad yn trefnu darpariaeth angenrheidiol ar gyfer seilwaith ar y safle i hwyluso’r gwelliannau.

11.202 Bydd darparu band eang cyflym iawn a dibynadwy mewn ardaloedd gwledig o gymorth i gyflawni strategaeth y Cynllun trwy ddarparu cyfleoedd ychwanegol i hybu’r economi wledig ac arallgyfeirio economaidd.

## INF4: Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli - gwaredu dŵr wyneb y dalgylch

**Bydd cynigion sy'n draenio i Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli ac sy'n cael eu diffinio fel rhai mawr o dan Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn ddarostyngedig i ofyniad ar gyfer gwaredu swm mesuradwy o ddŵr wyneb o'r system garthffosiaeth gyfun fel y nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cilfach Tywyn.**

11.203 Yn nalgylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli, mae pryderon y byddai cysylltu llifoedd dŵr budr a gynhyrchir gan ddatblygiad newydd yn cyflwyno’r risg o ddirywiad yn ansawdd dŵr Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. Y rheswm am hyn yw bod y rhan fwyaf o'r systemau carthffosiaeth yn nalgylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli yn rhai cyfun (llifau dŵr wyneb a dŵr budr).

11.204 Er bod Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod digon o gapasiti yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli i gyflawni’r twf a nodir yn y Cynllun hwn, maent hefyd wedi gofyn am wneud datblygiadau perthnasol yn nalgylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli yn ddarostyngedig i ofyniad i gymryd mesur cydbwyso i dynnu dŵr gwastraff o’r system fel rhan o roi caniatâd cynllunio. Wrth nodi'r cyfeiriad penodol at Dŵr Cymru yn y paragraff hwn, dylid nodi bod y materion hyn yn amodol ar ddull amlasiantaeth sy'n cynnwys Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin. Mae Dinas a Sir Abertawe hefyd wedi'u cynnwys mewn trafodaethau ynghylch Cilfach Tywyn. Bydd y Datganiad o Dir Cyffredin yn cyd-fynd â Pholisi INF4 ac yn cefnogi'r gwaith o'i weithredu ynghyd â'r Canllawiau Cynllunio Atodol ategol.

11.205 Ceir pryder y gall cyflwyno llif ychwanegol o ddŵr budr arwain at orlwytho’r gwaith trin dŵr gwastraff, yn ogystal â chynyddu amlder yr arllwysiadau o garthffosydd cyfun fydd yn gorlifo allan i Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yn ystod glaw sylweddol. Gall y materion hyn arwain at broblemau llifogydd lleol hefyd.

11.206 Paratowyd Canllawiau Cynllunio Atodol Cilfach Tywyn i ddarparu canllawiau penodol ynghylch ystyried cynigion datblygu perthnasol sydd wedi'u lleoli yn nalgylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli. Er bod Llanelli (Prif Ganolfan) a Phorth Tywyn (Canolfan Wasanaethau) wedi'u hadnabod fel ffocws ar gyfer twf yn y Cynllun hwn, maent hefyd yn ddarostyngedig i ystyriaethau amgylcheddol lefel uchel, yn anad dim ansawdd dŵr Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd. Gellir cyfeirio hefyd at bolisi CCH4 yn y CDLl: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr.

11.207 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Cilfach Tywyn wedi'u seilio ar gonsensws ac yn ceisio darparu sicrwydd ar gyfer rhanddeiliaid a datblygwyr fel ei gilydd. Eu prif swyddogaeth yw cynorthwyo i gyflawni twf fel y nodir yn y Cynllun hwn. Maent yn darparu mecanwaith ar gyfer y gofyniad i ddatblygiadau perthnasol gymryd mesurau cydbwyso i dynnu dŵr wyneb. Mae hyn wedi'i fwriadu i alluogi datblygiadau i gyfrannu tuag at wella'r sefyllfa ar y cyfan, gan leddfu pryderon y bydd cynigion yn cael eu gwrthwynebu gan randdeiliaid allweddol – yn anad neb Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

11.208 Ceir dull partneriaeth sydd wedi hen ennill ei blwyf mewn perthynas â'r mater hwn, gan gynnwys Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae Polisi INF4 yn adlewyrchu'r dull partneriaeth hwn wrth symud ymlaen. Dylid cyfeirio at baragraff 11.203 gyda golwg ar y cyfeiriad at y Datganiad o Dir Cyffredin.

11.209 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hefyd yn rhoi eglurhad ar achosion pan mai Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r ymgeisydd neu'r tirfeddiannwr a'i fod yn ceisio defnyddio gwelliant dros ben y mae wedi'i gronni'n flaenorol ar y gofrestr tynnu dŵr wyneb.

## INF5: Dyraniadau Gwledig y tu allan i Ddalgylchoedd Systemau Carthffosiaeth Gyhoeddus

**Bydd cynigion ar gyfer darparu safleoedd o 5 neu fwy o anheddau mewn aneddiadau lle nad oes cysylltiad â'r garthffos gyhoeddus yn cael eu cefnogi lle mae'n cael eu gwasanaethu gan un system breifat. Caniateir cynigion o'r fath lle nad yw'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd naturiol, defnyddiau cyfagos neu amwynder lleol.**

11.210 Mae pryder bod amlhau carthffosydd preifat yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Nod y polisi hwn yw annog datblygiad i beidio â chael carthffosydd preifat unigol ac yn hytrach annog defnydd o system garthffosiaeth breifat ar y cyd.

## Polisi Strategol – SP 10: Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr

**Mae'r safleoedd canlynol yn yr Awdurdod Lleol wedi'u dyrannu i ddiwallu'r angen dynodedig am Lety Sipsiwn a Theithwyr ac i alluogi Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr i ehangu yn y dyfodol:**

| Cyf. Safle: | Lleoliad | Math o Angen |
|---|---|---|
| PrC2/GT1 | Tir ym Mhenyfan, Trostre, Llanelli | Preswyl |
| PrC/GT2 | Pen-y-bryn (estyniad), Bynea, Llanelli | Preswyl |

*Tabl 8: Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr*

11.211 Er mwyn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol, mae'r Cyngor Sir wedi ymgymryd â dau Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n nodi'r angen sydd heb ei ddiwallu ar hyn o bryd ar gyfer lleiniau Sipsiwn a Theithwyr yn y Sir. Cynhaliwyd yr adroddiad cychwynnol yn 2015 i gwmpasu'r cyfnod hyd at 2031, tra bod diweddariad 2019 yn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywio gan anghenion Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer cyfnod y Cynllun hyd at 2033.

11.212 Mae'r Asesiadau yn ystyried y fethodoleg a amlinellir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, ac mae'n amlinellu dau fath o asesiadau angen: mae'r cyntaf yn ystyried 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr; ac mae'r ail yn ystyried cyfnod llawn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr o 15 mlynedd.

11.213 Yn seiliedig ar asesiad Sipsiwn a Theithwyr 2019, mae'r angen presennol sydd heb ei ddiwallu ar gyfer 19 o leiniau, ac amcangyfrifir bod darpariaeth Sir Gaerfyrddin am y 5 mlynedd gyntaf ar gyfer 23 o leiniau ychwanegol. Mae cyfran uchel o'r angen hwn yn deillio o bobl sy'n byw mewn cartrefi brics a mortar, a thwf aelwydydd newydd o fewn yr aelwydydd hyn. Mae'r angen hwn wedi'i ganolbwyntio yn Llanelli, lle roedd nifer sylweddol o'r aelwydydd hyn yn byw ar y safle cyhoeddus ym Mhen-y-bryn yn y gorffennol

11.214 Mae rhagamcan wedi'i wneud hefyd o ran aelwydydd sipsiwn a theithwyr newydd a fydd yn dod rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 15 yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, oedolion ifanc sy'n byw ar safleoedd presennol a fydd, mewn amser, yn ffurfio eu haelwydydd eu hunain, sy'n golygu y byddai angen lleiniau personol arnynt. Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn

rhagweld y bydd angen 8 o leiniau ychwanegol rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 15, sy'n golygu cyfanswm o 31 o leiniau hyd at 2033.

11.215 Fe wnaeth yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hefyd edrych ar anghenion llety siewmyn teithiol o fewn Sir Gaerfyrddin. Roedd yr elfen hon o'r asesiad yn nodi 9 o leiniau a awdurdodwyd neu a oddefir ar gyfer siewmyn teithiol yn y sir. Wrth ystyried yr amcanestyniad ar gyfer y dyfodol, mae asesiad 2019 yn nodi bod angen 4 llain ychwanegol yn ystod pum mlynedd gyntaf yr asesiad.

11.216 Bydd y gofyniad am leiniau a'r defnydd ohonynt yn cael ei fonitro'n agos hefyd fel rhan o fframwaith monitro'r cynllun hwn ac adroddir ar hynny drwy drefniadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

## GTP1: Llety Sipsiwn a Theithwyr

**1. Bydd cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd, neu estyniadau i safleoedd awdurdodedig presennol o fewn terfynau datblygu anheddiad diffiniedig yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:**

- **a) Lle mae'r ystod angenrheidiol o gyfleusterau a gwasanaethau, gan gynnwys darpariaethau cymunedol, cymdeithasol ac addysgol presennol, a thrafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch neu'n gallu cael eu darparu'n rhwydd;**
- **b) Lle na fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol ar amwynder preswylwyr a defnyddiau tir cyfagos;**
- **c) Lle mae'r safle'n gallu cael gwasanaethau dŵr, trydan, carthffosiaeth a gwaredu gwastraff;**
- **d) Lle nad oes effaith niweidiol ar ei amgylchoedd, y dirwedd/treflun na lleoliad a chyfanrwydd yr amgylchedd hanesyddol.**

**2. Bydd safleoedd awdurdodedig newydd neu estyniadau i safleoedd awdurdodedig presennol y tu allan i derfynau datblygu aneddiadau diffiniedig yn cael eu caniatáu yn unol â'r uchod, lle gellir dangos nad oes unrhyw leiniau addas ar gael ar safleoedd awdurdodedig presennol, o fewn terfynau datblygu anheddiad diffiniedig, neu lle nad oes cyfle i estyn y safleoedd hynny'n briodol.**

**Bydd cynigion ar gyfer safle tramwy neu deithiol yn cael eu hystyried lle mae ganddynt gysylltiadau da â'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol.**

11.217 Mae'r polisi'n darparu'r fframwaith a'r cyd-destun ar gyfer ystyried ac asesu cynigion ar gyfer safleoedd newydd, ac estyniadau i safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (ac ar

gyfer Siewmyn Teithiol) gan adlewyrchu'r darpariaethau a ddiffinnir mewn deddfwriaeth sylfaenol[66].

11.218 Bydd yn ofynnol bod dyluniad unrhyw safleoedd yn rhoi ystyriaeth i darpariaethau'r Canllawiau Dylunio priodol gan Lywodraeth Cymru[67].

11.219 Bydd y canllawiau hyn yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ynghylch unrhyw geisiadau cynllunio a gyflwynir. Mewn perthynas ag unrhyw safle a ddatblygir gan gorff cyhoeddus, gan gynnwys yr awdurdod lleol, bydd darpariaethau Canllawiau Llywodraeth Cymru: Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn berthnasol.

11.220 Rhaid i gynigion ystyried mynediad ar gyfer cerbydau o'r briffordd gyhoeddus; yn ogystal â darpariaeth ar gyfer parcio, troi a gwasanaethau ar y safle; a diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer meddianwyr ac ymwelwyr.

11.221 Dylid gwneud gwaith tirlunio a phlannu coed a llwyni priodol er mwyn i safleoedd gydblethu â'u hamgylchoedd, rhoi strwythur a phreifatrwydd, a chynnal amwynder gweledol. Dylid osgoi tirlunio caled, waliau uchel, neu ffensys gormodol gan bod y rhain yn gallu ynysu safle oddi wrth y gymuned ehangach. Yn sgil y clefyd coed ynn, ni ddylid cyflwyno unrhyw goed ynn.

11.222 Bydd angen i gynigion roi sylw i seilwaith lleol a dangos bod y safle'n gallu darparu digon o gyfleusterau a mynediad at gyfleustodau. Dylai graddfa cynigion fod yn gymesur â'u hamgylchoedd ac â'r gymuned leol. Dylid ceisio arweiniad pellach o Ganllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

11.223 Bydd disgwyl i geisiadau gynnwys tystiolaeth i ddangos bod y safle newydd neu'r estyniad i safle presennol yn ofynnol yn y lleoliad hwnnw. Dylai gwybodaeth o'r fath gynnwys tystiolaeth sy'n dangos diffyg argaeledd lleiniau parhaol neu dramwy addas ar safleoedd presennol, neu gyfle i estyn y safleoedd hynny i ddiwallu'r angen gofynnol.

11.224 Gwnaeth Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr 2015 a 2019 asesu'r angen am safleoedd tramwy neu fannau aros brys ar gyfer y Gymuned Deithiol sydd naill ai'n teithio'n barhaol neu'n teithio am ran o'r flwyddyn. Gwnaeth yr asesiadau geisio dadansoddi cofnodion o safleoedd a gwersylloedd anawdurdodedig a chafodd data o'r Cyfrifiad

[66] Deddf Tai (Cymru) 2014
[67] Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2018: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn

Carafanau Teithwyr ei ystyried hefyd. Dangosodd dadansoddiad fod nifer cofnodedig y carafanau awdurdodedig ac anawdurdodedig yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng.

11.225 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru fecanwaith monitro newydd i olrhain a chanfod gwersylloedd tramwy anghyfreithlon. Gwnaeth Adroddiad Monitro Blynyddol 2021/2022 nodi nifer o wersylloedd anghyfreithlon, ond nid oedd yr un ohonynt ar ddibenion tramwy. O ganlyniad, nid yw'r data'n dynodi unrhyw batrwm clir eto sy'n gofyn am ymyrraeth trwy nodi safle tramwy. Dylid cyfeirio at fframwaith monitro'r cynllun.

11.226 Mewn perthynas â'r anghenion sy'n codi ar gyfer Siewmyn Teithiol fel a ddynodir trwy'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, ar hyn o bryd nid oes cydberthynas ofodol â'r angen hwnnw a fyddai'n ei gwneud yn bosibl adnabod safle mewn lleoliad addas. Mae'r cynllun yn ceisio darparu'r hyblygrwydd priodol i ddiwallu'r angen hwnnw trwy ddarpariaethau'r polisi uchod a chyswllt â'r gymuned i adnabod unrhyw angen lleoliadol penodol.

## Polisi Strategol – SP 11: Yr Economi Ymwelwyr

**Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r economi twristiaeth ac ymwelwyr yn cael eu cefnogi lle maent:**

**a) yn arddangos egwyddorion dylunio a chreu lleoedd o ansawdd uchel;**
**b) yn cyfrannu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol;**
**c) yn ychwanegu gwerth at ein heconomi ymwelwyr;**
**d) mewn lleoliad cynaliadwy a phriodol.**

11.227 Mae twristiaeth yn elfen allweddol o economi Sir Gaerfyrddin. Mae'n ffynhonnell bwysig o gyflogaeth a refeniw. Mae'n cynhyrchu oddeutu £400 miliwn - £500 miliwn o refeniw i economi'r Sir yn flynyddol.[68]

11.228 Mae'r Sir yn gartref i ystod eang o atyniadau, gan gynnwys Cae Rasio Ffos Las, yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a Pharc Gwledig Pen-bre. Sir Caerfyrddin yw "hwb beicio Cymru", ac mae'r Strategaeth Feicio yn mynegi dyheadau'r cyngor i fod yn arweinydd cenedlaethol o ran darparu digwyddiadau a datblygiadau seilwaith beicio.[69]

11.229 Mae twristiaeth yn ddiwydiant dynamig sydd â sylfaen ddemograffig / cwsmeriaid eang. Mae Sir Gaerfyrddin mewn sefyllfa dda i fanteisio ar botensial y sector o ystyried ei lleoliad yng nghyd-destun y DU. .. Mae'r ddarpariaeth dwristiaeth yn Sir Gaerfyrddin yn amrywio o'r nodweddion naturiol hynny megis hawliau tramwy / cerdded i atyniadau cenedlaethol uchel eu bri sydd wedi hen ennill eu plwyf. Mae twristiaeth treftadaeth a gweithgareddau'r Sir yn uchel ei bri, tra gallai ei hamgylchedd naturiol neilltuol apelio at y sector twristiaeth iechyd.

11.230 Mae SP11 yn pennu'r fframwaith ar gyfer dull polisi o fewn y CDLl Diwygiedig sy'n ddigon ymatebol a hyblyg i alw'r farchnad hyd at 2033, gan hefyd geisio gwarchod yr union gymunedau, tirwedd a threflun sy'n gwneud Sir Gaerfyrddin yn lle gwych i ymweld ag ef ac i'w fwynhau. Tra bod y polisi strategol yn darparu'r cyd-destun cyffredinol, mae polisïau penodol yn darparu manylder. Mae hyn yn cynnwys egluro unrhyw rôl sydd gan derfynau anheddu aneddiadau diffiniedig o ran goleuo penderfyniadau ynghylch cynigion.

11.231 Wrth ddehongli SP11, dylid nodi bod datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn cynnwys cyfleusterau newydd, yn ogystal ag estyniadau i gyfleusterau presennol.

[68] https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/twristiaeth/ymchwil-tueddiadau-a-datblygu/#.Y8aBAkHP23B
[69] Twristiaeth (llyw.cymru)

11.232 Dylai estyniadau i'r cyfleusterau presennol fod yn israddol o ran eu graddfa a'u swyddogaeth mewn perthynas â'r cyfleuster presennol a dylai cynigion sy'n cynnwys estyniadau sylweddol gael eu dehongli fel datblygiadau newydd.

**Ychwanegu Gwerth**

11.233 Gall cynigion ychwanegu gwerth at economi ymwelwyr y sir drwy gyfrannu at greu cyrchfan a llety amrywiol, o ansawdd uchel, trwy gydol y flwyddyn. Gallai'r buddion economaidd amrywio o gynnydd yn nifer yr ymwelwyr a diwrnodau ymwelwyr a chreu swyddi, a allai oll gyfrannu at gymysgedd ehangach o fathau o lety ac atyniadau. Mae'r rhain yn cefnogi'r tymor twristiaeth y tu hwnt i fisoedd yr haf. Mae cyfleoedd i gynigwyr geisio alinio â'r blaenoriaethau corfforaethol hynny sy'n dod i'r amlwg, a'u cefnogi, gan gynnwys dyheadau'r cyngor o ran beicio. Derbynnir y bydd gwerth ychwanegol yn gymesur â graddfa a natur y cynnig.  Mae cynigion sy'n cyfrannu at ddatblygu rhwydwaith ehangach o atyniadau o fewn y Sir yn cynyddu'r ddarpariaeth gyffredinol a'r cyfnod aros/gwario, ac felly'n cynnig potensial clir i ychwanegu gwerth.

**Parchu gwead cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y sir**

11.234 Mae gan holl rannau'r sir rinweddau sy'n cyfrannu at yr ymdeimlad cyffredinol o le. Mae'r rhain yn cynnwys tirwedd, cadwraeth natur, ffabrig cymdeithasol a'r amgylchedd adeiledig. Mae'r rhain yn asedau y mae'n rhaid eu diogelu ar gyfer ein cenedlaethau yn y dyfodol ac ni ellir eu peryglu yn ormodol gan ddatblygiadau sy'n ymwneud â thwristiaeth.

11.235 Dylai fod yna bwyslais hefyd ar ddarparu ansawdd ym mhob agwedd ar gynnig. Wrth ystyried pa mor dderbyniol yw cynigion, rhoddir ystyriaeth o ran eu lleoliad, y safle a bennir, dyluniad a graddfa, mynediad at y rhwydwaith o brif ffyrdd a ffyrdd craidd, ac effaith unrhyw draffig canlyniadol. Yn ogystal â hyn, mae'r graddau o ran pa mor hygyrch yw'r safle ar drafnidiaeth gyhoeddus a thrwy gerdded a beicio yn ystyriaethau pwysig. Dylai cynigion adlewyrchu cymeriad ac ymddangosiad yr ardal, gyda defnydd priodol o dirweddu a sgrinio yn ôl y gofyn.

**Lleoliad cynaliadwy**

11.236 Wrth gydnabod galw'r farchnad, dylai datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth gael eu cyfeirio at leoliadau cynaliadwy. Dylid ystyried strategaeth ofodol y Cynllun Datblygu Lleol wrth benderfynu ar briodolrwydd unrhyw leoliad, yn ogystal â'r Hierarchaeth

Trafnidiaeth Gynaliadwy ar gyfer Cynllunio[70]. . Mae'r polisïau penodol yn darparu canllawiau pellach ynghylch rhoi'r dull gofodol hwn ar waith.

11.237 Dylai cynigion mewn perthynas â thwristiaeth adlewyrchu cymeriad yr ardal a'r effeithiau ar gyffiniau'r safle fel rhan o ddull sy'n seiliedig ar greu lleoedd. Dylai cydnabyddiaeth o'r ymdeimlad o le o fewn cyffiniau'r cynnig fod ymhlyg o fewn cyd-destun y dull sy'n seiliedig ar glystyrau, sy'n grwpio'r fframwaith aneddiadau. Yn nhermau gofodol, byddai hyn yn dangos bod y cynigion twristiaeth ar raddfa fwy hynny, sy'n cynhyrchu llawer o deithiau, yn addas i gael eu lleoli yn ne'r sir lle mae'r seilwaith ar waith i'w cefnogi.

11.238 Wrth nodi'r cynnig sefydledig, sy'n arfordirol yn bennaf, sy'n nodweddu ardal dde-orllewin y Sir, bydd angen rhoi sylw dyledus i unrhyw effaith ar y dirwedd o ganlyniad i unrhyw bosibilrwydd o'i defnyddio'n rhy ddwys.

11.239 Mae ardaloedd gwledig y sir mewn sefyllfa dda i dderbyn cynigion cynaliadwy o ansawdd uchel sydd ar raddfa briodol. Dylai cynigion barchu asedau'r sir wrth gefnogi cymunedau gwledig bywiog ar yr un pryd.

11.240 Mae'n rhaid i rai datblygiadau sy'n ymwneud â thwristiaeth, oherwydd eu natur, gael eu lleoli yng nghefn gwlad. Mae'n bwysig nad yw'r datblygiadau hyn yn cael unrhyw effaith negyddol sylweddol ar y dirwedd, yr amgylchedd naturiol neu amwynderau. O ran y polisïau manwl ar gyfer y CDLl Diwygiedig, mae'r pwyslais ar egluro'r ddwy her a'r cyfleoedd nodedig sy'n wynebu'r economi ymwelwyr yn Sir Gaerfyrddin sef atyniadau (rhywle i fynd) a llety (rhywle i aros).

## VE1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr

**1. Bydd cynigion ar gyfer atyniadau a chyfleusterau o ansawdd uchel ar gyfer ymwelwyr, gan gynnwys estyniadau priodol i gyfleusterau presennol, yn cael eu caniatáu lle maent wedi'u lleoli mewn, neu lle maent yn uniongyrchol gysylltiedig ag, anheddiad diffiniedig (Polisi SP3).**

**2. Bydd yr holl gynigion eraill sy'n ymwneud ag atyniadau a chyfleusterau o ansawdd uchel ar gyfer ymwelwyr nas ystyriwyd dan Bwynt 1 uchod yn cael eu caniatáu, lle maent yn amlwg yn ddibynnol ar briodoleddau penodol y safle / lleoliad yng nghefn gwlad. Dylai cynigion ddangos bod y dull dilyniannol canlynol wedi cael ei ddefnyddio lle mae addasu ac ailddefnyddio adeilad presennol wedi cael ei ystyried yn y lle cyntaf; yna tir a ddatblygwyd yn flaenorol; yna lleoliad maes glas.**

[70] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 - Adran 4

**Dylai'r holl gynigion adlewyrchu a pharchu rôl a swyddogaeth yr ardal, yn ogystal â'i hymdeimlad o le, yn anad dim o ran graddfa, math, cymeriad, dyluniad, cynllun ac ymddangosiad.**

**Lle y bo'n briodol, dylai cynigion fod yn hygyrch gan ddefnyddio amryw ddulliau trafnidiaeth – yn enwedig dulliau trafnidiaeth cynaliadwy – megis cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.**

11.241 Mae'r polisi hwn yn cydnabod y cyfleoedd economaidd a gynigir gan y sector twristiaeth ond mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal cyfanrwydd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir. Ni ddylai fod unrhyw niwed cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol o ganlyniad i'r cynnig a rhaid bod lefelau hygyrchedd yn foddhaol.

11.242 Gall darparu amrywiaeth a dewis o atyniadau a chyfleusterau helpu i ddatgloi potensial economi ymwelwyr y Sir, megis, atyniadau 'diwrnod glawog' sy'n cynnig potensial arbennig i wrthsefyll materion tymhorol. Mae cyfleusterau defnydd deuol – h.y. atyniadau sydd ar agor i deithwyr dydd a'r gymuned leol – yn cynnig manteision ehangach posibl. Mae cynigion sy'n ceisio cyd-fynd â rhwydwaith ehangach o atyniadau yn y Sir yn cynnig potensial i ehangu'r ddarpariaeth ar y cyfan yn ogystal â chynyddu hyd arosiadau a swm y gwariant ariannol yn economi ymwelwyr Sir Gaerfyrddin.

11.243 Dylai cynigion nad ydynt wedi'u lleoli o fewn, neu nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag, anheddiad a ddiffinnir ym Mholisi SP3 ddangos bod y lleoliad penodol yn hanfodol o ran hyfywedd a dichonoldeb y datblygiad. Bydd angen i'r ymgeisydd ddangos pam fod y lleoliad penodol yn hanfodol a pham fod y cynnig yn dibynnu i raddau helaeth ar briodoleddau'r safle. Gellid gwneud hyn trwy egluro sut y mae'r safle / cynnig wedi'i gysylltu'n weledol, yn swyddogaethol ac yn ofodol â nodwedd ddiffiniedig. Gallai hyn gynnwys nodweddion naturiol, hanesyddol, neu wedi'u gwneud gan ddyn (e.e. cyfleuster sefydledig).

11.244 Dylai cynigion nad ydynt wedi'u lleoli o fewn, neu nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag, anheddiad a ddiffinnir ym Mholisi SP3 roi ystyriaeth yn gyntaf i ailddefnyddio neu estyn adeiladau presennol. Os na fydd unrhyw adeilad presennol i dderbyn y cynnig newydd, dylid defnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol, gyda safleoedd maes glas yn olaf.

11.245 Lle y bo'n berthnasol, bydd y Cyngor yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno datganiad ategol twristiaeth. Mae datganiad o'r fath yn darparu mecanwaith i'r ymgeisydd ddangos

aliniad polisi'r cynnig. Gall datganiad hefyd roi'r cyfle i ymgeisydd ddangos nodweddion economaidd y cynnig yn llawn (fel sy'n gymesur â maint/graddfa ac ati).

## VE2: Llety Gwyliau

**1. Bydd cynigion ar gyfer llety gwasanaeth o ansawdd uchel, gan gynnwys estyniadau priodol i lety presennol, yn cael eu caniatáu lle maent wedi'u lleoli o fewn, neu lle maent yn uniongyrchol gysylltiedig ag, anheddiad diffiniedig (Polisi SP3).**

**2. Bydd cynigion ar gyfer llety â gwasanaeth a llety hunanarlwyo sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r lleoliadau uchod yn cael eu caniatáu dim ond lle maent yn cynnwys ailddefnyddio ac addasu (gan gynnwys trosi) adeiladau presennol ar y cyd â pholisi RD4.**

**Dylai'r holl gynigion a nodir uchod adlewyrchu a pharchu rôl a swyddogaeth yr ardal a'i hymdeimlad o le, yn anad dim o ran graddfa, math, cymeriad, dyluniad, cynllun ac ymddangosiad – yn ogystal â'r defnyddiau hynny sydd eisoes wedi'u lleoli yng nghyffiniau'r safle.**

11.246 Mae'r polisi hwn yn cydnabod manteision arlwy llety amrywiol o ran darparu ystod a dewis o leoedd i aros. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i amrywiaeth o wahanol fathau o lety, o westai mawr o ansawdd uchel i lety gwely a brecwast bach. Caiff carafanau statig, chalets a safleoedd glampio parhaol eraill eu hystyried o dan bolisi VE4. . Gall hyn gynnig ystod o fanteision economaidd, gan hefyd ganiatáu i'r Sir ehangu ei darpariaeth ac apelio at seiliau demograffig / cwsmeriaid ehangach, a chyfrannu at fwy o wariant.

11.247 . Lle rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer llety gwyliau parhaol, bydd y Cyngor yn ystyried atodi amodau sy'n cyfyngu ar y defnydd fel mai defnydd fel llety gwyliau yn unig ydyw. Gellir defnyddio amodau meddiannaeth dymhorol hefyd i atal llety o'r fath rhag cael ei feddiannu'n barhaol ar sail breswyl. Yn ogystal, mewn ardaloedd lle mae'n hysbys fod nifer yr achosion o ail gartrefi a thai haf yn fater difrifol mewn cymunedau, bydd y Cyngor yn ystyried gosod cyfyngiadau ar hawliau datblygu a ganiateir i newid anheddau sy'n bodoli eisoes i gartrefi gwyliau ac ail gartrefi.

11.248 At ddefnydd adeiladau gwledig at ddibenion twristiaeth, yn gyffredinol ni fydd adeiladau nad ydynt yn cyrraedd y safon ofynnol a / neu sydd o ymddangosiad anghydweddol yn cael eu hystyried yn briodol i'w troi'n llety gwyliau. Yn hyn o beth, ni fydd cynigion ar gyfer adeiladau wedi'u hadeiladu'n fodern megis unedau ffrâm porthol neu strwythurau dros dro yn cael eu hystyried yn briodol i'w troi'n llety gwyliau. Dylid cyfeirio hefyd at Bolisi RD4: Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig at Ddefnydd Amhreswyl.

11.249 Lle y bo'n berthnasol, bydd y Cyngor yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno datganiad ategol twristiaeth. Mae datganiad o'r fath yn darparu mecanwaith i'r ymgeisydd ddangos aliniad polisi'r cynnig.

11.250 Cyfeirir at Bolisi RD3: Arallgyfeirio ar Ffermydd sy'n darparu'r fframwaith polisi ar gyfer prosiectau arallgyfeirio ar ffermydd sy'n ceisio gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr economi wledig a'i chryfhau.

## VE3: Carafanau Teithiol, Gwersylla a Safleoedd Gwersylla Eraill nad ydynt yn barhaol

**Bydd cynigion ar gyfer safleoedd newydd, ac ar gyfer estyniadau, gwelliannau neu ddwysáu safleoedd presennol, yn cael eu caniatáu lle maent yn adlewyrchu ac yn parchu rôl a swyddogaeth yr ardal a'i hymdeimlad o le, yn ogystal â'r canlynol:**

- **(a) lle maent o ansawdd uchel o ran dyluniad, cynllun ac ymddangosiad, a lle na fyddant yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar y dirwedd, morwedd a/neu'r drefwedd amgylchynol;**
- **(b) lle na fyddant yn arwain at ardal ormodol o arwyneb solet, a lle gall yr unedau llety gael eu symud yn rhwydd oddi ar y safle;**
- **(c) lle na fyddant yn arwain at or-grynodiad o safleoedd yn yr ardal;**
- **(d) lle maent wedi'u lleoli'n addas mewn perthynas â'r prif rwydwaith priffyrdd a lle gellir darparu mynediad digonol heb niweidio'r amgylchedd naturiol ac adeiledig;**
- **(e) lle defnyddir y llety at ddibenion teithio yn unig, gyda meddiannaeth yn gyfyngedig i ddefnydd ar gyfer gwyliau.**

**Dylai cynigion sy'n cynnwys angen am strwythurau atodol ddangos bod dull dilyniannol wedi cael ei ystyried, gan ddechrau ag ailddefnyddio adeiladau presennol, gyda'r angen i godi adeiladau newydd yn dilyn wedyn.**

**Bydd adeiladau newydd yn cael eu caniatáu dim ond lle maent yn briodol o ran eu lleoliad ar y safle, yr angen amdanynt a'u graddfa.**

11.251 Mae'r polisi hwn yn cydnabod y dylid cefnogi cynigion priodol sydd o ansawdd uchel. Mae hyn yn cydnabod yr angen i ddarparu arlwy llety amrywiol o ran darparu ystod a dewis o leoedd i aros yn y Sir.

.

11.252 Wrth ymateb i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y sector, mae'r polisi hwn yn darparu ar gyfer ystyried gwersylla moethus amgen neu unedau llety glampio. Efallai na fydd y rhain yn debyg i bebyll traddodiadol ac maent hefyd yn annhebygol o gyd-fynd â'r diffiniad statudol o garafán. Er mwyn i uned o'r fath gael ei hystyried yn un nad yw'n barhaol, dylai fod ag angoriad / cyswllt ffisegol cyfyngedig â'r llawr a dylai fod yn dramwy a chreu effaith fach. Dylai'r uned fod yn hawdd i'w symud oddi ar y safle. Ni ystyrir bod defnyddio sylfeini concrit yn briodol, tra dylai unrhyw lwyfannau neu ddecin pren allu cael eu symud yn rhwydd oddi ar y safle.

11.253 Bydd y Cyngor yn ystyried defnyddio amodau – gan gynnwys cyfyngu'r defnydd i ddefnydd fel llety gwyliau yn unig, neu gyfyngu ar gyfnod gweithredol y safle. Ceir disgwyliad bod y safle'n gallu cael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol a bod unrhyw unedau llety'n cael eu symud oddi ar y safle pan fo ar gau.

11.254 Er bod natur amharhaol cynigion a gaiff eu hystyried dan y polisi hwn yn golygu eu bod yn debygol o gael llai o effaith ar y dirwedd a'r amgylchedd nag unedau sefydlog, mae'n dal yn ofynnol iddynt gyd-fynd yn foddhaol â'r dirwedd a/neu'r drefwedd. Bydd angen i'r Cyngor fod wedi'i argyhoeddi nad oes unrhyw effaith niweidiol, yn enwedig o safbwynt capasiti'r dirwedd. Dylai fod pwyslais ar gynigion sydd wedi'u sgrinio'n dda lle gall unedau gael eu cymhathu'n rhwydd â'r dirwedd heb yr angen am ormod o nodweddion o waith dyn megis arwyneb solet a ffensys. Dylid rhoi sylw dyladwy i bolisïau'r CDLl SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy a PSD1: Dylunio Cynaliadwy ac o Ansawdd Uchel.

11.255 Lle y bo'n berthnasol, bydd y Cyngor yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno datganiad ategol twristiaeth. Mae datganiad o'r fath yn darparu mecanwaith i'r ymgeisydd ddangos aliniad polisi'r cynnig. Yng nghyd-destun y polisi hwn, mae'n debygol y bydd y Cyngor yn ceisio cynllun tirlunio er mwyn gallu arfarnu'r lleoliad, cynllun y safle, a sgrinio. Bydd hefyd yn caniatáu i'r ymgeisydd ymhelaethu ar fanteision economaidd y cynnig (fel sy'n gymesur â'i faint/graddfa ac ati).

## VE4: Safleoedd Carafanau Sefydlog a Chalets a Safleoedd Gwersylla Parhaol Eraill.

**a. Bydd cynigion ar gyfer Safleoedd Carafanau Sefydlog a Chalets newydd yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:**

**1. lle maent o fewn anheddiad diffiniedig neu'n uniongyrchol gysylltiedig ag ef (Polisi SP3), neu lle maent wedi'u lleoli mewn cyfleuster neu atyniad**

**twristiaeth presennol perthnasol neu'n dangos perthynas ofodol a swyddogaethol â chyfleuster neu atyniad o'r fath;**

**2. lle maent o ansawdd uchel yn ôl dyluniad, cynllun ac ymddangosiad, a lle na fyddant yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar y dirwedd a/neu'r drefwedd o amgylch;**

**3. lle na fyddant yn arwain at ddwysâd sylweddol ac annerbyniol yn y safleoedd a ddarperir yn yr ardal leol;**

**b. Bydd cynigion i wella ac estyn safleoedd presennol yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:**

**4. lle bydd yn cynyddu bywiogrwydd, cynaliadwyedd ac ansawdd amgylcheddol y safle;**

**5. lle na fyddant yn arwain at gynnydd annerbyniol yn nwyster unedau a/neu raddfa'r safle ar y cyfan.**

**6. lle na fydd yn creu niwed annerbyniol i'r dirwedd, y morwedd a / neu'r drefwedd o amgylch;**

**7. lle mae'n darparu (lle y bo'n briodol) ar gyfer gwelliant sylweddol yn ansawdd, ymddangosiad a lleoliad y safle ar y cyfan.**

11.256 Mae'r polisi hwn yn cydnabod y dylid cefnogi cynigion priodol sydd o ansawdd uchel. Mae hyn yn cydnabod yr angen i ddarparu arlwy llety amrywiol o ran darparu ystod a dewis o leoedd i aros yn y Sir.

11.257 Bydd y Cyngor yn ystyried cymhwyso amodau – gan gynnwys cyfyngu'r defnydd i ddefnydd fel llety gwyliau yn unig a / neu gyfyngu ar gyfnod gweithredol y safle.

11.258 Lle y bo'n briodol, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr safleoedd gynnal cofrestr gyfoes o enwau holl berchnogion/meddianwyr unedau sefydlog a'u prif gyfeiriad cartref er mwyn sicrhau nad yw'r unedau gwyliau'n dod yn brif fan preswylio'r perchennog/meddiannwr.

11.259 Yr egwyddor ddylunio danategol y dylid ei dilyn ar gyfer llety ymwelwyr sefydlog yw ansawdd da – yn anad dim o ran cynllun ac ymddangosiad. Dylai cynigion fod wedi'u lleoli mewn lleoliadau anymwthiol sydd wedi'u sgrinio'n addas gan nodweddion presennol y dirwedd a/neu lle gall yr unedau gael eu cymhathu'n rhwydd â'r dirwedd mewn ffordd nad yw'n achosi niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd, y morwedd neu'r drefwedd.

Dylid rhoi sylw dyladwy i bolisïau CDLl SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy a PSD1: Galluogi Dylunio.

11.260 Dylai dangos perthynas ofodol a swyddogaethol â chyfleuster neu atyniad twristiaeth presennol perthnasol fod yn gymesur â maint a natur y cynnig. Ystyrir bod cynigion ar gyfer llety gwyliau sefydlog sydd o natur wasgaredig a digysylltiad yn hynod annhebygol o allu dangos y berthynas ofynnol.

11.261 Mae llawer o unedau sefydlog presennol wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n sensitif yn weledol, yn enwedig ar hyd morlin Sir Gaerfyrddin. Mae'r polisi'n ceisio hybu gwelliannau ac uwchraddio safon llety ymwelwyr ar safleoedd presennol, a lleihau effaith y safleoedd hyn ar y dirwedd / morwedd. Dylai cynigion o'r fath fodloni polisïau a darpariaethau'r Cynllun yn ei gyfanrwydd.

11.262 Mae'r polisi'n ceisio adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn yr ystyr ei fod yn cydnabod y risgiau a achosir gan berygl llifogydd a / neu erydiad sy'n deillio o newid arfordirol. I'r perwyl hwn, dylid cyfeirio at bolisi CDLl NE7: Ardal Rheoli Newid Arfordirol gyda golwg ar y posibilrwydd o adleoli carafannau sefydlog, chalets neu unedau llety ymwelwyr parhaol eraill.

11.263 Lle y bo'n berthnasol, bydd y Cyngor yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno datganiad ategol twristiaeth. Mae datganiad o'r fath yn darparu mecanwaith i'r ymgeisydd ddangos aliniad polisi'r cynnig. Yng nghyd-destun y polisi hwn, mae'n debygol y bydd y Cyngor yn ceisio cynllun tirlunio er mwyn gallu arfarnu'r lleoliad, cynllun y safle, a sgrinio, yn ogystal â chynllun gwella ar gyfer estyniadau. Caiff materion capasiti'r dirwedd eu nodi hefyd. Dylai'r datganiad roi cyfle i'r ymgeisydd ymhelaethu ar fanteision economaidd y cynnig hefyd (fel sy'n gymesur â'i faint/graddfa).

11.264 At ddibenion y polisi hwn mae llety gwersylla amgen parhaol yn golygu unedau na ellir eu symud o'r safle pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, oherwydd y graddau y maent wedi'u cysylltu'n ffisegol â'r ddaear ac oherwydd y ffordd y maent wedi'u dylunio.

## Polisi Strategol – SP 12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy

**Er mwyn hwyluso datblygu cynaliadwy, rhaid i ddatblygiadau newydd gydnabod arwahanrwydd lleol ac ymdeimlad o le, a gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd a darparu manteision net i fioamrywiaeth.**

**I gyflawni hyn, bydd pob datblygiad yn:**

**a) Cyfrannu at greu lleoedd a mannau cyhoeddus deniadol, cydlynol, diogel sy'n gwella iechyd a llesiant neu ansawdd bywyd trigolion a chymunedau, gan gynnwys diogelu amwynder, tirweddu, y parth cyhoeddus a darpariaeth mannau agored a hamdden;**

**b) Dylai dyluniad, cynllun a chyfeiriadedd yr adeilad(au) arfaethedig a'r mannau rhyngddynt ac o'u hamgylch, greu amgylchedd deniadol, eglur, iach, hygyrch a diogel;**

**c) Cadw a gwella'r rhwydwaith o seilwaith gwyrdd a glas amlswyddogaethol a bioamrywiaeth yr ardal gan gynnwys ymgorffori cyfleoedd newydd i ddarparu manteision net ar gyfer bioamrywiaeth, a gwella cysylltedd a gwytnwch ecolegol (gan gynnwys ymgorffori nodweddion lleol);**

**d) Gallu addasu i newid hinsawdd a sicrhau cymaint â phosibl o gyfleoedd ar gyfer technegau adeiladu cynaliadwy, effeithlonrwydd adnoddau a chyfrannu tuag at leihau allyriadau carbon a sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy.**

**e) Defnyddio deunyddiau ac adnoddau sy'n briodol i'r ardal y mae wedi'i leoli ynddi;**

**f) Arddangos dealltwriaeth glir o'r cyd-destun tirweddol lleol presennol, y dreftadaeth naturiol ac adeiledig, y cymeriad lleol, a'r ymdeimlad o le;**

**g) Cyfrannu at, neu greu cyfleoedd ar gyfer Teithio Llesol a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus;**

**h) Ystyried a lle bo'n briodol ymgorffori cysylltiadau newydd, a/neu wella cysylltiadau presennol â seilwaith cymdeithasol hanfodol a chyfleusterau cymunedol;**

**i) Bod yn hygyrch ac yn integredig gan alluogi hydreiddedd a rhwyddineb symud sy'n hybu buddiannau cerddwyr, beicwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n sicrhau rhwyddineb mynediad i bawb;**

**j) Ystyried materion cynhyrchu, trin a chael gwared ar wastraff; a**

**k) Rheoli dŵr mewn modd cynaliadwy, gan gynnwys ymgorffori systemau draenio trefol cynaliadwy.**

11.265 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pennu polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Ei brif nod yw hyrwyddo a darparu fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

11.266 Mae un o elfennau allweddol yr agenda bolisi genedlaethol hon, a'r amcanion datblygu cynaliadwy sy'n ei thanategu, yn ymwneud â'r angen i gofleidio creu lleoedd fel rhan o'r broses o wneud cynlluniau a gwneud penderfyniadau. Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn nodi Lleoedd Cynaliadwy fel nod y system cynllunio defnydd tir yng

Nghymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi mai allbwn y system gynllunio yw Lleoedd Cynaliadwy yn hytrach na'r broses o'u cyflawni. Dylai'r holl benderfyniadau ynglŷn â datblygu, naill ai trwy ddewisiadau polisi cynlluniau datblygu neu benderfyniadau unigol ynglŷn â rheoli datblygu, geisio cyfrannu tuag at greu lleoedd cynaliadwy a llesiant gwell[71].

11.267 Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo ffurfiau mwy cynaliadwy o ddatblygu, ac mae ei chynllun datblygu cynaliadwy, Cymru'n Un: Un Blaned[72] (2009), yn amlinellu ei dull o ran datblygu cynaliadwy. Drwy'r system gynllunio yng Nghymru, gellir defnyddio dylunio da i chwarae rôl fawr wrth gyflawni ffurfiau cynaliadwy o ddatblygu. Mae'r CDLl Diwygiedig wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â'r agenda creu lleoedd cynaliadwy drwy ei bolisïau, sy'n cydnabod y rôl y gall datblygiadau newydd ei chael o bosibl wrth gyfrannu tuag at wneud lleoedd a gwella rhinweddau'r ardal. Mae'r dull gweithredu yn ceisio cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, cyfle cyfartal a mynediad i bawb yn ogystal ag iechyd a llesiant ein cymunedau.

11.268 Mae cyflawni dyluniad da a chreu ymdeimlad o le effeithiol yn mynnu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Mae dylunio yn gydran hanfodol wrth greu datblygiadau cynaliadwy, sydd ei hun ar flaen y gad o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

11.269 Mae'r Ddeddf yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus megis awdurdodau lleol weithio i sicrhau y dylai datblygiadau gydnabod a cheisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardaloedd.

11.270 Mae'r polisi'n integreiddio elfennau allweddol o greu lleoedd cynaliadwy sy'n cyfrannu at wireddu Gweledigaeth y Cynllun, sef creu cymunedau llewyrchus, cydlynol a chynaliadwy. Mae hefyd yn cydnabod y rôl y mae nodweddion amgylcheddol a hanesyddol a diwylliannol unigryw'r Sir yn ei chwarae wrth ddiffinio amgylchedd iach, diogel a ffyniannus. Mae rôl y Seilwaith Gwyrdd a Glas a'i rwydwaith o fannau agored amlswyddogaethol yn elfen bwysig yn ogystal â'i darpariaethau ar gyfer iechyd a llesiant a chyfleoedd gwell ar gyfer Teithio Llesol. Cydnabyddir natur amlswyddogaethol y Seilwaith Gwyrdd a Glas ac mae'n cynnwys tirwedd, treftadaeth, amwynder, iechyd a llesiant, rheoli

[71] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11
[72] https://senedd.wales/Laid%20Documents/GEN-LD7521%20-%20One%20Wales%20One%20Planet%20-%20The%20Sustainable%20Development%20Scheme%20of%20the%20Welsh%20Assembly%20Government-22052009-130462/gen-ld7521-e-English.pdf

adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, ynghyd ag addasu i'r hinsawdd a gallu ei gwrthsefyll.

11.271 Mae manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ynghlwm wrth greu datblygiad sydd wedi'i ddylunio'n dda. Mae amgylchedd cynaliadwy sydd wedi'i ddylunio'n dda yn elfen hanfodol i gyflawni ffyniant economaidd gan y bydd yn fwy deniadol i fuddsoddwyr posibl yn ogystal â bod yn fwy apelgar i gwsmeriaid, gweithwyr allweddol a thwristiaid. Yn yr un modd, bydd adeiladau a mannau gweithio sydd wedi'u dylunio'n well yn arwain at weithwyr mwy cynhyrchiol. Ar yr un pryd, bydd cymdogaethau sydd wedi'u cynllunio'n well yn creu cymunedau hapusach ac iachach a fydd yn fwy ymroddedig i gynnal eu hamgylchiadau. Efallai y bydd y manteision economaidd yn cynnwys llai o lygredd drwy leihau traffig, amddiffyn neu wella bioamrywiaeth, a chadw'r dreftadaeth adeiledig. Mae'r holl fuddiannau hyn yn ganolog ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy a ffyniant economaidd hirdymor ardal.

11.272 Nod y polisi hwn yw sicrhau y gall cynigion datblygu gyflawni canlyniadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cadarnhaol, a lleihau rhai niweidiol. Bydd hyn, ynghyd â'r polisïau mwy manwl a fydd yn cael eu datblygu fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Adneuo, yn ffurfio sail yr holl benderfyniadau cynllunio, a bydd dangosyddion yn cael eu datblygu fel rhan o fframwaith monitro'r cynllun er mwyn dangos effeithiolrwydd y polisïau. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol pellach yn cael eu paratoi i ychwanegu at Bolisi SP12.

11.273 Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Atodlen 3)[73] yn sefydlu Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy ac yn ei gwneud hi’n ofynnol i ddatblygiadau newydd gynnwys nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy sy’n cydymffurfio â safonau cenedlaethol.

11.274 Er bod y broses gydsynio ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy yn rhan o gyfundrefn reoleiddiol ar wahân i gynllunio, mae’r Cynllun hwn yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys ystyriaeth i Systemau Draenio Cynaliadwy fel rhan o’r cysyniad dylunio o’r dechrau un fel rhan o ddull creu lleoedd. Yn hyn o beth, mae’r Cynllun yn cydnabod bod Systemau Draenio Cynaliadwy yn gallu cael eu defnyddio’n effeithiol mewn ardaloedd gwledig a threfol i gefnogi datblygu ac ailddatblygu newydd, gan hefyd leihau perygl

[73] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/explanatory-memorandum-and-regulatory-impact-assessment.pdf#:~:text=1.1%20Schedule%203%20of%20the%20Flood%20and%20Water,%28LLFA%29%20duty.%20SAB%20approval%20will%20be%20required%20before

llifogydd dŵr wyneb a chreu cyfleoedd ar gyfer ansawdd dŵr gwell, cynefinoedd cyfoethog bio-amrywiol a mannau hamdden cymunedol newydd.

11.275 Cynghorir datblygwyr i gysylltu â Chorff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy y Cyngor ar adeg amserol er mwyn egluro a chwmpasu'r gofynion. [74]

## PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd

**Dylai cynigion datblygu ddangos bod amcanion dylunio a chynaliadwyedd penodol i safleoedd yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Dylai datblygiadau gyflawni datrysiadau dylunio o ansawdd sy'n briodol i'r safle penodol, yr ardal leol a natur y datblygiad.**

**Dylai cynigion ddangos y canlynol yn glir:**

**a) Bod y datblygiad yn adlewyrchu'r cyd-destun lleol drwy ystyried y dirwedd; yr amgylchedd adeiledig; a nodweddion hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys:**

**1. cynllun y safle a chynllun dylunio'r dirwedd;**

**2. ffurf, graddfa, dimensiynau, deunyddiau a manylion yr holl elfennau adeiledig ac arwynebau.**

**Sicrhau bod cynigion datblygu yn cadw cysylltiad â'r 'ymdeimlad o le' lleol ac yn ychwanegu ato.**

**b) Datrysiadau dylunio o ansawdd uchel sy'n darparu:**

**1. ffurf adeiledig sy'n integreiddio egwyddorion dylunio adeiladau cynaliadwy yn effeithiol er mwyn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ar gyfer lleihau carbon, effeithlonrwydd ynni a hyblygrwydd o ran defnydd.**

**2. defnydd effeithlon o arwynebedd y safle, gan wneud y mwyaf o gadw, amddiffyn ac integreiddio elfennau a nodweddion tirwedd ac ecolegol presennol, fel asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas.**

**3. cynllun safle effeithiol, diogel, a chynhwysol sy'n hyrwyddo iechyd, llesiant ac amwynder trigolion, defnyddwyr, ac ymwelwyr.**

**4. cyfraniad cadarnhaol i amgylchfyd cyhoeddus effeithiol a deniadol trwy integreiddio ffurf adeiledig gyda gofod digonol wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer amwynderau preifat a chyhoeddus**

---

[74] Tudalennau Gwe Cyngor Sir Caerfyrddin – Systemau Draenio Cynaliadwy - https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/corff-cymeradwyo-draenio-cynaliadwy-sab/#.Xfi39uRXWM8

**c) Na fydd y datblygiad yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol i amwynder defnyddiau tir, eiddo a phreswylwyr cyfagos na'r gymuned; a bod unrhyw effeithiau niweidiol posibl wedi cael eu hosgoi, eu lleihau i'r eithaf a'u lliniaru.**

**d) Atebion dylunio tirweddau o ansawdd sy'n:**

> **1. gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer; gwella ansawdd a maint elfennau a nodweddion tirwedd ac ecolegol presennol, a chreu rhai newydd, fel asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas.**
>
> **2. gwella amwynder gweledol a chymeriad tirwedd i sefydlu ymdeimlad clir ac eglur o le a chyfrannu at amgylchfyd cyhoeddus deniadol**
>
> **3. lleihau, a lliniaru yn erbyn effeithiau andwyol posibl ar y dirwedd ac effeithiau gweledol.**

**e) Atebion dylunio effeithiol sy'n ystyried amodau presennol y ddaear ac yn defnyddio topograffi presennol y safle i fynd i'r afael â sefydlogrwydd ti; lleihau gwaith cloddio a llenwi gymaint ag y bo modd; cyflawni Polisi PSD5 (Datblygu a'r Economi Gylchol) i'r graddau gorau posibl; a lleihau effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol.**

**f) Bod y datblygiad yn cyflawni neu'n cyfrannu at y canlynol:**

> **1. cysylltiadau diogel ac effeithlon â rhwydweithiau mynediad presennol gan gynnwys Teithio Llesol a'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus;**
>
> **2. llwybrau mynediad priodol ac arwynebau sy'n hybu hygyrchedd effeithiol ar gyfer pawb a rhwyddineb symud i mewn i'r safle a thrwyddo;**
>
> **3. darparu safonau priffordd priodol ar y safle gan gynnwys parcio a gwasanaethau.**

**g) Bod y datblygiad yn cyflawni mesurau cynaliadwy a chydnerth ar gyfer trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr budr; sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn â chynllun y safle ac yn cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i ddarparu gwerth ychwanegol trwy swyddogaethau sy'n cyflawni amcanion polisi ar gyfer y dirwedd, ecoleg a seilwaith gwyrdd a glas.**

**h) Bod atebion dylunio yn cael eu cyflawni trwy gydol oes y datblygiad arfaethedig trwy gynigion cynnal a chadw a rheoli effeithiol**

**i) Ei fod yn cynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, ddarpariaeth ar gyfer rheoli a chael gwared ar rywogaethau ymledol yn briodol.**

11.276 Mae'r cynllun hwn a'r polisi'n ceisio sicrhau bod cynigion datblygu'n arddangos egwyddorion dylunio cynaliadwy ac o ansawdd da sy'n adlewyrchu'r cyd-destun lleol. Mae dylunio o ansawdd da'n ganolog i'n huchelgeisiau ar gyfer creu cymunedau llewyrchus, cydlynol a chynaliadwy.   Rhan bwysig o hyn yw sefydlu dull adfywio seiliedig ar ddylunio sy'n darparu ar gyfer datblygiadau a dyluniadau o ansawdd da mewn ffordd sy'n cydnabod unigrywiaeth lleol, a'r berthynas rhwng y ffurf adeiledig bresennol a datblygiadau newydd.

11.277 Mae'r Cynllun yn ceisio adlewyrchu darpariaethau polisi cenedlaethol a'r ffaith bod datblygu cynaliadwy wedi'i wreiddio o fewn y cynllun, gan gydnabod y dylai tai a datblygiadau newydd gael eu darparu mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion cynaliadwyedd. Mae materion megis cynllun, graddfa, ffurf, trwch, uchder, dwysedd, deunyddiau a manylion penodol (gan gynnwys y paled lliwiau) yn elfennau pwysig. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw'r rhain yn gallu bod yn gyfarwyddol ac y byddant yn amrywio ar draws datblygiadau ac ardal y Cynllun.

11.278 Ni ddylai creu dyluniad da fod yn gyfyngedig i ymddangosiad ffisegol adeiladau yn unig ac ni fydd manylion strwythurol penodol ar eu pennau eu hunain yn creu lle cynaliadwy. Yn hytrach, mae'r cymysgedd posibl o ddefnyddiau mewn datblygiad a/neu adeiladau, mannau (gan gynnwys bylchau a golygfeydd pwysig) a'r gymuned ehangach yn berthynol i'w gilydd yr un mor bwysig er mwyn i'r datblygiad gyflawni'r ymdeimlad o le a ddymunir.

11.279 Mae'r polisi hwn ar y cyd ag SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy, PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas a PSD2: Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy ynghyd â pholisïau eraill yn y cynllun yn pennu fframwaith cyffredinol ar gyfer ansawdd dylunio da mewn cynigion datblygu, cadwraeth a gwella yn y Sir.

11.280 Dylai adeiladau hanesyddol, trefwedd a thirwedd y Sir gael eu trin fel ased a'u gwarchod a'u gwella'n gadarnhaol er budd preswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. Ceir canllawiau pellach ynghylch datblygu a gwarchod hunaniaethau hanesyddol a diwylliannol ym Mholisi Strategol SP14.

11.281 Dylai cynigion adlewyrchu'r angen i warchod nodweddion yr ardal ac amwynder y rheiny sy'n ymweld â'r ardal, sy'n gweithio ynddi, a/neu sy'n byw ynddi. Dylai lleoliad adeiladau ar y safle a natur defnyddiau gael eu hystyried yng ngoleuni eu potensial i achosi niwsans annerbyniol. Gall ystyriaethau i amwynder ymwneud â phob math o

ddatblygiad ledled y Sir. O ganlyniad, mae'r polisi'n ceisio parchu a, lle y bo'n briodol, gwarchod amwynder trigolion presennol.

11.282 Bydd lleoliad adeiladau ar y safle, cynllun a dyluniad manwl datblygiad yn aml yn hollbwysig i lwyddiant ymdrechion i ddarparu dewisiadau gwirioneddol yn lle teithio mewn car. Gall lleoliadau da ar gyfer safleoedd a datblygiadau wedi'u dylunio'n dda gynyddu eglurder safleoedd a mynediad at lwybrau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus gan felly leihau maint traffig a chyflymder ceir. Mae'r Cynllun hwn, a strategaethau eraill, yn sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyflawni cynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan greu lleoedd sy'n gydlynol ac yn gymdeithasol gynhwysol sy'n atgyfnerthu hunaniaeth leol.

11.283 Mae dyluniad o ansawdd gwael nid yn unig yn gallu tanseilio cymeriad, nodweddion ac ymddangosiad ardal, ond mae hefyd yn gallu effeithio ar amwynder preswylwyr presennol a'u hansawdd bywyd. Dylai datrysiadau dylunio ystyried effeithiau o'r fath mewn perthynas ag: effaith weledol, colli golau, edrych drosodd/preifatrwydd, aflonyddwch a goblygiadau tebygol symudiadau traffig neu ystyriaethau gweithredol.

11.284 Dylai cynigion ystyried ansawdd bywyd meddianwyr posibl y datblygiad hefyd. Ystyrir bod maint mannau byw yn bwysig hefyd o ran cynnal safon byw briodol gan gynnwys darparu ar gyfer amgylcheddau iach a deniadol i fyw ynddynt. Dylid nodi y bydd ystyriaethau o'r fath yn berthnasol i addasiadau lle mae potensial ar gyfer gor-ddwysáu defnydd a hynny'n arwain at amodau byw cyfyng.

11.285 Lle y bo'n briodol, dylid cyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad gyda cheisiadau cynllunio. Dylai'r Datganiad Dylunio a Mynediad gynnwys y manylion sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y cais a'r ystyriaethau dylunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn cael eu mynegi'n llawn gan roi sylw i ddarpariaethau polisi a'u cyd-destun.

11.286 Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiadau sydd â thros 50 o dai roi sylw i ddarpariaethau Polisi PSD2: Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymhelaethu ymhellach ar y polisi gan gynnwys arweiniad penodol ar Egwyddorion Creu Lleoedd a Dylunio. Bydd Seilwaith Gwyrdd a Glas a'i rwydwaith o fannau agored amlbwrpas yn rhan annatod o unrhyw ddatrysiad dylunio effeithiol. O ganlyniad bydd disgwyl i gynigion roi sylw dyledus i Bolisi PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas.

11.287 Mae gwyliadwriaeth naturiol yn ystyriaeth bwysig wrth sicrhau lleoedd diogelach a datblygiadau a chymunedau mwy cynhwysol.

11.288 Mae'r Cynllun yn cydnabod y gall tir ansad ddigwydd am nifer o resymau, er eu bod yn aml yn perthyn i'r categorïau canlynol:

1. Effeithiau ceudodau tanddaearol – boed â tharddiad naturiol neu o ganlyniad i waith cloddio neu beirianneg sifil;
2. Llethrau ansad – gall y rhain fod yn naturiol (e.e. morlinau sy'n erydu) neu o waith dyn (megis chwareli, trychfeydd neu argloddiau) neu,
3. Cywasgiad tir – gall hyn fod â tharddiad naturiol oherwydd priddoedd mawn, llifwaddodol, aberol neu forol; neu o ganlyniad i weithgareddau dynol e.e. tir gwneud, tirlenwi neu lofeydd brig wedi'u hadfer; a thir sy'n symud o ganlyniad i gleiau sy'n crebachu ac yn chwyddo.

11.289 Yn yr ardaloedd hynny lle mae ansadrwydd tir yn hysbys, rhaid cyflwyno adroddiad cwmpasu gyda chynigion datblygu, a hwnnw'n nodi natur yr ansadrwydd (posibl). Dylai'r adroddiad fod yn ddigon manwl i'r awdurdod lleol ac unrhyw asiantaeth statudol arall allu cadarnhau:

a) nad oes bygythiad posibl i ddatblygiad fynd yn ei flaen;
b) na ellir goresgyn problemau ansadrwydd; neu
c) y gellid rhoi mesurau ar waith i oresgyn problemau dynodedig. Bydd yn ofynnol cyflwyno adroddiad sadrwydd manwl gyda'r cais sydd:

1. Wedi'i lunio gan "berson cymwysedig", yn fwyaf priodol arbenigwr geotechnegol sy'n gallu dangos profiad arbenigol perthnasol o asesu a gwerthuso ansadrwydd; ac
2. Yn nodi'r mesurau sy'n ofynnol i liniaru'r risg(iau) a ddynodwyd.

11.290 Mae'n bwysig bod cynigion yn cael eu dylunio ar gyfer oes y datblygiad. Dylai cynigion nodi cyfrifoldeb am gynnal a chadw, a'r trefniadau cyllido ar gyfer cynnal a chadw dros oes y datblygiad arfaethedig.

## PSD2: Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy

**Ar gyfer cynigion lle mae'r datblygiad yn un ar gyfer 50 o dai neu fwy, bydd gofyniad i gyflwyno 'uwchgynllun' cynhwysfawr ac integredig ar gyfer y safle cyfan a hwnnw'n dangos dull cydlynol a chydgysylltiedig o greu cymdogaethau yn unol ag egwyddorion creu lleoedd a dylunio da. Lle bo'n briodol, rhoddir ystyriaeth i'r egwyddorion arweiniol canlynol**

**a) Dadansoddiad o ddwyseddau ar draws y safle sy'n adlewyrchu nodweddion ffisegol y safle a chymeriad ac ymddangosiad y gymuned o amgylch. Bydd disgwyl i ddatblygiadau dwysedd uwch ddwyn perthynas uniongyrchol â choridorau trafnidiaeth gyhoeddus ac adlewyrchu safle'r anheddiad yn y fframwaith aneddiadau (Polisi Strategol SP3);**
**b) Sut y byddant yn cyfrannu at ddarparu dewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy gan gynnwys teithio llesol a hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus;**
**c) Sut y mae'r cynnig yn integreiddio ac yn cysylltu'n effeithiol â'r gymuned o amgylch gan gynnwys cysylltiadau o fewn a thrwy'r safle ar gyfer dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy. Dylai cynigion geisio sefydlu eglurder a chysylltedd da o fewn y safle ac o ran cysylltu â'r ardal ehangach;**
**d) Darparu cyfleusterau i ddiwallu anghenion cymdeithasol a chymunedol y datblygiad a, lle y bo'n briodol, y gymuned ehangach;**
**e) Cynnwys datrysiadau ymatebol sy'n adlewyrchu'r cyd-destun lleol a'r cyfleoedd ar gyfer technegau adeiladu cynaliadwy;**
**f) Integreiddio'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas, a mannau agored i ddarparu amgylchedd cydlynus ac integredig i bobl a bioamrywiaeth, a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer hamdden ac amwynderau eraill;**
**g) Integreiddio ffurf y dirwedd, bioamrywiaeth a nodweddion adeiledig a hanesyddol o fewn ac o amgylch y safle i mewn i'r datblygiad mewn modd sympathetig. Bydd disgwyl i gynigion edrych tuag at allan y tu hwnt i ffiniau'r safle (ac nid dim ond o fewn y safle) i ddatblygu cymdogaethau cynaliadwy o ansawdd da;**
**h) Cynllun fesul cyfnod ar gyfer cyflawni'r datblygiad ynghyd â darparu seilwaith ategol mewn modd amserol;**
**i) Adlewyrchu hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol y Sir a chyfrannu tuag at ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg;**
**j) Cynnwys atebion arloesol a chreadigol mewn perthynas ag effeithlonrwydd adnoddau megis rhwydweithiau gwresogi ardal, datblygiadau carbon isel a chynhyrchu ynni adnewyddadwy;**
**k) Integreiddio nodweddion y safle sy'n codi o Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) fel rhan o'r datblygiad ac ystyried y gwerth neu'r swyddogaethau ychwanegol y gall y rhain eu darparu.**
**l) Lle mae diddordebau bywyd gwyllt sylweddol yn gysylltiedig â'r safle, rhaid sicrhau bod Seilwaith Gwyrdd a Glas yn darparu rhwydwaith cydnerth, sy'n amddiffyn ac yn gwella'r ddiddordebaubywyd gwyllt perthnasol yn ddigonol.**

11.291 Mae'r polisi'n nodi uwchgynllunio fel un o'r gofynion ar gyfer datblygiadau o ran cyflawni dull creu lleoedd cyfannol ar gyfer yr holl safleoedd dyranedig a hapsafleoedd â 50 neu fwy o dai. Bydd angen cytuno ar uwchgynllun ar gyfer yr holl safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer 50 o dai neu fwy cyn rhoi caniatâd cynllunio mewn perthynas â'r safleoedd hynny.

11.292 Mae'r polisi'n cydnabod y manteision a all godi o uwchgynllunio effeithiol nid dim ond o ran ansawdd yr amgylchedd a'r ymdeimlad o le y gall ei greu, ond hefyd fel cyfle i integreiddio'r holl ystyriaethau a gofynion datblygiadol perthnasol yn un mynegiad ar y ffurflen gynigion.

11.293 Dylai cynigion fynegi mewn ffordd eglur a chydlynol sut y gall ffactorau megis seilwaith newydd neu wella seilwaith presennol ychwanegu gwerth ar gyfer preswylwyr presennol a darpar breswylwyr. Bydd hyn yn helpu i ffurfio ac arwain darpariaeth yn y dyfodol. Bydd dull o'r fath yn darparu mwy o sicrwydd ac yn integreiddio cyfleoedd ar gyfer byw cysylltiedig, strydoedd eglur, dilyniant o fannau agored a Seilwaith Gwyrdd a Glas a datblygiadau sy'n cyd-fynd â'u hamgylchoedd.

11.294 Dylai cynigion uwchgynllunio ystyried a chynllunio ar gyfer cyflwyno'r datblygiad fesul cyfnod mewn modd effeithiol ac integredig gan ystyried gwahanol gymysgeddau o ddeiliadaethau a darpariaeth addas o ran cyfleusterau ar adegau priodol yn natblygiad safle. Bydd hyn yn sicrhau bod datblygiad yn cael ei gynllunio'n gynhwysfawr gyda chymunedau cydlynol a chynaliadwy'n ganolog iddo. Lle bo'n ymarferol, dylid gwarchod llystyfiant presennol/a gaiff ei gadw drwy gydol y cyfnod adeiladu. Lle caiff cynefin newydd ei greu, dylid ystyried y llinell amser sydd ei hangen er mwyn i'r cynefin ddod yn weithredol.

11.295 Dylid ystyried yr uwchgynllun ar y cam cais cynllunio amlinellol gan gytuno ar ei baramedrau a'i gynnwys, a ddylai fod yn cyd-fynd â cheisiadau materion a gedwir yn y dyfodol.

## PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas

**Bydd cynigion datblygu yn dangos atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas effeithiol sy'n:**

1. **Cadw, amddiffyn, ac integreiddio asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol i'r graddau gorau posibl a blaenoriaethu'r rheiny sydd o'r gwerth, yr ansawdd, a'r cyflwr gorau o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu;**

2. **Gwireddu gwelliannau cyffredinol i werth, ansawdd, a chyflwr; ac ehangder, amrywiaeth, a chysylltedd y rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu;**
3. **Integreiddio'n effeithiol a gwneud y mwyaf o gysylltedd ag asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol wrth ymyl ffiniau'r safle datblygu a chyda'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas ehangach;**
4. **Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fod yn amlswyddogaethol trwy integreiddio swyddogaethau Seilwaith Gwyrdd a Glas i gyflawni amcanion cyfunol sydd o fudd i Fioamrywiaeth, Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd, Iechyd a Llesiant, Ymdeimlad o Le, a'r Economi; a,**
5. **Chynnwys cynigion rheoli a chynnal a chadw hirdymor i sicrhau bod atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas effeithiol yn cael eu cyflawni ar gyfer oes y datblygiad arfaethedig.**

**Bydd ceisiadau cynllunio yn gofyn am gyflwyno arolygon ac asesiadau sy'n briodol i safle a natur y datblygiad, er mwyn sefydlu llinell sylfaen ar gyfer atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas.**

**Bydd yn ofynnol i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr gyflwyno Datganiad Seilwaith Gwyrdd a Glas i ddangos sut mae atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas wedi cael eu hystyried a'u lletya fel rhan o'r datblygiad arfaethedig.**

11.296 Nod y polisi hwn yw sicrhau bod asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas yn cael eu gwerthfawrogi, eu diogelu, eu gwella, a'u rheoli drwy rwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas. Ar raddfa tirwedd, gall asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas gynnwys ecosystemau cyfan megis gwlyptiroedd, coetiroedd, rhostiroedd a dyfrffyrdd. Ar lefel leol, gallai gynnwys parciau, caeau, llwybrau cerdded, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, llwybrau beicio, tir comin, tir mynediad agored, camlesi, mannau tyfu cyhoeddus, rhandiroedd, mynwentydd, tiroedd wedi'u tirlunio, a gerddi. Ar raddfeydd llai, gall ymyriadau trefol unigol megis coed stryd, lleiniau ymyl ffordd a thoeau gwyrdd oll gyfrannu at rwydweithiau seilwaith gwyrdd a glas.


11.297 Bydd ceisiadau cynllunio yn gofyn am gyflwyno arolygon ac asesiadau sy'n briodol i safle a natur y datblygiad, er mwyn gallu gwerthuso lleoliad, ansawdd, a chyflwr yr holl asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol ar ffin y safle ac yn agos iddo. Gall y wybodaeth hon gynnwys Arolygon Coed neu Goedyddiaeth, Arfarniadau Ecolegol Rhagarweiniol ac arolygon rhywogaethau a warchodir. Rhaid i atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas:

i. Nodi'r holl effeithiau andwyol posibl i asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol ar y safle ac yn gyfagos i'r safle, a dangos sut y bydd yr effeithiau'n cael eu hosgoi, eu lleihau, a'u lliniaru cyn belled ag y bo modd (yn unol â'r hierarchaeth liniaru) trwy fesurau dylunio ac amddiffyn penodol;
ii. Nodi effeithiau anochel i asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol ar, ac yn gyfagos i'r safle a dangos sut y mae'r effeithiau wedi'u lliniaru, neu sut y gwneir iawn amdanynt o fewn y cynllun datblygu arfaethedig a thrwy gynlluniau dylunio tirwedd ac ecolegol; a
iii. Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i wella ansawdd a maint asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol, a galluogi'r gwaith o greu asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas newydd, i wella cysylltedd ac aml-ymarferoldeb rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas.

11.298 Rhaid i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr gynnwys Datganiad Seilwaith Gwyrdd sy'n dangos sut y mae atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas wedi cael eu hystyried a'u cynnwys fel rhan o'r datblygiad arfaethedig. Rhaid i'r Datganiad Seilwaith Gwyrdd fodloni'r gofynion penodedig a nodir ar gyfer atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas a amlinellir yn y paragraff a grybwyllir uchod (i,ii,iii).

11.299 Pan gaiff Seilwaith Gwyrdd a Glas ei gynllunio, ei ddylunio a'i reoli'n briodol, mae ganddo'r potensial i ddarparu ystod eang o nwyddau cyhoeddus a manteision i bobl, bioamrywiaeth, yr hinsawdd ac i fywyd gwyllt. Trwy ystyried y swyddogaethau lluosog y gall asedau naturiol eu darparu ar yr un pryd, gall leihau costau yn sylweddol ar gyfer unigolion, busnesau, a chyrff cyhoeddus, gan wella ansawdd bywyd ac iechyd trigolion, gweithwyr, ac ymwelwyr i Sir Gaerfyrddin.

11.300 Mae'r swyddogaethau hyn y gall Seilwaith Gwyrdd a Glas eu darparu wedi'u cynnwys yn fras o dan y themâu canlynol:




Ffigur 11: Seilwaith Gwyrdd a Glas

**Bioamrywiaeth:** Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas wella cysylltiadau rhwng ardaloedd natur presennol, atal y broses o ddarnio a cholli cynefinoedd a gwella cydnerthedd ecolegol. Bydd cynigion datblygu yn gwarchod ac yn gwella bioamrywiaeth ar y safle, a rhwydweithiau cynefinoedd o fewn ac yn gyfagos i'r safle. Bydd angen i unrhyw gais i fanylu ar sut y bydd y datblygiad yn darparu cadwraeth a gwelliant o'r fath. Bydd hyn yn cynnwys nodi ffyrdd o leihau neu wrthdroi darnio cynefinoedd, a gwella cysylltedd cynefinoedd trwy hyrwyddo coridorau bywyd gwyllt a nodi cyfleoedd i adsefydlu tir, rheoli tirwedd a chreu cynefinoedd newydd neu well.

**Ymdeimlad o le:** Mae ymgorffori nodweddion Seilwaith Gwyrdd a Glas mewn datblygiad newydd yn elfen bwysig o ddull creu lleoedd Llywodraeth Cymru a gall gyfrannu at yr ymdeimlad unigryw o le mewn ardal neu anheddiad. Mae cadw nodweddion presennol mewn cynigion yn helpu i greu lleoedd sy’n unigryw ac yn gallu helpu i leddfu effaith newid trwy greu ymdeimlad o barhad sy’n cydnabod hunaniaeth leol. Mae Seilwaith Gwyrdd a Glas yn hanfodol i greu lleoedd ac felly rhaid iddo fod yn rhan o’r broses o ddylunio datblygiad o’r dechrau un, yn hytrach na chael ei ddarostwng i dir ‘dros ben’.

**Newid yn yr Hinsawdd:** Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas chwarae rhan hollbwysig mewn ymdrechion i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, ei liniaru ac addasu iddo, a bydd ganddo rôl fwyfwy pwysig i ddiogelu ardaloedd trefol a gwledig rhag y newid yn yr hinsawdd. Gall cynyddu gorchudd gwyrdd ein trefi a dinasoedd ddarparu nifer o fuddion wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae'r rhain yn cynnwys dal a storio carbon, lliniaru gwres a lleihau'r perygl o lifogydd yn ogystal â lliniaru'r dirywiad mewn ansawdd aer a dŵr yn sgil newid yn yr hinsawdd. Bydd cynigion datblygu'n manteisio i'r eithaf ar y manteision hyn, a dylid ystyried blaenoriaethu manteision yn y meysydd canlynol:

i. O fewn ardaloedd yr ystyrir eu bod mewn perygl o lifogydd o unrhyw ffynhonnell, darparu capasiti ar gyfer storio dŵr pe bai llifogydd;
ii. O fewn y Prif Ganolfannau, darparu rhyddhad o dymheredd uchel trwy orchudd canopi cynyddol a gwneud defnydd effeithlon o arwynebau i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf posibl o Seilwaith Gwyrdd a Glas gan gynnwys trwy gyfrwng toeau gwyrdd a waliau gwyrdd;
iii. Mewn ardaloedd lle mae iechyd y trigolion ar gyfartaledd yn wael, darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol; a/neu
iv. O fewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, gwaredu llygryddion aer trwy blannu coed a deiliant addas.

Bydd cynigion datblygu hefyd yn integreiddio Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) naturiol i ddyluniad Seilwaith Gwyrdd a Glas, a dylent, cyn belled ag y bo modd, sicrhau bod y ddarpariaeth SuDS yn amlswyddogaethol.

**Iechyd a Llesiant:** Gall seilwaith gwyrdd a glas fod yn ffordd effeithiol o wella iechyd a llesiant, trwy gysylltu anheddau, gweithleoedd a chyfleusterau cymunedol a darparu mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd uchel. Dylai datblygiadau geisio cynyddu'r manteision i'r eithaf a, lle y bo'n briodol, defnydd y cyhoedd o seilwaith gwyrdd a glas, gyda phwyslais ar hybu cymunedau iachach. Bydd cynigion datblygu'n cyrraedd safonau lleol o ran hygyrchedd, ansawdd a maint mannau agored, a byddant wedi'u dylunio fel eu bod yn diwallu anghenion y gymuned. Bydd cynigion datblygu yn cynnal ac yn gwella ansawdd a chysylltedd rhwydweithiau mynediad, gan integreiddio llwybrau teithio llesol (gan gysylltu gweithleoedd,

ysgolion, cyfleusterau cymunedol a hybiau trafnidiaeth gyhoeddus) a llwybrau hamdden mewn seilwaith gwyrdd a glas.

**Yr Economi:** Gall diogelu a buddsoddi mewn Seilwaith Gwyrdd gefnogi llwyddiant economaidd a thwf cynaliadwy. Gall Seilwaith Gwyrdd ddenu buddsoddiad o'r tu allan, gan wneud ardal leol yn fwy deniadol i fusnesau ac ymwelwyr. Gall hefyd ddarparu arbedion cost i ddatblygwyr gan fod gan asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas y potensial i fodloni nifer o ofynion mewn datrysiad amlswyddogaethol (e.e. darparu mannau agored a SuDS). I'r perwyl hwn dylai datblygiadau geisio nodi a gwneud y mwyaf o ansawdd, defnydd a natur amlswyddogaethol darpariaeth seilwaith gwyrdd a glas ar y safle.

11.301 O ganlyniad, bydd canllawiau pellach ar Seilwaith Gwyrdd a Glas fel rhan o ddatblygiad yn cael eu paratoi fel Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r agenda creu lleoedd a hyrwyddo amgylcheddau byw bioamrywiol.

## PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd

**Bydd cynigion ar gyfer datblygu yn:**

1. **Cadw, amddiffyn, ac integreiddio coed, coetiroedd a gwrychoedd presennol i'r graddau gorau posibl a blaenoriaethu'r rheiny sydd o'r gwerth, yr ansawdd, a'r cyflwr gorau o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu trwy broses ailadroddol o ddylunio cynllun safle sy'n osgoi effeithiau posibl;**
2. **Lleihau effeithiau posibl i goed, coetiroedd a gwrychoedd a gaiff eu cadw trwy ddylunio safleoedd yn benodol, datganiadau dull a mesurau amddiffyn.**
3. **Gwneud gwaith plannu priodol i wneud iawn am golled anochel coed, coetiroedd, a gwrychoedd i ddarparu gwelliannau cyffredinol i ehangder a gorchudd. Dylid ystyried cyfleoedd i drawsleoli gwrychoedd presennol lle bo'n ymarferol;**
4. **Darparu digon o le a chyfaint gwreiddio o fewn cynllun y safle ac mewn perthynas â defnyddiau tir cyfagos i alluogi coed, coetiroedd, a gwrychoedd presennol a rhai sydd newydd eu plannu i dyfu'n effeithiol i aeddfedrwydd ac i osgoi heriau posibl i'w cadw drwy gydol oes y datblygiad;**
5. **Nodi a darparu gwaith rheoli i wella gwerth, ansawdd a chyflwr coed, coetiroedd, a gwrychoedd presennol o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu; a**

**6. Phlannu coed, coetiroedd, a gwrychoedd ychwanegol sy'n briodol i'r safle a'r math o ddatblygiad a fydd yn sicrhau manteision tirwedd hirdymor a buddion net i fioamrywiaeth.**

11.302 Mae'r polisi yn cydnabod y cyfraniad pwysig y gall coed, coetiroedd a gwrychoedd eu gwneud i'r amgylchedd ac i'n cymunedau**.** Mae coed a choetiroedd yn chwarae rhan bwysig yn ardal y cynllun ac maent yn gynhenid i'r dirwedd a chymeriad trefol gan ddarparu cynefin a chynyddu'r gallu i wrthsefyl newid yn yr hinsawdd. Gall gwaith plannu coed, coetiroedd a pherthi wedi'i ddylunio'n dda helpu i fynd i'r afael â'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur, fel y datganodd Llywodraeth Cymru a'r Cyngor.

11.303 Cydnabyddir eu cyfraniad o fewn y ffurf drefol yn arbennig. Gallant helpu i fynd i'r afael â llygryddion aer, llifogydd, a llygredd sŵn, a darparu nifer o fanteision eraill gan gynnwys darparu cysgod ac amwynder gweledol. Maent hefyd yn darparu rhannau helaeth o gynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, yn enwedig coed aeddfed. Mae rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas Sir Gaerfyrddin yn adlewyrchu eu pwysigrwydd yn yr amgylchfyd trefol ac o fewn ein trefi a'n pentrefi - mewn mannau cyhoeddus a phreifat, ar hyd llwybrau llinol, a dyfrffyrdd, ac mewn ardaloedd amwynderau.

11.304 Ystyriwn bod eu cadw a phlannu rhai newydd ychwanegol yn rhan bwysig o greu cymunedau cydlynus ac iach o fewn cyd-destun gwledig a thirweddol gwerthfawr a bioamrywiol. Dylai pob cais cynllunio gynnwys arolwg o goed lle mae coed yn bresennol ar y safle. Dylai hyn gynnwys mesurau amddiffyn, lliniaru, a rheoli. Rhaid gweithredu mesurau rheoli tymor hir a thymor byr priodol i ddiogelu coed, coetiroedd, a/neu wrychoedd sydd newydd eu plannu a rhai presennol. Gellir cyfeirio at Bolisi CCH7.

11.305 Mae'r polisi'n adlewyrchu'r cysylltiadau trwy greu lleoedd o ansawdd a Seilwaith Gwyrdd a Glas o ansawdd. O ganlyniad bydd canllawiau pellach ar goed a phlannu fel rhan o ddatblygiadau newydd yn cael eu paratoi fel Canllawiau Cynllunio Atodol i ategu'r agenda creu lleoedd a chreu amgylcheddau byw bioamrywiol o ansawdd da.

11.306 Dylai coed newydd a gaiff eu plannu fod o rywogaeth sy'n frodorol i'r safle, ac o aeddfedrwydd sy'n briodol i'r safle a hynny wrth fodd y Cyngor. O ran y cyfeiriad yn y polisi at golled anochel, bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ymgeisydd wneud pob ymdrech resymol i gadw nodweddion presennol, ac o'r herwydd dylid ystyried eu cadw (lle bo'n briodol) yn rhan annatod o ddyluniad y safle datblygu arfaethedig o'r cychwyn cyntaf.

## PSD5: Datblygu a'r Economi Gylchol

**Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu ddangos, trwy gyflwyno cynllun rheoli deunyddiau naturiol, sut y sicrhawyd bod y gwastraff a gynhyrchwyd mor isel â phosibl a bod unrhyw wastraff wedi cael ei reoli i gadw adnoddau mewn defnydd am gyhyd â phosibl:**

- **a. cynllun a dyluniad y datblygiad;**
- **b. unrhyw gyfnod dymchwel ac adeiladu;**
- **c. o ran unrhyw gyfleoedd i ddefnyddio gwastraff ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu;**
- **d. o ran unrhyw gyfleoedd i ddefnyddio gwastraff gweddilliol fel ffynhonnell o danwydd.**

11.307 Un o elfennau allweddol Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 yw'r symudiad tuag at gynnwys economi fwy cylchol yng Nghymru. Mae economi gylchol yn un sy'n ceisio parhau i ddefnyddio deunyddiau, cynnyrch a chydrannau gyhyd â phosibl. Ceir manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd o weithredu yn y ffordd hon, yn fwyaf nodedig y cynnydd mewn gwerth a chynhyrchiant deunyddiau, arbedion ariannol i'r sector adeiladu ac atal gwastraff.

11.308 Er mwyn hwyluso gofynion y polisi hwn, bydd angen cyflwyno cynllun rheoli deunyddiau naturiol gyda chynigion datblygu. Dylai'r Cynllun nodi'r holl ddeunyddiau naturiol ar y safle cyn y datblygiad, gall y rhain fod yn adeiladau presennol i'w dymchwel neu'r tir naturiol y byddir yn tarfu arno. Dylai esbonio sut y bwriedir cyfyngu i'r eithaf ar y gwastraff a fydd yn cael ei gynhyrchu o'r deunyddiau hyn a bod y dyluniad a'r cynllun wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r angen i sicrhau bod y cydbwysedd rhwng torri a llenwi mor agos â phosibl at fod yn niwtral.

11.309 Anogir cynigion datblygu sy'n cynnwys deunyddiau a nodweddion cynllunio sy'n galluogi hyblygrwydd a'r gallu i addasu drwy gydol oes cynllunio'r adeilad ac a fydd yn galluogi'r deunyddiau i gael eu hailddefnyddio pan fydd yn cael ei ddadadeiladu.

11.310 Lle bo hynny'n briodol, anogir defnyddio deunyddiau o ffynonellau lleol, amgen, neu ddeunyddiau sydd wedi eu hailgylchu, gan gynnwys ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau agregau eilaidd, deunyddiau adeiladu, deunyddiau dymchwel a gwastraff cloddio, lludw gwaelod llosgwyr a deunyddiau priodol eraill sydd wedi eu hailgylchu.

11.311 Mae'n anochel bod angen rhywfaint o weithrediadau peirianyddol tyrchu a llenwi ar safleoedd adeiladu. Yn rhan o waith trin y safle, dylid asesu'r cydbwysedd torri a llenwi o ddeunyddiau sy'n cael eu cloddio er mwyn osgoi creu gwastraff na ellir ei ailddefnyddio yn effeithiol oherwydd diffyg cyfleusterau storio addas. Yn rhan o'r cynllun rheoli adnoddau

naturiol, dylai datblygwyr ddylunio cynigion i sicrhau cydbwysedd o ran cloddwaith sy'n ceisio sicrhau cyn lleied â phosibl o dorri a llenwi neu a all ddarparu ar gyfer adfer tir mewn mannau eraill yn yr ardal.

11.312 Bydd yr Awdurdod Cynllunio yn annog dulliau arloesol o ailgylchu, yn enwedig y rhai sy'n cynnig llawer o fanteision fel lleihau costau ynni ac allyriadau cysylltiedig. Gall hyn gynnwys yr arfer o ailgylchu ar y safle ar safleoedd mwynau ac ailgylchu gwastraff adeiladu a dymchwel ar y cyd â defnyddiau addas eraill, fel mewn iardiau cyflenwyr adeiladwyr.

11.313 Mewn amgylchiadau lle nad oes modd ailddefnyddio neu ailgylchu'r gwastraff, bydd angen i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth i ddangos ble y bydd y gwastraff gweddilliol yn cael ei waredu. Ymhlith yr opsiynau a fydd yn cael eu hannog y mae'r potensial i ddefnyddio'r gwastraff fel ffynhonnell tanwydd, megis mewn adfer ynni effeithlon iawn o wastraff, o bosibl yn gysylltiedig â systemau gwresogi ardal.

## PSD6: Cyfleusterau Cymunedol

**Bydd cynigion ar gyfer cyfleusterau cymunedol newydd a gwell, gan gynnwys cyfleusterau iechyd ac addysg, yn cael eu cefnogi lle maent yn cyd-fynd â'r canlynol:**

- **a) Byddai'n hygyrch iawn i'r gymuned leol y bwriedir iddo'i gwasanaethu gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio;**
- **b) Mae o fewn, neu'n uniongyrchol gysylltiedig ag anheddiad a nodwyd ym Mholisi SP3: Dosbarthu Cynaliadwy;**
- **c) Ni fyddai'n creu niwed gormodol i'r amwynderau gerllaw eiddo preswyl;**
- **d) Ni fyddai'n amharu ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal;**
- **e) Ni fydd yn arwain at broblemau parcio neu draffig annerbyniol;**
- **f) Caiff ei ddylunio gyda hyblygrwydd a chyfaddaster priodol i ddarparu ar gyfer defnyddiau cymunedol ychwanegol heb beryglu ei brif ddefnydd bwriadedig.**

11.314 Mae darparu ystod o gyfleusterau cymunedol sy'n hygyrch i gynifer o bobl â phosibl yn hanfodol o ran sicrhau cymunedau cynaliadwy. Mae cyfleusterau o'r fath yn werthfawr nid dim ond o ran yr amwynder y maent yn ei ddarparu, ond maent hefyd yn bwysig o ran creu cyflogaeth a denu pobl i fyw mewn ardal. Mae cyfleusterau cymunedol yn cyfrannu'n sylweddol at lesiant, ansawdd bywyd, mwynhad a chynwysoldeb aneddiadau a chymunedau o fewn y Sir. Yn hyn o beth, dylai'r posibilrwydd o'u colli gael ei ystyried yn ofalus o gofio'r effeithiau canlyniadol o ran cynaliadwyedd a hunaniaeth gymunedol. Lle

bynnag y bo’n ymarferol, dylid ystyried diogelu a chadw cyfleusterau cymunedol a mabwysiadu dulliau ymatebol i helpu i'w cadw.

11.315 Mae'r polisi uchod hefyd yn cydnabod y potensial y bydd datblygu lle mae'n digwydd yn rhoi straen ar gyfleusterau presennol. O ganlyniad, mae digonolrwydd cyfleusterau presennol fel gofal iechyd yn ystyriaeth bwysig. O ganlyniad, mae'r polisi yn ceisio sicrhau bod cyfleusterau digonol yn cael eu darparu i ateb galwadau cymunedau lleol yn y dyfodol.

11.316 Mae'r polisi yn ceisio hybu'r potensial ar gyfer defnydd deuol o gyfleusterau, yn enwedig lle byddai'r gweithgarwch ychwanegol yn helpu i ehangu'r ddarpariaeth gwasanaethau a gwella hyfywedd a defnydd. Gallai cadarnhau hyfywedd cyfleuster, yng nghyd-destun nodweddion demograffig cyfnewidiol, cyflwr a gwaith cynnal a chadw a phatrymau newidiol o ran y galw olygu nad yw rhai cyfleusterau yn ateb y gofynion mwyach. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai ffurfiau amgen o ddarpariaeth a defnydd fod yn briodol. Dylai penderfyniad o'r fath gael ei oleuo, lle y bo'n briodol, gan dystiolaeth leol, y darparwr cyfleuster/gwasanaeth a'r gymuned leol.

11.317 Mae hybu hygyrchedd i hamdden ac adloniant ffurfiol ac anffurfiol yn ystyriaeth bwysig ar gyfer y CDLl. Mae meysydd chwaraeon, rhandiroedd, parciau ac amwynderau naturiol ehangach fel dyfrffyrdd a choetiroedd yn darparu cyfleoedd ar gyfer manteision iechyd posibl ac yn ychwanegu at yr ymdeimlad o le mewn cymuned, yn ogystal ag integreiddio seilwaith gwyrdd a glas yn y ffurf drefol. Bydd cefnogaeth hefyd yn cael ei roi i ddarparu toiledau cyhoeddus hygyrch.

11.318 Mae ganddynt hefyd y potensial i liniaru achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, a gallant ddarparu mannau ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylid cyfeirio at bolisi PSD7 mewn perthynas â Hamdden a Mannau Agored.

11.319 Mae'r berthynas rhwng mynediad at gyfleusterau gofal iechyd a datblygiadau newydd yn cael ei chydnabod a dylid cyfeirio at Bolisi INF2: Cymunedau Iach.

11.320 Bydd y gwaith o ddarparu cyfleusterau cymunedol yn cael ei gefnogi lle mae'n cyd-fynd â Pholisi Strategol SP3: Dosbarthu Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau. Caiff lleoliad cynigion ar gyfer darparu cyfleusterau addysgol ac iechyd newydd ei gefnogi ar safleoedd sydd o fewn ac yn uniongyrchol gysylltiedig â therfynau aneddiadau diffiniedig lle maent yn gyson â strategaeth a pholisïau'r CDLl hwn.

11.321 Gall y Cyngor geisio cyfraniadau gan ddatblygwyr trwy rwymedigaethau cynllunio i liniaru effeithiau datblygiadau penodol, ac i hwyluso'r broses o gyflawni polisïau a chynigion y Cynllun.

## PSD7: Diogelu Mannau Agored

**Bydd darpariaeth yn cael ei gwneud i ddiogelu mannau agored a, lle bo'n bosibl, i wella'u hygyrchedd.**

**Bydd cynigion sy'n arwain at golli mannau agored presennol yn cael eu caniatáu dim ond dan yr amgylchiadau canlynol:**

**a) Os dangosir bod darpariaeth sydd o leiaf o werth cyfatebol ar gael o fewn yr anheddiad, neu leoliad sy'n ddigon hygyrch; a,**
**b) Lle na fyddai'n achosi nac yn gwaethygu diffyg mannau agored; neu,**
**c) Lle byddai ail-ddatblygu rhan fach o'r safle yn ei gwneud yn bosibl cadw a gwella'r rhan fwyaf o'r cyfleuster; neu,**
**d) Lle mae cyfraniad ariannol boddhaol at ddarpariaeth gydbwyso yn cael ei ddarparu fel cyfleuster arall derbyniol.**

11.322 Rhoddir diffiniadau o fannau agored ac eglurhad o safonau hygyrchedd y Sir yn Asesiad Mannau Agored Sir Gaerfyrddin a cheir gwybodaeth ychwanegol hefyd yn Asesiad Seilwaith Gwyrdd Sir Gaerfyrddin. At ddibenion y cynllun hwn, diffinnir mannau agored fel ardaloedd sy'n cynnwys caeau chwarae, ardaloedd chwarae plant â chyfarpar, cyfleusterau chwaraeon awyr agored, hamdden anffurfiol a mannau amwynder neu chwarae (h.y. mannau gwyrdd naturiol, mannau chwarae a mannau agored cyhoeddus).

11.323 Mae'r ddarpariaeth mannau agored a nodwyd yn y Sir yn cael ei mapio a'i hasesu yn Asesiad Mannau Agored Sir Gaerfyrddin. Dylid nodi, fodd bynnag, y gall fod ardaloedd ychwanegol o fannau agored nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at ddarparu mannau agored o fewn y gymuned. Er na chaiff yr ardaloedd hyn eu mapio fel rhan o'r CDLl, byddent yn cael eu diogelu serch hynny o dan y polisi hwn os ystyrir bod hynny'n briodol.

11.324 Er bod diogelu mannau agored presennol yn agwedd allweddol ar y polisi uchod, mae hefyd yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd. Mae'n bosibl y bydd ystyried nodweddion demograffig cyfnewidiol, cyflwr a bywiogrwydd y ddarpariaeth bresennol, ac unrhyw batrymau newidiol mewn angen, yn golygu nad yw mannau agored presennol yn ateb y gofynion mwyach. Efallai y bydd darpariaeth dros ben yn cael ei nodi neu gall fod cyfle i wella'r ddarpariaeth bresennol i ddiwallu anghenion y gymuned leol drwy ddatblygiad.

Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r polisi yn ceisio darparu ar gyfer gwella neu newid darpariaeth o fewn yr anheddiad fel a lle y bo'n briodol.

11.325 Lle bo gan gynigion y potensial i gael effaith sylweddol a niweidiol ar y ddarpariaeth bresennol, bydd angen i'r ymgeisydd ddangos bod darpariaeth arall ar gael i gyrraedd y safonau hygyrchedd. Dylid cyfeirio at yr Asesiad Mannau Agored at y diben hwn; dylid ystyried nifer y mannau agored, eu lleoliad a'u math wrth nodi darpariaeth amgen o 'werth cyfatebol'. O ran y patrymau newidiol mewn angen a defnydd, dylid ystyried ymgynghori â Chyngor Chwaraeon Cymru, ochr yn ochr â Gwasanaethau Hamdden a Pharciau'r Cyngor, y Cynghorau Tref a Chymuned perthnasol, yn ogystal â darparwyr gwasanaethau a sefydliadau eraill sydd â chyfrifoldeb am ddarparu a chynnal a chadw mannau agored yn yr ardal. Dylid nodi mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd darparu digon o wybodaeth i ddangos bod y cynnig yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

11.326 Mae'r mannau agored hyn yn gwneud cyfraniad pwysig i Seilwaith Gwyrdd a Glas y Sir trwy ddarparu ardaloedd ar gyfer hamdden, lleihau effaith y newid yn yr hinsawdd, gwella iechyd a llesiant a gwella bioamrywiaeth a chysylltedd, ymhlith manteision eraill. Dylid ystyried Polisi PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas a'r angen i gynyddu i'r eithaf y seilwaith gwyrdd a glas o fewn safle a chyflawni natur amlswyddogaethol trwy ddod â'u swyddogaethau at ei gilydd.

## PSD8: Darparu Mannau Agored Newydd

**Bydd angen i bob datblygiad preswyl newydd â 5 neu fwy o dai gyfrannu at fannau agored yn unol â safonau mannau agored y Cyngor.**

**Os na ellir bodloni'r safonau ar y safle, neu os oes digon o ddarpariaeth bresennol eisoes ar gael i wasanaethu'r datblygiad, yna gwneir cais am swm cyfnewid lle y bo'n briodol.**

11.327 Mae Asesiad Mannau Agored Sir Gaerfyrddin yn nodi'r ddarpariaeth bresennol o ran mannau agored ledled ardal y cynllun a'r safonau y dylai'r cyngor a datblygwyr anelu at eu cyflawni. Mae'r polisi hwn yn fodd i gyflawni'r safonau hyn sy'n ystyried maint, swyddogaeth a hygyrchedd y ddarpariaeth. Ceir manylion pellach yn yr Asesiad Mannau Agored.

11.328 Wrth benderfynu a oes angen cyfraniad, bydd angen ystyried maint, hygyrchedd, ansawdd a'r math o ddarpariaeth mannau agored. Lle y bo diffyg presennol o fewn cymuned a bod y datblygiad arfaethedig yn debygol o waethygu'r sefyllfa yna bydd angen

cyfraniad. Yn yr un modd, bydd angen cyfraniad mewn amgylchiadau lle byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at ddiffyg.

11.329 Yn ogystal â'r safonau meintiol a hygyrchedd, dylid ystyried ansawdd y ddarpariaeth bresennol, gan ystyried ei chyflwr, ei gofynion ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol a'i haddasrwydd ar gyfer pob aelod o'r gymuned.

11.330 Mewn sefyllfaoedd lle gellir bodloni'r safonau drwy ddarpariaeth bresennol o ran mannau agored sydd o ansawdd addas, yna bydd angen datganiad ategol gan yr ymgeisydd i ddangos tystiolaeth o hyn. O dan amgylchiadau o'r fath, gall y Cyngor ofyn am swm cyfnewid tuag at gynnal a chadw neu uwchraddio darpariaeth mannau agored gerllaw sydd eisoes yn bodoli lle ystyrir bod angen hynny.

11.331 Mae'n bosibl y bydd sefyllfaoedd lle na ellir bodloni'r safonau, er enghraifft, lle na all y safle ymdopi'n ymarferol â darparu mannau agored ar y safle oherwydd cyfyngiadau ffisegol neu ddylunio, neu lle byddai hynny'n golygu bod y datblygiad yn gwbl anymarferol. O dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r datblygwr ddarparu datganiad ategol i egluro pam na ellir cadw at y safonau ar y safle a gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol geisio symiau gohiriedig tuag at gynnal a chadw'r man agored presennol yn lle hynny. Dylid cyfeirio at Bolisi INF1 o ran rhwymedigaethau cynllunio a chyfraniadau datblygwyr.

11.332 Cydnabyddir y gall fod ardaloedd ychwanegol o fannau agored nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddarparu mannau agored o fewn y gymuned, a gall hyn fod yn arbennig o berthnasol i ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau hamdden anffurfiol. Yn ogystal, er bod ardaloedd o fannau agored wedi'u categoreiddio fel mathau penodol o ddarpariaeth, cydnabyddir eu bod ar adegau yn gallu cyflawni swyddogaethau mathau eraill o fannau agored. O dan amgylchiadau o'r fath, gellir ystyried eu bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at sawl math o fan agored.

11.333 Pan fo darparu mannau agored yn rhan o gais cynllunio, dylai'r ymgeisydd nodi sut y cafodd y gwaith o reoli a chynnal a chadw unrhyw ddarpariaeth mannau agored yn y dyfodol ei ystyried. Dylid cyfeirio at Bolisi PSD1 am arweiniad pellach.

## PSD9: Hysbysebion

**Bydd cynigion ar gyfer hysbysebion (sy'n ddarostyngedig i reolaeth gynllunio) yn cael eu rheoli'n llym a disgwylir iddynt gydymffurfio â'r canlynol:**

**a) Bod eu dyluniad, eu graddfa, eu deunyddiau, a'u lleoliad ar y safle yn rhoi ystyriaeth lawn i'r adeilad, y strwythur, a/neu'r tir lle cânt eu harddangos;**
**b) Nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar y dirwedd / treflun, na lleoliad a chyfanrwydd yr amgylchedd hanesyddol;**
**c) Nad ydynt yn beryglus i ddiogelwch y cyhoedd, yn enwedig pan ydynt wedi'u lleoli ar ffyrdd;**
**d) Eu bod yn diogelu'r Gymraeg ac yn ei hyrwyddo'n gadarnhaol trwy ddarparu arwyddion dwyieithog. Dylid hefyd ystyried darpariaethau Polisi SP8 – Y Gymraeg.**

**Ni ddylai cynigion ar gyfer hysbysfyrddau posteri ac arwyddion hysbysebion arwain at luosogi neu grynhoi arwyddion sy'n dderbyniol yn unigol yng nghefn gwlad.**

**Bydd disgwyl i ddatblygiadau a strydoedd newydd fod ag enwau Cymraeg.**

11.334 Er mwyn hybu hunaniaeth ddiwylliannol ardal y Cynllun, bydd y Cyngor yn cefnogi a hybu darpariaeth arwyddion gwybodaeth, hysbysfyrddau a byrddau gwybodaeth, arddangosiadau ac arwyddion hysbysebu dwyieithog Cymraeg a Saesneg ar gyfer atyniadau a chyfleusterau twristiaeth. Bydd datblygwyr preifat cyfleusterau twristiaeth a hamdden hefyd yn cael eu hannog i roi cyhoeddusrwydd i'w mentrau busnes trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd yn ofynnol i hysbysebion ddarparu brand neu enw'r cwmni yn ddwyieithog; fodd bynnag, bydd yn ofynnol i'r holl eiriau ategol neu ychwanegol a ddarperir ar arwyddion yn y parth cyhoeddus a gynigir mewn cais cynllunio gael eu darparu'n ddwyieithog.

11.335 Bydd arwyddion dwyieithog a chynigion hysbysebu sy'n ceisio cyfuno nifer o hysbysebion hanfodol o fewn un arwydd yn cael eu hannog. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi i ategu Polisi PSD9.

## PSD10: Estyniadau

**Bydd cynigion ar gyfer estyn anheddau preswyl presennol / dosbarth defnydd C3 (y mae caniatâd cynllunio yn ofynnol ar eu cyfer) boed yn adeiladau, yn strwythurau eraill neu'n ddefnydd tir penodol yn gorfod cydymffurfio â'r canlynol:**

**a) Mae maint yr estyniad arfaethedig yn isradd i, neu'n gydnaws â, maint, math a chymeriad y datblygiad presennol, ac nad yw'n arwain at or-ddatblygu'r safle, nac yn arwain at ardaloedd parcio, ardaloedd amlbwrpas, ardaloedd troi ar gyfer cerbydau, ardaloedd amwynder neu ardaloedd gerddi sy'n llai ac annigonol;**

**b) Mae ymddangosiad allanol (gan gynnwys deunyddiau a ddefnyddir) yr estyniad arfaethedig o ran dyluniad yn cyd-fynd ag ymddangosiad y datblygiad presennol ac yn ei ategu;**
**c) Nid oes unrhyw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd naturiol, y dirwedd / trefwedd na lleoliad a chyfanrwydd yr amgylchedd hanesyddol;**
**d) Mae'n hybu egwyddorion creu lleoedd fel a nodir ym mholisi SP12;**
**e) Nid yw'r estyniad arfaethedig yn effeithio'n niweidiol ar yr amgylchedd lleol ac amwynderau datblygiadau cyfagos;**
**f) Mae'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r estyniad arfaethedig yn gydnaws â'r adeilad, strwythur neu ddefnydd tir presennol.**

11.336 Dylai cynigion fod yn rhai o safon uchel o ran dyluniad ac yn barchus o ran eu lleoliad ar y safle, eu maint a'r defnydd o ddeunyddiau i ategu cymeriad ac ymddangosiad yr adeilad neu'r strwythur presennol a'i amgylchoedd ac yn briodol i ddefnydd yr adeilad presennol.

11.337 Lle mae dyluniad y datblygiad presennol yn wael, bydd y Cyngor yn mynnu bod ansawdd dyluniad a/neu ddeunyddiau unrhyw estyniad yn well. Dylid ystyried darpariaethau Polisi SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy a PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd.

## PSD11: Llygredd Sŵn

**Bydd cynigion a fydd yn arwain at effaith niweidiol o lygredd sŵn yn cael eu caniatáu lle gellir dangos y bydd mesurau lliniaru priodol yn cael eu gweithredu, a'u hymgorffori yn y datblygiad i leihau'r effeithiau andwyol.**

**Bydd datblygiadau sensitif i sŵn yn cael eu caniatáu lle na fydd defnyddiau cynhyrchu sŵn presennol yn effeithio'n andwyol arnynt.**

11.338 Mae'r cysyniad o seinweddau yn cydnabod y rôl gadarnhaol y maent yn ei chwarae wrth greu ymdeimlad o le, yn hytrach na chanolbwyntio ar sŵn fel math o lygredd yn unig.[75]

11.339 Dylai'r pwyslais fod ar ystyried effaith bosibl seinweddau ar ddatblygiadau arfaethedig (ac yn eu tro effaith bosibl datblygiadau arfaethedig ar seinweddau) yn gynnar. I'r perwyl hwn, mae'r Cynllun hwn yn rhoi pwyslais ar fod rhanddeiliaid yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r materion hyn fel rhan annatod o'r broses ddylunio o'r cychwyn cyntaf. O'r herwydd, ni ddylid ystyried y materion hyn fel ystyriaethau 'technegol' sy'n cael eu

[75] Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: Cynllun gweithredu sŵn a seinwedd 2018-2023

hystyried ar wahân neu fel rhywbeth 'ychwanegol' yn ddiweddarach ar y cam dylunio / yn y cais cynllunio.

11.340 Mae'r Cynllun hwn yn cofleidio'r egwyddor asiant newid sydd wedi'i hymgorffori mewn polisi cenedlaethol [76]. I'r perwyl hwn, mae'r Cynllun hwn yn cydnabod pwysigrwydd y cychwynnwr newid gan ystyried effaith bosibl y cynnig datblygu ar dderbynyddion newid.

11.341 Wrth nodi'r budd economaidd posibl o gynigion sy'n gysylltiedig â'r economi gyda'r nos, ni ddylid cyfaddawdu iechyd a llesiant trigolion yn ormodol. Gall dull creu lleoedd, sy'n ceisio meithrin consensws yn gynnar, ddarparu modd i gyfryngu'r buddiannau hyn a allai fod yn gwrthdaro.

11.342 Ar ben hynny, dylai datblygiadau sensitif i sŵn fel tai, ysgolion, ac ysbytai sydd wedi'u lleoli ger seilwaith trafnidiaeth, lle bynnag y bo modd, gael eu cynllunio i gyfyngu ar lefelau sŵn o fewn, ac o amgylch y datblygiad [77]. Lle bo'n briodol, dylid gweithredu mesurau lliniaru effeithiol a phriodol, a'u hymgorffori yn y datblygiad i leihau'r effeithiau.

11.343 Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas weithredu fel clustog sain effeithiol a bod yn ffordd werthfawr o wella iechyd a llesiant, drwy gysylltu anheddau, gweithleoedd a chyfleusterau cymunedol a darparu mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd uchel. Dylid cyfeirio at Bolisi PSD3: Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas.

11.344 Gall newidiadau i seinweddau hefyd gael effeithiau ar rywogaethau sy'n sensitif i aflonyddwch sŵn. Fel bob amser, dylai cynigion fodloni polisïau a darpariaethau'r Cynllun yn ei gyfanrwydd. Gellir cyfeirio'n benodol fodd bynnag at Bolisi Strategol 13 – Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol (yn fwyaf arbennig mewn perthynas â safleoedd o bwys rhyngwladol i gadwraeth natur, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth Adran 7 a'r gofyniad cynnal a gwella).

## PSD12: Llygredd Golau ac Aer

**Bydd cynigion a fydd yn arwain at effaith niweidiol o lygredd golau a/neu aer yn cael eu caniatáu lle gellir dangos y bydd mesurau lliniaru priodol yn cael eu gweithredu, a'u hymgorffori yn y datblygiad i leihau'r effeithiau andwyol.**

[76] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 (paragraff 4.3.44 a 6.7.5)
[77] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11

## Golau

11.345 Mae polisi cenedlaethol yn cydnabod yr effeithiau negyddol y gall llygredd golau eu cael ar bobl, bioamrywiaeth, a gwytnwch ecosystemau. Yn hyn o beth, mae Polisi Cynllunio Cymru yn mynnu bod awdurdodau yn mabwysiadu polisïau o ran goleuadau a rheoli llygredd [78]golau. Dylid ystyried yr effeithiau negyddol y gall llygredd golau eu cael ar gymeriad tirwedd ac amwynder gweledol. Yn hyn o beth dylai cynigwyr datblygiadau gan gynnwys cynlluniau goleuo ystyried yn ofalus yr angen am y mathau o oleuadau a gynigir ac a allai'r cynnig fynd ymlaen heb y goleuadau a nodwyd. Lle bynnag y bo modd dylid ystyried cyfleoedd i liniaru effeithiau cronnus posibl ar awyr y nos.

11.346 Mae rhannau o Sir Gaerfyrddin yn parhau heb eu datblygu i raddau helaeth, gydag effaith gyfyngedig gan oleuadau ar awyr y nos. Wrth ddehongli'r polisi hwn, dylid cynllunio unrhyw oleuadau yn ofalus a'u hystyried i leihau'r effaith ar ardaloedd cyfagos. Dylid cyfeirio at Fap[79] Ardaloedd Tawel Cymru.

11.347 Ym mhob datblygiad (ac mewn mannau cyhoeddus yn enwedig) dylid rheoli golau mewn modd sensitif, a dylid cadw cysylltiad â llygredd yn yr awyr mor isel ag y bo'n rhesymol ymarferol. Bydd yr Awdurdod yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ar oleuadau a'r effeithiau ar awyr y nos.

11.348 Gall llygredd golau gael effeithiau negyddol ar rywogaethau a chynefinoedd, yn ogystal ag iechyd a llesiant pobl. Dylai unrhyw gynlluniau datblygu ymgorffori cynlluniau goleuo sy'n sicrhau ychydig iawn neu ddim arllwysiad golau ar Seilwaith Gwyrdd a Glas yn enwedig cynefinoedd llinellol fel gwrychoedd, coetir, neu goridorau nant llysieuol, yn ogystal ag unrhyw glwydi ystlumod, eu mannau mynediad neu linellau hedfan hysbys. Gall hyn gynnwys yr angen am glustogfa rhwng datblygiad a nodweddion ecolegol bwysig. Cyfeirir yn benodol at Bolisi Strategol 13 – Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol (yn fwyaf arbennig mewn perthynas â safleoedd o bwys rhyngwladol i gadwraeth natur, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth Adran 7 a'r gofyniad cynnal a gwella.)

11.349 Ceir cyfleoedd i gydnabod a chofleidio Seilwaith Gwyrdd a Glas fel rhan o ddull gwneud lleoedd, yn ogystal â ffordd effeithiol o sgrinio ardaloedd ecolegol sensitif o

[78] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11.
[79] https://datamap.gov.wales/layers/inspire-nrw:NRW_TRANQUIL_AREAS_2009

lygredd golau. Yn hyn o beth, dylid cyfeirio at Bolisi PSD3: Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas.

## Aer

11.350 Cydnabyddir ansawdd aer a'i oblygiadau o ran yr amgylchedd, iechyd ac ansawdd bywyd drwy ganllawiau cenedlaethol[80]. Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu o fewn amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac adroddiad sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

11.351 Ers 2022, mae tair Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn y Sir (Llandeilo, Llanelli, a Chaerfyrddin). Gellir cyfeirio at Gynllun(iau) Gweithredu'r Cyngor, tra bod ffiniau'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer hyn yn cael eu dangos ar Fap Cyfyngiadau'r Cynllun hwn.

11.352 Dylai datblygwyr fod yn ymwybodol o bwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar â'r Cyngor, yn enwedig o ran y gofyniad posibl ar gyfer cynnal Asesiad Ansawdd Aer. Er nad yw'r Cynllun hwn yn ragnodol mewn perthynas â'r achosion lle bydd angen asesiad o'r fath, ystyrir bod graddfa a lleoliad y cynnig yn benderfynyddion allweddol yn hyn o beth.

11.353 Dylai unrhyw Asesiad Ansawdd Aer dynnu sylw at y mesurau lliniaru gofynnol fel bod unrhyw risgiau i amwynder, bioamrywiaeth ac iechyd yn cael eu cyfryngu'n addas. Dylai nodi mesurau lliniaru o'r fath geisio adlewyrchu'r cyfleoedd a ddarperir gan seilwaith gwyrdd a glas fel rhan o ddull creu lleoedd. Dylid cyfeirio at Bolisi PSD3: Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas.

11.354 Dylid nodi nad yw'r gofyniad posibl ar gyfer cynnal Asesiad Ansawdd Aer yn gyfyngedig i safleoedd o fewn neu'n gyfagos i Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer y Sir. Bydd cynigion yn destun ystyriaeth fesul achos, fodd bynnag ar gyfer cynigion sydd wedi'u lleoli o fewn yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer mae Swyddogion Rheoli Datblygu'r Cyngor yn debygol o ymgynghori ag Ymarferwyr Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor yn rheolaidd. Cynghorir ymgysylltu'n amserol â'r Cyngor a chyfeirir at ganllawiau perthnasol fel y bo'n briodol.

11.355 Mae'r Cynllun hwn yn cydnabod y gydberthynas bosibl rhwng ansawdd aer a chyfanrwydd safleoedd y Sir sydd o bwysigrwydd rhyngwladol i gadwraeth natur. Mae

[80] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11

llawer o'r safleoedd hyn yn cynnwys cynefinoedd sy'n sensitif i ddirywiad mewn ansawdd aer.

11.356 Gall mwy o amaethyddiaeth ddwys a dwyseddau da byw arwain at fwy o lwytho maetholion ac allyriadau amonia (ymysg llygryddion eraill), gan effeithio ar aer a dŵr. Rhaid i gynigion ystyried gwastraff sy'n codi, effeithiau cronnus, ac ansawdd dŵr (Cyfeirnod CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr), a phob effaith andwyol ar gynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r rhai sy'n sensitif i lygredd amonia.

11.357 Bydd gofyn i gynigion a fyddai'n debygol o arwain at lwytho maetholion uwch i'r amgylchedd, fel unedau da byw dwys, asesu'r effeithiau posibl o ran ansawdd dŵr ac aer, er mwyn sicrhau nad ydynt yn effeithiau amgylcheddol andwyol ac nad yw allyriadau mewn ardaloedd gwledig yn effeithio'n ormodol ar iechyd a llesiant pobl (h.y. aroglau niwsans). Dylid cyfeirio at ganllawiau priodol Cyfoeth Naturiol Cymru gan gynnwys GN020 [81] (Asesu effaith amonia a nitrogen o unedau da byw dwys newydd ac sy'n ehangu ar safleoedd dynodedig) a GN021 [82] (Unedau Dofednod: caniatâd cynllunio ac asesu amgylcheddol).

11.358 Gellir cyfeirio'n benodol fodd bynnag at Bolisi Strategol 13 – Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol (yn fwyaf arbennig mewn perthynas â safleoedd o bwys rhyngwladol i gadwraeth natur, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Adran 7 Cynefinoedd a Rhywogaethau Blaenoriaeth a'r gofyniadcynnal a gwella) yn ogystal â Pholisi INF 2 - Cymunedau Iach. Ceir cyfleoedd i gydnabod a chofleidio Seilwaith Gwyrdd a Glas fel rhan o ddull creu lleoedd. Yn hyn o beth, dylid cyfeirio at Bolisi PSD3: Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas.

## PSD13: Tir Halogedig

**Caniateir cynigion lle y dangosir y gall unrhyw risg wirioneddol neu bosibl o dir halogedig gael ei lliniaru'n briodol fel nad oes unrhyw effaith niweidiol weddillol ar iechyd pobl a'r amgylchedd.**

11.359 Mae gan Sir Gaerfyrddin etifeddiaeth ddiwydiannol gyfoethog ac amrywiol, yn cynnwys ystod eang o ddiwydiannau megis mwyngloddio, gweithgynhyrchu tunplat,

[81] https://naturalresourceswales.gov.uk/media/684017/guidance-note-20-assessing-the-impact-of-ammonia-and-nitrogen-on-designated-sites-from-new-and-expanding-intensive-livestock-units.pdf
[82] https://cdn.naturalresources.wales/media/685782/gn021-poultry-units-planning-permission-and-environmental-assessment.pdf

gweithfeydd nwy, a thanerdai. Gall yr holl brosesau o'r fath fod wedi halogi'r tir, y dyfroedd daear neu dderbynyddion sensitif eraill. Mae'r Cyngor wedi nodi nifer o safleoedd lle gallai halogiad fod yn parhau, neu lle nad oes tystiolaeth i gadarnhau bod camau adfer digonol wedi digwydd. Yn yr ardaloedd hyn, gall ymchwiliad pellach fod yn angenrheidiol.

11.360 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i adnabod tir halogedig a sicrhau ei fod yn cael ei reoli mewn modd priodol, fel y nodir yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

11.361 Bydd angen i'r Cyngor fod wedi'i argyhoeddi bod y risgiau mewn perthynas â'r safle datblygu arfaethedig wedi cael eu deall yn llawn a bod modd adfer y safle i'r safonau angenrheidiol. [83] Ni ddylai gwaith ddechrau ar y safle hyd nes bod cam adfer priodol fel y cytunwyd arno wedi'i gwblhau. Bydd yr effeithiau posibl ar amgylcheddau hanesyddol a naturiol yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar unrhyw gynnig, a dylid cyflwyno gwybodaeth briodol gydag unrhyw gais.

11.362 Lle bo'n briodol, rhoddir sylw dyledus i effaith unrhyw weithrediad adfer ar amgylcheddau naturiol a hanesyddol gyda'r manteision cymharol a'r angen am y cynnig yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn pwysigrwydd cymharol diddordeb hanesyddol neu naturiol y safle.

11.363 Cynghorir ymgeiswyr i ymgysylltu'n amserol â'r Cyngor wrth nodi unrhyw ofynion fel rhan o gynigion datblygu, o ran adnabod risg a mesurau rheoli / lliniaru.

[83] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11

## Arferion Iach - Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maen nhw'n gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'r amgylchedd.

11.364 Cydnabyddir bod y themâu a'r polisïau a ddyrennir iddynt yn gorgyffwrdd â'i gilydd, ond nodwyd y canlynol o dan y thema hon:

- **Polisi Strategol – SP 13**: Datblygu Gwledig
- **Polisi Strategol** – SP 14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
- **Polisi Strategol – SP 15:** Diogelu a Gwella’r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol

11.365 Mae'r polisïau a ganlyn yn ceisio cefnogi cyflawniad amcanion strategol y Cynllun, ond hefyd yn creu cysylltiadau lefel uchel ac yn sicrhau y cydymffurfir yn fras â'r Nodau Llesiant.

### Polisi Strategol – SP 13: Datblygu Gwledig

**Mae’r Cynllun yn cefnogi cynigion datblygu a fydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd cymunedau gwledig y Sir. Dylai cynigion datblygu mewn ardaloedd gwledig ddangos eu bod yn cefnogi rôl aneddiadau gwledig yn yr hierarchaeth aneddiadau er mwyn bodloni anghenion tai, cyflogaeth a chymdeithasol cymunedau gwledig Sir Gaerfyrddin.**

**Bydd cynigion datblygu yng nghefn gwlad y tu hwnt i'r aneddiadau dynodedig yn cael eu cefnogi lle maent yn cyd-fynd â pholisïau'r Cynllun hwn.**

11.366 Mae gan aneddiadau gwledig y sir ran bwysig i'w chwarae o ran gwella cynaliadwyedd yr ardal ddaearyddol ehangach lle y maent wedi'u lleoli, yn ogystal â chynaliadwyedd cyffredinol y sir. Mae strategaeth a hierarchaeth aneddiadau'r cynllun yn adlewyrchu'r rôl sylweddol y mae cymunedau gwledig yn ei chwarae trwy gefnogi twf ar raddfa gymesur sy'n gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gynaliadwyedd hirdymor yr economi a chymunedau gwledig.

11.367 Gall datblygu cymesur ac ystyriol sicrhau'r lefel o dwf sydd ei hangen i gynnal a gwella'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir yn aneddiadau gwledig y sir. Mae hefyd yn gallu gweithredu i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg mewn ardaloedd gwledig a gwella cyfleoedd i gael swydd mewn ardaloedd gwledig. Er hynny, mae'r cynllun yn ceisio sicrhau nad yw datblygu a thwf yn effeithio'n negyddol ar gynaliadwyedd cymuned. Mae sicrhau

nad yw datblygiad yn cael ei gymeradwyo ar raddfa neu gyfradd a fyddai'n effeithio ar allu cymuned i amsugno ac addasu i dwf a newid yn allweddol i hyn. Mae hyn yn hanfodol wrth ystyried yr effeithiau y gall datblygiad eu cael ar y seilwaith lleol, bywiogrwydd y Gymraeg, a chynaliadwyedd cefn gwlad a'r amgylchedd naturiol.

11.368 Yn hanesyddol mae polisi cynllunio cenedlaethol wedi ceisio cyfyngu ar ddatblygiadau diangen mewn lleoliadau cefn gwlad, yn bennaf er mwyn atal twf gwasgaredig ac anghynaliadwy ac i wneud y defnydd gorau o seilwaith, adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael yn fwy cyffredin mewn ardaloedd trefol sefydledig.

11.369 Er bod yr egwyddor hon yn dal i fod yn berthnasol a chymwys, mae mwy o gydnabyddiaeth i gefn gwlad fel lle gwaith, fel cartref i lawer, a lle i ymweld ag ef i eraill ac ecosystem hanfodol i bawb. Mae'r Cynllun yn ymrwymedig i fynd i'r afael â chymunedau gwledig a diogelu eu hanghenion. I'r perwyl hwn sefydlodd y Cyngor Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig gyda'r nod o asesu anghenion cymunedau gwledig a chymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r Cynllun yn cefnogi nodau a chanlyniadau'r Grŵp Gorchwyl yn bennaf trwy bolisïau sy'n ymwneud â darparu tai a thai fforddiadwy; yr economi a chyflogaeth; y Gymraeg a'r amgylchedd naturiol. Bydd angen i gynigion datblygu ddangos eu bod yn cyd-fynd â'r polisïau hyn yn ogystal â darpariaethau polisïau cynllunio cenedlaethol.

11.370 Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 yn cydnabod bod cefn gwlad yn adnodd dynamig ac amlbwrpas. Mae'n nodi, yn unol â datblygu cynaliadwy a'r egwyddorion cynllunio cenedlaethol, y dylid ei warchod a'i wella lle y bo'n bosibl. Fodd bynnag, mae hefyd yn adlewyrchu'r angen i gydbwyso hyn yn erbyn anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr.

11.371 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y bydd meithrin y gallu i addasu a chydnerthedd yn nod allweddol ar gyfer lleoedd gwledig yn wyneb her sylweddol cynnal ffyniant cymunedau ac argaeledd gwasanaethau yn ogystal â chyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol Cymunedau Cydlynus.

11.372 Ceir cydnabyddiaeth glir bod ardaloedd gwledig yn arddangos heriau o ran mynediad at ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy a'r disgwyliad ym Mholisi Cynllunio Cymru o ran mynediad at gysylltiadau teithio llesol a chysylltiadau swyddogaethol cynaliadwy. Caiff hyn ei adlewyrchu yn natblygiad yr hierarchaeth aneddiadau yn gyffredinol.

11.373 Mae'r ddealltwriaeth hon am amrywiaeth yn cael ei hadlewyrchu ym Mholisi Cynllunio Cymru yn yr ystyr ei fod yn ystyried gofynion trafnidiaeth gynaliadwy. Mae'n cydnabod bod angen adlewyrchu gwahanol ddulliau o ymdrin â thrafnidiaeth gynaliadwy wrth ddiffinio twf mewn aneddiadau gwledig.

11.374 Mae'r CDLl Diwygiedig hwn yn cydnabod yr amrywiaeth a geir yn Hwn Sir a'r angen i adlewyrchu hyn yn ei ymagwedd strategol. Mae'r Strategaeth Ofodol yn nodi hierarchaeth aneddiadau ond yn ei gosod o fewn fframwaith aneddiadau sydd wedi'i grwpio o dan chwe chlwstwr. Bydd y clystyrau hyn a'r dosbarthiad twf yn canolbwyntio ar egwyddorion cynaliadwy, ond byddant hefyd yn cydnabod rôl, swyddogaeth a chyfraniad aneddiadau o fewn clystyrau penodol.

## Yr Economi Wledig

11.375 Mae polisi cenedlaethol yn cydnabod bod economi wledig gref yn hanfodol er mwyn cynnal cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog. Yn hyn o beth, mae sefydlu mentrau newydd ac ehangu busnesau presennol yn hanfodol i dwf a sefydlogrwydd ardaloedd gwledig.

11.376 Dylid rhoi sylw i effaith datblygiadau o'r fath, ond fel a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, gellir lleoli llawer o weithgareddau gweithgynhyrchu masnachol ac ysgafn mewn ardaloedd gwledig heb achosi aflonyddwch annerbyniol neu effeithiau niweidiol eraill.

11.377 Er bod ffocws o hyd ar nodi neu ddyrannu safleoedd i ddiwallu angen am gyflogaeth, cydnabyddir hefyd y bydd angen cyfleoedd ar gyfer cynigion ar raddfa fach lle nad yw'r angen yn cael ei ddiwallu gan ddyraniadau penodol. Mae'r mentrau ar raddfa fach hyn yn gyfrannwr pwysig i'r economi wledig (dylid cyfeirio at Bolisi EME4: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Nas Dyrannwyd, EME5: Busnesau wedi'u lleoli Gartref, a Pholisi INF3: Band Eang a Thelathrebu).

11.378 Dylid cyfeirio at ddarpariaethau polisi SP7 a'i fynegiant o ddosbarthiad cynaliadwy darpariaeth tir cyflogaeth.

## Anheddau Mentrau Gwledig

11.379 Fel a nodir trwy bolisi cenedlaethol mae angen annedd menter wledig lle mae'n '*galluogi gweithwyr mentrau gwledig i fyw yn eu gweithle neu ger eu gweithle*'. Mae hyn yn

cynnwys annog pobl iau i reoli busnesau fferm a chefnogi arallgyfeirio ar ffermydd sefydledig.

11.380 Nid rôl na bwriad y CDLl Diwygiedig yw ailadrodd darpariaethau polisi cynllunio cenedlaethol. O ganlyniad, dylid cyfeirio at ddarpariaethau Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 6 (TAN6)[84] wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer anheddau menter wledig newydd. Mae polisi cenedlaethol yn datgan yn glir y dylid archwilio cynigion o'r fath yn ofalus i sicrhau bod gwir angen.

11.381 Dylai ceisiadau ar gyfer anheddau menter wledig gael eu hategu gan arfarniad o anheddau menter wledig, a dim ond os yw'n darparu tystiolaeth bendant o'r angen am yr annedd y caiff caniatâd ei roi.

11.382 Er mwyn sicrhau bod anheddau menter wledig yn cael eu cadw at y diben a fwriadwyd mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod amod sy'n cyfyngu ar feddiannaeth ar yr eiddo yn cael ei ddefnyddio a bod yr annedd yn cael ei dosbarthu fel tŷ fforddiadwy (diffiniad a nodir yn TAN 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy). Lle y bo'n briodol rhoddir ystyriaeth hefyd i ddefnyddio cytundeb cyfreithiol (adran 106) fel modd i gadw diben yr eiddo fel Annedd Menter Wledig. Bydd hyn yn sicrhau bod yr annedd yn parhau i fod ar gael i ddiwallu'r angen lleol am dai fforddiadwy pe bai ei chyfiawnhad gwreiddiol yn dod i ben.

11.383 Mewn amgylchiadau lle ceir cais cynllunio i godi amodau meddiannaeth amaethyddol presennol neu lle cymerir camau gorfodi am beidio â chydymffurfio â'r amod, rhoddir ystyriaeth i ddisodli amod meddiannaeth amaethyddol gyda'r amod annedd menter wledig a nodir yn TAN6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy[85].

11.384 Bydd yn ofynnol bod cynigion ar gyfer Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad yn darparu ar gyfer anghenion sylfaenol y meddianwyr o ran incwm, bwyd, ynni a thrin gwastraff dros gyfnod o 5 mlynedd[86]. Dylai unrhyw gynnig gael ei ategu gan gynllun rheoli seiliedig ar dystiolaeth; yn yr achosion hynny lle na ellir dangos hyn, caiff unrhyw gynnig ei ystyried yn erbyn polisïau a darpariaethau'r CDLl hwn a'r polisi cenedlaethol mewn

[84] TAN6: Planning for Sustainable Rural Communities - https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/tan6-sustainable-rural-communities.pdf

[85] TAN6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy - Paragraff 4.13.1
[86] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11

perthynas â datblygiadau yng nghefn gwlad. Cyfeirir at ddarpariaethau TAN6 ac mewn perthynas â gofynion y Canllaw Ymarfer Datblygiadau Un Blaned. [87]

11.385 Wrth asesu addasrwydd safle ar gyfer Datblygiad Un Blaned, bydd disgwyl i'r ymgeisydd ystyried ei effaith bosibl ar y dirwedd a bioamrywiaeth, y gallu iddo gael ei sgrinio'n effeithiol yn ogystal â bod yn ddigon agos at Lwybrau Teithio Llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus.

## RD1: Anheddau Newydd yn lle un bresennol mewn Cefn Gwlad Agored

**Caniateir cynigion i ddisodli anheddau presennol yng nghefn gwlad ar yr amod:**

a) **nad yw'r annedd bresennol yn ffermdy, bwthyn nac adeilad arall traddodiadol sy'n bwysig i gymeriad gweledol a chynhenid y dirwedd;**
b) **nad yw'r annedd wreiddiol wedi cael ei dymchwel, ei gadael nac wedi mynd â'i phen iddi ac nad yw bellach yn ymddangos fel annedd;**
c) **bod dyluniad yr annedd newydd o ffurf, swmp, maint a graddfa sy'n parchu ei lleoliad;**
d) **nad yw'r cynnig yn gofyn am estyniad annerbyniol i'r ardd breswyl sefydledig bresennol;**

**Dylai'r cynigion ar gyfer unrhyw dai allan fod yn gymedrol o ran maint ac wedi'u lleoli'n sensitif a dylai fod modd cyflawni garej a lle storio ategol digonol ar gyfer yr annedd.**

**Caniateir cynigion mewn perthynas â disodli ffermdy, bwthyn neu adeilad arall traddodiadol sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau maen prawf a) uchod dim ond lle mae'r ymgeisydd yn rhoi digon o dystiolaeth i ddangos nad yw ailddefnyddio'r adeilad yn hyfyw yn economaidd neu ei fod mewn cyflwr strwythurol sy'n rhwystr i'w ailddefnyddio'n effeithiol.**

11.386 Mae'r polisi'n cydnabod ac yn adlewyrchu cymeriad gwledig y Sir ac ystod a chyflwr y stoc dai. Mae'n ceisio rhoi cyfle a chwmpas i ddarparu anheddau newydd mewn ffordd sy'n sicrhau bod y Sir yn cadw ei chymeriad traddodiadol, gan hefyd beidio â thanseilio nodweddion arbennig Sir Gaerfyrddin wledig.

11.387 Dylid rhoi ystyriaeth benodol i dderbynioldeb effaith weledol cynigion ar y dirwedd. Yn hyn o beth, ni ddylai ei raddfa a'i ddyluniad (gan gynnwys maint y cwrtil preswyl) fod yn anfanteisiol i gymeriad ac ansawdd yr ardal.

---

[87] Canllaw Ymarfer Datblygiadau Un Blaned - https://gweddill.gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/oneplanet/?lang=en

## RD2: Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig at Ddefnydd Preswyl

**Caniateir cynigion ar gyfer addasu ac ailddefnyddio adeiladau gwledig addas at ddefnydd preswyl lle:**

**a) mae'r defnydd presennol wedi dod i ben, ac ni fyddai ei ail-ddefnyddio yn arwain at yr angen am adeilad ychwanegol;**
**b) mae'r dyluniad a'r deunyddiau o ansawdd uchel, ac mae ffurf a swmp y cynnig, gan gynnwys unrhyw estyniadau, cwrtil a threfniadau mynediad yn addas i ac yn parchu: y dirwedd o gwmpas, cymeriad gwledig yr ardal ac ymddangosiad yr adeilad gwreiddiol;**
**c) Dylai cynigion ar gyfer estyniadau fod yn gymesur ac yn adlewyrchu graddfa, cymeriad ac ymddangosiad yr adeilad gwreiddiol;**
**d) mae'r adeilad gwreiddiol yn strwythurol gadarn ac nid yw unrhyw waith ailadeiladu, sy'n angenrheidiol oherwydd amodau strwythurol gwael a/neu'r angen am agoriadau newydd mewn waliau, yn cynnwys ailadeiladu sylweddol;**
**e) lle bo'n berthnasol, bydd ansawdd pensaernïol, cymeriad ac ymddangosiad yr adeilad yn cael ei warchod, ac na chaiff ei leoliad ei niweidio i raddau annerbyniol.**

**Yn gyffredinol, ni fydd cynigion sy'n ymwneud ag adeiladau sydd o adeiladwaith ffrâm porthol modern yn cael eu hystyried yn briodol i'w haddasu at ddefnydd preswyl.**

11.388 Dylai cynigion i addasu adeiladau gwledig addas at ddefnydd preswyl fod o ansawdd uchel o ran dyluniad a'r deunyddiau sy'n cael eu defnyddio. Nid pwrpas y polisi yw caniatáu cynigion lle mae adeilad presennol yn anaddas i'w addasu heb newid helaeth, ailadeiladu, neu estyniad, neu os byddai creu cwrtil preswyl yn cael effaith niweidiol ar gymeriad cefn gwlad. Bydd cynigion o'r fath yn cael eu hystyried fel tŷ newydd yng nghefn gwlad agored.

11.389 Gellir ystyried cynigion preswyl yn ffafriol lle maent yn rhan o gynllun arfaethedig ar gyfer ailddefnyddio at ddefnydd busnes. Gellir gosod amodau sy'n mynnu bod y gwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer sefydlu'r busnes/menter wedi'u cwblhau cyn meddiannu'r elfen breswyl. Ar ben hynny, gellir defnyddio amod neu rwymedigaeth gynllunio sy'n clymu'r uned breswyl i weithrediad menter hefyd fel y bo'n briodol.

11.390 Yn gyffredinol, ni fydd cynigion ar gyfer adeiladau adeiladwaith modern-fel unedau ffrâm porthol neu strwythurau dros dro yn cael eu hystyried yn briodol i'w haddasu. Yn

gyffredinol, ni fydd cynigion ar gyfer adeiladau o fewn y cwrtil preswyl a adeiladwyd yn ategol i'r prif eiddo e.e. garejis yn cael eu hystyried i'w haddasu o dan y polisi hwn.

11.391 Bydd angen i'r Cyngor fod yn fodlon y gellir cyflawni gofod byw a storio digonol (gan gynnwys garej) heb yr angen am estyniadau sylweddol i'r adeilad. Yn gyffredinol, ni fydd cynigion ar gyfer ehangu unedau yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn briodol. Yn yr un modd, bydd y Cyngor yn ystyried tynnu'n ôl hawliau datblygu arferol a ganiateir i adeiladu estyniadau ac adeiladau ategol.

11.392 Dylid cyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas ag Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig.

## RD3: Arallgyfeirio ar Ffermydd

**Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau arallgyfeirio ar ffermydd sy'n cryfhau'r economi wledig yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:**

- **a. Mae'n gydnaws â phrif weithgareddau amaethyddol y fferm weithiol bresennol, ac yn eu hategu a'u cefnogi;**
- **b. Mae ar raddfa ac o natur sy'n briodol i weithrediad presennol y fferm;**
- **c. Mae'n rhoi sylw priodol i'r seilwaith priffyrdd a thrafnidiaeth;**
- **d. Ni fyddai'n cael effaith niweidiol ar gymeriad, lleoliad ac ymddangosiad yr ardal a'r dirwedd amgylchynol.**

**Dylai cynigion roi blaenoriaeth i addasu adeiladau presennol addas ar y fferm weithiol. Lle gellir cyfiawnhau hynny, caniateir adeiladau newydd os ydynt wedi'u hintegreiddio â'r fferm weithiol bresennol, neu'n gysylltiedig â hi, a heb fod yn anfanteisiol i briod gymeriad ac ymddangosiad yr ardal a'r dirwedd o'i hamgylch.**

11.393 Mae arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig yn aml yn gallu ychwanegu at ffrydiau incwm a hyfywedd economaidd ffermydd, cryfhau'r economi wledig ac ychwanegu at gyfleoedd cyflogaeth ehangach.

11.394 Bwriedir i gynigion arallgyfeirio ar ffermydd ategu a chefnogi parhad y gweithgarwch ffermio presennol. Ynghyd â'r cynigion, dylid cyflwyno tystiolaeth sy'n rhoi manylion y cyfiawnhad dros y defnydd a'i berthynas â'r gweithgarwch ffermio presennol.

11.395 Lle mae cynnig yn cynnwys siopau fferm, yn aml mae'n rhaid iddynt fewnforio nwyddau sy'n dod o bosibl oddi wrth gyflenwyr lleol eraill. Wrth benderfynu ar gynigion a wneir o dan y polisi hwn, rhoddir ystyriaeth i gyfyngu ar y mathau eang o gynnyrch a

werthir ac i'r nifer a werthir. Rhoddir ystyriaeth hefyd i raddfa'r gweithrediad, yn arbennig lle byddai defnydd anghyfyngedig yn arwain at effaith anffafriol ar fywiogrwydd a hyfywedd gweithgareddau adwerthu cyfagos.

11.396 Wrth ystyried cynigion ar gyfer arallgyfeirio ar ffermydd, cydnabyddir bod eu cyd-destun gwledig yn golygu na allant gael eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus bob amser. O ganlyniad, er y bydd ei argaeledd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth ystyried natur a graddfa'r cynnig, cydnabyddir y potensial ar gyfer cynigion arallgyfeirio penodol na ellir ond eu cyrraedd mewn car preifat. Dylai cynigion o'r fath ystyried yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy.

11.397 Lle y bo'n briodol, bydd cytundebau cyfreithiol yn cael eu defnyddio i glymu adeiladau amaethyddol wrth y tir os yw ailddefnydd yn gysylltiedig ag arallgyfeirio ar ffermydd lle mae'n debygol y bydd yr uned amaethyddol yn cael ei darnio.

## RD4: Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig at Ddefnydd Amhreswyl

**Bydd cynigion i addasu adeiladau gwledig at ddefnydd busnes yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:**

a) **lle mae'r adeilad yn ymarferol addas ar gyfer y defnydd penodol;**
b) **lle mae digon o dir a lle storio ynghlwm ar gyfer anghenion swyddogaethol y defnydd arfaethedig (gan gynnwys darpariaeth parcio);**
c) **lle na fyddai ei addasu a'i ddefnydd arfaethedig, neu'r defnydd o dir cyfagos ar gyfer darparu mynediad, cyfleusterau parcio, adeileddau atodol, cyfleusterau neu le storio ar y safle yn arwain at effaith niweidiol ar gymeriad yr ardal, defnyddiau cyfagos neu effaith ar hyfywedd defnyddiau tebyg o fewn yr ardal leol;**
d) **lle mae'r adeilad presennol yn gadarn yn strwythurol;**
e) **lle mae unrhyw estyniad yn adlewyrchu graddfa'r adeilad gwreiddiol.**

11.398 Mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn cydnabod cyfraniad hanfodol economi wledig gref i gefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus. Mae'n ceisio darparu agenda gadarnhaol ar gyfer y potensial i ailddefnyddio adeiladau presennol mewn ardaloedd gwledig at ddibenion busnes.

## RD5: Cyfleusterau Marchogol

**Bydd cynigion datblygu ar gyfer stablau, cyfleusterau marchogol neu ddefnyddio tir ar gyfer gweithgareddau marchogol yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:**

**a) lle mae'r cyfleuster wedi'i grwpio o fewn cyfadeilad fferm presennol, neu wedi'i leoli mor agos â phosibl at adeiladau presennol;**
**b) lle bydd y defnydd arfaethedig o ddwyster sy'n briodol i'w amgylchedd a'i leoliad;**
**c) lle na fydd y datblygiad yn cael effaith niweidiol ar y dirwedd nac ar fuddiannau cadwraeth natur; a**
**d) lle gellir darparu mynediad a lleoedd parcio addas ar gyfer blychau ceffylau a'r lefel o arfaethedig o weithgarwch masnachol;**
**e) lle mae gan gyfleusterau masnachol fynediad addas at y rhwydwaith priffyrdd.**

11.399 Mae cynigion ar gyfer stablau a chyfleusterau marchogol cysylltiedig fel arfer yn gysylltiedig â lleoliad cefn gwlad. Fel arfer bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu stablau, oni bai bod y ceffylau'n rhan o'r gweithgarwch amaethyddol, neu fod y stabl o fewn cwrtil annedd (sy'n adlewyrchu hawliau datblygu a ganiateir posibl).

11.400 Bydd cynigion nad ydynt yn cael unrhyw effaith niweidiol ar y dirwedd a/neu effaith amgylcheddol niweidiol yn cael eu cefnogi. Yn hyn o beth, bydd disgwyl i gynigion ddangos sut y mae'r datblygiad yn cyd-fynd â'i leoliad cefn gwlad a'r sylw y mae'n ei roi i'r fframwaith aneddiadau a'i leoliad, gan gynnwys adeiladau presennol.

11.401 Dylai codi ménage ar gyfer defnydd domestig preifat gael ei ddylunio fel nad yw'n cael effaith niweidiol ar y dirwedd, ei fod yn dwyn perthynas dda ag adeiladau presennol, a'i fod ar raddfa briodol.

11.402 Ystyrir bod stablau a ménages masnachol yn briodol fel busnesau gwledig lle gellir darparu ar eu cyfer heb niwed i gymeriad yr ardal, a'u bod yn cael eu hystyried yn dderbyniol yn nhermau priffyrdd.

## Polisi Strategol – SP 14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

**Rhaid i gynigion datblygu ddiogelu a gwella amgylchedd naturiol y Sir.**

**Rhaid i gynigion adlewyrchu'r rôl sydd gan agweddau a nodweddion yr amgylchedd naturiol ac amgylchedd sydd wedi'i chysylltu'n ecolegol wrth ddiogelu a gwella bioamrywiaeth, diffinio'r dirwedd, cyfrannu at Lesiant ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.**

**Rhaid ystyried pob cynnig datblygu yn unol â gofynion Polisi Cenedlaethol a deddfwriaethol lle byddai cynnig ar gyfer datblygu yn arwain at effaith andwyol sylweddol ar safleoedd dynodedig, gan gynnwys safleoedd**

**Ewropeaidd, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a chynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth.**

**Dylai unrhyw gynnig datblygu gyfrannu at nod cyffredinol Datganiad Ardal De-orllewin Cymru (CNC, 2020) wrth feithrin gwytnwch ein ecosystemau a gwella'r buddion a ddarperir ganddynt. Ni fydd datblygiad a fyddai'n arwain at effeithiau amgylcheddol andwyol annerbyniol neu sydd ddim yn arwain at wella bioamrywiaeth yn cael ei ganiatáu.**

**Ni ddylai datblygiad achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau (yn lleol a/neu'n genedlaethol) a rhaid iddo ddarparu buddion net i fioamrywiaeth. Lle na chynigir gwella bioamrywiaeth fel rhan o gynnig ar gyfer datblygu, rhoddir pwysau sylweddol i'w absenoldeb, ac oni bai bod ystyriaethau perthnasol arwyddocaol eraill yn nodi fel arall bydd angen gwrthod caniatâd.**

11.403 Mae gan Sir Gar amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol, gyda nifer o safleoedd wedi'u dynodi a rhywogaethau gwarchodedig. Mae'r polisi yma yn ceisio adnabod safon a gwerth yr amgylchedd naturiol a thirweddau ar draws ardal y Cynllun, a'i rôl sylfaenol yn diffinio hunaniaeth, cymeriad a gwahanolrwydd y Sir. Ymhlyg yn hyn mae cydnabyddiaeth o rinweddau sylweddol seilwaith gwyrdd a glas ar gyfer lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, ar gyfer dal a storio carbon ac ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol. Cyfeirir at bolisi Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas PSD3.

11.404 Mae amddiffyn a gwella'r elfennau hyn yn ffurfio rhan bwysig o'r strategaeth, sy'n ceisio adlewyrchu nid yn unig y dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol hynny, ond hefyd cyfraniad safleoedd a thirweddau ar y lefel leol. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn ceisio cadw a gwella adnoddau naturiol megis geoamrywiaeth, dŵr, pridd ac ansawdd yr aer.

11.405 This policy also recognises the often-interconnected components of the natural environment and their contribution towards maintaining and enhancing biodiversity, as well as the creation of attractive and cohesive spaces for communities, and the well-being of Carmarthenshire's population. Those natural environment aspects and features cited in the policy would include geology, landform, soils, land cover and hydrology.

11.406 Mae diogelu a gwella cysylltedd, a'r cyfraniad mae'n ei wneud i ansawdd tirwedd, amgylchedd a bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn ystyriaeth bwysig. O ganlyniad i hyn, bydd effaith bosibl y cynllun, ei bolisïau a'i gynigion ar fuddiannau cadwraeth natur, gwerth amwynderau, ansawdd dŵr/pridd/aer, hydroleg, daeareg a chyfundrefnau geomorffolegol yn parhau i lywio'r broses gynllunio.

11.407 Cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn asesu effeithiau'r cynllun ar safleoedd a ddiogelir dan gyfraith Ewrop, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu hystyried i'w dynodi.

11.408 Er bod y Cynllun yn cydnabod yr angen am ddatblygiadau newydd at ddibenion cymdeithasol ac economaidd, bydd y Cyngor yn diogelu nodweddon amgylcheddol Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei amddiffyn a'i wella drwy bolisïau manwl. Mae'r polisi yn adlewyrchu cynnwys llythyr y Prif Swyddog Cynllunio dyddiedig 23 Hydref 2019 ar Sicrhau Gwelliannau Bioamrywiaeth. Cyfeirir hefyd at Ddatganiad Ardal De-orllewin Cymru (2020) yn hyn o beth.

11.409 Yn ogystal â hyn, ac wrth adlewyrchu'r dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol, mae'r Cynllun yn ystyried y dynodiad Parc Cenedlaethol a'r pwrpas y cafodd ei ddynodi ar ei gyfer, lle y gallai hyn effeithio ar y broses o ystyried cynigion cynllunio. Yn ogystal, mae asedau diwylliannol, treflun a thirwedd (gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig, a Henebion Cofrestredig) hefyd yn gysylltiedig yn anorfod â'r amgylchedd naturiol ac, felly, cyfeirir at Bolisi Strategol – SP 15: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol.

## NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol

**Bydd cynigion datblygu a fydd yn arwain at effeithiau andwyol i Warchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd Pwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC), a/neu Safleoedd Daearegol/Geomorffolegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS) ond yn cael ei ganiatáu lle y gellir dangos:**

i. **Bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r holl effeithiau andwyol yn unol â'r hierarchaeth liniaru;**

ii. **Pan nad yw hyn yn ymarferol, sicrhau fod mesurau digolledu digonol yn cael eu rhoi ar waith sy'n mynd i'r afael â'r holl effeithiau andwyol posibl ar y safleoedd hyn sy'n deillio o'r cynnig; neu**

iii. **Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae'r rhesymau dros y datblygiad a/neu'r newid mewn defnydd tir yn amlwg yn drech na'r angen i ddiogelu buddion cadwraethol y safle.**

**Ni ddylai cynigion datblygu achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol, a rhaid iddynt ddarparu buddion net i fioamrywiaeth.**

11.410 Mae Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Daearegol/Geomorffolegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol yn nodi ardaloedd sydd o bwysigrwydd lleol ar gyfer cadwraeth natur a gwerth daearegol (yn y drefn honno) a gallant gynnwys amrywiaeth o fathau o gynefinoedd a/neu gefnogi ystod o rywogaethau. Gall gwarchod y safleoedd hyn wneud cyfraniad pwysig i ddyletswydd y Cyngor o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r nodweddion hyn hefyd yn werthfawr o ran eu cyfraniad i ansawdd yr amgylchedd lleol ac o ran ei gwneud yn bosibl addasu a bod yn gydnerth yn wyneb y newid yn yr hinsawdd.

11.411 Mewn amgylchiadau lle gallai'r angen am ddatblygiad orbwyso'r angen i ddiogelu safle penodol, yna bydd yr effaith yn cael ei hosgoi, ei lleihau, a'i lliniaru cyn belled ag y bo modd (yn unol â'r hierarchaeth liniaru). Pan fydd effeithiau gweddillol yn parhau, caiff mesurau eu rhoi ar waith i sicrhau bod darpariaeth cynefinoedd bywyd gwyllt amgen neu fesurau creu cynefinoedd yn cael eu darparu i sicrhau nad oes colled net yng ngwerth cadwraeth yr ardal neu'r nodwedd ar y cyfan. Lle y bo'n briodol, bydd yr awdurdod yn ystyried defnyddio amodau a/neu rwymedigaethau cynllunio i ddarparu mesurau lliniaru a/neu gydbwyso priodol.

11.412 Mae Safleoedd Pwysigrwydd Cadwraeth Natur yn cynnig potensial sylweddol fel adnodd bioamrywiaeth. Er nad oes unrhyw Safleoedd Pwysigrwydd Cadwraeth Natur wedi'u nodi yn ardal y Cynllun, mae mynd ati'n frwd i archwilio dynodiadau o'r fath yn dal yn un o amcanion yr awdurdod. Bydd unrhyw ddynodiad ar gyfer Safleoedd Pwysigrwydd Cadwraeth Natur yn y dyfodol yn cael ei wneud yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n dod i'r amlwg ac sy'n nodi'r fethodoleg ddiwygiedig ar gyfer eu hadnabod. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn cael eu llunio ar yr un pryd ag y bydd y Cynllun yn cael ei fabwysiadu.

## NE2: Bioamrywiaeth

**Rhaid i gynigion datblygu gynnal a gwella bioamrywiaeth yn unol ag Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.**

**Ni chaniateir cynigion lle byddent yn arwain at effaith andwyol ar rywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth, a nodweddion o bwysigrwydd cydnabyddedig i warchod bioamrywiaeth, ac eithrio lle gellir dangos:**

i. **Bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r holl effeithiau andwyol yn unol â'r hierarchaeth liniaru;**

**ii. Pan nad yw hyn yn ymarferol, sicrhau bod mesurau digolledu digonol yn cael eu rhoi ar waith sy'n mynd i'r afael â phob effaith andwyol bosibl ar fioamrywiaeth sy'n deillio o'r cynigion; ac**
**iii. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae'r rhesymau dros y datblygiad a/neu'r newid mewn defnydd tir yn amlwg yn drech na'r angen i ddiogelu buddion bioamrywiaeth a chadwraeth natur y safle.**

**Ni ddylai cynigion datblygu achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol, a rhaid iddynt ddarparu buddion net i fioamrywiaeth**.

11.413 Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod y cynefinoedd a'r rhywogaethau a nodir yn Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cael eu diogelu'n addas rhag datblygu niweidiol a bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaeth i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Dylid cyfeirio'n llawn at Ganllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth, Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 a llythyr y Prif Swyddogion Cynllunio (2019) ar sicrhau Gwelliannau Bioamrywiaeth.. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn cynnwys canllawiau i ddatblygwyr a dylent fod o gymorth i weithredu'r polisi hwn a'r CDLl. Lle y bo'n berthnasol, bydd rôl cynefinoedd ac ardaloedd cysylltiedig fel llwybrau cysylltedd, 'rhwydweithiau ecolegol' neu 'rwydweithiau coridor anifeiliaid' yn cael ei hystyried (dylid cyfeirio at Bolisi NE3).

11.414 Lle y bo angen, dylai cynlluniau rheoli sy'n manylu ar faterion megis mesurau lliniaru gael eu cynhyrchu fel rhan o unrhyw gais, a chytuno arnynt gyda'r awdurdod cyn y rhoddir caniatâd. Dylai trefn fonitro y cytunwyd arni gael ei chyflwyno gyda'r mesurau lliniaru arfaethedig. Gall mesurau lliniaru gynnwys dylunio ac amserlennu gwaith yn ofalus, gan ystyried datblygu fesul cam fel bod amseriad unrhyw waith yn tarfu gyn lleied â phosibl.

11.415 Dylai cynigion datblygu geisio gwella bioamrywiaeth. Pan fo angen gwella bioamrywiaeth a lle na chynigir hynny fel rhan o gais, rhoddir pwysau sylweddol ar ddiffyg hynny, ac oni bai bod ystyriaethau perthnasol sylweddol eraill yn nodi fel arall bydd angen gwrthod caniatâd[88]. Bydd yn ofynnol bod cynigion datblygu'n asesu priodoleddau cydnerthedd ecosystemau yn unol â'r fframwaith a amlinellir ym mharagraff 6.4.9 o Bolisi Cynllunio Cymru 11 a bydd disgwyl iddynt ddiogelu a gwella'r priodoleddau hyn ar ôl datblygu.

[88] Llythyr y Prif Swyddog Cynllunio - Canllawiau ar sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth mewn cynigion datblygu 2019.

11.416 O dan amgylchiadau eithriadol, gallai'r angen am ddatblygiad wrthbwyso'r angen i ddiogelu safle penodol. Mewn achosion o'r fath, bydd effaith yn cael ei hosgoi, ei lleihau i'r eithaf a'i lliniaru hyd y bo'n bosibl (yn unol â'r hierarchaeth liniaru) a phan fydd effeithiau gweddillol yn parhau, caiff mesurau eu rhoi ar waith i sicrhau bod darpariaeth cynefinoedd bywyd gwyllt amgen neu fesurau creu cynefinoedd yn cael eu darparu er mwyn sicrhau nad oes colled net ym mioamrywiaeth yr ardal neu'r nodwedd ar y cyfan.

11.417 Bydd lleoliad a graddfa datblygiad, gan gynnwys natur y cynefinoedd ar y safle a'r ardal gyfagos yn ystyriaeth yn natur unrhyw reolaeth y mae ei hangen.

11.418 Dylai effeithiau posibl datblygiad, naill ai'n unigol neu'n gronnol, gael eu hystyried yn ofalus wrth benderfynu ar unrhyw gynnig. Yn hyn o beth, gall effaith sŵn, dirgryndod, draenio, goleuadau, traffig ac ystyriaethau o ran ansawdd aer ddwyn goblygiadau yn ystod y broses adeiladu neu ar ôl cwblhau unrhyw ddatblygiad.

11.419 Bydd y defnydd o amodau cynllunio a/neu rwymedigaethau cynllunio yn cael ei ystyried lle bo hynny'n briodol.

## NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw

**Bydd disgwyl i gynigion datblygu gynnal a gwella coridorau ecolegol, rhwydweithiau, a nodweddion arbennig. Bydd cynigion sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cadw a rheoli nodweddion o'r fath yn briodol yn cael eu cefnogi.**

**Bydd cynigion sy'n arwain at effaith andwyol ar gysylltedd neu gyfanrwydd coridorau ecolegol, rhwydweithiau neu nodweddion arbennig ond yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:**

1. **Bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r holl effeithiau andwyol yn unol â'r hierarchaeth liniaru;**
2. **Pan nad yw hyn yn ymarferol, sicrhau bod mesurau digolledu digonol yn cael eu rhoi ar waith sy'n mynd i'r afael â phob effaith andwyol bosibl ar fioamrywiaeth sy'n deillio o'r cynigion; a**
3. **Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae'r rhesymau dros y datblygiad a/neu'r newid mewn defnydd tir yn amlwg yn drech na'r angen i ddiogelu buddion bioamrywiaeth a chadwraeth natur y safle.**

**Ni ddylai cynigion datblygu achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol, a rhaid iddynt ddarparu buddion net i fioamrywiaeth.**

11.420 Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod coridorau, rhwydweithiau a nodweddion unigryw ecolegol yn cael eu diogelu a'u rheoli'n briodol. Mae'r rhain yn cynnwys nodweddion sydd, oherwydd eu strwythur llinol a pharhaus neu eu swyddogaethau fel 'camau graddol' neu 'goridorau bywyd gwyllt', yn hanfodol ar gyfer lleihau darniad cynefinoedd a rhoi anogaeth ar gyfer mudo a gwasgariad ecolegol neu gyfnewid genetig. Gall diogelu'r nodweddion hyn wneud cyfraniad pwysig i ddyletswydd y Cyngor o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r rhain hefyd yn werthfawr o ran eu cyfraniad i ansawdd yr amgylchedd lleol ac o ran ei gwneud yn bosibl addasu a bod yn gydnerth yn wyneb y newid yn yr hinsawdd.

11.421 Mae'r nodweddion a fydd yn cyfrannu yn cynnwys: llwyni, ffosydd a chloddiau, waliau cerrig, nentydd, lleiniau cysgodi o goed, coetiroedd, hen goed, parcdiroedd, lonydd gwyrdd, coridorau afonydd, llynnoedd, pyllau, ymylon ffyrdd, neu fosaig cynefinoedd neu rwydweithiau o gynefinoedd eraill sy'n bwysig yn lleol gan gynnwys corsydd mawn, gweundir, gwlypdiroedd, morfeydd heli, twyni tywod a glaswelltiroedd sy'n gyforiog o rywogaethau.

11.422 Mae darparu cysylltedd ecolegol yn un o wasanaethau ecosystemau pwysig y Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas ac mae ei ddiogelu a/neu ei wella yn gyson â Pholisi PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas. Wrth nodi'r nodweddion hyn ac wrth weithredu'r polisi hwn, dylid cyfeirio at yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd a Glas a mapiau cysylltiedig[89].

## NE4: Datblygiad o fewn Ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr

**Caniateir cynigion datblygu lle maent yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo a chyfrannu at y gwaith o gyflawni Amcanion Cadwraeth Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd. Bydd yn ofynnol i gynigion sydd wedi'u lleoli yn Ardal y Canllawiau Cynllunio Atodol gyfrannu tuag at gynyddu ansawdd a maint y cynefin sydd ar gael ar gyfer Britheg y Gors o fewn Ardal y Canllawiau Cynllunio Atodol.**

**Er mwyn cyflawni'r Amcanion Cadwraeth, ac i wneud iawn am golli cynefin cynhaliol posibl a chysylltedd ar gyfer Britheg y Gors a allai ddigwydd o ganlyniad i'r datblygiad, bydd y Cyngor (lle bo'n berthnasol) yn ceisio sicrhau Rhwymedigaethau Cynllunio (yn unol â pholisi INF1 y CDLl a darpariaethau'r**

[89] Asesiad Seilwaith Gwyrdd (Ionawr 2020) [https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1221671/green-infrastructure-assessment-jan-2020.pdf](https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1221671/green-infrastructure-assessment-jan-2020.pdf)

**Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr) gan ddatblygiadau perthnasol yn ardal y Canllawiau Cynllunio Atodol.**

11.423 Gall datblygiadau fynd ymlaen yn ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr ar yr amod na fydd unrhyw effaith sylweddol debygol amlwg ar Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr (ACA Caeau'r Mynydd Mawr). I'r perwyl hwn, bydd y Cyngor (lle bo'n briodol) yn ceisio cyfraniadau gan ddatblygwyr i ariannu gwaith y Cyngor i gyflawni prosiect rheoli cynefinoedd y Cyngor yn ardal y Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr (Canllawiau Cynllunio Atodol ACA Caeau'r Mynydd Mawr) a fydd yn cael eu mabwysiadu ar yr un pryd â'r Cynllun. [90]

11.424 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn darparu mecanwaith i ddatblygwyr geisio lliniaru effaith eu cynigion ar yr ACA trwy gyfrannu at brosiect rheoli cynefinoedd Caeau'r Mynydd Mawr y Cyngor. I sicrhau bod y CDLl yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cynefinoedd, bydd y Cyngor (lle y bo'n briodol) yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau rhwymedigaethau mewn perthynas ag ACA Caeau'r Mynydd Mawr ar gyfer cynigion sydd wedi'u lleoli o fewn Ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr.

11.425 Caiff y Canllawiau Cynllunio Atodol eu llywio gan sylfaen dystiolaeth gadarn. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn nodi rhestr codi tâl sy'n ffurfio'r man cychwyn ar gyfer pob trafodaeth ynghylch y cyfraniad sy'n ofynnol gan ddatblygwyr. Dylid cyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Atodol o ran unrhyw gyfraniadau arfaethedig 'mewn da' a gynigir gan ddatblygwyr.

11.426 Caiff Ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr ei nodi ar y Map Cynigion.

## NE5: Rheoli'r Arfordir

**Bydd cynigion ar gyfer cynlluniau rheoli arfordirol yn cael eu caniatáu, ar yr amod:**

a) **Bod cyfiawnhad priodol dros yr angen am y datblygiad;**

[90] Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr: Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1223332/caeau-mynydd-mawr-special-area-of-conservation-draft-spg-2020.pdf

**b) Bod y datblygiad yn gydnaws â'r amgylchedd o'i gwmpas;**
**c) Ei fod yn diogelu, yn gwella ac, os yw'n briodol, yn creu cysyllteddau cerdded â Llwybr Arfordir Cymru a'r rhwydwaith llwybrau troed;**
**d) Na fydd y cynllun yn arwain at gynnydd mewn erydiad, llifogydd nac ansadrwydd tir;**
**e) Eu bod yn gwarchod ac yn gwella'r dirwedd, y forwedd a'r amgylchedd hanesyddol, ac mae ganddynt fanteision net i fioamrywiaeth.**

**Bydd cynigion yn cael eu hannog i ddarparu llwybrau Teithio Llesol ychwanegol i gysylltu cymunedau a llwybrau presennol â Llwybr Arfordir Cymru.**

11.427 Mae gan gynlluniau amddiffyn yr arfordir rôl bwysig o ran diogelu poblogaeth, asedau ac adnoddau'r Sir rhag llifogydd llanwol ac erydu. Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod cynlluniau rheoli arfordirol yn cael eu llunio mewn lleoliadau priodol, ac nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar y dirwedd o'u hamgylch. Bydd yn ofynnol i gynlluniau roi sylw i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd yn unol â Pholisi Strategol SP13.

11.428 Bydd anogaeth yn cael ei rhoi i gynnwys cyfleusterau hamdden a mynediad cyhoeddus priodol o fewn cynlluniau.

11.429 Ni fydd cynlluniau rheoli arfordirol newydd na gwelliannau i gynlluniau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu caniatáu at ddibenion galluogi datblygiadau newydd mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd neu erydiad arfordirol.

11.430 Bydd disgwyl i gynigion ystyried cynnwys Cynllun Rheoli Traethlin De Cymru (Trwyn Larnog i Benrhyn y Santes Ann) (SMP2). Mae'r Cynllun Rheoli Traethlin hwn yn ceisio lleihau'r peryglon hyn i bobl ac i'r amgylcheddau datblygedig, hanesyddol a naturiol, ac yn nodi sut y dylid rheoli'r arfordir yn y dyfodol trwy nifer o bolisïau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol hirdymor cynaliadwy ar gyfer yr arfordir.

11.431 Cyfeirir yn benodol at Bolisi NE7: Ardal Rheoli Newid Arfordirol a'i gyd-destun mewn perthynas â datblygiadau o fewn, neu yr effeithir arnynt gan, bolisïau 'dim ymyriad gweithredol' ac 'adlinio a reolir' yn y Cynllun Rheoli Traethlin.

11.432 Mae'r cynigion sydd yn y CDLl hwn wedi'u paratoi gan roi sylw dyledus i'r polisïau a nodir yn SMP2.

## NE6: Datblygu'r Arfordir

**1. Bydd cynigion ym mhob lleoliad arfordirol yn cael eu caniatáu dim ond ar yr amod:**

**a) Eu bod wedi cymryd i ystyriaeth faterion sy'n gysylltiedig â newid arfordirol;**

**b) Na fyddant yn niweidio'r forwedd mewn modd annerbyniol trwy raddfa, màs a dyluniad amhriodol.**

**2. Bydd cynigion datblygu mewn lleoliadau arfordirol sydd heb eu datblygu yn cael eu caniatáu dim ond ar yr amod:**

**c) Bod angen eu lleoli mewn lleoliad arfordirol;**

**d) Eu bod yn rhan o gynllun rheoli arfordir angenrheidiol;**

**e) Nad ydynt yn cynyddu'r risg o erydu, llifogydd neu ansadrwydd tir;**

**f) Na fyddent yn arwain at yr angen am fesurau newydd i ddiogelu'r arfordir;**

**g) Eu bod yn gwarchod ac yn gwella'r dirwedd, y forwedd, a'r amgylchedd hanesyddol, ac mae ganddynt fanteision net i fioamrywiaeth. .**

11.433 Mae gan Sir Gaerfyrddin ardal helaeth o forlin, sy'n ymestyn o aber Afon Llwchwr i Marros. Gellir diffinio'r ardal arfordirol fel ardaloedd lle mae'r tir a'r môr cyfagos yn cael eu hystyried yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd.

11.434 Anaml y bydd yr arfordir sydd heb ei ddatblygu yn cael ei ystyried fel y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer datblygu, a dylai unrhyw gynigion ystyried cynnwys SMP2, yn ogystal â pholisïau eraill y Cynllun.

11.435 Mae materion sy'n gysylltiedig â newid arfordirol yn cynnwys: risgiau erydu, llifogydd, ansadrwydd tir, y dulliau a ffefrir i fynd i'r afael â risgiau o'r fath, a'r effeithiau ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol.

11.436 Cyfeirir at bolisi NE7: Ardal Rheoli Newid Arfordirol a'i gyd-destun mewn perthynas â datblygiadau o fewn, neu yr effeithir arnynt gan, bolisïau 'dim ymyriad gweithredol' ac 'adlinio rheoledig' SMP2.

## NE7: Ardal Rheoli Newid Arfordirol

**Mae'r Ardal Rheoli Newid Arfordirol wedi'i diffinio fel yr ardaloedd hynny lle mae SMP2 yn nodi polisi o 'ddim ymyriad gweithredol' ac 'adlinio rheoledig'.**

**Ni ddylai cynigion datblygu sydd wedi'u lleoli o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol a nodwyd gael effaith niweidiol ar gyfraddau newid arfordirol mewn mannau eraill, a byddant yn amodol ar y canlynol:**

**1. Datblygiad Preswyl Newydd**

**Ni chefnogir cynigion ar gyfer unrhyw ddefnydd preswyl o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol.**

**2. Adleoli Anheddau Preswyl Presennol**

**Bydd cynigion i adleoli anheddau preswyl presennol o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol yn cael eu caniatáu o dan yr amgylchiadau canlynol:**

- **a) Lle mae'r datblygiad yn disodli annedd barhaol yr effeithir arni neu a fygythir gan erydiad a/neu berygl llifogydd arfordirol o fewn 20 mlynedd i ddyddiad y cynnig; a**
- **b) Lle mae'r annedd a adleolwyd wedi ei lleoli o fewn pellter priodol i'r tir o ran yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol a gwybodaeth arall yn y Cynllun Rheoli Traethlin, ac lle mae mewn lleoliad sydd:**
  - **i. yn achos annedd amaethyddol, o fewn y daliad fferm neu o fewn neu'n ffinio ag aneddiadau presennol, neu**
  - **ii. o fewn neu'n ffinio ag aneddiadau presennol yn agos at y lleoliad y cafodd ei dadleoli ohono;**
  - **iii yn achos carafán/carafanau sefydlog, caban(nau) gwyliau neu uned(au) llety ymweld parhaol eraill - o fewn, gerllaw neu o fewn pellter derbyniol i'r safle presennol.**
- **c) Bod safle'r annedd bresennol yn cael ei glirio o unrhyw adeiladau neu daclau preswyl ac yn cael ei wneud yn ddiogel; a,**
- **d) Bod yr annedd newydd yn debyg o ran maint i'r hyn y mae wedi'i bwriadu i'w ddisodli; a,**
- **e) Bod y cynnig yn cydnabod y priod ymdeimlad o le o fewn yr ardal ac na ddylai gael effaith niweidiol ar dirwedd, trefwedd, morwedd a/neu fioamrywiaeth yr ardal, a**

**3. Adeiladau Amhreswyl**

**Bydd cynigion ar gyfer y mathau canlynol o ddatblygiadau amhreswyl newydd yn cael eu caniatáu o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol a ragwelir fel rhai sydd mewn perygl o newid arfordirol, yn amodol ar Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ac Asesiad Sadrwydd derbyniol:**

**i. datblygiad sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r ardal arfordirol (e.e., cytiau traeth, caffis, ystafelloedd te, siopau, gweithgareddau hamdden); a**

**ii. datblygiad sy'n darparu buddion economaidd a chymdeithasol sylweddol i'r gymuned; a**

**iii. lle gellir dangos na fydd mwy o risg i fywyd, nac unrhyw risg sylweddol i eiddo.**

**Caniateir ailddatblygu, neu estyniadau i, eiddo amhreswyl presennol neu ddwysáu defnydd tir amhreswyl presennol ar safleoedd o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol, lle gellir dangos trwy Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ac Asesiad Sadrwydd addas na fydd risg fwy o gwbl i fywyd, nac unrhyw risg sylweddol i eiddo (lle y bo'n briodol).**

**4. Estyniadau i Anheddau a Seilwaith Presennol**

**Bydd cynigion ar gyfer y mathau canlynol o ddatblygiadau yn cael eu caniatáu yn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol, yn amodol ar Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd a/neu Asesiad Sadrwydd addas:**

**1) Estyniadau preswyl cyfyngedig sydd â chysylltiad agos â graddfa bresennol yr eiddo;**

**2) Datblygiad atodol o fewn cwrtil preswyl anheddau presennol;**

**3) Bydd seilwaith cymunedol a seilwaith arall allweddol (gan gynnwys ffyrdd), y mae'n ofynnol eu lleoli o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol i ddarparu'r budd a fwriadwyd ar gyfer y gymuned ehangach, yn cael eu caniatáu lle mae cynlluniau clir i reoli effaith newid arfordirol ar y cynnig a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo.**

**Ni ddylai cynigion datblygu achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol, a rhaid iddynt ddarparu buddion net i fioamrywiaeth**.

11.437 Fel gyda pholisi NE6, dylid ystyried SMP2 sy'n gosod ystod o bolisïau ar gyfer y morlin, sef 'cadw'r llinell', 'dim ymyriad gweithredol' neu 'adlinio rheoledig', fesul cyfnod polisi (sef: hyd at 2025, 2026 - 2055, a 2056 - 2105).

11.438 Gellir gweld yr SMP2 yn www.southwalescoast.org. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol helpu i leihau perygl llifogydd ac effaith erydu arfordirol trwy osgoi datblygu amhriodol mewn ardaloedd sydd dan fygythiad.

11.439 Mae'r Ardal Rheoli Newid Arfordirol yn cynrychioli lle mae'r polisi SMP2 a dderbynnir ar gyfer 'dim ymyriad gweithredol' neu 'adlinio rheoledig' yn ystod cyfnod y cynllun.

11.440 Nid ystyrir bod datblygiad preswyl newydd yn addas yn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol. Mae hyn yn adlewyrchu lefel y perygl o erydu arfordirol a llifogydd yn yr ardaloedd hyn. Bydd gweithredu'r dull hwn yr un mor berthnasol i gynigion i newid defnydd adeiladau parhaol eraill i lety preswyl ac anheddau yn lle rhai blaenorol, ac mae'n rhan o ymagwedd ragofalus a arweinir gan yr ystyriaethau polisi a nodir yn SMP2.

11.441 Mae'r math o ddefnydd preswyl y mae hyn yn berthnasol iddo yn cynnwys anheddau unigol, fflatiau uwchlaw eiddo masnachol presennol, tai gwarchodol, llety myfyrwyr, hosteli, tai a rennir i bobl anabl, cartrefi nyrsio a chartrefi gofal, addysg breswyl, carafannau sefydlog a chabannau gwyliau (gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â hamdden a thwristiaeth) lle maent wedi'u cysylltu â seilwaith ac yn rhan o safle a chanolfannau hyfforddi sefydledig a wasanaethir yn llawn.

11.442 Bydd amodau cynllunio yn cael eu cymhwyso, neu bydd rhwymedigaeth gynllunio yn cael ei sicrhau lle bo angen: cyfyngu ar fywyd cynlluniedig datblygiad neu ddefnydd tymhorol; dileu datblygiad sydd â therfyn amser arno neu anheddau presennol pan ddaw'r defnydd i ben; adolygu caniatadau cynllunio perthnasol; rheoli meddiannaeth ar annedd a adleolwyd.

11.443 Er mwyn galluogi cymunedau arfordirol i addasu i newid arfordirol, mae'r Polisi yn hwyluso adleoli a disodli anheddau parhaol i leoliadau amgen sy'n ddiogel rhag erydu arfordirol. Mae'n ceisio sicrhau bod cymunedau arfordirol yn parhau i fod yn gynaliadwy trwy gynnal lefelau'r stoc dai a lleihau'r risg i bobl ac eiddo.

11.444 Lle y mae angen caniatâd ar gyfer estyniad i eiddo preswyl, fe'i cefnogir lle gellir dangos bod y manteision i berchennog y cartref yn drech nag unrhyw gynnydd yn y risg i'r eiddo. Fodd bynnag, rhaid ystyried llesiant y meddianwyr, y perygl i fywyd o ganlyniad i lifogydd, neu erydiad.

11.445 Bydd datblygiadau amhreswyl yn amodol ar yr amserlen a ragwelir ar gyfer colli'r eiddo o ganlyniad i erydu arfordirol. Byddai hyn yn berthnasol i gynigion ar gyfer defnyddiau megis cyfleusterau cymunedol, defnydd busnes, meysydd chwaraeon a chaeau chwarae. Dylai'r asesiad risg ystyried y buddiannau'n llawn yn erbyn y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio eiddo a allai fod yn gyfyngedig ei oes.

11.446 Lle y bo'n briodol, gellir defnyddio caniatâd cynllunio am gyfnod cyfyngedig i reoli oes arfaethedig datblygiad newydd. Byddai hyn yn caniatáu rheolaeth dros ddyfodol y datblygiad a'r perygl posibl i eiddo a phobl lle bo hynny'n briodol.

## Polisi Strategol – SP 15: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol

**Dylai cynigion datblygu ddiogelu neu wella amgylchedd adeiledig a hanesyddol y sir, ei hasedau diwylliannol, trefweddol a thirweddol, a, lle bo hynny'n briodol, eu lleoliad.**

**Disgwylir i gynigion hybu dyluniad o ansawdd da sy'n atgyfnerthu cymeriad lleol ac yn parchu a gwella'r priodweddau diwylliannol a hanesyddol ardal y cynllun.**

11.447 Mae gan Sir Gaerfyrddin dreftadaeth adeiledig hanesyddol a diwylliannol gyfoethog ac amrywiol, gydag amrediad o Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig. Mae cydnabod treftadaeth adeiledig ardal y cynllun a'i diogelu yn hanfodol, gan ddarparu teimlad o hanes, cymeriad ac ymdeimlad o le.

11.448 Mae ardal y Cynllun hefyd yn cynnwys safleoedd a nodweddion archeolegol sydd wedi'u darganfod, ac sydd eto i'w darganfod. Nod y Polisi a'r Cynllun, ynghyd â deddfwriaeth sylfaenol ar yr amgylchedd adeiledig ac adeiladau hanesyddol, yw diogelu cyfanrwydd aneddiadau hanesyddol, nodweddion ac adeiladau o fewn ardal y Cynllun. Lle bo'n berthnasol, mae hefyd yn ceisio cyfrannu at wella'r amgylchedd hanesyddol ac adeiledig. Mae hyn yn cydnabod bod ein hasedau hanesyddol yn adnoddau unigryw, a bod eu gwarchod yn darparu manteision cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol.

11.449 Dylai adeiladau, trefwedd a thirwedd hanesyddol y sir gael eu hystyried yn asedau a'u diogelu a'u gwella mewn modd cadarnhaol er budd trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Nid newid ac esgeulustod yn unig sy'n effeithio ar y rhain ond hefyd newidiadau i'w lleoliad. O'r herwydd, mae'n bwysig ystyried hyn wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chynigion mae'n bosibl y byddant yn cael effaith.

11.450 Mae llawer o elfennau o amgylchedd adeiledig a hanesyddol y Sir yn cael eu diogelu trwy ddeddfwriaeth neu ddarpariaethau polisi eraill, a chan hynny nid oes angen polisïau i ymdrin â hwy yn y CDLl diwygiedig. Felly nid yw'r Cynllun yn cynnwys polisïau mewn perthynas â nodweddion ar y dreftadaeth adeiledig megis Henebion Cofrestredig gan eu bod yn cael eu diogelu'n ddigonol mewn mannau eraill.

11.451 Fodd bynnag, ceir agweddau sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd hanesyddol y gellir mynd i'r afael â hwy drwy'r CDLl diwygiedig, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â nodweddion lleol ac adeiladau lleol.

11.452 Mae canllawiau a deddfwriaeth eglur mewn perthynas â'r canlynol i'w cael ym Mholisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 – Pennod 6: Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol, a Pholisi Strategol SP14 – Cynnal a Gwella'r Amgylchedd

11.453 Naturiol sy'n cydnabod pwysigrwydd ardaloedd a nodweddion o'r fath yn y Sir:

- Parciau a Gerddi Hanesyddol[91] - Mae llawer o barciau a gerddi yn hanesyddol arwyddocaol ac wedi'u rhestru yn y Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru. Mae'r ardaloedd hyn hefyd wedi'u diffinio ar Fap Cynigion y CDLl;
- Tirweddau Hanesyddol[92]
- Olion Archaeolegol[93]
- Datblygiadau Galluogi[94] - mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r darpariaethau y byddai cynnig galluogi yn cael ei ystyried drwyddynt
- Henebion Cofrestredig – caiff y rhain eu diffinio ar y Map Cynigion

11.454 Bydd yr awdurdod yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol fel y bo'n briodol a lle bo angen mewn perthynas â'r Amgylchedd Hanesyddol ac Adeiledig, yn ogystal ag Archaeoleg.

## Polisi BHE1: Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth

**1. Dim ond pan fyddant yn cyd-fynd â'r canlynol y caniateir cynigion mewn perthynas ag adeilad rhestredig:**

**a) Bydd angen i gynigion ar gyfer newid a/neu ymestyn adeilad rhestredig, neu ei gwrtil, sicrhau bod y cymeriad pensaernïol arbennig, neu'r diddordeb hanesyddol, yn cael ei gadw neu ei wella;**

[91] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 – Paragraffau 6.1.18 a 6.1.19. Mae rhagor o wybodaeth am ystyried parciau a gerddi hanesyddol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gael yn Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan-24/?lang=en) a chanllawiau arferion gorau Cadw: Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru (http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/ historicenvironment/20170531Managing%20Change%20to%20Registered%20Historic%20Parks%20&%20Gardens%20in%20Wales%20 26922%20EN.pdf).

[92] Mae rhagor o wybodaeth am y gofrestr tirweddau hanesyddol a'i defnydd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gael yn Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan-24/?lang=en

[93] Ceir mwy o wybodaeth am ystyried olion archeolegol drwy'r broses gynllunio, gan gynnwys asesiad desg, gwerthuso maes ac ystyried olion archeolegol annisgwyl, yn Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan-24/?lang=en

[94] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 – Paragraffau 6.1.30 - 6.1.32.

**b) Dim ond pan fydd yn cyfrannu at gadw adeilad neu at ei ailddefnyddio mewn modd cynaliadwy y caniateir newid defnydd adeilad rhestredig, neu ei gwrtil, a hynny gan osgoi effaith niweidiol ar ei gymeriad, ei ddiddordeb arbennig neu ei uniondeb strwythurol;**

**c) Caniateir cynigion ar gyfer dymchwel adeilad rhestredig yn llwyr neu'n sylweddol dim ond pan fo'r cyfiawnhad cryfaf a thystiolaeth argyhoeddiadol bod y cynnig yn angenrheidiol;**

**d) Mae'n rhaid i gynigion sydd â pherthynas â lleoliad adeilad rhestredig, neu sy'n effeithio ar ei leoliad, sicrhau bod y lleoliad yn cael ei warchod neu ei wella.**

**2. Caniateir datblygiadau o fewn neu'n gyfagos at ardal gadwraeth, lle y byddent yn gwarchod neu'n gwella cymeriad neu ymddangosiad yr ardal gadwraeth, neu ei lleoliad.**

**3. Dylai datblygiadau newydd mewn ardaloedd cadwraeth fod â dyluniad o safon uchel sy'n ymateb i nodweddion a phriodweddau arbennig yr ardal.**

11.455 Lle mae cynnig yn un ar gyfer adeilad newydd o fewn ardal gadwraeth, dylai roi sylw i'r canlynol:

- Golygfeydd, fistâu, strydluniau, toeau, coed, mannau agored, bylchau a nodweddion eraill pwysig sy'n cyfrannu at gymeriad neu ymddangosiad yr ardal gadwraeth;
- Ffiniau hanesyddol arwyddocaol neu elfennau eraill sy'n cyfrannu at y ffurf sefydledig ar ddatblygu;
- Y berthynas â'r adeiladau, mannau presennol, a ffurf anheddu sydd eisoes yn bodoli;
- Graddfa, taldra a dwysedd, dyluniad pensaernïol, a deunyddiau.

## BHE2: Cymeriad y Dirwedd

**Dylai cynigion datblygu ymwneud â thirwedd benodol a nodweddion gweledol yr ardal leol, gan sicrhau y cynhelir cyfanrwydd cyffredinol cymeriad y dirwedd trwy:**

**a) nodi, diogelu a, lle y bo'n briodol, gwella'r dirwedd unigryw a'r dreftadaeth hanesyddol, ddiwylliannol, ecolegol a daearegol, gan gynnwys elfennau naturiol a rhai o waith dyn sy'n gysylltiedig â chymeriad presennol y dirwedd;**

**b) diogelu dynodiadau tirwedd rhyngwladol a chenedlaethol gan gynnwys Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'u lleoliadau;**
**c) gwarchod arbenigrwydd, ymdeimlad o le a lleoliad lleol;**
**d) parchu a gwarchod nodweddion penodol ar y dirwedd, ac integreiddio egwyddorion creu lleoedd a seilwaith gwyrdd a glas;**
**e) gwarchod golygfeydd a fistâu allweddol o'r dirwedd.**

11.456 Nodweddir Sir Gaerfyrddin gan adnoddau tirwedd amrywiol ac o ansawdd uchel ac ardaloedd o werth gweledol nodedig. Mae hefyd yn cynnwys neu'n ffinio ag amrywiaeth o ddynodiadau tirwedd, gan gynnwys Bannau Brycheiniog a Pharciau Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Penrhyn Gŵyr.

11.457 Mae priodoleddau tirwedd allweddol y Sir yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd ucheldirol, gwastatiroedd arfordirol a dyffrynnoedd afonydd o werth tirwedd a phwysigrwydd ecolegol uchel. Mae'r rhain yn darparu manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sylweddol ac yn helpu i greu ymdeimlad o le.

11.458 Mae'r Polisi yn ceisio diogelu, cynnal, a (lle y bo'n briodol) gwella cymeriad ac ansawdd tirwedd Sir Gaerfyrddin gyda'r nodweddion hynny sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw'r Sir yn cael mesurau gwarchod ar lefelau priodol gyda'u harwyddocâd yn cael ei amlygu gan ddefnyddio adnodd LANDMAP CNC. Sylwer: Adnodd tirwedd sy'n seiliedig ar System Gwybodaeth Ddaearyddol yw LANDMAP lle caiff nodweddion tirwedd, ei phriodweddau a dylanwadau ar y dirwedd eu cofnodi a'u gwerthuso i greu set ddata sy'n gyson yn genedlaethol.

11.459 Bydd y polisi yn cael ei ategu gan Asesiad o Gymeriad y Dirwedd a Chanllawiau Cynllunio Atodol. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed a'r darpariaethau polisi o ran Creu Lleoedd a Seilwaith Gwyrdd a Glas wrth ddatblygu cyfres integredig o ddogfennau canllaw i lywio cynigion datblygu.

11.460 Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn nodi ac yn disgrifio ardaloedd a mathau o gymeriad tirwedd nodedig ledled ardal y cynllun.

11.461 Yn hyn o beth pwrpas y polisi yw adlewyrchu hynodrwydd, nodweddion a sensitifrwydd penodol cydrannau tirwedd y sir.

## Cysylltiadau Cryf - Pobl, lleoedd a sefydliadau y mae cysylltiad cryf rhyngddynt sy'n gallu addasu i newid

11.462 Mae'r CDLl Diwygiedig hwn yn ceisio deall a chydnabod rôl cymuned ac ymdeimlad o le trwy geisio dosbarthu datblygiadau newydd mewn modd sy'n cydnabod ac yn parchu rôl a swyddogaeth ein aneddiadau.

11.463 Trwy ddosbarthu twf mewn modd cynaliadwy mae'n cydnabod gwerth cysylltedd. Mae'r Cynllun yn ceisio helpu i greu cymunedau cysylltiedig sy'n gydnerth, yn ffyniannus ac yn gallu meithrin llesiant ymysg trigolion.

11.464 Trwy greu Sir gydnerth, gysylltiedig a chynaliadwy, mae'r Cynllun yn ceisio adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau a'r angen i ymateb yn gadarnhaol. Mae'n pennu fframwaith i gyfrannu at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac yn datblygu strategaeth ac agenda bolisi sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy, gan gydnabod amrywiaeth y Sir ar yr un pryd.

11.465 Cydnabyddir bod y themâu a'r polisïau a ddyrennir iddynt yn gorgyffwrdd â'i gilydd, ond nodwyd y canlynol o dan y thema hon:

- **Polisi Strategol – SP 16:** Newid yn yr Hinsawdd
- **Polisi Strategol – SP 17:** Trafnidiaeth a Hygyrchedd
- **Polisi Strategol – SP 18:** Adnoddau Mwynol
- **Polisi Strategol – SP19:** Rheoli Gwastraff

11.466 Mae'r polisïau a ganlyn yn ceisio cefnogi cyflawniad amcanion strategol y Cynllun, ond hefyd yn creu cysylltiadau lefel uchel ac yn sicrhau y cydymffurfir yn fras â'r Nodau Llesiant.

### Polisi Strategol – SP 16: Newid yn yr Hinsawdd

**Bydd cynigion datblygu'n cael eu cefnogi os ydynt yn ymateb i newid yn yr hinsawdd neu'n addasu iddo, yn cynyddu'r gallu i'w wrthsefyll, ac yn lleihau ei achosion a'i effeithiau. Rhaid i gynigion:**

**a)** **Gyfrannu at leihau allyriadau carbon trwy adlewyrchu egwyddorion trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio, yn arbennig mewn ceir modur preifat;**

**b)** **osgoi, neu pan fo'n briodol, lleihau'r risg o lifogydd yn cynnwys ymgorffori mesurau megis SuDS a dyluniad cydnerth mewn perthynas â llifogydd);**

**c)** **Hyrwyddo fframwaith ynni trwy leihau'r galw am ynni, hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a chynyddu cyflenwad ynni adnewyddadwy;**

**d) Ymgorffori atebion cynllun ymateb priodol i'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cyfeiriad, cynllun, dwysedd ac atebion carbon isel (gan gynnwys dulliau cynllunio ac adeiladu) a defnyddio dulliau adeiladu cynaliadwy pan fo hynny'n ymarferol; a/neu**

**e) Cyfrannu tuag at ddiogelu a gwella asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas a rhwydweithiau ecolegol cydnerth fel dalfeydd carbon.**

**Ni fydd cynigion datblygu sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd sydd yn wynebu risg llifogydd yn cael eu caniatáu oni bai eu bod yn cydymffurfio â darpariaethau Polisi Cynllunio Cymru TAN 15.**

11.467 Mae'r angen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn peri her sylfaenol os bwriedir cyflawni datblygu cynaliadwy a'r rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'r goblygiadau economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd yn ddwys a chânt eu cydnabod yn Natganiad Ardal De-orllewin Cymru ac yn y datganiad o argyfwng hinsawdd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin.

11.468 Bydd yr hinsawdd sy'n newid a'r effeithiau ar Gymru a ragwelir gan Raglen Effeithiau Hinsawdd y DU yn peri heriau difrifol ar gyfer y system gynllunio gyfredol. Wrth fynd i'r afael â nhw, mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu cyfres o amcanion y dylid eu hystyried wrth baratoi cynllun datblygu.

11.469 Mae'r CDLl yn categoreiddio aneddiadau yn ôl hierarchaeth sy'n adlewyrchu eu cynaliadwyedd cymharol ac yn ystyried yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy. Mae dyhead y cynllun i leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn ceir modur preifat, a'i rôl o gyfrannu at y gwaith o hwyluso strategaeth drafnidiaeth integredig, yn ceisio cyfeirio datblygiadau at leoliadau priodol sy'n helpu i gyflawni hyn.

11.470 Mae effaith bosibl perygl llifogydd yn fater pwysig i'w ystyried wrth asesu priodoldeb safleoedd i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Yn hyn o beth, bydd dull rhagofalus yn cael ei ddefnyddio i nodi safleoedd i'w cynnwys yn y cynllun. Wrth ystyried unrhyw gynigion yng nghyd-destun llifogydd, rhoddir sylw i ddarpariaethau Polisi Cynllunio Cymru a TAN15: Datblygu a Pherygl Llifogydd, sy'n rhoi cyngor ar asesu datblygiadau lle mae perygl llifogydd.

11.471 Bydd yn ofynnol i gynigion sy'n cael eu heffeithio gan berygl llifogydd gyflwyno asesiad canlyniadau llifogydd fel rhan o unrhyw gais cynllunio a bydd y cyngor yn ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru. Lle mae rhan o safle'n cael ei heffeithio gan berygl llifogydd, bydd angen i'r datblygwr ystyried effaith perygl llifogydd ar ddatblygu gweddill y safle. Lle bo hynny'n briodol, dylai gynnal yr holl waith tystiolaeth angenrheidiol (gan

gynnwys asesiad canlyniadau llifogydd) at foddhad Cyfoeth Naturiol Cymru. Dim ond datblygiadau llai agored i ddifrod fydd yn cael eu caniatáu ym Mharth C2. Dylid ystyried Polisi CCH4: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd fel y'i ceir o fewn y Cynllun hwn.

11.472 Disgwylir i ddatblygiadau ddangos egwyddorion dylunio da i hybu defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, gan gynnwys lleihau gwastraff a llygredd, a chynyddu effeithlonrwydd ynni a'r defnydd effeithiol o adnoddau eraill cymaint â phosibl. Dylid cyfeirio at Bolisi Strategol PS 19 mewn perthynas â gwastraff, yr hierarchaeth gwastraff a lleihau gwastraff.

11.473 Disgwylir i gynigion datblygu ddefnyddio tir yn llawn ac mewn modd priodol. Rhaid i effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd fod yn ganolog i'r broses ddylunio, gan gynnwys y cyfraniad y gall y lleoliad, y dwysedd, y cynllun a'r ffurf adeiledig ei wneud tuag at ddatblygiadau sy'n ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Wrth fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd, bydd disgwyl hefyd i ddyluniad datblygiadau adlewyrchu'r Argyfwng Natur a darparu buddion net i fioamrywiaeth.

11.474 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus, a chyflawni statws carbon sero net erbyn 2030. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio'r system gynllunio i fanteisio i'r eithaf ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y gall awdurdodau cynllunio lleol wneud cyfraniad cadarnhaol trwy ystyried y cyfraniad y gall eu hardal ei wneud tuag at ddatblygu a hwyluso ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel[95]. Mae targedau ynni adnewyddadwy wedi cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys Cymru sy'n cynhyrchu 70% o'i defnydd trydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2030 [96].

11.475 Bydd cynigion, defnydd tir ac arferion rheoli tir yn cael eu hannog lle maent yn helpu i sicrhau a diogelu dalfeydd carbon (gan gynnwys mawndiroedd). Gall dull o'r fath wella'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd a lleihau achosion hynny trwy ddiogelu dalfeydd carbon.

11.476 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gosod canllawiau clir mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer datblygiadau sy'n ymateb i'r hinsawdd ac adeiladau cynaliadwy. Dylid cyfeirio at y Canllaw Ymarferol – Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy (Llywodraeth Cymru, 2014).

[95] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 (paragraff 5.9.1)
[96] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/low-carbon-delivery-plan_1.pdf

## CCH1 - Ynni Adnewyddadwy o fewn Ardaloedd a Aseswyd o flaen llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol

**Bydd cynigion ar gyfer ffermydd gwynt ar raddfa fawr o 10MW a throsodd yn cael eu caniatáu o fewn ardaloedd a nodwyd ac a aseswyd o flaen llaw ar gyfer Ynni Gwynt, fel y nodir yn "Cymru Dyfodol", yn amodol ar eu bod yn bodloni'r meini prawf a bennir isod.**

**Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau solar o 5MW a mwy yn cael eu caniatáu mewn Ardaloedd Chwilio Lleol a nodwyd, ar yr amod nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar amwynder gweledol na chymeriad y dirwedd a'u bod yn bodloni'r meini prawf a bennir isod.**

a. **Na fydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar ddiogelwch ffyrdd, rheilffyrdd neu awyrennau; ymyriant electromagnetig annerbyniol i osodiadau cyfathrebu, systemau radar neu reoli traffig awyr, systemau cyfathrebu'r gwasanaethau brys, neu unrhyw systemau telathrebu eraill;**
b. **Na fydd y cynigion yn achosi risg neu niwsans afresymol i, ac effaith ar, amwynder preswylwyr cyfagos neu aelodau eraill o'r cyhoedd, ac na fydd yn arwain at golli hygyrchedd cyhoeddus i'r ardal i raddau annerbyniol;**
c. **Dylid cyflwyno mesurau lliniaru priodol gyda chynigion lle bo hynny'n ofynnol, gan gynnwys adfer tir yn foddhaol ar ôl datgomisiynu.**

## CCH2: Ynni Adnewyddadwy y tu allan i Ardaloedd a Aseswyd o flaen llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol

**Bydd cynigion ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig yn cael eu caniatáu ar yr amod eu bod yn cyd-fynd â'r canlynol:**

a. **Na fydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar amwynder gweledol neu gymeriad tirweddol trwy: nifer, graddfa, maint, dyluniad a lleoliad tyrbinau a seilwaith cysylltiedig;**
b. **Na fydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar ardaloedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu gwerth tirweddol;**
c. **Ni ddylai datblygiadau tyrbinau gwynt gael effeithiau cronnus annerbyniol mewn perthynas â chydrannau tyrbinau gwynt presennol, y rhai sydd wedi cael caniatâd neu sy'n cael eu cynnig;**
d. **Ni fydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar ddiogelwch ffyrdd, rheilffyrdd neu awyrennau; ymyriant electromagnetig annerbyniol i osodiadau cyfathrebu, systemau radar neu reoli traffig awyr, systemau cyfathrebu'r gwasanaethau brys, neu unrhyw systemau telathrebu eraill;**
e. **Na fydd y cynigion yn achosi risg neu niwsans afresymol i, ac effaith ar, amwynder preswylwyr cyfagos neu aelodau eraill o'r cyhoedd, ac na fydd yn arwain at golli hygyrchedd cyhoeddus i'r ardal i raddau annerbyniol;**
f. **Dylid cyflwyno mesurau lliniaru priodol gyda chynigion lle bo hynny'n ofynnol, gan gynnwys adfer tir yn foddhaol ar ôl datgomisiynu.**

11.477 Mae Polisi CCH1 a Pholisi CCH2 yn berthnasol i bob datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer, ac yn nodi'r meini prawf y bydd cynigion yn cael eu hasesu yn eu herbyn. Gall y datblygiadau hyn gynnwys ffermydd gwynt ar y tir, tyrbinau gwynt, technoleg solar, biomas, ynni o wastraff, pŵer trydan dŵr a gwres a phŵer cyfunedig.

11.478 Mae'r Polisi hwn yn ategu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau ein dibyniaeth ar ynni a gynhyrchir o danwyddau ffosil ac i fynd ati i reoli'r newid i economi carbon isel.

11.479 Bydd cymorth penodol yn cael ei roi i brosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel sy'n cael eu datblygu gan gymunedau, neu a fydd o fudd i'r gymuned sy'n eu cynnal. Bydd gofyn i gynlluniau o'r fath gyd-fynd â darpariaethau'r polisïau uchod.

11.480 Bydd datblygiadau seilwaith cysylltiedig sydd yn ofynnol i helpu i gyflawni cynlluniau adnewyddadwy a charbon isel yn cael eu cefnogi, er enghraifft seilwaith grid a chyfleusterau storio ynni newydd, ar yr amod eu bod yn cyd-fynd â pholisïau'r Cynllun.

11.481 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi Ardaloedd a Aseswyd ymlaen llaw ar gyfer Ynni Gwynt yn "Cymru'r Dyfodol". O fewn yr ardaloedd hyn, mae rhagdybiaeth o blaid datblygu ynni gwynt ar raddfa fawr, gan gynnwys ailbweru, yn amodol ar eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir ym Mholisi 18 Cymru'r Dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi modelu'r effaith debygol ar y dirwedd yn yr ardaloedd hyn, ac wedi gweld eu bod yn gallu cynnwys datblygiad mewn ffordd dderbyniol. Dosbarthir datblygiadau ynni ar raddfa fawr fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac maent yn cynnwys:

- Pob cynhyrchu wynt ar dir o 10MW neu fwy.
- Safleoedd cynhyrchu ynni eraill sydd â phŵer cynhyrchu rhwng 10MW a 350MW.

11.482 O fewn Meysydd a Aseswyd o flaen Llaw ar gyfer Ynni'r Gwynt, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad i nodi'r ardaloedd hyn er mwyn rhoi sicrwydd, mewn egwyddor, lle byddai cynlluniau ynni gwynt ar raddfa fawr yn dderbyniol.

**Asesiad Ynni Adnewyddadwy**

11.483 Cwblhawyd Asesiad Ynni Adnewyddadwy i lywio a darparu tystiolaeth ar gyfer Polisïau CCH1 a CCH2 ac er mwyn nodi'r potensial ar gyfer cynhyrchu ynni

adnewyddadwy yn yr ardal. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r dull y mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy wedi'i ddilyn, a bydd ei gynnwys yn dangos sut y gall y Cynllun gynorthwyo i gyrraedd targedau cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn cynnwys asesiad strategol lefel uchel o’r potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel o wahanol fathau mewn gwahanol leoliadau.

11.484 Daw tablau 9 a 10 o'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy ac maent yn manylu ar y cyfraniadau ynni adnewyddadwy realistig y gellid eu gwneud tuag at fodloni cyfran o gyfanswm y galw am ynni o fewn yr Awdurdod.

*Tabl 9: Crynodeb o'r Adnoddau ar gyfer Trydan Adnewyddadwy*

| **Technoleg Ynni** | **Ffactor Capasiti Tybiedig** | **Potensial Mwyaf* 20033** | | **Presennol** | | **Targed Ychwanegol** 2033** | | **Cyfanswm y Capasiti Gosodedig 2033 (MW)** | **Cyfanswm yr Ynni a Gynhyrchir 2033 (MWh)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Capasiti Trydanol (MWe)** | **Ynni a Gynhyrchir (MWh)** | **Capasiti Gosodedig (MW)** | **Ynni a Gynhyrchir (MWh)** | **Capasiti Gosodedig (MW)** | **Ynni a Gynhyrchir (MWh)** | | |
| Ynni Gwynt (presennol yn cynnwys Ardaloedd Chwilio Strategol) | 0.27 | 935.4 | 2,212,408 | 164.1 | 388,129 | 588.5 | 1,391,979 | 752.6 | 1,780,109 |
| Cnwd Ynni Biomas (Gwres a Phŵer Cyfunedig) | 0.9 | 18.4 | 144,857 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynni o wastraff gyda Gwres a Phŵer Cyfunedig | 0.9 | 0.7 | 5,751 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynni Dŵr | 0.37 | 6.7 | 21,860 | 6.6 | 21,304 | 0.1 | 417 | 6.7 | 21,721 |
| Nwy Tirlenwi | 0.6 | 2.3 | 11,826 | 2.3 | 11,826 | 0 | 0 | 2.3 | 11,826 |
| Ffermydd Solar Ffotofoltäig | 0.1 | 24,768.6 | 21,697,316 | 126.5 | 110,851 | 305.2 | 267,311 | 431.7 | 378,162 |
| Arall gan gynnwys gwastraff bwyd, slyri anifeiliaid, sbwriel dofednod, slwtsh carthion a nwy carthion (Treulio Anaerobig gyda Gwres a Phŵer Cyfunedig) | 0.42 | 3.3 | 12,046 | 1.0 | 3,679 | 1.3 | 4,857 | 2.3 | 8,536 |
| Adeilad Integredig | 0.1 | 52.7 | 46,133 | 29.4 | 25,792 | 4.6 | 4,068 | 34.1 | 29,860 |
| **Cyfanswm** | **-** | **25,788** | **24,151,498** | **330** | **561,534** | **900** | **1,668,633** | **1,230** | **2,230,214** |
| Galw am ynni trydanol 2008 | | | | | 923,148 | Galw rhagamcanol am ynni trydanol | | | 917,389 |
| Canran y galw am drydan a atebir gan adnodd ynni adnewyddadwy | | | | | 61% | | | | 243% |

* Dyma'r adnodd mwyaf, mae'n cynnwys capasiti presennol a 100% o'r potensial.

** Targedau wedi'u seilio ar ganran y potensial mwyaf namyn yr hyn sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd.

| Technoleg Ynni | Ffactor Capasiti Tybiedig | Potensial Mwyaf* 2033 | | Presennol | | Targed ** Ychwanegol 2033 | | Cyfanswm y Capasiti Gosodedig | Cyfanswm yr Ynni a Gynhyrchir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Capasiti Gwres (MWt) | Ynni a Gynhyrchir (MWh) | Capasiti Gosodedig (MWt) | Ynni a Gynhyrchir (MWh) | Capasiti Gosodedig (MWt) | Ynni a Gynhyrchir (MWh) | 2033 (MW) | 2033 (MWh) |
| Biomas Presennol (Gwres a Phŵer Cyfunedig) | 0.5 | 36.7 | 160,953 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Boeleri Biomas, Coed | 0.5 | 36.3 | 159,197 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynni o wastraff gyda Gwres a Phŵer Cyfunedig | 0.5 | 1.5 | 6,390 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall gan gynnwys slyri anifeiliaid, sbwriel dofednod, slwtsh carthion a nwy carthion (Treulio Anaerobig gyda Gwres a Phŵer Cyfunedig) | 0.5 | 3.7 | 15,990 | 0.2 | 986 | 2.0 | 8,736 | 2.2 | 9,722 |
| Nwy Tirlenwi (gyda Gwres a Phŵer Cyfunedig) | 0.5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adeilad Integredig | 0.2 | 89.9 | 157,440 | 35.0 | 61,292 | 11.0 | 19,230 | 46.0 | 80,522 |
| **Cyfanswm** | | | | **35.2** | **62,278** | **13.0** | **27,966** | **48.2** | **90,244** |
| Galw am ynni gwres 2008 | | | | | 2,130,266 | Galw rhagamcanol am ynni trydanol | | | 1,493,795 |
| Canran y galw thermol a atebir gan adnodd ynni adnewyddadwy | | | | | 3% | | | | 6% |
| * Dyma'r adnodd mwyaf, mae'n cynnwys capasiti presennol a 100% o'r potensial.<br>** Targedau wedi'u seilio ar ganran y potensial mwyaf namyn yr hyn sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd. | | | | | | | | | |

*Tabl 10: Crynodeb o'r Adnoddau ar gyfer Gwres Adnewyddadwy Ardaloedd Chwilio Strategol*

**Ardaloedd a Aseswyd o flaen llaw ar gyfer Ynni'r Gwynt**

**Ardaloedd Chwilio Lleol**

11.485 Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy wedi asesu'r potensial i'r Awdurdod ddarparu ynni adnewyddadwy, ac wedi dod i'r casgliad y gallai cynhyrchu trydan ar raddfa fwy o ynni solar fod yn hyfyw mewn rhannau o'r Awdurdod. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u nodi yn yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy, ac maent wedi'u anodi ar y Map Cynigion fel Ardaloedd Chwilio Lleol. Nodir Ardaloedd Chwilio Lleol drwy gymhwyso cyfres o ragdybiaethau a thrwy wneud ymarfer mapio a oedd yn defnyddio haenau o gyfyngiadau. Ystyrir mai'r ardaloedd hyn yw'r ardaloedd â'r lleiaf o gyfyngiadau o fewn yr Awdurdod er mwyn darparu ynni.

11.486 Mae tair Ardal Chwilio Leol ar gyfer Ynni Solar Ffotofoltäig wedi'u nodi fel rhai addas ar gyfer cynlluniau sy'n fwy na 5MW. Nodir Ardaloedd Chwilio Lleol er mwyn annog datblygwyr i ymchwilio ymhellach i'r potensial ar gyfer ffermydd solar yn yr ardaloedd hyn. Bydd angen rhagor o asesiadau penodol i safleoedd er mwyn cynorthwyo unrhyw gais cynllunio ar gyfer datblygiadau o'r fath.

11.487 Ni fydd tir o fewn Ardaloedd Chwilio Lleol yn cael ei ddiogelu ar gyfer cynhyrchu ynni; fodd bynnag, bydd yna flaenoriaeth ar gyfer datblygiadau o'r fath lle ceir buddiannau sy'n cystadlu ar yr un pryd.  Bydd angen i ddatblygiadau leihau effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol.

| Ardal Chwilio Leol | Arwynebedd yr Ardal Chwilio Leol (KM2) | Capasiti Gosodedig Posibl (MW) | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| A | 3.31 | 72.9 | I'r gogledd-ddwyrain o Farmers |
| B | 0.90 | 23.8 | Mynydd Pencarreg |
| C | 0.99 | 30.3 | I'r gorllewin o Dalyllychau |

**Technolegau Eraill**

11.488 Er bod yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn cydnabod mai technolegau gwynt a solar sydd â'r potensial mwyaf i gyflenwi ynni adnewyddadwy o fewn y Sir, bydd cynigion ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy eraill, gan gynnwys biomas, ynni o wastraff, pŵer trydan dŵr a nwy tirlenwi hefyd yn cael eu hystyried yn ffafriol, yn amodol ar fodloni darpariaethau'r polisïau hyn.

**Ystyriaethau Lleoliadol**

11.489 Wrth asesu effaith gronnol cynigion, bydd unrhyw niwed annerbyniol i'r dirwedd, effaith weledol, sŵn, ecoleg a dŵr wyneb a dŵr daear hefyd yn cael ei ystyried yn erbyn datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel eraill.

11.490 Dylid ystyried amwynder preswylwyr a meddianwyr eiddo cyfagos, a dylid lleihau unrhyw niwsans posibl sy'n deillio o'r datblygiad a'i seilwaith cysylltiedig i'r eithaf. Ni chaniateir cynigion a fyddai'n arwain at niwsans annerbyniol o ganlyniad i weithredu datblygiad o'r fath, megis sŵn, risg i ddiogelwch, ymyrryd â signalau radio, telathrebu neu awyrennau,  cysgodion symudol o dyrbinau gwynt a phelydrau a golau tanbaid o baneli solar.

11.491 Bydd angen i gynigion sicrhau nad ydynt yn achosi problemau o ran diogelwch ar y priffyrdd nac yn cael effaith niweidiol ar y rhwydwaith priffyrdd o ganlyniad i draffig adeiladu a chynnal a chadw. Wrth leoli datblygiad, dylid diogelu llwybrau ceffylau, llwybrau beicio a llwybrau troed presennol heb unrhyw golled barhaol i'w hyd a'u hansawdd. Bydd angen dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus yn briodol dros dro yn ystod y gwaith adeiladu. Rhoddir anogaeth i wella cyfleusterau hamdden presennol a darparu rhai newydd. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu llunio i ymhelaethu ar ddarpariaethau Polisi CCH1 a Pholisi CCH2.

## Polisi CCH3 – Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan

**Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu gynnwys gosod soced trydan sy'n addas ar gyfer gwefru cerbydau trydan**

**1. Datblygiad Preswyl**

| | |
|---|---|
| **Tai** | **Lle darperir garej, dreif neu fan parcio wedi'i neilltuo gyda thai, dylid darparu un Uned Gwefru Cerbyd Trydan* i bob annedd.** |
| **Fflatiau (mannau parcio heb eu neilltuo)** | **Os oes gan ddatblygiad fflatiau fannau parcio integredig (dan do neu mewn cwrt parcio), dylai'r cynigion gynnwys o leiaf un man parcio pwrpasol gydag Uned Gwefru Cerbydau Trydan yn Gyflym (fel lleiafswm) i wasanaethu'r datblygiad.** |

**2. Datblygiadau Amhreswyl**
**Ar gyfer datblygiadau amhreswyl lle darperir mannau parcio ceir, dylai o leiaf 10% o'r mannau hynny fod â phwynt gwefru Cerbyd ag Allyriadau Isel Iawn.**

**Dylid darparu pwyntiau gwefru cyflym ar gyfer cerbydau trydan lle mae'r rhwydwaith trydan lleol yn gallu cefnogi hyn yn dechnegol.**

11.492 Mae polisi cenedlaethol ar ffurf Polisi Cynllunio Cymru'n gosod agenda sy'n ceisio symud tuag at newid i ddulliau trafnidiaeth ar y ffyrdd sy'n cynhyrchu allyriadau isel neu ddim allyriadau. Yn hyn o beth, mae'n cydnabod rôl pwyntiau gwefru trydanol o ran cyflawni'r newid hwnnw[1].

11.493 Wrth arddel y farn hon mae'n argymell mabwysiadu ymagwedd gynaliadwy sy'n cydbwyso anghenion byrdymor yn erbyn amcanion hirdymor mewn perthynas ag ystyriaethau megis lleihau amlygiad y cyhoedd i lygredd yn yr awyr, llygredd sŵn ac ati fel rhan o'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu.

11.494 Fel yr adlewyrchir yn ffigur 12 isod, mae polisi Llywodraeth Cymru yn nodi hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy mewn perthynas â datblygiadau newydd. Mae'r hierarchaeth hon yn cydnabod rôl Cerbydau ag Allyriadau Isel Iawn o ran datgarboneiddio trafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig[2].




*Ffigur 12: Yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy ar gyfer Cynllunio*

11.495 Mae'r CDLl hwn yn cydnabod amrywiaeth cymunedau ledled Sir Gaerfyrddin gan nodi'n arbennig y nodweddion gwledig yn bennaf sy'n nodweddu llawer o'i hardal. Fel yr adlewyrchir ym Mholisi Cynllunio Cymru, mae ardaloedd o'r fath yn aml yn galw am wahanol ymagweddau lle mae trafnidiaeth gynaliadwy yn y cwestiwn ac mae angen i ddatblygiadau newydd adlewyrchu amgylchiadau lleol. Er enghraifft, wrth ddatblygu strategaeth y CDLl, rhoddwyd ystyriaeth i'r potensial ar gyfer twf mewn ardaloedd gwledig

[1] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11
[2] Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11

ac mae'r broses o nodi safleoedd wedi rhoi sylw i'r hierarchaeth, gan gynnwys mesurau i annog y defnydd o Gerbydau ag Allyriadau Isel Iawn. Yn hyn o beth, mae'r polisi uchod yn rhoi ffocws clir ar fynediad i gerbydau o'r fath fel amcan polisi cadarnhaol ar gyfer datblygiadau ledled yr awdurdod, gan gynnwys mewn cymunedau gwledig.

11.496 Mae'r Cynllun yn cydnabod effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a'r newid i ddatgarboneiddio gyda'r angen i hybu mynediad at ddulliau trafnidiaeth amgen yn unol â darpariaethau polisi cenedlaethol. Mae 35% o drigolion Sir Gaerfyrddin yn byw mewn ardaloedd gwledig gyda 65% o'r arwynebedd tir wedi'i ddynodi'n wledig. Mae natur wledig llawer o Sir Gaerfyrddin felly wedi bod yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu'r strategaeth a dosbarthiad y twf.

11.497 Mae natur wledig yn her arbennig ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, gyda'r poblogaethau gwasgaredig yn y rhan fwyaf o ardaloedd a chymunedau gwledig, yn cael eu gwasanaethu gan wasanaeth amlder isel.

11.498 Er y cydnabyddir y gall hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy ac yn wir datgarboneiddio trafnidiaeth yn y pen draw gael ei gyflawni mewn llawer o ardaloedd trefol rhaid iddo beidio â datgymalu'r cysylltiadau rhwng cymunedau trefol a gwledig ymhellach[3]. Mewn perthynas â'n cymunedau o fewn ardaloedd gwledig mae'r Cynllun yn ceisio cyflawni datblygu cynaliadwy mewn ffordd sy'n cyfeirio at ddulliau trafnidiaeth newydd ac amgen ac yn eu hintegreiddio gan gynnwys hyrwyddo cerbydau ag allyriadau isel iawn. Dylai cynigion ar gyfer Fflatiau (mannau parcio nad ydynt wedi'u neilltuo) ddarparu pwyntiau gwefru cyflym lle mae'r rhwydwaith trydan lleol yn dechnegol yn gallu cefnogi ei ddarpariaeth a lle nad yw'n golygu bod y datblygiad yn anhyfyw.

11.499 Lle mae gan gartref fan parcio wedi'i neilltuo ar ffurf garej neu ddreif/man parcio, fel gofyniad lleiaf dylid darparu soced 16 Amp naill ai mewn garej neu'n agos at fan parcio penodol wedi'i neilltuo ar gyfer ceir. Os nad oes garej, dylid darparu soced allanol ar y wal.

11.500 Dylai cynigion ar gyfer datblygiadau amhreswyl a masnachol gynnwys, fel y gofyniad lleiaf, bwyntiau gwefru ar gyfer 10% o'r mannau parcio ceir. Wrth weithredu'r gofyniad hwn, rhoddir sylw i ddarpariaethau Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11: Paragraff 4.1.39. Noder: soced 32 Amp. Mae unedau gwefru annibynnol masnachol yn darparu 2 wefrydd.

[3] Re-energising Wales: Decarbonising Transport in Wales – Sefydliad Materion Cymreig (Mehefin 2018) www.iwa.wales/wp-content/uploads/2018/06/IWA_Decarbonising_Transport-1.pdf

11.501 Mae darpariaeth y polisi hwn yn ceisio diogelu tai newydd ar gyfer y dyfodol fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd sydd wedi'i ddatgan. Fodd bynnag cydnabyddir, wrth i gapasiti wella ar draws y grid, y gallai fod amgylchiadau lle nad yw'n gallu cyfredol a rhagamcanol yn gallu bodloni'r gofynion sy'n codi o'r polisi mewn perthynas â datblygiad penodol. Yn y fath amgylchiadau dylid cyflwyno tystiolaeth gadarn gyda'r cais sy'n manylu ar unrhyw faterion o'r fath gan gynnwys goblygiadau hyfywedd wrth ymgymryd ag unrhyw welliannau seilwaith ar gyfer y datblygiad. Dylid cyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer gofynion Cerbydau Allyriadau Isel Iawn mewn datblygiadau newydd.

## CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr

**Rhaid i gynigion datblygu wneud defnydd effeithlon o adnoddau dŵr a, lle bo hynny'n briodol, gyfrannu tuag at welliannau o ran ansawdd dŵr. Caniateir cynigion lle nad ydynt yn cael effaith andwyol ar adnoddau dŵr, ansawdd dŵr, pysgodfeydd, cadwraeth natur, mynediad i'r cyhoedd, neu ddefnydd hamdden sy'n gysylltiedig â dŵr yn y Sir.**

**Lle bo'n briodol, rhaid gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ac mae angen cymeradwyaeth drwy'r Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB).**

**Bydd cynigion yn cael eu cefnogi os ydynt yn hyrwyddo diogelu cyrsiau dŵr trwy glustogfeydd ecolegol neu goridorau, gan warchod agweddau megis cynefinoedd a rhywogaethau torlannol, ansawdd dŵr, a darparu ar gyfer capasiti gorlifdir.**

**Dim ond os gellir dangos nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol sensitif i ffosfforws y bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu. Yn y dalgylch hydrolegol a ddynodwyd ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol, bydd angen i ddatblygiadau sy'n creu gollyngiadau dŵr gwastraff ddangos nad oes cynnydd mewn lefelau ffosfforws yn yr Ardal Cadwraeth Arbennig. Gellir cyflawni hyn drwy weithredu mesurau lliniaru a chanllawiau cynllunio atodol cysylltiedig. Pan fo tystiolaeth yn dangos y gellir osgoi neu wrthbwyso effeithiau andwyol ar gyfanrwydd Ardal Cadwraeth Arbennig afonol trwy ddefnyddio mesurau lliniaru, rhaid cytuno â'r rhain gyda'r Cyngor fesul achos, mewn ymgynghoriad â CNC.**

11.502 Mae dŵr fel adnodd yn hynod werthfawr ac mae materion megis llygryddion, atal llifogydd, dŵr daear ac amddiffyn a gwella ecosystemau dyfrol i gyd yn ystyriaethau pwysig a adlewyrchir gan ddeddfwriaeth a chanllawiau. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2000/60/EC) (WFD) yn nodi'r gofynion mewn perthynas â'r amgylchedd dŵr a dylid rhoi sylw llawn i'w chynnwys.

11.503 Gall llygredd dŵr ac o ganlyniad ansawdd dŵr gwael fod o un ffynhonnell, neu o ffynonellau gwasgaredig, megis o ddŵr ffo amaethyddol a threfol. Mae'r Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi rhoi'r cyfle i weithio gyda sefydliadau partner, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru, i gydnabod yr angen i wella'r amgylchedd dŵr cyfan a hybu'r defnydd cynaliadwy o ddŵr er budd pobl a bywyd gwyllt. Paratowyd Cynlluniau Rheoli Basn Afonydd (RBMP) sy'n nodi amcanion a safonau amgylcheddol, a rhaglen o fesurau er mwyn eu cyflawni.

11.504 Mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am gyflenwi a thrin dŵr yn y Sir. Mae Dŵr Cymru yn parhau i ateb y galw cynyddol am wasanaethau carthffosiaeth drwy fecanweithiau deddfwriaethol a rheoleiddiol, a buddsoddiad mewn cyflenwi/galw fel y nodir yn y Rhaglen Rheoli Asedau. Bydd buddsoddiad y Rhaglen Rheoli Asedau yn cefnogi twf ac adfywio yn y dyfodol.

11.505 Gyda golwg ar Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, dylid cyfeirio at Bolisi INF4. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Cilfach Tywyn wedi'u paratoi i ymhelaethu ar y Cynllun hwn. Mae'n ceisio cydbwyso ystyriaethau amgylcheddol a datblygiadol gyda'r bwriad o hwyluso'r broses o gyflawni twf o fewn y CDLl diwygiedig hyd at 2033.

11.506 Mae ystyried yr amgylchedd yn un o gysyniadau allweddol datblygu cynaliadwy. O ystyried bod effaith dyraniadau ac ymrwymiadau'r Cynllun eisoes wedi'i hystyried gan yr Awdurdod a bod y gallu i'w gyflawni wedi'i sefydlu, mae'r Polisi hwn yn darparu modd o archwilio materion ar lefel prosiect neu ar lefel cais fesul safle unigol, fel a lle bo'n briodol. Mae'r Polisi hwn yn ceisio darparu modd i'r Awdurdod ystyried rhinweddau cynigion sy'n dod ymlaen yn ystod cyfnod y Cynllun nad ydynt yn cael eu nodi o fewn y Cynllun ar hyn o bryd.

11.507 Gellir gwella ansawdd dŵr trwy fesurau megis dylunio effeithiol, adeiladu a gweithredu systemau carthffosiaeth, defnyddio Seilwaith Gwyrdd a Glas megis gwlyptiroedd neu wyrddfannau ar gyfer lliniaru llifogydd, a defnyddio SuDS. Byddai hyrwyddo arferion amaethyddol da a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy hefyd yn cyfrannu at welliannau mewn ansawdd. Pan fo hynny'n addas ac yn berthnasol i'r system gynllunio, mae'r Cynllun hwn yn nodi mesurau y gellir eu dwyn ymlaen. Cyfeirir at adfer fel un o brif egwyddorion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, megis defnyddio peirianneg werdd i adfer cyflwr naturiol a gweithrediad y system afonydd trwy gael gwared ar gwlferi i helpu i gefnogi bioamrywiaeth, hamdden, rheoli llifogydd a datblygu tirwedd.

11.508 Dylai cynigion geisio ymgorffori technegau cadwraeth dŵr lle bynnag y bo modd gan gynnwys cynaeafu dŵr glaw ac ailgylchu dŵr llwyd.

11.509 Caiff gofynion adnoddau dŵr Sir Gaerfyrddin eu bodloni'n gyfan gwbl gan Dŵr Cymru, ac mae'r sir wedi ei lleoli o fewn system defnydd cysylltiol Tywi (Parth Adnoddau Dŵr Tywi). Mae Cynllun Rheoli Adnoddau diweddaraf Dŵr Cymru yn rhagfynegi y bydd gan Barth Adnoddau Dŵr Tywi gyfenwadau dros ben drwy gydol cyfnod y CDLl, yn seiliedig ar y cynnydd o 14.6% a ragfynegir mewn niferoedd aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin rhwng 2014 a 2039, a chynnydd o 82,751 i 89,532 rhwng 2018 a 2033. Mae'r rhagolwg twf cyffredinol hwn yn fwy na'r twf y darperir ar ei gyfer yn y CDLl.

11.510 Dylai datblygiad geisio cysylltu â'r prif rwydwaith seilwaith dŵr gwastraff presennol yn y lle cyntaf. Mewn achosion eithriadol, er mwyn datblygu lle nad yw'n ymarferol cysylltu â gwaith trin dŵr gwastraff cyhoeddus, bydd angen i unrhyw gynigion o'r fath gyfiawnhau pam nad yw creu cysylltiad yn ymarferol a dangos eu bod yn cydymffurfio â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 008/2018 a chanllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cysylltiadau â gwaith trin preifat/tanciau septig. Rhaid i gynigion datblygu newydd sy'n rhoi pwysau ar gapasiti'r cyflenwad dŵr presennol a'r seilwaith trin dŵr a charthffosiaeth sicrhau bod y seilwaith angenrheidiol yn ei le neu y bydd yn cael ei ddarparu i'w gwasanaethu o fewn Rhaglen Rheoli Asedau briodol. Mae'r pwysau cynyddol ar y seilwaith ac ar fyd natur yn ystyriaeth bwysig a bydd disgwyl i ddatblygiad newydd ddangos bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i gadwraeth adnoddau dŵr a diogelu ansawdd dŵr.

11.511 Mae ystyriaethau ychwanegol yn berthnasol i ddatblygiad newydd lle gall cynnydd mewn ffosfforws, yn enwedig oherwydd gollyngiadau dŵr gwastraff, gael effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Cleddau, Afon Teifi, Afon Tywi ac Afon Gwy, yn unol â Rheoliadau Cynefinoedd 2017 (fel y'u diwygiwyd).

11.512 Gall cynnydd mewn llifoedd i brif gyflenwad gwaith trin dŵr gwastraff arwain at gynnydd mewn maetholion mewn cyrsiau dŵr oherwydd gollyngiadau o'r gwaith. Mae'r polisi hwn yn ceisio rheoli gollyngiadau dŵr gwastraff sy'n deillio o ddatblygiad newydd i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynefinoedd 2017 (fel y'u diwygiwyd) a chyfyngiadau hysbys ar waith trin dŵr gwastraff. Mae'n berthnasol i'r holl Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys eu llednentydd.

11.513 Ym mis Ionawr 2021 pennodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) safonau ffosfforws newydd ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol. O ran Sir Gaerfyrddin, darganfu profion cydymffurfio a wnaed gan CNC fod methiant i gyrraedd y safonau newydd hyn yn Afon Cleddau ac Afon Teifi.

11.514 Er mwyn hwyluso i gyflawni datblygiadau y gallai'r polisi hwn effeithio arnynt, mae'r Cyngor wedi paratoi 'Strategaeth Lleihau Ffosfforws Afon Tywi ac Afon Teifi'. Mae'r ddogfen yn nodi'r dull strategol o ddarparu gostyngiadau ffosfforws yn y dalgylchoedd hyn gan hwyluso twf y CDLl hefyd a dangos bod modd lliniaru yn ymarferol. Mae'r ddogfen yn nodi ystod o fesurau, y cytunwyd arnynt drwy ymgynghori â CNC. Mae 'Strategaeth Lleihau Ffosfforws Afon Tywi ac Afon Teifi' yn ddogfennau byw a fydd yn datblygu yn ystod oes y CDLl, mewn ymgynghoriad â CNC.

11.515 Bydd cynlluniau i gyflawni 'Strategaeth Lleihau Ffosfforws Afon Tywi ac Afon Teifi' yn cael eu cefnogi gan Fyrddau Rheoli Maetholion Afonydd Tywi, Teifi a Chleddau sydd wedi'u sefydlu. Bydd gan y Byrddau hyn ddyletswyddau ehangach gyda'r nod ehangach o ddarparu'r atebion tymor hir ar sail dalgylch, i fynd i'r afael â mater ffosfforws gormodol mewn afonydd, a gynhyrchir o weithgareddau a defnyddiau tir presennol yn y dalgylch ehangach, ac i nodi mesurau y gellid dibynnu arnynt i sicrhau buddion ehangach a gostyngiadau net ar draws y dalgylch. Mae'r mesurau hyn y tu allan i gwmpas y CDLl a chynllunio ond maent yn bwysig ar gyfer dull cadarn o leihau ffosfforws yn Ardal Cadwraeth Arbennig afonol Sir Gaerfyrddin. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu llunio i gefnogi'r dulliau polisi a lliniaru a nodwyd ac i ymhelaethu ymhellach ar rôl cyfraniadau s106 a chyfraniadau datblygwyr.

11.516 Bydd angen monitro materion sy'n ymwneud ag echdynnu a chyflenwad dŵr yn barhaus, er mwyn sicrhau bod y twf a nodwyd o fewn y CDLl hwn yn gymesur ag argaeledd yr adnodd, yn ychwanegol at yr amddiffyniad a ganiateir trwy'r polisi hwn. Dylid cyfeirio at Strategaeth Trwyddedu Echdynnu Dŵr Bae Caerfyrddin (2014).

11.517 Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda CNC ac yn ymgynghori â CNC a Dŵr Cymru ar gynigion datblygu fel y bo'n briodol. Bydd y Cyngor hefyd yn ymgynghori ymhellach â CNC ynghylch cynigion datblygu yng nghyffiniau coridorau ac aberoedd afonydd. Dylai darpar ddatblygwyr ofyn am gyngor a chydsyniad CNC pan fo hynny'n briodol. Dylid ymgorffori'r gofyniad am glustogfa briodol sy'n ffinio â'r ddwy lan mewn unrhyw gynigion i ddiogelu ac annog bioamrywiaeth leol. Y gofyniad yw 8 metr lle mae cynigion yn ymwneud â phrif afon, a 7 metr lle mae cynigion yn ymwneud â chwrs dŵr cyffredin. Os yw cynigion yn ymwneud â phrif afon neu gwrs dŵr cyffredin, dylid ymgorffori'r gofyniad am glustogfa briodol sy'n ffinio â'r ddwy lan mewn unrhyw gynigion i ddiogelu ac annog bioamrywiaeth leol. Mewn rhai amgylchiadau, bydd angen caniatâd ar weithgarwch ger cyrsiau dŵr, gan gynnwys Trwyddedau Gweithgareddau Risg Llifogydd (FRAP) gan CNC ar y prif afonydd a/neu Gydsyniadau Atal Llifogydd gan yr LLFA ar gyrsiau dŵr cyffredin.

11.518 Rhaid i gynigion fodloni polisïau a darpariaethau'r Cynllun yn ei gyfanrwydd. Gellir cyfeirio'n benodol fodd bynnag at Bolisi Strategol 13 – Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol, yn fwyaf arbennig mewn perthynas â safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol i gadwraeth natur. Ceir cyfleoedd i gydnabod a chofleidio Seilwaith Gwyrdd a Glas fel rhan o ddull creu lleoedd.

11.519 Dylid cyfeirio at baragraff 11.536 o Bolisi PSD12 mewn perthynas â chynigion sy'n arwain at gynnydd mewn llwytho maetholion i'r amgylchedd ac o bosibl effeithio ar ansawdd dŵr ac aer.

## CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd

**Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir cynigion ar gyfer datblygiadau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd dynodedig, sef:**

- **a)** **Mewn ardaloedd sy’n wynebu perygl llifogydd afonol, glaw, arfordirol ac o gronfeydd dŵr, lle gellir dangos bod y datblygiad yn bodloni'r profion cyfiawnhau a nodir mewn Polisi Cenedlaethol a lle caiff ei ategu gan ddatganiad tystiolaethol technegol cadarn.[97] Fodd bynnag, dim ond datblygiadau llai agored i ddifrod fydd yn cael eu caniatáu ym Mharth C2.**
- **b)** **Lle na fyddai'n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd amddiffynfeydd presennol rhag llifogydd afonol, glaw neu arfordirol, neu na fyddai'n rhwystro mynediad at amddiffynfeydd presennol ac amddiffynfeydd yn y dyfodol at ddibenion cynnal a chadw a gwaith brys;**
- **c)** **Lle na fyddai'r datblygiad yn arwain at gynnydd annerbyniol mewn perygl llifogydd ar y safle neu yn rhywle arall; neu,**
- **d)** **Mewn ardaloedd sy’n wynebu perygl llifogydd o ffynonellau lleol, caiff strategaeth ddraenio ei chyflwyno sy'n dangos wrth fodd y Cyngor y gellir rheoli neu leddfu'r effeithiau.**

**Dylai cynigion geisio ymgorffori mesurau lliniaru perygl llifogydd sy’n effeithiol ac yn gydnaws â’r amgylchedd, fel SuDS.**

**Dylid ymgorffori cynigion lle mae'r posibilrwydd o ailgysylltu gorlifdiroedd yn y datblygiad i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd, ac na cheir effaith niweidiol ar y gallu i storio a llif dŵr mewn gorlifdiroedd.**

11.520 Mae’r mwyafrif o aneddiadau yn Sir Gaerfyrddin wedi eu lleoli ger afonydd neu'r arfordir. Mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm datblygu hanesyddol ac er na all y Cynllun ddylanwadu ar batrymau gofodol y gorffennol, gall helpu i lywio'r penderfyniadau gyda llesiant cenedlaethau'r dyfodol mewn golwg.

---

[97] Fel y nodwyd yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (2004) – Mapiau Cyngor ar Ddatblygu

11.521 Er bod dealltwriaeth am lifogydd afonol a llanwol a chydnabyddiaeth iddynt wedi bod yn ymhlyg mewn arfer cynllunio ers blynyddoedd lawer, ceir ymwybyddiaeth gynyddol bellach o ffynonellau llifogydd eraill – yn enwedig dŵr wyneb. Gall y ffynonellau eraill hyn effeithio ar aneddiadau nad ydynt yn agos at afon neu'r arfordir.

11.522 Mae'r polisi, a chyfeiriad strategol y Cynllun, yn cydnabod ac yn adlewyrchu'r angen am ddull cynaliadwy o ymdrin â pherygl llifogydd. Gan hynny, mae'r Cynllun hwn yn blaenoriaethu diogelu'r gorlifdir annatblygedig neu ddirwystr rhag datblygu ac yn ceisio atal effeithiau cronnol datblygiad cynyddrannol[98]. Fodd bynnag, mae hefyd yn ceisio cydnabod bod dynameg perygl llifogydd yn gymhleth ac yn ymestyn y tu hwnt i'r goblygiadau ar y safle o ran lleoli datblygiad unigol.

11.523 Mae'r Cynllun yn rhoi sylw i ddarpariaethau polisi cynllunio cenedlaethol ar berygl llifogydd a defnyddiwyd dull rhagofalus wrth lunio polisïau sy'n nodi dynodiadau defnydd tir a chynigion safle benodol. Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio cydnabod natur ddynamig perygl llifogydd ond hefyd eu cyfraniad hanfodol i nodweddion amgylcheddol, bioamrywiaeth, rhwydwaith seilwaith gwyrdd a glas, a gwerth tirwedd cynhenid y Sir.

11.524 Cydnabyddir cyfraniad prosesau sianeli naturiol ac mae'r polisi'n rhoi anogaeth i ailgysylltu gorlifdiroedd. O ganlyniad, dylid cynllunio datblygiadau, yn arbennig seilwaith newydd, mewn ffordd nad yw'n arwain at golled net yng ngallu storio gorlifdiroedd, yn rhwystro llifoedd dŵr nac yn cynyddu perygl llifogydd mewn mannau eraill[99]. Dylid rhoi sylw i Weithio gyda Photensial Ail-gysylltu Gorlifdiroedd Prosesau Naturiol (WWNP)[100].

11.525 Nodir polisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd yn Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd (2004). Nodir yr ardaloedd lle ceir perygl llifogydd afonol a llanwol ar y Mapiau Cyngor Datblygu sy'n cyd-fynd â'r nodyn. Caiff yr ardaloedd hyn eu categoreiddio'n 4 parth, sef Parth A, Parth B, ac yn fwyaf nodedig Parthau C1 ac C2 sy'n fwy tueddol o brofi llifogydd.

11.526 Bydd datblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl mawr o lifogydd yn cael eu hystyried dim ond lle gellir dangos y gall y safle gydymffurfio â'r gofynion cyfiawnhau ac asesu a nodir yn TAN 15. Lle cynigir datblygiad mewn ardal o berygl llifogydd dynodedig, rhaid cyflwyno datganiad technegol i gyd-fynd ag ef er mwyn bodloni darpariaethau TAN15 a dangos yn glir y bydd y datblygiad newydd yn lliniaru bygythiad a chanlyniadau llifogydd.

[98] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11
[99] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11
[100] http://lle.gov.wales/catalogue/item/WWNPFloodplainReconnectionPotentialWales/?lang=en

## CCH6: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel mewn Datblygiadau Newydd

**Caiff cynigion datblygu sy'n cysylltu â ffynonellau ynni adnewyddadwy presennol, rhwydweithiau gwresogi ardal, neu sy'n defnyddio technoleg carbon isel eu cefnogi.**

**Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu sy'n cynnwys: datblygiad preswyl o 100 o dai neu fwy; neu ddatblygiad gyda chyfanswm arwynebedd llawr o 1000metr sgwâr neu fwy; gyflwyno Asesiad Ynni i benderfynu ar ddichonoldeb ymgorffori cynllun o'r fath, a lle y bo'n ymarferol, byddai'n ofynnol iddynt weithredu'r cynllun.**

**Bydd datblygiadau mawr sy'n defnyddio ynni sylweddol yn cael eu hannog i hwyluso'r broses o ddatblygu Rhwydweithiau Gwresogi ac Oeri Ardal arfaethedig, a/neu gysylltu â hwy.**

11.527 Mae'r polisi hwn yn ceisio rhoi anogaeth i ymgorffori ynni adnewyddadwy a charbon isel ym mhob datblygiad newydd.

11.528 Bydd Asesiad Ynni yn ymchwilio i'r potensial i ymgorffori a defnyddio technoleg carbon isel, neu i ddefnyddio ffynonellau presennol ynni adnewyddadwy neu rwydweithiau gwresogi ardal. Bydd yn ofynnol bod asesiadau'n dangos sut y gall y datblygiad wneud cyfraniad tuag at lefelau uwch o gynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy neu garbon isel.

11.529 Bydd arweiniad pellach yn cael ei ddarparu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel.

## CCH7: Newid yn yr Hinsawdd – Fforestydd, Coetiroedd a Phlannu Coed

**Rhoddir cefnogaeth i gynigion sy'n ceisio creu a diogelu coetir, coedwigoedd, lleiniau a choridorau coed newydd (neu wella rhai presennol), a lle maent yn hyrwyddo'r gwaith o gyflawni'r targedau datgarboneiddio cenedlaethol a lleol.**

**Bydd cefnogaeth yn cael ei rhoi i gynigion a fydd yn sicrhau'r manteision lluosog sy'n gysylltiedig â choed, coetiroedd, a choedwigoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda ac a reolir yn dda (e.e. dal a storio carbon, lliniaru llifogydd, gwelliannau mewn ansawdd aer a dŵr, lliniaru maetholion, bioamrywiaeth ac adfer natur, tirwedd, iechyd a llesiant, a gwerth amwynder).**

**Dylai cynigion ystyried effeithiau andwyol posibl ar yr amgylchedd, treftadaeth ddiwylliannol, cymunedau, a thirwedd, a, lle bo hynny'n briodol, dilyn yr hierarchaeth liniaru.**

11.530 Yn 2021 nodwyd targed gan Lywodraeth Cymru i gynyddu coetiroedd yng Nghymru o leiaf 5,000 hectar y flwyddyn i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd [101]. Mae'r polisi hwn yn adlewyrchu'r amcan cenedlaethol hwn a'r ymrwymiad i greu coedwig genedlaethol. Ceir cyfleoedd i greu cysylltiadau â Seilwaith Gwyrdd a Glas, ymgorffori cyfleusterau teithio llesol a gwella cyfleoedd twristiaeth a hamdden, yn ogystal â hyrwyddo gwell bioamrywiaeth, cysylltedd, a chydnerthedd ecosystemau. Gall gwaith plannu coetir wedi'i gynllunio'n dda fynd i'r afael â'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur, fel y datganodd Llywodraeth Cymru a'r Cyngor.

11.531 Cydnabyddir bod gan goed fanteision lluosog, fel yr amlinellir yn Natganiad Ardal De-orllewin Cymru[102] a Strategaeth Coetiroedd a Choed Llywodraeth Cymru [103]. Mae coed, coedwigoedd a choetir yn darparu ystod o wasanaethau i'r ecosystem, megis gwella ansawdd aer, cael yr effaith o oeri a darparu cysgod yn yr haf, lleihau sŵn, dal a storio carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll i newid yn yr hinsawdd. Mae coed, coedwigoedd a choetiroedd hefyd yn cynnig gwerth esthetig ac amwynder, a gallant fod yn nodweddion pwysig yn ein haneddiadau a'n cefn gwlad agored. Gallant gyfrannu at gadwraeth natur a chynyddu bioamrywiaeth, ac yn aml mae ganddynt werth hanesyddol ac at ddibenion hamdden. Maent hefyd yn helpu i greu teimlad o 'lesiant' ac mae ganddynt fudd economaidd.

11.532 Gall plannu coed, coetiroedd a choedwigoedd helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â pherygl llifogydd, gan ddarparu datrysiad peiriannu meddal y gellir ei wneud ar wahân neu ar y cyd â seilwaith caled (strwythurau wedi'u gwneud gan ddyn). Bydd disgwyl i gynigion ddangos sut y byddant yn cyfrannu at leddfu risg llifogydd.

11.533 Bydd cynigion plannu sydd wedi'u cynllunio i greu coetiroedd a choedwigoedd a reolir gan ddefnyddio systemau coedamaeth nad ydynt yn dibynnu

[101] https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-coed-phren
[102] https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/south-west-wales-area-statement/cross-cutting-theme-mitigating-and-adapting-to-a-changing-climate/?lang=cy
[103] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-06/woodlands-for-wales-strategy_0.pdf

ar lwyrgwympo, ac a fydd yn cael eu rheoli gan ddefnyddio systemau effaith isel neu orchudd parhaus, yn cael eu cefnogi.

11.534 Rhaid i gynigion fod yn briodol i gymeriad diwylliannol ac ecolegol yr ardal leol, yn ogystal â'r dirwedd ehangach. Mae'r Cynllun yn cefnogi gwaith plannu sydd o fath, graddfa, dyluniad, a chymysgedd rhywogaethau sy'n briodol i'r ardal leol. Lle bo'n briodol, gellir rhoi cymorth hefyd tuag at newid defnydd tir ar gyfer cynigion sydd wedi'u cynllunio i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd a chael buddion lluosog (fel yr amlygwyd uchod). Gan y dylai cynigion ystyried effeithiau andwyol posibl ar y dirwedd, cadwraeth natur, a'r amgylchedd hanesyddol yn unol â'r hierarchaeth liniaru, cyfeirir yn benodol at NE1, NE2, a BHE2.

## Polisi Strategol – SP 17: Trafnidiaeth a Hygyrchedd

**Mae angen i rwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy, diogel, effeithlon, dibynadwy, hwylus ac integredig fod yn sylfaen i ddatblygiad cynaliadwy a chyflawniadwy. Felly mae'r Cynllun yn cyfrannu at gyflawni system drafnidiaeth gynaliadwy a seilwaith cysylltiedig trwy:**

1. **Leihau'r angen i deithio, yn arbennig mewn car modur;**
2. **Mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol drwy fwy o fynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau;**
3. **Cefnogi, a phan fo'n gymwys, gwella dewisiadau amgen i'r car modur, megis trafnidiaeth gyhoeddus (yn cynnwys cyfleusterau parcio a theithio ac annog mabwysiadu cynlluniau teithio) a theithio llesol trwy feicio a cherdded;**
4. **Atgyfnerthu swyddogaeth a rôl aneddiadau yn unol â'r fframwaith aneddiadau;**
5. **Hyrwyddo defnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth yn effeithlon;**
6. **Gwella hygyrchedd i leoedd cyflogaeth, cartrefi, gwasanaethau, cyfleusterau, a chynigion eraill sy'n cynhyrchu teithiau sylweddol mewn lleoliadau sydd â mynediad at seilwaith trafnidiaeth priodol;**
7. **Ymgorffori datrysiadau dylunio a mynediad mewn datblygiadau er mwyn hyrwyddo mynediad;**
8. **Darparu llwybrau cerdded a beicio, gan gysylltu â rhwydweithiau teithio llesol a seilwaith gwyrdd a glas;**
9. **Darparu datrysiadau technolegol newydd trwy Bwyntiau Gwefru Cerbydau Allyriadau Isel Iawn mewn datblygiadau newydd; a,**
10. **Mabwysiadu ymagwedd gynaliadwy tuag at ddyluniad, swyddogaeth a chynllun datblygiadau newydd, yn cynnwys darparu lefelau priodol o barcio.**

11.535 Mae'r CDLl a'r Polisi yn cydnabod y rôl y mae symud, cysylltedd, eglurder, a'u cysylltiadau trafnidiaeth cysylltiedig yn ei chwarae, yn enwedig ar draws sir mor amrywiol â Sir Gaerfyrddin. Mae strategaeth y CDLl yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd a mynediad at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol, gyda'r nod o gyflawni aneddiadau hyfyw, hunangynhaliol a chymunedau cynaliadwy, ac o ganlyniad cynyddu cynhwysiant a chydlyniant cymdeithasol ac amrywiaeth a ffyniant economaidd. Mae'r fframwaith aneddiadau yn adlewyrchu cynaliadwyedd aneddiadau a'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy trwy leoli datblygiadau lle mae gwasanaethau, swyddi, siopau a chyfleusterau hamdden wedi'u lleoli, ond gan hefyd gydnabod amrywiaeth y Sir a'i chymunedau gwledig gan gynnwys yr ardaloedd gwledig. Mae rhwydwaith trafnidiaeth y Sir yn amrywiol, gan gysylltu pobl a gwasanaethau trwy briffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau cerddwyr a beiciau, a hawliau tramwy cyhoeddus (gan gynnwys llwybrau ceffylau).

11.536 Wrth gyflawni'r uchod, mae'r strategaeth yn ystyried y rhwydwaith priffyrdd a rheilffyrdd, ynghyd â mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a'r potensial ar gyfer twf aneddiadau sy’n adlewyrchu eu lefelau hygyrchedd. Mewn aneddiadau trefol adlewyrchir natur eu cysylltedd a'u hamlder trafnidiaeth trwy'r hierarchaeth aneddiadau. Fodd bynnag, hyd yn oed o fewn rhai o'r aneddiadau hyn ceir anghysondeb o ran argaeledd rhwydwaith teithio llesol. Ar draws yr ardaloedd mwy gwledig a'u cymunedau, mae diffyg mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a'r cysylltiadau a gynigir drwy rwydweithiau teithio llesol yn anochel yn fwy tameidiog; o ganlyniad mae angen cydbwyso hyn yn erbyn cyfraniad posibl datblygiad tuag at gynnal y gymuned honno ac economi wledig yr ardal.

11.537 Bydd y Cynllun yn ceisio rhoi arweiniad i leoli datblygiadau yn rhannau gwledig y Sir o fewn aneddiadau diffiniedig ac yn ffinio â hwy, yn hytrach na lleoliadau gwasgaredig yng nghefn gwlad ac eithrio lle mae hynny'n unol â pholisïau'r cynllun hwn.

11.538 Mae'r Polisi yn tynnu sylw at yr angen i wella ac ehangu Teithio Llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus fel rhan o gynigion ar gyfer datblygu. Mae hyn yn adlewyrchu'r symudiad i ffwrdd o ddefnyddio'r car modur preifat. Fodd bynnag, mae'r Polisi hefyd yn ceisio adlewyrchu'r potensial o leihau allyriadau niweidiol trwy gyflwyno pwyntiau gwefru Cerbyd Allyriadau Isel Iawn mewn datblygiadau newydd (dylid cyfeirio at Bolisi: CCH3).

11.539 Mae hyn yn rhannol yn ceisio ymateb i amrywiaeth y Sir, ei hygyrchedd a'r nod o leihau'r angen i deithio (a lleihau allyriadau CO2) ac mae hyn yn parhau i fod yn her i ran fawr o Sir Gaerfyrddin. Mae'r her hon yn arbennig o amlwg wrth roi sylwi i'r angen i gynnal ardaloedd gwledig, a sicrhau nad yw eu cymunedau'n profi allgáu cymdeithasol. Rhaid bod hyn hefyd yn gysylltiedig â bod yn realistig wrth dderbyn y ffaith fod y car modur yn parhau i fod yn ffordd bwysig o deithio mewn ardaloedd o'r fath.

11.540 Mae'n bosibl hefyd y gellir lleihau teithio trwy strategaeth drafnidiaeth integredig a datblygu cymunedau hunangynaliadwy (gan gynnwys argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau) ac argaeledd opsiynau amgen trwy fentrau priodol megis 'Bwcabus'. Cydnabyddir y bydd datblygu trafnidiaeth gyhoeddus fel dewis amgen hyfyw a chredadwy i ddefnyddio'r car preifat o gymorth i leihau tagfeydd ar goridorau trafnidiaeth allweddol. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd, wrth i dechnoleg ddatblygu, y bydd effaith bosibl y car preifat ei hun, neu ddiffyg effaith, yn newid.

11.541 Mae'r CDLl yn ceisio hyrwyddo datrysiadau sy'n annog mynediad at newidiadau technolegol mewn modd cadarnhaol, gan gynnwys pwyntiau gwefru trydanol, hyrwyddo lleihau allyriadau niweidiol, a gwella cynhwysiant cymdeithasol a hygyrchedd.

11.542 Lle nodir bod cynllun yn gofyn am astudiaethau dichonoldeb a gwaith dylunio a pharatoi pellach, nid yw'n cael ei nodi o fewn y CDLl. Mae hyn yn adlewyrchu'r posibilrwydd nad oes arwyddion clir o'r modd y bydd yn cael ei gyflawni.

11.543 Cydnabyddir rôl y Sir fel canolfan ar gyfer beicio yng Nghymru, a bydd Strategaeth Feicio'r Cyngor yn cael ei hystyried a, lle bo hynny'n briodol, ei hadlewyrchu wrth i'r CDLl fynd rhagddo. Yn hyn o beth, cydnabyddir rôl y rhwydwaith beicio fel ysgogydd economaidd ac ased hamdden a thwristiaeth. Yn yr un modd, cydnabyddir hefyd ei gyfraniad at hyrwyddo hygyrchedd a buddion i'n cymunedau, yn ogystal â chyfraniad y rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybrau ceffylau.

11.544 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r rhwydwaith prif ffyrdd, gan gynnwys cefnffyrdd, a'r rhwydwaith craidd. Nodir y llwybrau hyn ar y map cyfyngiadau fel coridorau ar gyfer symud.

## Rhwydweithiau Prif Ffyrdd a Ffyrdd Craidd

**Y Rhwydwaith Prif Ffyrdd** (yn cyfateb i'r rhwydwaith Strategol a nodwyd):

| | | |
|---|---|---|
| M4 | A484 | A40 (T) |
| A48 | A476 | B4310 |
| A4138 | A477 (T) | B4335 |
| A474 | A4878 | B4336 |
| A483 (T) | A4069 | B4459 |
| A48 (T) | A482 | B4039 |
| A486 | A485 | B4317 |

**Y Rhwydwaith Ffyrdd Craidd** (yn cyfateb i'r rhwydwaith Priffyrdd a nodwyd):

| | | |
|---|---|---|
| A4066 | B4304 | B4556 |
| A4068 | B4306 | B4301 |
| B4299 | B4300 | B4303 |
| B4333 | B4328 | B4314 |
| B4310 | B4312 | B4297 |
| B4337 | B4308 | |
| B4302 | B4368 | |

## TRA1: Gwelliannau i'r Seilwaith Trafnidiaeth a Phriffyrdd

**Bydd llwybrau trafnidiaeth, gwelliannau i drafnidiaeth a chyfleusterau seilwaith cysylltiedig sy'n cyflawni amcanion blaenoriaethau'r Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru (2015 – 2020) yn cael eu cefnogi.**

**Bydd y gwelliannau i'r seilwaith priffyrdd fel rhan o Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands yn cael eu diogelu gyda'r llwybr wedi'i nodi ar y map cynigion.**

**Bydd cynigion sy'n cynnal ac yn gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy integredig hefyd yn cael eu cefnogi pan fyddant yn cyd-fynd â pholisïau a darpariaethau'r Cynllun hwn. Caniateir cynigion datblygu nad ydynt yn peryglu gweithrediad effeithlon unrhyw welliant neu gynllun a nodwyd.**

11.545 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi bod Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands yn brosiect cysylltedd Trawsnewidiol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

11.546 Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran darparu Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands gyda Cham 1 yn agor fel rhan o hwyluso Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands. Mae cam pellach rhwng Heol Llandeilo a Phen-y-groes bron â chael ei gwblhau. Mae'r cam rhwng Heol y Llew Du a Phen-y-groes, sy'n gyfle i hwyluso datblygiad pellach ar hen safle Gwaith Brics yr Emlyn ym Mhen-y-groes, bellach ar agor.

11.547 Bydd y Ffordd Gyswllt Economaidd yn lleddfu tagfeydd ar Gylchfan yr A48 yn Cross Hands sy'n rhan o'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd (TENS) yn ogystal â gwella diogelwch ar y gyffordd "chwe ffordd" yng Ngors-las. Bydd y cynllun yn darparu cyswllt allweddol ar y rhwydwaith priffyrdd â Llandeilo fel rhan o'r gefnffordd rhwng Abertawe a Manceinion.

11.548 Agorwyd y ffordd gyswllt newydd o ffordd ddeuol yr A40 i Ffordd y Coleg ger Parc Dewi Sant a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant ym mis Mawrth 2019. Gwnaeth hyn alluogi mynediad i safleoedd addysg a chyflogaeth yn ogystal â darparu seilwaith ar gyfer twf tai yn y dyfodol a hwyluso datblygiad Yr Egin (S4C) (gweler Polisi SP6: Safleoedd Strategol).

11.549 Mae 2il Gam Ffordd Ddosbarthu Rhydaman wedi'i nodi fel rhan o gynnig hirdymor i gynorthwyo adfywio economaidd ardaloedd ehangach Rhydaman a Dyffryn Aman. Er nad yw'r CDLl yn diogelu nac yn nodi'r llwybr hwn, mae'n cydnabod ei statws o fewn y Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd a bydd y Cyngor yn monitro unrhyw gynnydd tuag at ei gyflawni. Mae diffyg arwyddion clir o gyflawni ac aliniad diffiniedig yn golygu nad yw'n cael ei nodi o fewn y Cynllun nac ar y map cynigion.

11.550 Mae cynlluniau pellach a nodwyd o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2015 – 2020 yn cynnwys y cynlluniau hynny a restrwyd ar gyfer 2020 – 2030 a byddant yn cael eu hadolygu wrth ystyried y diweddariadau ar gynnydd sy'n deillio o'r Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd a strategaethau yn y dyfodol:

- Seilwaith Adfywio Economaidd Rhydaman (Stryd y Gwynt/Tir-y-dail) – Gwelliannau i'r gyffordd (cwblhawyd 2019)
- Coridorau a Chyfnewidfeydd Trafnidiaeth Strategol Sir Gaerfyrddin - gwelliannau parhaus i'r prif Goridorau Bysiau.
- Cysylltiadau Cerdded a Beicio Sir Gaerfyrddin – Datblygiad parhaus rhwydwaith cynhwysfawr o Gysylltiadau Cerdded a Beicio fel Llwybr Beicio Dyffryn Aman, llwybrau cyflogaeth Sir Gaerfyrddin a'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol i wella mynediad at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau eraill yn ogystal â rhoi anogaeth ar gyfer twristiaeth a ffyrdd iach o fyw.
- Mynediad yr A4138 i Lanelli sy'n cynnwys cyfleuster Parcio a Theithio/Rhannu Llanelli/M4 – yn amodol ar ddylunio pellach a gweithredu'r opsiynau a ffefrir o 2019/20.
- Coridor Trafnidiaeth Dyffryn Tywi (Llwybr Beicio Dyffryn Tywi) - Llwybr beicio gyda chysylltiadau ag atyniadau allweddol gan gynnwys trefi marchnad Caerfyrddin a Llandeilo gyda dull graddol o weithredu a'r cam cychwynnol wrthi'n cael ei adeiladu.
- Cyfnewidfa Drafnidiaeth Integredig Llanelli – yn ardaloedd Heol yr Orsaf/Heol Copperworks, mae hwn yn ganolbwynt allweddol ar gyfer cyfnewid trafnidiaeth rhwng nifer o ddulliau gan gynnwys gorsaf reilffordd y Dref, llwybrau bysiau masnachol allweddol a chyfleuster parcio a theithio (rheilffyrdd).
- Canolfannau Teithio Cynaliadwy – gall gynnwys seilwaith gwefru cerbydau trydan, parthau cartrefi wedi'u targedu, gwelliannau i gyfnewidfeydd, rheseli beiciau a llwybrau teithio cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth.
- Mynediad i Barc Gwledig Pen-bre – Adnewyddu/uwchraddio'r ffordd un lôn bresennol dros y Bont Reilffordd sy'n gwasanaethu Parc Gwledig Pen-bre ar hyn o bryd.

## TRA2: Teithio Llesol

**Bydd cynigion sy'n gwella mynediad ar gyfer cerddwyr a beicwyr trwy ymgorffori'r canlynol yn y safle, a/neu wneud cyfraniadau ariannol tuag at ddarparu gwasanaethau oddi ar y safle, yn cael eu cefnogi:**

**a) Llwybrau cerdded a beicio hydraidd, eglur, uniongyrchol, cyfleus, deniadol a diogel sy'n cysylltu'r datblygiad ag: aneddiadau cyfagos; nodau trafnidiaeth gyhoeddus; cyfleusterau cymunedol; ardaloedd masnachol a chyflogaeth; cyfleusterau twristiaeth; a chyfleoedd hamdden;**

**b) Gwelliannau, cysylltiadau a/neu estyniadau i: y rhwydwaith llwybrau troed a hawliau tramwy cyhoeddus presennol (gan gynnwys llwybrau**

**ceffylau); y rhwydwaith a llwybrau beicio; Llwybrau Diogel i'r ysgol; a llwybrau sy'n rhan o'r Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas; a**

**c) Cyfleusterau sy'n annog pobl i gerdded a beicio, gan gynnwys: arwyddion priodol; mannau diogel a chyfleus i barcio beiciau; a chyfleusterau newid a chyfleusterau cysylltiedig.**

**Bydd disgwyl i gynigion sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar hawliau tramwy cyhoeddus neu lwybrau presennol a nodwyd trwy Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 gyfrannu at gyflawni Cynllun Teithio Llesol y Cyngor.**

11.551 Rhaid i gynigion datblygu geisio sicrhau'r hygyrchedd mwyaf posibl wrth gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, trwy roi blaenoriaeth i ddarparu seilwaith priodol ar y safle a, lle y bo angen, lliniaru effeithiau trafnidiaeth trwy ddarparu mesurau oddi ar y safle, megis datblygu llwybrau teithio llesol, seilwaith sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau a chymorth ariannol i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus[104].

11.552 Mae'r Cynllun yn ceisio hyrwyddo hygyrchedd dulliau trafnidiaeth amgen er mwyn helpu i leihau'r defnydd o geir, ac i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i ddatblygu, gwella a chynnal rhwydweithiau cerdded a beicio lleol. Anogir cynigion i ddefnyddio Safonau arfer da, gan gynnwys Safonau Dylunio'r Ddeddf Teithio Llesol a chanllawiau perthnasol eraill i sicrhau bod yr egwyddorion dylunio yn adlewyrchu ac yn cyflawni Teithio Llesol. Dylid hefyd ystyried Canllaw Dylunio Priffyrdd y Cyngor.

11.553 Wrth ddefnyddio'r polisi hwn dylid rhoi sylw i ddarpariaethau'r CDLl o ran creu lleoedd a seilwaith gwyrdd a glas. Yn hyn o beth, mae'r Cynllun yn pwysleisio ymrwymiad i amgylcheddau a dylunio o ansawdd, gyda theithio llesol a cherdded a beicio yn gydrannau pwysig.

11.554 Dylai cynigion mewn ardaloedd gwledig adlewyrchu'r deilliannau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol a, lle y bo'n bosibl, cynnig cysylltiadau teithio llesol da â chanol aneddiadau er mwyn lleihau'r angen i deithio mewn car ar gyfer siwrneiau lleol[105].

[104] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11
[105] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11

## TRA3: Rheilffordd Gwili

**Bydd cynigion yn cael eu caniatáu lle nad ydynt yn peryglu'r canlynol mewn perthynas â rheilffordd Gwili:**

a) **Estyn rheilffordd Gwili tua'r Gogledd i Lanpumsaint;**
b) **Darparu gorsaf newydd yng Nglangwili, Caerfyrddin.**

11.555 Bydd cynigion ar gyfer Rheilffordd Gwili yn cael eu hystyried yng ngoleuni eu heffaith ar amodau traffig lleol, ar ansawdd yr amgylchedd a'r gofynion o ran seilwaith.

11.556 Mae Rheilffordd Gwili yn atyniad pwysig i dwristiaid a bydd y Cyngor yn cefnogi'r cynigion hirdymor i estyn y rheilffordd tua'r Gogledd i lanpumsaint yn y pen draw a darparu gorsaf newydd fel a nodir o fewn y Polisi.

11.557 Dangosir yr ardaloedd a'r llwybrau a ddiogelir ar y Map Cynigion.

## TRA4: Coridorau Rheilffyrdd Segur

**Cefnogir cynigion ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn peryglu ailddefnyddio coridorau rheilffyrdd segur at ddibenion datblygiadau hamdden a rheilffyrdd posibl yn y dyfodol.**

**Dylai cynigion hefyd gydnabod pwysigrwydd coridorau rheilffyrdd segur fel coridorau bywyd gwyllt a chyfleoedd i ehangu'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd a glas.**

11.558 Mae gan ardal y Cynllun nifer o hen reilffyrdd sy'n cynnig manteision sylweddol o ran gweithgareddau hamdden gan gynnwys llwybrau beicio, llwybrau troed a llwybrau ceffylau. Mae hefyd angen ystyried y posibilrwydd o ailddefnyddio llwybrau rheilffyrdd yn y dyfodol wrth ystyried cynigion, a allai effeithio ar barhad ac argaeledd y llwybr.

## TRA5: Safonau Priffyrdd a Mynediad mewn Datblygiad

**Bydd cynigion ar gyfer datblygu yn cael eu caniatáu lle maent:**

a) **Yn ymgorffori'r safonau mynediad angenrheidiol sy'n adlewyrchu dosbarthiad ac amodau'r ffordd;**

**b) Yn cynnwys llain gweledeedd priodol a nodweddion dylunio sy'n angenrheidiol i sicrhau diogelwch ar y briffordd a bod rhwyddineb symud yn cael ei gynnal, a'i wella lle y bo'n ofynnol;**
**c) Yn peidio â chreu lefelau annerbyniol o draffig sy'n cael effaith anfanteisiol ar y rhwydwaith ffyrdd cyfagos, ar ddiogelwch ar y briffordd, neu a fyddai'n achosi niwed sylweddol i amwynder preswylwyr.**
**d) Yn peidio ag arwain at dagfeydd oddi ar y safle o ran parcio neu ddarparu gwasanaethau.**

11.559 Lle y mae cynnig datblygu yn debygol o godi materion sy'n ymwneud â chapasiti priffyrdd y rhwydwaith, mae'n bosibl y bydd angen cyfraniadau i hwyluso gwaith priodol fel rhan o roi unrhyw ganiatâd.

11.560 Wrth ddefnyddio'r polisi hwn, dylid cyfeirio hefyd at Bolisi PSD1: Dylunio Cynaliadwy ac o Ansawdd Da ac at gynnwys y Canllaw Dylunio Priffyrdd a fydd yn cael ei fabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol.

## Polisi Strategol SP 18: Adnoddau Mwynol

**Caiff adnoddau mwynol y Sir eu rheoli'n gynaliadwy trwy:**

**a) Sicrhau cyflenwad digonol o fwynau, gan gynnwys cynnal banc tir digonol o gronfeydd agregau a ganiateir (o leiaf 10 mlynedd ar gyfer creigiau mâl caled, ac o leiaf 7 mlynedd ar gyfer tywod a graean) trwy gydol cyfnod y cynllun;**

**b) Annog y defnydd effeithlon a phriodol o fwynau o ansawdd uchel, a manteisio i'r eithaf ar y potensial i ailddefnyddio ac ailgylchu mwynau addas yn lle ddefnyddio agregau sydd wedi cael eu mwyngloddio o'r newydd;**

**c) Diogelu seilwaith mwynau, ac ardaloedd sy'n gorchuddio mwynau o bwysigrwydd economaidd ble gellid cloddio amdanynt yn y dyfodol er mwyn sicrhau na fydd adnoddau a seilwaith o'r fath yn cael eu sterileiddio yn ddiangen gan fathau eraill o ddatblygu;**

**d) Defnyddio clustogfeydd i leihau'r gwrthdaro rhwng datblygu mwynau a datblygiadau sensitif;**

**e) Sicrhau gwaith adfer priodol a all gyflwyno buddion amgylcheddol a chymunedol penodol.**

**Mae 'Ardal Chwilio' ar gyfer tywod a graean wedi'i diffinio ar y Map Cynigion a fydd yn ffurfio'r sail i archwilio a chynhyrchu yn y dyfodol er mwyn bodloni'r gofynion isranbarthol ehangach. [106]**

11.561 Bydd y CDLl yn ceisio sicrhau bod y Sir yn darparu'n gadarnhaol ar gyfer gweithio am adnoddau mwynol i ddiwallu anghenion y gymdeithas, a bod adnoddau a seilwaith mwynau o'r fath yn cael eu diogelu rhag eu sterileiddio. Wrth wneud hyn, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio cydbwysedd priodol rhwng y gofyniad sylfaenol hwn, yr angen i sicrhau bod yr adnoddau cyfyngedig hyn yn cael eu defnyddio mewn modd darbodus, a bod mwynderau cyfredol a'r amgylchedd yn cael eu diogelu.

11.562 Mae gan Sir Gaerfyrddin amrediad eang o adnoddau mwynau o ganlyniad i'w daeareg gymhleth. Y brif nodwedd yn ne'r sir yw ehangder helaeth brigiad yr haenau glo, wedi'u hymylu i'r gogledd gan galchfaen Carbonifferaidd. Mae chwarelu calchfaen yn un o'r diwydiannau tynnu mwyaf yn y sir. Mae rhannau gogleddol y sir uwchben creigiau hŷn o'r oes Ordofigaidd a'r oes Silwraidd, yn bennaf tywodfeini, cerrig clai a llechi. Mae arwyddocâd economaidd y rhain yn amrywiol.

[106] Fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru– Ail Adolygiad (RTS2) (Medi 2020).

11.563 Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru – Ail Adolygiad (RTS2) (Medi 2020) yn nodi'r cyfraniad y dylai pob awdurdod lleol cyfansoddol ei wneud tuag at fodloni'r galw rhanbarthol am agregau (creigiau mâl caled, a thywod a graean).

11.564 Ar gyfer creigiau mâl, mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o Is-ranbarth Dinas Abertawe, ynghyd ag awdurdodau lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Er nad yw Abertawe ar hyn o bryd yn gallu dangos anallu i ddiwallu dosraniadau RTS2, mae mwy na digon o gronfeydd wrth gefn o fewn Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin i wneud y dosraniad ar y cyd o fewn y cyfnod hwn heb arwain at danddarpariaeth. Lluniwyd datganiad cydweithio is-ranbarthol (SSRC) sy'n dangos sut mae'r Awdurdodau cyfansoddol yn bodloni gofynion RTS2 mewn perthynas â darpariaeth creigiau wedi'u malu yn y dyfodol.

11.565 O ran darparu tywod a graean, rhaid nodi bod yr Adolygiad Cyntaf o'r RTS (RTS1) wedi awgrymu y byddai gwerth mewn datblygu dull cyfun o ddosraniadau a dyraniadau yn y dyfodol rhwng Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Er bod Sir Gaerfyrddin mewn is-ranbarth ar wahân (oherwydd y farchnad ar gyfer creigiau mâl yn ardal Abertawe yn bennaf), argymhellir yn RTS2 y dylai'r trefniadau cydweithio hyn [a awgrymir yn RTS1] barhau, o ran tywod a graean. Felly, mae dull ar y cyd yn cael ei ddilyn gan Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ar gyfer darparu'r gofyniad dyrannu ar gyfer 3.626 miliwn tunnell dros y cyfnod hyd at 2038.

11.566 Os na fydd y dyraniadau ar gyfer tywod a graean yn y tri awdurdod cyfansoddol yn ddigonol i fodloni'r 3.626 miliwn tunnell dros y cyfnod hyd at 2038, nodwyd 'ardal o chwilio' ar gyfer tywod a graean ar y map cynigion (gydag ardaloedd pellach yn cael eu nodi gan Sir Benfro a Cheredigion yn eu CDLlau Diwygiedig priodol). Ymhellach, mae datganiad o gydweithio is-ranbarthol (SSRC) yn cael ei lunio a fydd yn dangos sut y bydd yr Awdurdodau cyfansoddol yn bodloni gofynion RTS2 mewn perthynas â darpariaeth tywod a graean yn y dyfodol.

11.567 Gyda golwg ar gloddio am yr adnodd yn yr ardal chwilio, ni fydd hyn yn cael ei wneud o fewn 100m o eiddo preswyl. Bydd angen i gynigion ar gyfer cloddio hefyd gyd-fynd â'r meini prawf a nodir ym Mholisi MR1 Cynigion Mwynau. Ar yr elfennau hynny o'r ardal chwilio sy'n cynnwys tir amaethyddol gradd 3a, bydd yr angen i gloddio yn cael ei ystyried yn unol â pharagraff 3.59 o Bolisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11.

11.568 Mae cyfarwyddyd clir gan Lywodraeth Cymru i osgoi parhau i gloddio a defnyddio tanwyddau ffosil. Felly, nid yw'r Awdurdod yn cynnig diogelu adnoddau glo. Mae'n ofynnol

i'r Cyngor hysbysu Llywodraeth Cymru os ceir cynigion ar gyfer gweithrediadau glo neu betrolewm nad yw o blaid eu gwrthod.

## MR1: Cynigion Mwynau

**Caniateir cynigion ar gyfer cloddio am fwynau lle mae yna angen cenedlaethol, rhanbarthol neu leol profedig am y mwynau na ellir ei ddiwallu o ffynonellau presennol nac o ddeunydd eilaidd neu wedi'i ailgylchu, a lle na fyddent yn arwain at unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol ar iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd, amwynder lleol a'r rhwydwaith trafnidiaeth lleol. Caiff ceisiadau ar gyfer cynigion mwynau eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:**

**a. Mae llwybrau mynediad a thrafnidiaeth addas wedi'u hadnabod ac mae'r potensial ar gyfer cludo mwynau drwy ddulliau heblaw ar y ffordd wedi'i asesu'n ddigonol;**
**b. Dangosir bod sŵn o fewn lefelau derbyniol;**
**c. Mae'r dulliau ymarferol gorau wedi'u nodi i reoli llwch, mwg, mygdarth ac i sicrhau nad yw gweithrediadau'n achosi dirywiad mewn ansawdd aer yn lleol nac yn cael effaith annerbyniol ar iechyd y cyhoedd;**
**d. Mae ffrwydro'n cael ei reoli o fewn lefelau derbyniol;**
**e. Mae effeithiau posibl ar adnoddau dŵr daear, adnoddau dŵr wyneb a chyflenwadau dŵr wedi'u nodi a dangoswyd nad ydynt yn achosi effeithiau andwyol a'u bod o fewn lefelau derbyniol;**
**f. Nid oes unrhyw effeithiau niweidiol annerbyniol ar safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur a nodweddion ecolegol, ac mae effeithiau niweidiol ar safleoedd o bwysigrwydd hanesyddol, diwylliannol a thirwedd wedi'u nodi a phrofwyd eu bod yn fach iawn;**
**g. Mae mesurau lliniaru effeithiol a gynigir i leihau i'r eithaf unrhyw effeithiau posibl o ganlyniad i ymsuddiant neu dir ansad wedi'u nodi a'u dangos mewn ffordd sydd wrth fodd y Cyngor;**
**h. Nid yw effaith niweidiol ar gymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol yn sylweddol;**
**i. Mae cyfleoedd i ailddefnyddio a/neu ailgylchu gwastraff mwynau yn cael eu cynyddu i'r eithaf;**
**j. Mae cynigion boddhaol wedi'u cyflwyno ar gyfer adfer y safle, ei dirweddu, ei ddefnyddio a gofalu amdano ar ôl y gweithrediadau cloddio.**
**k. Dylai mesurau effeithiol sicrhau bod seilwaith cyfleustodau yn cael ei ddiogelu.**

11.569 Diben y polisi yw cadw cydbwysedd rhwng ateb galw cenedlaethol, rhanbarthol a lleol am fwynau a lleihau'r effeithiau niweidiol posibl a allai ddeillio o weithrediadau o'r fath. Gall cloddio am fwynau gael effaith gadarnhaol ar ardaloedd a chymunedau lleol trwy ddarparu ffynhonnell cyflogaeth a chyfrannu at yr economi leol, ond ar yr un pryd rhaid rhoi

mesurau ar waith i ddiogelu iechyd ac amwynder lleol a'r amgylchedd rhag unrhyw effeithiau negyddol a allai ddeillio o hynny. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i'r posibilrwydd o effeithiau ar ddŵr daear ac adnoddau dŵr a hefyd i iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd (gan gynnwys y dirwedd/trefwedd a dynodiadau hanesyddol), amwynder lleol, y rhwydwaith trafnidiaeth lleol a pharamedrau amgylcheddol eraill.

11.570 Mae'n hanfodol cynllunio gweithrediadau mwynau sy'n amgylcheddol dderbyniol o'r cychwyn cyntaf. Gall y defnydd o reolaethau cynllunio, megis amodau, rhwymedigaethau cyfreithiol, a monitro a gorfodi sicrhau rheolaeth effeithiol ar weithrediadau ar safleoedd mwynau. Dylid defnyddio'r rheolaethau lle maent yn angenrheidiol ac yn berthnasol i'r amgylchiadau unigol dan ystyriaeth. Bydd lefelau derbyniol o effaith yn amrywio ar wahanol safleoedd mwynau a byddant yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Yr awdurdod fydd yn penderfynu ar y rhain mewn perthynas â phob cais cynllunio unigol.

## MR2: Clustogfeydd Mwynau

**Gwnaed darpariaeth ar gyfer Clustogfeydd o amgylch pob safle sydd â chaniatâd cynllunio presennol ar gyfer cloddio am fwynau.**

**Fel arfer, ni chaniateir datblygiadau sensitif newydd nad ydynt yn ymwneud â mwynau o fewn y clustogfeydd a nodwyd. Mae'r holl glustogfeydd wedi'u nodi ar y map cynigion.**

11.571 Defnyddir clustogfeydd i ddarparu ardaloedd gwarchod o amgylch gweithfeydd mwynau a ganiateir a rhai a gynigir lle dylid gwrthsefyll datblygiadau newydd a fyddai'n sensitif i effeithiau niweidiol, gan gynnwys ardaloedd preswyl, ysbytai ac ysgolion. Bydd dynodi clustogfeydd yn sicrhau bod canllawiau clir ar agosrwydd gweithrediadau mwynau at ddefnyddiau tir sensitif, a bod effaith bosibl gwaith mwynau yn cael ei gydnabod ac y cynllunnir ar ei chyfer yn yr ardal o gwmpas y gweithrediadau mwynau presennol ac arfaethedig.

11.572 Nodir pellteroedd clustogfeydd o 200m (o leiaf) o amgylch chwareli creigiau caled a 100m (o leiaf) o amgylch safleoedd cloddio tywod a graean yn *MTAN1: Agregau*,[107] a nodir

[107]Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau

clustogfeydd o 500m o amgylch safleoedd cloddio glo yn *MTAN2: Glo.* [108] Caiff eithriadau i'r pellteroedd hyn eu hystyried yn unol â'r darpariaethau a nodir yn *MTAN 1 a 2.*

## MR3: Ardaloedd Diogelu Mwynau

**Ni roddir caniatâd cynllunio ar gyfer cynigion datblygu lle byddent yn sterileiddio adnoddau agregau a nodwyd yn yr ardaloedd diogelu mwynau ar y map cynigion yn barhaol oni bai:**

- **a. Y gall yr ymgeisydd ddangos bod cloddio'r mwynau yn anymarferol, yn aneconomaidd neu'n amgylcheddol annerbyniol (gan gynnwys peryglu amwynder ac ystyriaethau cymdeithasol); neu**
- **b. Mae'r adnodd mwynau eisoes wedi cael ei gloddio; neu**
- **c. Gellir cloddio'r mwynau yn foddhaol cyn i'r datblygiad ddigwydd; neu**
- **d. Mae'r datblygiad o natur dros dro a gellir ei gwblhau ac adfer y safle o fewn yr amserlen y mae'n debygol y bydd angen y mwynau; neu,**
- **e. Ni fyddai natur a lleoliad y datblygiad yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y posibilrwydd o gloddio'r adnodd.**

11.573 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd diogelu adnoddau mwynol sy'n diwallu anghenion cymdeithas yn awr ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu rhagdybiaeth o blaid gweithio'r dyddodion mwynol, dim ond bod lleoliad y mwynau'n hysbys.  Mae'r ardaloedd wedi'u diogelu a nodir ar y Map Cynigion yn ymwneud â Map Diogelu Agregau Arolwg Daearegol Prydain ar gyfer De-orllewin Cymru.

11.574 Dim ond os gall y datblygwr fodloni unrhyw un o'r meini prawf uchod y caniateir i ddatblygiadau fynd rhagddynt ar ardaloedd a ddiogelir. O'i ystyried gyda pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun (yn arbennig MR1), ni fydd mwyngloddio'n briodol o fewn nac ar bwys terfynau datblygu aneddiadau. Fodd bynnag, mewn achosion lle cynigir mathau eraill o ddatblygiadau mewn ardaloedd o'r fath (a bod adnodd mwynau sy'n deilwng o gael ei ddiogelu wedi'i adnabod), dylid ystyried cloddio'r adnodd ymlaen llaw fel rhan o'r cais gan sicrhau nad yw unrhyw weithrediad yn cael unrhyw effeithiau niweidiol annerbyniol ar yr amgylchedd, iechyd dynol ac amwynder lleol.

[108] Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo

11.575 O ran agregau (creigiau caled, a thywod a graean) a nodwyd ac a ddiogelwyd ar y map cynigion, ni fydd cloddio am adnoddau mwynol yn dderbyniol yn gyffredinol o fewn 200 metr i aneddiadau a nodwyd yn y CDLl (ar gyfer craig galed) ac o fewn 100 metr (ar gyfer tywod a graean).

11.576 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw lanfeydd morol o fewn y Sir. Bydd cynigion posibl ar gyfer y dyfodol, lle y bônt yn dderbyniol, yn cael eu gwarchod i ddiogelu llwybr(au) cyflenwi tywod a graean yn yr ardal.  Caiff safle gweithredol Llanelli Sands ym Mhorth Tywyn (ynghyd â'r 'safle glanio morol' cysylltiedig) ei ddynodi ar y Map Cynigion, ac yn Atodiad 4 (Safleoedd Mwynau), a'i ddiogelu yn unol â hynny.

## Polisi Strategol – SP 19: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy

**Gwneir darpariaeth i hwyluso trefniadau rheoli gwastraff yn gynaliadwy trwy:**

**a) Ddyrannu tir priodol digonol i ddarparu rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff;**
**b) Cefnogi cynigion ar gyfer rheoli gwastraff sy'n cynnwys rheoli gwastraff yn unol â'r drefn a nodir yn yr hierarchaeth wastraff;**
**c) Cefnogi cynigion sy'n ystyried cysyniad y gosodiad priodol agosaf ac egwyddorion agosrwydd a hunan-gynhaliaeth[109];**
**d) Cefnogi cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff mewn adeiladau mewn safleoedd diwydiannol presennol a rhai a ddyrennir (defnydd B2), sydd yn addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff;**
**e) Cydnabod efallai nad oes angen i fathau penodol o gyfleuster gwastraff fod wedi'u leoli y tu allan i derfynau datblygu aneddiadau;**
**f) Sicrhau bod darpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy ym mhob datblygiad newydd, yn cynnwys sicrhau cyfleoedd i leihau cynhyrchu gwastraff.**

**Rhaid i gynigion datblygu sicrhau:**

**i. Nad oes unrhyw effeithiau niweidiol, sylweddol ar iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd, amwynder lleol na'r rhwydwaith trafnidiaeth lleol;**

**ii. Bod y cynnig yn gydnaws ag unrhyw ddefnyddiau neu weithgareddau cyfagos.**

**Bydd cydleoli cyfleusterau rheoli gwastraff er mwyn gallu datblygu rhwydweithiau gwres yn cael ei gefnogi, yn amodol ar y meini prawf uchod; a**

**Rhaid i gynigion sy'n ymwneud â gwastraff gael eu hategu gan Asesiad Cynllunio Gwastraff priodol.**

11.577 Nodir y materion cynllunio y mae'n rhaid eu hystyried wrth baratoi ceisiadau ar gyfer datblygiadau gwastraff yn Atodiad C o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 Gwastraff (2014). Bydd angen i geisiadau ddangos sut y bydd y cynnig yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion yn y Strategaeth Wastraff Genedlaethol *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* a'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd. Dylid cyflwyno Asesiad Cynllunio Gwastraff gyda phob cais am gyfleuster gwastraff a ddosberthir yn gyfleuster gwaredu, adfer neu ailgylchu. Dylai'r Asesiad Cynllunio Gwastraff fod yn briodol ac yn gymesur â natur, maint a

[109] Erthygl 16 o Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE, 2008

graddfa'r datblygiad arfaethedig. Mae rhagor o gyngor i'w gael yn Atodiad B o TAN 21 Gwastraff.

11.578 Bydd angen i ymgeiswyr ddangos sut mae eu cynnig datblygu wedi mynd i'r afael â'r hierarchaeth wastraff. Bydd angen cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr hierarchaeth wastraff trwy ddefnyddio Asesiad Cylch Oes. Bydd angen dogfennu hyn fel rhan o'r Asesiad Cynllunio Gwastraff a gyflwynir gan yr ymgeisydd.

11.579 Er ei bod yn anodd rhagweld yn gywir beth fydd yr anghenion yn y dyfodol o ran trin ac adfer gwastraff cymysg gweddillol, a gwaredu gwastraff, mae'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn nodi'r angen parhaus bod mwy o wastraff cymysg gweddillol na ellir ei ailgylchu yn cael ei adfer. Felly, mae angen datblygu mwy o gyfleusterau trin ac adfer gwastraff gweddillol a sicrhau y cynhelir digon o gapasiti gwaredu ar lefel sy'n briodol i gefnogi nodau cyffredinol *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*. Cyfeirir at yr Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff blynyddol ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru (fel a nodir yn TAN 21) sy'n rhoi gwybodaeth ac argymhellion ar weithio trawsffiniol, yn enwedig o ran sut y mae gwastraff gweddillol y rhanbarth yn cael ei reoli ac a oes digon o gapasiti tirlenwi ar ôl.

11.580 Gall safleoedd cyflogaeth cyffredinol (defnyddiau B2) fod yn addas ar gyfer llawer o'r cyfleusterau gwastraff 'mewn adeiladau' yn y dyfodol. Byddai'r cyfleusterau hyn yn darparu ar gyfer gwastraff diwydiannol a masnachol yn ogystal â gwastraff a gesglir gan yr awdurdod lleol. O gofio'r angen i ddargyfeirio gwastraff i ffwrdd o safleoedd tirlenwi, caniateir y cyfleoedd a gynigir gan gyfleusterau ynni o wastraff mewn adeiladau i harneisio ynni ar gyfer gwres a/neu bŵer o wastraff trefol gweddillol ar yr amod eu bod yn gydnaws â defnyddiau cyfagos ac yn bodloni'r meini prawf a nodir uchod. Rhoddir anogaeth ar gyfer cynigion sy'n cynnwys gwres a phŵer cyfunedig a allai gyfrannu tuag at gynlluniau gwresogi ardal ar gyfer datblygiadau mawr. Rhestrir y safleoedd hynny sydd â'r potensial i ddarparu ar gyfer cyfleusterau gwastraff mewn adeiladau ym Mholisi: SP6. Mae hyn yn ychwanegol at y cyfleusterau rheoli gwastraff presennol o fewn y Sir sydd wedi eu rhestru yn Atodiad 8. Mae llawer o'r rhain, megis safle rheoli gwastraff Nant-y-caws, wedi hen ennill eu plwyf ac yn debygol o barhau i chwarae rhan o fewn cyfnod y Cynllun.

11.581 Rhoddir anogaeth ar gyfer cynigion sy'n ymwneud ag ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff adeiladu a dymchwel anadweithiol yn ogystal â gwastraff mwynol a diwydiannol. Safleoedd mwynau gweithredol presennol (a nodir ar Fapiau Cynigion y CDLl, ac a restrir yn Atodiad 4), neu safleoedd adeiladu priodol, fydd y lleoliadau a ffefrir. Gallai dyraniadau

tir cyflogaeth B2 fod yn opsiynau hefyd, er enghraifft lle y gall gorsafoedd trosglwyddo gwastraff neu gyfleusterau adfer deunyddiau mewn adeiladau sy'n gallu ymdrin â gwastraff o'r fath weithredu. Bydd cydnawsedd â defnyddiau cyflogaeth presennol yn ffactor tyngedfennol wrth asesu cynigion ar gyfer ailgylchu gwastraff anadweithiol ar safleoedd B2.

11.582 Nid yw safleoedd cyflogaeth B2 yn lleoliadau addas ar gyfer mathau penodol o weithrediadau gwastraff 'awyr agored', yn enwedig tirlenwi neu gompostio rhes agored. Mae mathau eraill o gyfleusterau gwastraff, megis safleoedd amwynder dinesig, hefyd weithiau yn fwy addas ar gyfer lleoliadau i ffwrdd o ardaloedd adeiledig. Gellir ystyried bod cynigion ar gyfer compostio rhes agored yn addas fel rhan o gynlluniau arallgyfeirio ar ffermydd.

## WM1: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy a Datblygiadau Newydd

**Rhaid i gynigion datblygu sicrhau y gwneir darpariaeth ar gyfer rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy ym mhob datblygiad newydd, gan gynnwys storio, ailgylchu a thrwy sicrhau cyfleoedd i leihau'r gwastraff a gynhyrchir.**

11.583 Mae gan ddatblygiadau newydd y cyfle i wneud cyfraniad tuag at gyrraedd y targedau a nodir yn Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* trwy ymgorffori cyfleusterau a mannau digonol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff yn eu dyluniad. Bydd defnyddio dull o'r fath hefyd yn helpu i annog pobl i ailgylchu yn y cartref, yn y gwaith ac mewn mannau cyhoeddus.

11.584 Mae nifer o faterion allweddol y bydd angen mynd i'r afael â hwy mewn cysylltiad â rheoli gwastraff sy'n berthnasol i bob math o ddatblygiad:

- **Gwahanu gwastraff ar gyfer ei ailgylchu:** bydd ymgorffori cyfleusterau ailgylchu yn helpu i sicrhau bod dargyfeirio gwastraff yn hawdd ac yn gyfleus i'w weithredu;
- **Mynediad:** Mae'n bwysig cynllunio mynediad hawdd a chyfleus ar gyfer defnyddwyr cyfleusterau gwastraff a'r rhai sy'n casglu gwastraff. Bydd hyn hefyd yn helpu i hyrwyddo ailgylchu ac yn gwneud darparu gwasanaethau gwastraff mewn modd darbodus yn fwy cyraeddadwy;
- **Llygredd:** Mae'n hanfodol bod unrhyw ddyluniad a chynllun yn ystyried effaith bosibl y cyfleusterau hyn ar eiddo cyfagos, o ran arogleuon posibl, sŵn a denu fermin;

- **Diogelwch:** Rhaid mynd i'r afael â diogelwch yn ystod y cam dylunio er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o effaith negyddol ar iechyd pobl;
- **Effaith weledol:** Mae'n bwysig lleihau effaith weledol biniau gwastraff ac ailgylchu a sicrhau nad ydynt yn amharu ar ansawdd amwynder a thirwedd yr ardal.

11.585 Mae'r Cyngor yn awyddus i weithio gyda datblygwyr i weld dulliau arloesol o reoli gwastraff (gan gynnwys triniaeth ar y safle lle y bo'n ymarferol) yn cael eu hymgorffori mewn datblygiadau preswyl newydd a datblygiadau eraill.

11.586 Dylai datblygwyr sicrhau bod digon o le wedi'i ymgorffori yn eu datblygiad ar gyfer lleoli cynwysyddion gwastraff ar ymyl y palmant ar ddiwrnodau casglu, ac nad oes grisiau, cyrbau na rhwystrau eraill ar y llwybr rhwng yr ardal storio a'r man casglu. Rhaid i safonau dyluniad a chynllun ffyrdd ystyried gofynion mynediad y Cyngor o ran cerbydau casglu gwastraff.

11.587 Mae'n ofynnol i bob busnes fod â chyfleusterau gwahanu a storio digonol ar gyfer gwastraff. Rhaid i'r man storio ateb gofynion iechyd a diogelwch ar gyfer mynediad, golau ac awyru a hefyd bod yn ddiogel i atal fandaliaeth a thipio anghyfreithlon. Argymhellir hefyd y dylid datblygu unrhyw fannau storio mewn ymgynghoriad â'r darparwr gwasanaethau arfaethedig.  Bydd disgwyl i safleoedd masnachol ailgylchu hefyd, felly mae'n debygol y bydd angen biniau/cynwysyddion storio lluosog.

## WM2: Cynigion Tirlenwi

**Dim ond os gallant gyd-fynd â'r canlynol y caiff cynigion ar gyfer safleoedd tirlenwi newydd eu caniatáu:**

**a) Mae angen capasiti ychwanegol o fewn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru (rhaid darparu tystiolaeth i ddangos o ble y daw'r deunydd):**
**b) Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r hierarchaeth wastraff, cysyniad y gosodiad priodol agosaf a hunangynhaliaeth;**
**c) Ni fyddai unrhyw effaith niweidiol sylweddol ar y canlynol:**

**i. Y dreftadaeth naturiol, a'r amgylchedd diwylliannol a hanesyddol;**
**ii. Daeareg a hydroddaeareg y safle;**
**iii. Dyfroedd a reolir, gan gynnwys ansawdd a maint dŵr;**
**iv. Amwynderau meddianwyr cyfagos, gan gynnwys effeithiau symudiad traffig a chynhyrchu sŵn, llwch, mygdarth ac arogleuon;**

- **v. Y rhwydwaith priffyrdd lleol, gan gynnwys mynediad, a diogelwch ar y briffordd;**
- **vi. Diogelwch y cyhoedd, iechyd a llesiant;**
- **vii. Amwynder gweledol y safle a'r cyffiniau;**
- **viii. Seilwaith a gwasanaethau cyfleustodau cyhoeddus; a**
- **ix. Thir amaethyddol o ansawdd da (Graddau 1, 2 neu 3a)**

**Bydd angen i'r dull adfer ac ôl-ofal, a'r defnydd ar ôl tirlenwi fod yn rhan o'r cynnig tirlenwi a chael ei gwblhau o fewn oes unrhyw ganiatâd a roddir.**

11.588 Nod hirdymor Llywodraeth Cymru yw dileu tirlenwi i'r graddau mwyaf posibl. Mae *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* yn pennu terfynau ar gyfanswm y gwastraff trefol gweddillol a'r gwastraff diwydiannol a masnachol a anfonir i safleoedd tirlenwi. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd gwaredu i safleoedd tirlenwi yn parhau yn y tymor byr a chanolig. Mae hyn yn rhannol oherwydd y ffordd y mae gwastraff yn cael ei gasglu, capasiti'r seilwaith sydd ar waith ar hyn o bryd i ymdrin â gwastraff, a bodolaeth gwastraff etifeddol (fel asbestos) a gweddillion llosgi, lle nad oes unrhyw ddewis diogel arall yn bodoli ar hyn o bryd heblaw gwaredu i safleoedd tirlenwi yn y pen draw.

11.589 Bob blwyddyn, cynhyrchir Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru sy'n nodi faint o gapasiti tirlenwi (lle gwag) sy'n weddill o fewn y rhanbarth yn ei gyfanrwydd. Y lefel (a nodir yn TAN 21 Gwastraff) o le gwag ym mhob rhanbarth yr ystyrir ei bod yn ddigonol ac y dylid ei chynnal yw 5/7 o flynyddoedd. Er bod yr Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff diweddaraf (ar gyfer cyfnod 2018/19) yn nodi capasiti digonol, os bydd y sefyllfa'n newid yn ystod blynyddoedd dilynol, yna bydd angen ystyried lleoliadau posibl ar gyfer safle tirlenwi newydd a fyddai'n bodloni gofynion y rhanbarth.

11.590 Mae gan y safle tirlenwi olaf sy'n dal i fodoli yn Sir Gaerfyrddin, yn Nant-y-caws, gapasiti ar ôl ond nid yw'n weithredol ar hyn o bryd. Nid yw'n glir a fydd na phryd y bydd y sefyllfa hon yn newid yn ystod cyfnod y Cynllun. O ran gwastraff a gesglir gan yr awdurdod lleol, mae'r elfen weddillol yn cael ei gwaredu ar hyn o bryd mewn safleoedd tirlenwi, a chyfleusterau trin gwastraff eraill, y tu allan i'r Sir (o fewn a'r tu allan i ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru).

11.591 Caiff cynigion ar gyfer safleoedd tirlenwi newydd eu gwerthuso yng nghyd-destun y meini prawf a nodir uchod a chan roi sylw i ystyriaethau cynllunio manwl a nodir yn TAN 21 Gwastraff – Atodiad C. Caiff y cynigion eu hasesu'n ofalus i sicrhau nad yw safleoedd tirlenwi yn peri risg ddifrifol i iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd a defnyddiau cyfagos.

11.592 Lle y bo hynny'n briodol ac yn ymarferol, efallai y bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ymrwymo i Gytundeb A106 i sicrhau bod y cynigion yn cynnwys mesurau i gynhyrchu ynni o nwy tirlenwi lle y gallai methan ddianc i'r atmosffer fel arall. Bydd gwneud yn siŵr bod y broses o adfer ac ôl-ofalu am safle (neu gell) tirlenwi yn cael ei chwblhau i safon y cytunwyd arni gan y Cyngor yn cael ei sicrhau trwy gytundeb A106 hefyd. Rhaid cwblhau'r gwaith tirlunio terfynol erbyn dyddiad terfyn y caniatâd cynllunio.

11.593 Rhaid cyflwyno Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol ar gyfer pob cais sy'n dod o dan Atodlen 1 o'r Rheoliadau Asesu’r Effaith Amgylcheddol a, lle y bo'n briodol, gofynnir am hynny ar gyfer unrhyw ddatblygiad sy'n dod o fewn Atodlen 2.

## WM3: Tir Amaethyddol - Gwaredu Gwastraff Anadweithiol

**Caniateir cynigion ar gyfer dyddodi deunyddiau gwastraff anadweithiol a fewnforiwyd i wella tir amaethyddol o radd isel dim ond dan yr amgylchiadau canlynol:**

- **a) Lle gellir dangos bod y gwelliant a geisir yn rhesymol angenrheidiol at ddibenion amaethyddiaeth o fewn y daliad;**
- **b) Lle mae swm y gwastraff i'w ddodi yn cyfateb â’r lleiafswm y mae ei angen i gyflawni'r gwelliant a geisir;**
- **c) Lle mae trefniadau ar waith i wahanu a gwaredu unrhyw wastraff nad yw'n anadweithiol, neu briddoedd halogedig, a gafwyd mewn camgymeriad;**
- **d) Lle mae maint, trwch a thriniaeth wyneb terfynol y dyddodiad yn gydnaws â'r dirffurf o'i gwmpas.**

11.594 Diben gwaredu gwastraff anadweithiol trwy ei ddodi ar dir fferm a mannau eraill yn y gorffennol, ar sawl achlysur, fu gwaredu gwastraff yn y ffordd rataf bosibl ac osgoi talu treth tirlenwi, yn hytrach na gwella ansawdd tir amaethyddol neu hwyluso datblygiadau angenrheidiol eraill.

11.595 Y prif ddiben y dylai’r cynnig ei ateb yn amlwg yw gwella ansawdd tir yn hytrach na gwaredu gwastraff. Yn hyn o beth, dylai swm y gwastraff i'w ddodi gyfateb â’r lleiafswm sydd ei angen i gyflawni'r gwelliant arfaethedig. Lle nad yw hyn yn wir, bydd y Cyngor yn ystyried y cynnig o dan Bolisi WM1 uchod.

11.596 Yn gyffredinol, daw gwastraff anadweithiol o weithrediadau adeiladu, dymchwel a chloddio a gall gynnwys deunyddiau fel priddoedd, briciau a choncrit. Gellir categoreiddio

defnydd buddiol o'r gwastraff hwn ar gyfer gwella tir amaethyddol, lle bo angen hynny, fel gweithrediad adfer gwastraff. Gellir diffinio adfer gwastraff fel unrhyw weithred y mae ei brif ganlyniad yn golygu sicrhau bod gwastraff yn ateb diben defnyddiol trwy ddisodli deunyddiau eraill a fyddai fel arall wedi cael eu defnyddio i gyflawni swyddogaeth benodol, neu baratoi gwastraff i gyflawni'r swyddogaeth honno, yn y gwaith neu'r economi ehangach.

11.597 Dylai'r ymgeisydd ddangos wrth fodd yr Awdurdod bod y datblygiad gwastraff arfaethedig yn 'weithred adfer'. Bydd yr Awdurdod yn penderfynu  a oes gwir angen am y datblygiad, ynteu a yw'r gweithgaredd mewn gwirionedd yn un ar gyfer 'gwaredu' gwastraff i dir am unrhyw reswm arall. Yr ystyriaeth allweddol ar gyfer 'gweithrediadau adfer' yw y byddai'r datblygiad wedi digwydd beth bynnag, hyd yn oed pe na bai'r gwastraff ar gael. Os nad yw hyn yn wir, yna byddai'r gweithrediad yn cael ei ddosbarthu fel gweithrediad gwaredu.

11.598 Rhaid i'r cynnig ddangos bod swm y gwastraff a gaiff ei ddefnyddio’n cyfateb â’r lleiafswm y mae ei angen ac y byddai unrhyw newidiadau i'r dirffurf o ganlyniad yn gydnaws â’r ardal. Dylai'r datblygiad barchu buddiannau cadwraeth natur ac amwynder y safle a'r ardal gyfagos, gan gynnwys cymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol.

# 12. Monitro a Gweithredu

## Gweithredu

12.1. Wrth weithredu'r CDLl diwygiedig, bydd y Cyngor yn parhau i weithio ar y cyd â phartneriaid mewnol ac allanol, sefydliadau a'r sector preifat i weithredu cynigion datblygu newydd, gan gynnwys cynlluniau cyflogaeth a thai. Mae'r fframwaith monitro yn nodi'r cyrff a'r asiantaethau sy'n debygol o gyfrannu at gyflawni agweddau penodol ar y Cynllun.

12.2. Er mwyn cyflawni datblygiadau newydd, mae bodolaeth seilwaith priodol, gan gynnwys cyflenwad dŵr, carthffosiaeth, draenio tir, nwy, trydan a thelathrebu, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod polisïau a chynigion y Cynllun yn cael eu cyflawni. Mewn rhai achosion, lle mae angen seilwaith newydd neu well ar gyfer datblygiadau newydd, gellir darparu hyn drwy waith a drefnwyd gan gwmnïau cyfleustodau. Lle mae angen gwelliannau seilwaith i ddarparu ar gyfer datblygiadau newydd ond nad ydynt wedi'u rhaglennu i ddigwydd o fewn amserlen y datblygiad, bydd angen i'r darpar ddatblygwyr ddarparu neu feddiannu'r seilwaith sydd ei angen i ganiatáu i'r datblygiad fynd yn ei flaen.

12.3. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn rhoi pwysau sylweddol ar y seilwaith presennol ac nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar ansawdd yr amgylchedd. Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â'r asiantaethau hyn a darparwyr gwasanaeth eraill, cwmnïau cyfleustodau a'r sector preifat, er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth seilwaith angenrheidiol ar yr adeg orau posibl i symud tuag at gyflawni amcanion y Cynllun. Bydd hyn yn sicrhau mesurau priodol i liniaru'r effeithiau andwyol sylweddol y byddai datblygiadau newydd yn eu cael ar yr amgylchedd naturiol. Lle bo angen, bydd Canllawiau Cynllunio Atodol a Briffiau Datblygu yn darparu gwybodaeth fanylach am ofynion seilwaith a chydweithio i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni.

12.4. Bydd amgylchiadau economaidd allanol yn dylanwadu'n fawr ar allu'r sector cyhoeddus a'r sector preifat i gyflawni datblygiadau newydd a gwelliannau cysylltiedig i'r seilwaith. Am y rheswm hwn, mae cyflymdra datblygiadau dros gyfnod y cynllun yn debygol o amrywio.

12.5. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y CDLl hwn a'u strategaethau ac wrth ddatblygu

trefniadau strategol rhanbarthol, ac i ganfod a lleihau effeithiau cyfunol tebygol cynigion y Cynllun hwn.

12.6. Mae'r bennod hon yn cymryd y polisïau strategol a nodir yn y CDLl Diwygiedig hwn ac yn nodi'r mecanweithiau ar gyfer eu gweithredu. Mae'n amlinellu'r partneriaid a'r asiantaethau, yn fewnol ac yn allanol, a fydd yn cyfrannu at eu gweithredu, a lle bo'n briodol bydd yn amlinellu'r offer a ddefnyddir, megis Canllawiau Cynllunio Atodol a Briffiau Datblygu, ac ati.

12.7. Caiff y broses o weithredu'r Cynllun hwn ei monitro'n barhaus a lle bo'n briodol caiff mecanweithiau ychwanegol eu hystyried i sicrhau bod y prosesau gorau ar waith a bod y wybodaeth briodol yn cael ei defnyddio i lywio'r broses o'i weithredu.

## Monitro

12.8. Mae'r adran hon yn amlinellu fframwaith monitro a fydd yn cael ei ddefnyddio yn ddull o fesur gweithrediad polisïau a chynigion y CDLl Diwygiedig. Mae'r fframwaith yn cynnwys cyfres o ddangosyddion perfformiad craidd a lleol sydd â'r nod o fonitro effeithiau a llwyddiant polisïau'r CDLl.

12.9. Bydd y wybodaeth a gesglir drwy'r fframwaith monitro yn cael ei chyflwyno yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol y mae'n ofynnol iddo gwmpasu'r flwyddyn ariannol flaenorol a chael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r CDLl. Yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw'r prif ddull o fesur gweithrediad a llwyddiant polisïau'r Cynllun a bydd yn adrodd ar faterion sy'n effeithio ar amcanion y Cynllun. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol hefyd yn dadansoddi effeithiolrwydd a pherthnasedd parhaus polisïau'r Cynllun yng ngoleuni polisi cenedlaethol a newidiadau amgylchiadol. Gallai canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol arwain at newidiadau i bolisïau er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd ac, mewn achosion mwy eithafol, gallai arwain at adolygu rhan o'r Cynllun neu'r Cynllun cyfan. Bydd yr adroddiad yn nodi canlyniadau'r fframwaith monitro a bydd y data a gesglir, lle bo angen, yn darparu naratif cyd-destunol mewn perthynas â phob canfyddiad.

12.10. Beth bynnag yw canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol, bydd yn ofynnol i'r Cyngor gynnal adolygiad ddim mwy na 4 blynedd o'r dyddiad mabwysiadu. Gallai hyn arwain at lunio Cynllun newydd/diwygiedig neu newid agweddau ar y Cynllun.

12.11. Mae'r Rheoliadau CDLl yn rhagnodi'r dangosydd canlynol sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth ac y mae'n rhaid ei gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol:

- Nifer yr anheddau fforddiadwy ac anheddau marchnad gyffredinol ychwanegol net a adeiladwyd yn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

12.12. Mae Tabl 29 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Rhifyn 3 yn nodi dangosyddion allweddol ychwanegol sy'n berthnasol i'r Cynllun.

12.13. Nodir y dangosyddion hyn sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn y fframwaith monitro. Defnyddir dangosyddion cyd-destunol hefyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i werthuso ai'r Cynllun sydd ddim yn cyflawni'r targedau neu a oes ffactorau allanol (e.e. yr economi neu newidiadau o ran ffynonellau cyllid) sydd y tu allan i reolaeth y system gynllunio ac sy'n dylanwadu ar ganlyniadau'r fframwaith.

12.14. Fel yr adlewyrchir yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, mae Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (Erthygl 17) yn mynnu bod effeithiau amgylcheddol sylweddol y Cynllun yn cael eu monitro er mwyn gallu lliniaru unrhyw effeithiau andwyol annisgwyl. Er mwyn osgoi dyblygu rhwng y gwaith monitro a wnaed ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (gan ymgorffori'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol) a'r CDLl diwygiedig, mae rhai dangosyddion wedi'u cyfuno ar gyfer y ddwy broses er mwyn hwyluso eglurder. Dangosir hyn ym Mhennod 8 o adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

12.15. Mae'r opsiynau canlynol ar gael i'r Cyngor mewn cysylltiad â phob un o'r dangosyddion a'u sbardunau. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn asesu difrifoldeb y sefyllfa sy'n gysylltiedig â phob dangosydd ac yn argymell ymateb priodol.

**Tabl 12: Monitro Canlyniadau**

| **Parhau i Fonitro (Gwyrdd)** |
|---|
| Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes rheswm dros eu hadolygu. |
| **Angen Hyfforddiant ar Swyddogion / Aelodau (Glas)** |
| Lle mae'r dangosyddion sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau'n cael eu gweithredu fel y'u bwriadwyd ac mae angen rhagor o hyfforddiant ar swyddogion neu Aelodau. |
| **Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) / Briffiau Datblygu sydd eu hangen (Porffor)** |

| |
|---|
| Er y bydd y Cyngor yn paratoi CCA a Briffiau Datblygu drwy gydol cyfnod y Cynllun, gall dangosyddion awgrymu y dylid rhoi canllawiau pellach i ddatblygwyr ar sut y dylid dehongli polisi yn gywir. Yn ogystal, os na fydd safleoedd yn cael eu cyflwyno fel y rhagwelwyd, bydd y Cyngor yn ymgysylltu â datblygwyr/tirfeddianwyr i gyflwyno Briffiau Datblygu ar safleoedd allweddol er mwyn helpu i gychwyn y broses ddatblygu. |
| **Ymchwil Polisi / Ymchwiliad (Melyn)** |
| Lle mae'r dangosyddion monitro yn awgrymu nad yw polisïau'r CDLl mor effeithiol â'r bwriad, gwneir rhagor o ymchwil, gan gynnwys y defnydd o ddangosyddion cyd-destunol (fel yr amlinellir uchod) a chymariaethau ag awdurdodau lleol eraill ac ystadegau cenedlaethol lle bo'n briodol, yn sail i unrhyw benderfyniad i adolygu'r polisi'n ffurfiol. |
| **Adolygu Polisi (Oren)** |
| Lle mae'r dangosyddion monitro yn awgrymu y byddai newidiadau i'r CDLl yn fuddiol, bydd y Cyngor yn ystyried addasu'r Cynllun fel y bo'n briodol. Gall hyn arwain at adolygu polisïau'r Cynllun. |
| **Adolygu'r Cynllun (Coch)** |
| Lle mae'r dangosyddion monitro yn awgrymu nad yw'r Cynllun a'i strategaeth yn cael eu gweithredu. Gall ymchwiliad i'r rhesymau dros beidio â'u gweithredu arwain at adolygiad ffurfiol o'r Cynllun. |

| Amcanion y CDLl a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Polisi | Cyfeirnod y Dangosydd: | Dangosydd Monitro | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Polisi Strategol - SP1: Twf Strategol** | | | | | | |
| SO3, SO10<br><br>ISA1, ISA10, ISA15 | SP1<br><br>SP4<br><br>HOM1<br>HOM2<br>HOM3 | MI. 1 | **Dangosydd sy'n ofynnol gan y Ddeddfwriaeth:** Nifer yr anheddau marchnad agored a chartrefi fforddiadwy ychwanegol net a adeiladwyd yn ardal y Cynllun. | Darparu cyfanswm o 8,822 o anheddau yn ystod cyfnod y Cynllun - yn seiliedig ar gyfradd gwblhau flynyddol o 588 o unedau a 126 o unedau fforddiadwy y flwyddyn. | Cyflawni islaw cyfradd adeiladu flynyddol / targed y Cynllun am o leiaf ddwy flynedd yn olynol. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO3, SO12<br><br>ISA10, ISA14 | SP1 | MI. 2 | **Dangosydd Lleol:** Creu swyddi.<br><br>**Monitro er gwybodaeth.** | Dim targed. | Dim sbardun. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO1, SO2, SO3, SO13<br><br>ISA1, ISA2, ISA12, ISA14 | SP1<br><br>SG3 | MI. 3 | **Dangosydd Lleol:** Llunio CCA ar Benrhyn Pen-bre. | Mabwysiadu'r CCA erbyn Rhagfyr 2025. | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Polisi Strategol – SP 2: Adwerthu a Chanol Trefi** | | | | | | |
| SO4<br><br>ISA1, ISA6, ISA14 | SP2 | MI. 4 | **Dangosydd Lleol:** Unedau Adwerthu Gwag mewn eiddo masnachol | Cyfraddau unedau gwag mewn eiddo masnachol o fewn ffin ddiffiniedig canol tref. | Lefelau unedau gwag yn cynyddu | Archwiliad o Adwerthu a Chanol Trefi |
| **Polisi Strategol – SP 3: Dosbarthu Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau** | | | | | | |
| SO6, SO10<br><br>ISA1, ISA10 | SP3<br><br>SP4 | MI. 5 | **Dangosydd Allweddol:** Cyfran y tai a ganiatawyd ar ddyraniadau fesul haen o'r hierarchaeth aneddiadau | Dosbarthiad anheddau i fod yn unol â'r cyfrannau a bennir yn y Cynllun | Gwyriad +/- 10% o'r dosbarthiad disgwyliedig o ddyraniadau o fewn yr haenau am o leiaf ddwy flynedd yn olynol | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Polisi Strategol – SP4: Dull Cynaliadwy o Ddarparu Cartrefi Newydd** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SO10<br><br>ISA10, ISA15 | SP1<br><br>SP4<br><br>HOM1 | MI. 6 | **Dangosydd Allweddol:** Lefel y tai a gwblhawyd (preifat a fforddiadwy) wedi'i monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir (AABR).<br>. | Lefelau cwblhau blynyddol yn unol â'r taflwybr tai. | Lefelau cwblhau blynyddol yn disgyn islaw'r lefelau a nodir yn y taflwybr tai am o leiaf ddwy flynedd yn olynol. | |
| SO10<br><br>ISA10, ISA15 | SP1<br><br>SP4<br><br>HOM1 | MI. 7 | **Dangosydd Allweddol:** Cyfanswm cronnus y tai a gwblhawyd wedi'u monitro yn erbyn y gyfradd cwblhau gronnus a ragwelir. | Cyfanswm cronnus a gwblhawyd yn unol â'r taflwybr tai | Mae'r lefelau cwblhau cronnus yn disgyn islaw'r lefelau a nodir yn y taflwybr tai am o leiaf ddwy flynedd yn olynol. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO6, SO10<br><br>ISA10, ISA15 | SP4<br><br>HOM1 | MI. 8 | **Dangosydd Lleol:** Nifer yr anheddau a gyflawnwyd ar Ddyraniadau Tai. | Darparu 6,824 o anheddau ar safleoedd a ddyrannwyd. | Cyfanswm nifer yr unedau tai newydd a adeiladwyd ar safleoedd a ddyrannwyd sy'n disgyn islaw'r gofyniad blynyddol am 2 flynedd yn olynol. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO6, SO10<br><br>ISA10, ISA15 | SP4<br><br>HOM2 | MI. 9 | **Dangosydd Lleol:** Lwfans Safleoedd bach (llai na 5 uned) – Nifer yr anheddau a gyflawnwyd yn haenau 1 - 3. | Cyrraedd y targed arfaethedig o 1,575 o anheddau ar safleoedd bach | 20% o +/- 105 o anheddau a ganiateir yn flynyddol ar safleoedd bach yn haenau 1 - 3. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO10<br><br>ISA10, ISA15 | SP4 | MI. 10 | **Dangosydd Lleol:** Lwfans Hap-safleoedd – nifer yr anheddau a gyflawnwyd ar hap-safleoedd (ac eithrio lwfans safleoedd bach). | Cyrraedd y targed arfaethedig o 1,305 o anheddau ar hap-safleoedd mawr. | 20% +/- 87 annedd a ganiateir yn flynyddol ar hap-safleoedd (+5). | Cyngor Sir Caerfyrddin |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SO10<br><br>ISA1, ISA10, ISA11, ISA15 | SP4<br><br>HOM3 | MI. 11 | **Dangosydd Lleol:** Cynnydd net yn nifer y tai newydd mewn Pentrefi Gwledig (Haen 4). | Ni ddylai nifer y tai marchnad agored ym mhob Pentref Gwledig fod yn fwy na'r cap o 10% uwchlaw nifer y tai sy'n bodoli eisoes yn yr anheddiad, fel yr oedd ar ddyddiad sylfaen y CDLl. | Mae'r cynnydd net mewn tai marchnad agored mewn Pentref Gwledig yn fwy na'r cap o 10% uwchlaw nifer y tai sy'n bodoli eisoes yn yr anheddiad, fel yr oedd ar ddyddiad sylfaen y CDLl. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO10<br><br>ISA1, ISA10, ISA11, ISA15 | SP4<br><br>HOM3 | MI. 12 | **Dangosydd Lleol:** Llunio CCA ar Dai mewn Pentrefi Gwledig | Mabwysiadu CCA erbyn Hydref/Tachwedd 2024 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | |
| **Polisi Strategol – SP 5: Strategaeth Tai Fforddiadwy** | | | | | | |
| SO10<br><br>ISA6, ISA10, ISA12, ISA15 | SP5<br><br>HOM4<br>AHOM1<br>AHOM2 | MI. 13 | **Dangosydd Allweddol:** Lefel y tai fforddiadwy a gwblhawyd a fonitrwyd yn erbyn targed cyffredinol y cynllun. | Darparu cyfanswm o 1,900 o dai fforddiadwy erbyn 2033.<br><br>Darparu 126 o dai fforddiadwy yn flynyddol. | Mae'r ddarpariaeth yn disgyn islaw cyfradd adeiladu flynyddol / targed y Cynllun am o leiaf ddwy flynedd yn olynol | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO10<br><br>ISA6, ISA10, ISA12, ISA15 | SP5<br><br>HOM4<br>AHOM1<br>AHOM2 | MI. 14 | **Dangosydd Allweddol:** Deiliadaeth tai fforddiadwy a gwblhawyd. | Rhaniad deiliadaeth (rhentu cymdeithasol a chanolradd) yn unol â'r angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. | Heb gyflawni'r rhaniad deiliadaeth a nodwyd dros 2 flynedd yn olynol o leiaf. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO10<br><br>ISA6, ISA10, ISA12, ISA15 | SP5<br><br>AHOM1<br>AHOM2 | MI. 15 | **Dangosydd Allweddol:** Tueddiadau yn y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar amodau a hyfywedd y farchnad, megis prisiau tai, gwerth tir, costau adeiladu. | Mae'r gofynion polisi yn adlewyrchu'r amgylchiadau economaidd presennol a hyfywedd ariannol. | Prisiau tai cyfartalog yn cynyddu neu'n gostwng 5% uwchlaw'r lefelau sylfaen a gafwyd dros 1 flwyddyn. | Priswyr y Cyngor |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SO10<br><br>ISA10, ISA12, ISA15 | SP5<br><br>AHOM1<br>HOM1 | MI. 16 | **Dangosydd Allweddol:** Cyflawni'r polisi tai fforddiadwy - trothwyon a thargedau canran ar gyfer pob safle tai a ddyrennir sydd wedi cael caniatâd. | Dylai cyfran y tai fforddiadwy a ganiateir ar ddyraniadau preswyl fod yn unol â Pholisi AHOM1. | Cyfran y tai fforddiadwy a ganiateir ar ddyraniadau preswyl nad ydynt yn unol â Pholisi AHOM1. | Cyngor Sir Caerfyrddin. |
| SO10<br><br>ISA6, ISA10, ISA12, ISA15 | SP4<br><br>AHOM1<br>AHOM2 | MI. 17 | **Dangosydd Lleol:** Llunio CCA ar Dai Fforddiadwy. | Mabwysiadu CCA erbyn Hydref/Tachwedd 2024 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | |
| **Polisi Strategol – SP 6: Safleoedd Strategol** | | | | | | |
| SO3, SO12<br><br>ISA12, ISA13, ISA14 | SP4<br><br>SP6<br><br>SP7 | MI. 18 | **Dangosydd Allweddol:** Pentre Awel – Darparu elfen dai'r safle.<br><br>Cyflawni elfen amhreswyl y safle. | Lefelau cwblhau blynyddol yn unol â'r taflwybr tai.<br><br>Rhoi caniatâd ar gyfer y rhan o'r safle nad yw ar gyfer tai yn ystod cyfnod y Cynllun. | Lefelau cwblhau blynyddol yn disgyn islaw'r lefelau a nodir yn y taflwybr tai.<br><br>Ni chafwyd caniatâd ar gyfer yr elfen amhreswyl cyn yr adolygiad cyntaf o'r Cynllun. | Cyngor Sir Caerfyrddin<br><br>Y Fargen Ddinesig |
| SO3, SO12<br><br>ISA11, ISA12, ISA13, ISA14 | SP6<br><br>SP7 | MI. 19 | **Dangosydd Allweddol:** Cyflawni datblygiad Yr Egin. | Rhoi caniatâd i'r safle yn ystod cyfnod y Cynllun. | Ni chafwyd caniatâd cyn yr adolygiad cyntaf o'r Cynllun. | Cyngor Sir Caerfyrddin<br><br>Y Fargen Ddinesig |
| **Polisi Strategol – SP 7: Cyflogaeth a'r Economi** | | | | | | |
| SO3, SO12<br><br>ISA10, ISA14 | SP1<br><br>SP6<br><br>SP7<br><br>SG1 | MI. 20 | **Dangosydd Allweddol:** Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau cyflogaeth. | Tir cyflogaeth a ganiatawyd (ha) ar safleoedd cyflogaeth a ddyrennir. | Dim caniatâd ar ddyraniadau tir cyflogaeth am o leiaf ddwy flynedd yn olynol | Cyngor Sir Caerfyrddin |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SO3, SO12<br><br>ISA10, ISA13, ISA14 | SP1<br><br>SP6<br><br>SP7<br><br>SG1 | MI. 21 | **Dangosydd Allweddol:**<br>Twf swyddi | Twf swyddi Dosbarth Defnydd B yn unol â'r strategaeth. | Dim caniatâd i ddatblygiadau sy'n creu swyddi Dosbarth Defnydd B mewn blwyddyn. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO3, SO12<br><br>ISA10, ISA14 | EME1 | MI. 22 | **Dangosydd Lleol:**<br>Tir cyflogaeth a gollir i ddefnyddiau tir eraill (yn cynnwys safleoedd cyflogaeth arfaethedig a/neu safleoedd presennol a nodwyd) | Dim colled i ddefnyddiau eraill oni bai y gellir cyfiawnhau hynny drwy bolisi'r CDLl. | Caniatâd a roddir ar gyfer defnydd heblaw am gyflogaeth nad yw'n unol â pholisi'r CDLl. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO3, SO12<br><br>ISA14 | EME4 | MI. 23 | **Dangosydd Lleol:**<br>Caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth y tu allan i safleoedd cyflogaeth arfaethedig neu safleoedd presennol a nodwyd, lle mae'n groes i ddarpariaethau Polisi EME4. | Sicrhau bod defnydd cyflogaeth y tu allan i safleoedd cyflogaeth arfaethedig a/neu safleoedd presennol a nodwyd yn unol â Pholisi EME4. | Caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth ar dir y tu allan i safleoedd cyflogaeth arfaethedig a/neu safleoedd presennol a nodwyd lle mae'n groes i Bolisi EME4. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Polisi Strategol – SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru** | | | | | | |
| SO11<br><br>ISA1, ISA11 | SP8<br><br>WL1 | MI. 24 | **Dangosydd Lleol:**<br>Llunio CCA ar y Gymraeg a datblygiadau newydd. | Mabwysiadu CCA erbyn Hydref/Tachwedd 2024 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO11<br><br>ISA11 | SP8<br><br>WL1 | MI. 25 | **Dangosydd Lleol:**<br>Ceisiadau cynllunio sy'n cael eu cefnogi gan Gynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg neu Asesiadau o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Ceisiadau cynllunio sy'n cael eu cefnogi gan ddogfennau perthnasol yn unol â Pholisi WL1. | Ceisiadau cynllunio nad ydynt yn cael eu cefnogi gan ddogfennau perthnasol yn unol â Pholisi WL1. | Cyngor Sir Caerfyrddin |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SO11<br><br>ISA11, ISA15 | SP8<br><br>WL1 | MI. 26 | **Dangosydd Lleol:**<br>% y siaradwyr Cymraeg yn y Sir | Cynyddu'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn y Sir. | Dim sbardun. Monitro ar gyfer gwybodaeth gyd-destunol. | Cyfrifiad Cyngor Sir Caerfyrddin<br>Swyddfa Ystadegau Gwladol<br>Data Llywodraeth Cymru |
| **Polisi Strategol – SP 9: Seilwaith** | | | | | | |
| SO1, SO2, SO14<br><br>ISA1, ISA2, ISA5 | SP9<br><br>INF4 | MI. 27 | **Dangosydd Allweddol:**<br>Cyflawni seilwaith allweddol sy'n sail i strategaeth y cynllun. | Monitro datblygiad seilwaith newydd, megis gwelliannau i ffyrdd a rheilffyrdd, cyfleustodau, a gwelliannau bioamrywiaeth. | Dim sbardun. Monitro ar gyfer gwybodaeth gyd-destunol. Cyfeirio at ddangosyddion eraill o fewn y fframwaith hwn. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO1, SO14<br><br>ISA1, ISA2, ISA5 | SP9<br><br>INF4 | MI. 28 | **Dangosydd Lleol:**<br>Llunio CCA ar Gilfach Tywyn. | Mabwysiadu CCA erbyn Hydref/Tachwedd 2024 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO14<br><br>ISA1 | SP7<br><br>INF1 | MI. 29 | **Dangosydd Lleol:**<br>Llunio CCA ar Rwymedigaethau Cynllunio. | Mabwysiadu CCA erbyn Hydref/Tachwedd 2024 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO2, SO14<br><br>ISA1, ISA12 | SP7<br><br>INF2 | MI. 30 | **Dangosydd Lleol:**<br>Llunio CCA ar Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd | Mabwysiadu CCA erbyn Haf 2025 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Polisi Strategol – SP 10: Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr** | | | | | | |
| SO10<br><br>ISA10, ISA15 | SP10<br><br>GTP1 | MI. 31 | **Dangosydd Allweddol:**<br>Safleoedd / lleiniau Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd a ddyrennir | Darparu'r lleiniau gofynnol a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. I'w gyflawni yn unol â'r angen a nodwyd. | Ni sicrhawyd caniatâd cynllunio ar safle a ddyrannwyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SO10<br><br>ISA10, ISA15 | SP10<br><br>GTP1 | MI. 32 | **Dangosydd Lleol:** Safleoedd / lleiniau Sipsiwn a Theithwyr a adeiladwyd ar safleoedd nas dyrannwyd | Dim targed | Rhoi unrhyw ganiatâd cynllunio a/neu safle i deithwyr. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO10<br><br>ISA10, ISA15 | SP10<br><br>GTP1 | MI. 33 | **Dangosydd Lleol:** Yr angen am safleoedd tramwy Sipsiwn a Theithwyr | Ni chofnodwyd unrhyw safle Sipsiwn a Theithwyr anawdurdodedig mewn un anheddiad am 3 blynedd yn olynol | Cofnodwyd 1 safle Sipsiwn a Theithwyr anawdurdodedig mewn un anheddiad am 3 blynedd yn olynol | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Polisi Strategol – SP 11: Yr Economi Ymwelwyr** | | | | | | |
| SO13<br><br>ISA1, ISA14 | SP11<br><br>VE1<br>VE2<br>VE3<br>VE4 | MI. 34 | **Dangosydd Lleol:** Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn Sir Gaerfyrddin | Dim targed | Dim sbardun. Monitro ar gyfer gwybodaeth gyd-destunol | Adroddiad STEAM a baratowyd gan GTS UK (Adroddiad Blynyddol Marchnata a'r Cyfryngau Cyngor Sir Caerfyrddin) |
| SO13<br><br>ISA1, ISA14 | SP11<br><br>VE1<br>VE2<br>VE3<br>VE4 | MI. 35 | **Dangosydd Lleol:** Llunio CCA ar Wersylla Moethus Amgen | Mabwysiadu CCA erbyn Hydref/Tachwedd 2024 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd | |
| **Polisi Strategol – SP 12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy** | | | | | | |
| SO9<br><br>ISA1, ISA8, ISA9, ISA12, ISA15 | SP12 | MI. 36 | **Dangosydd Lleol:** Llunio CCA ar Greu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy | Mabwysiadu CCA erbyn Hydref/Tachwedd 2024 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd | |
| SO9, SO11<br><br>ISA1, ISA11 | SP12<br><br>PSD9 | MI. 37 | **Dangosydd Lleol:** Llunio CCA ar hysbysebion (canllawiau ar ofynion dwyieithog) | Mabwysiadu CCA erbyn Haf 2025 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SO1, SO2, SO7, SO9<br><br>ISA1, ISA2, ISA3, ISA4, ISA5, ISA6, ISA7, ISA8, ISA9, ISA12, ISA15 | SP12<br><br>PSD3 PSD4 | MI. 38 | **Dangosydd Lleol:** Darparu Seilwaith Gwyrdd a Glas yn y Sir. | Dim targed | Dim sbardun. Monitro at ddibenion gwybodaeth. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| ISA1, ISA2, ISA3, ISA4, ISA5, ISA6, ISA7, ISA8, ISA9, ISA12, ISA15 | SP12<br><br>PSD3 PSD4 | MI. 39 | **Dangosydd Lleol:** Llunio CCA ar Rwydweithiau a Datblygu Seilwaith Gwyrdd a Glas | Mabwysiadu CCA erbyn Haf 2025 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd | |
| SO2, SO4<br><br>ISA1, ISA9, ISA12, ISA15 | SP12<br><br>PSD7 | MI. 40 | **Dangosydd Lleol:** Maint y mannau agored a nodwyd ac a gollwyd oherwydd datblygiadau. | Ni ddylid colli unrhyw fannau agored a nodwyd oherwydd datblygiadau ac eithrio lle mae hynny'n unol â Pholisi PSD7 | Mae mannau agored a nodwyd yn cael eu colli yn groes i ddarpariaethau Polisi PSD7. | |
| SO1 | SP12<br><br>PSD12 | MI. 41 | **Dangosydd Lleol:** Llunio CCA ar Lygredd Golau | Mabwysiadu erbyn Rhagfyr 2025 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd | |
| **Polisi Strategol – SP 13: Datblygu Gwledig** | | | | | | |
| SO5<br><br>ISA1, ISA8 | SP13<br><br>RD4 | MI. 42 | **Dangosydd Lleol:** Llunio CCA ar addasu ac ailddefnyddio adeiladau gwledig at ddefnydd preswyl | Mabwysiadu CCA erbyn Hydref/Tachwedd 2024 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd | |
| **Polisi Strategol – SP 14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SO1, SO9<br><br>ISA1, ISA2 | SP14<br><br>NE4 | MI. 43 | **Dangosydd Lleol:**<br>Parhau i weithio tuag at sicrhau o leiaf 100 ha o gynefin addas ar gyfer Britheg y Gors ym mhrosiect CCA Caeau'r Mynydd Mawr. | Cynnydd ym mhob cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol yn arwynebedd y cynefin a reolir mewn cyflwr addas | Dim cynnydd yn arwynebedd y cynefin a reolir mewn cyflwr addas am 4 cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol yn olynol. | Grŵp Llywio Prosiect Caeau'r Mynydd Mawr.<br><br>Cyngor Sir Caerfyrddin - System Rheoli Gwella Perfformiad (PIMS). |
| SO1, SO9<br><br>ISA1, ISA2 | SP14<br><br>NE4 | MI. 44 | **Dangosydd Lleol:**<br>Llunio CCA ar Gaeau'r Mynydd Mawr. | Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol erbyn Hydref / Tachwedd 2024 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO1, SO9<br><br>ISA1, ISA2, ISA9 | SP14<br><br>PSD4 | MI. 45 | **Dangosydd Lleol:**<br>Llunio CCA ar goed a phlannu fel rhan o ddatblygiadau newydd. | Mabwysiadu CCA erbyn Haf 2025. | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO1, SO9<br><br>ISA1, ISA2 | SP14<br><br>NE1 | MI. 464 | **Dangosydd Lleol:**<br>Llunio CCA ar Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC). | Mabwysiadu CCA erbyn Hydref/Tachwedd 2024 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO1, SO9<br><br>ISA1, ISA2 | SP14<br><br>NE2 | MI. 47 | **Dangosydd Lleol:**<br>Llunio CCA ar Gadwraeth Natur a Bioamrywiaeth. | Mabwysiadu CCA erbyn Hydref/Tachwedd 2024 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO1, SO9<br><br>ISA1, ISA2 | SP14<br><br>BHE2 | MI. 48 | **Dangosydd Lleol:**<br>Llunio CCA ar Gymeriad y Dirwedd. | Mabwysiadu CCA erbyn Haf 2025. | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Polisi Strategol – SP 15: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol** | | | | | | |
| SO5<br><br>ISA1, ISA8 | SP15 | MI. 49 | **Dangosydd Lleol:**<br>Llunio CCA ar Archaeoleg | Mabwysiadu CCA erbyn Hydref/Tachwedd 2024 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SO5<br><br>ISA1, ISA8 | SP15 | MI. 50 | **Dangosydd Lleol:** Llunio CCA ar yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol | Mabwysiadu'r CCA erbyn Rhagfyr 2025 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Polisi Strategol – SP 16: Newid yn yr Hinsawdd** | | | | | | |
| SO7<br><br>ISA1, ISA4 | SP16<br><br>CCH5 | MI. 51 | **Dangosydd Allweddol:** Faint o ddatblygiadau agored iawn i ddifrod (yn ôl TAN15 paragraff 5.1 - categori datblygu) a ganiateir mewn parthau perygl llifogydd C2 nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN15 (paragraff 6.2 i-v). | Dim ceisiadau wedi'u caniatáu ar gyfer datblygiad agored iawn i ddifrod mewn parth perygl llifogydd C1 a C2 yn groes i gyngor CNC. | 1 cais wedi'i ganiatáu ar gyfer datblygiad agored iawn i ddifrod mewn parth perygl llifogydd C2 yn groes i gyngor CNC. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO7<br><br>ISA1, ISA4 | SP16<br><br>CCH1 | MI. 52 | **Dangosydd Lleol:** Llunio CCA ar Ynni Adnewyddadwy. | Mabwysiadu'r CCA erbyn Rhagfyr 2025 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | |
| SO7<br><br>ISA1, ISA4 | SP16<br><br>CCH1 | MI. 53 | **Dangosydd Lleol:** Cynyddu faint o ynni a gwres a gynhyrchir yn y Sir o ffynonellau adnewyddadwy. | Cynnydd blynyddol yn y capasiti a ganiateir o ran ynni a gwres adnewyddadwy a ganiateir. | Dim ceisiadau cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy wedi'u caniatáu mewn un flwyddyn. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| SO1<br><br>ISA1, ISA2, ISA5, ISA7 | SP16 | MI. 54 | **Dangosydd Lleol:** Llunio CCA ar Ansawdd Dŵr – Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol Gwarchodedig | Mabwysiadu CCA erbyn Hydref/Tachwedd 2024 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | |
| SO7, SO8<br><br>ISA1, ISA4, ISA14 | SP16<br><br>CCH3 | MI. 55 | **Dangosydd Lleol:** Llunio CCA ar Gerbydau Trydan a Cherbydau Allyriadau Isel Iawn mewn Datblygiadau | Mabwysiadu CCA erbyn Haf 2025 | Methu â symud ymlaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. | |
| **Polisi Strategol – SP 17: Trafnidiaeth a Hygyrchedd** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SO8<br><br>ISA6 | TRA1 | MI. 56 | **Dangosydd Lleol:** Cynnydd tuag at weithredu'r cynllun ffyrdd a nodwyd | Gweithredu yn unol â'r amserlenni cyflawni | Nid yw'r cynllun ffyrdd a nodwyd wedi'i gyflawni yn unol â'r amserlenni cyflawni | Awdurdod Priffyrdd Lleol |
| SO7, SO8<br><br>ISA4, ISA6, ISA12, ISA15 | SP17<br><br>TRA2 | MI. 57 | **Dangosydd Lleol:** Faint o seilwaith cerdded a beicio wedi cael caniatâd cynllunio. | Cynnydd yn nifer y cynlluniau a ganiateir. | Dim sbardun. Monitro ar gyfer gwybodaeth gyd-destunol | Awdurdod Priffyrdd Lleol<br><br>Awdurdod Cynllunio Lleol |
| SO8<br><br>ISA6 | TRA1 | MI. 58 | **Dangosydd Lleol:** Gweithredu Cynlluniau Ffyrdd Llywodraeth Cymru – gan gynnwys Ffordd Osgoi Llandeilo<br><br>Monitro er gwybodaeth | Dim targed | Dim sbardun. Monitro ar gyfer gwybodaeth gyd-destunol | Llywodraeth Cymru |
| **Polisi Strategol – SP 18: Adnoddau Mwynol** | | | | | | |
| SO7<br><br>ISA6 | SP18<br><br>MR1 | MI. 59 | **Dangosydd Lleol:** Faint o fanc tir craig galed sydd | Cadw banc tir o 10 mlynedd o leiaf ar gyfer craig galed | Llai na 10 mlynedd o fanc tir craig galed. | Gweithredwyr<br><br>Polisi a Chanllawiau Cynllunio<br><br>Polisïau'r CDLl<br><br>Rheoli datblygu a'r broses o wneud penderfyniadau. |
| SO7<br><br>ISA6 | SP18<br><br>MR1 | MI. 60 | **Dangosydd Lleol:** Faint o fanc tir tywod a graean sydd | Cadw banc tir o 7 mlynedd o leiaf ar gyfer tywod a graean. | Llai na 7 mlynedd o fanc tir tywod a graean. | Gweithredwyr<br><br>Polisi a Chanllawiau Cynllunio<br><br>Polisïau'r CDLl<br><br>Rheoli datblygu a'r broses o wneud penderfyniadau. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SO7<br><br>ISA6 | MR2 | MI. 61 | **Dangosydd Lleol:** Datblygiadau sterileiddio a ganiateir o fewn clustogfeydd mwynau. | Dim datblygiadau sterileiddio parhaol o fewn clustogfeydd mwynau. | Caniateir 5 datblygiad sterileiddio parhaol o fewn clustogfeydd mwynau yn groes i'r Polisi dros 3 blynedd yn olynol. | Polisi a Chanllawiau Cynllunio<br><br>Polisïau'r CDLl<br><br>Rheoli datblygu a'r broses o wneud penderfyniadau. |
| SO7<br><br>ISA6 | MR3 | MI. 62 | **Dangosydd Lleol:** Datblygiadau sterileiddio a ganiateir o fewn ardaloedd diogelu mwynau. | Ni chaniateir datblygiadau sterileiddio parhaol o fewn ardal diogelu mwynau. | Caniateir 5 datblygiad sterileiddio parhaol o fewn ardal diogelu mwynau dros 3 blynedd yn olynol. | Polisi a Chanllawiau Cynllunio<br><br>Polisïau'r CDLl<br><br>Rheoli datblygu a'r broses o wneud penderfyniadau. |
| **Polisi Strategol – SP 19: Rheoli Gwastraff** | | | | | | |
| SO7<br><br>ISA6 | SP19 | MI. 63 | **Dangosydd Lleol:** Monitro achosion o ganiatâd cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff | Cynnal digon o gapasiti i ddiwallu anghenion lleol | Gwybodaeth a nodir yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol - Cynllunio Gwastraff Canolbarth a De-orllewin Cymru | Polisi a Chanllawiau Cynllunio<br><br>Polisïau'r CDLl<br><br>Rheoli datblygu a'r broses o wneud penderfyniadau |

# 13. Geirfa

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadu** | Cadarnhad terfynol yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) o'r cynllun datblygu fel ei bolisi cynllunio defnydd tir. |
| **Cynllun Mabwysiedig** | Dyma gam olaf y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol - lle daw'r Cynllun Datblygu Lleol yn Gynllun Datblygu statudol, at ddibenion y Ddeddf. |
| **Tai fforddiadwy** | Tai a ddarperir i'r rheiny nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu gan y farchnad agored. Dylai tai fforddiadwy:<br>• fodloni anghenion aelwydydd cymwys, gan gynnwys eu bod ar gael ar gost ddigon isel iddynt allu eu fforddio, ac a bennir gan ystyried incwm lleol a phrisiau tai lleol; ac<br>• yn cynnwys darpariaeth i wneud i'r cartref aros yn fforddiadwy ar gyfer aelwydydd cymwys yn y dyfodol, neu os yw cartref yn peidio â bod yn fforddiadwy neu fod y perchnogion yn cynyddu cyfran eu perchentyaeth fel eu bod yn berchen ar y cartref yn llawn, yn gyffredinol dylid ailddefnyddio unrhyw gymhorthdal i ddarparu tai fforddiadwy eraill.<br>Caiff hyn ei rannu'n ddau is-gategori:<br>• tai rhent cymdeithasol - a ddarperir gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lle mae lefelau rhent yn ystyried rhenti canllaw a rhenti meincnod y Llywodraeth; a<br>• tai canolradd - lle mae'r prisiau neu'r rhenti yn uwch na'r rheiny ar gyfer tai rhent cymdeithasol ond islaw prisiau neu renti tai ar y farchnad. Gall hyn gynnwys cynlluniau rhannu ecwiti (er enghraifft Cymorth Prynu). Mae tai canolradd yn wahanol i dai cost isel y farchnad, nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried eu bod yn dai fforddiadwy at ddibenion y system cynllunio defnydd tir. (TAN 2: Geirfa). |
| **Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA)** | Lleoliadau a nodwyd lle mae'r Cyngor yn credu nad yw'n debygol y bydd amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn cael eu cyflawni a lle mae angen gwelliannau.<br>Mae'r Cyngor dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgan drwy orchymyn safleoedd o'r fath fel Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. |
| **Meysydd Gwersylla Moethus Amgen** | Dull moethus o wersylla heb fod yn barhaol. |
| **Amwynder** | Elfen gadarnhaol neu elfennau sy'n cyfrannu at gymeriad cyffredinol ardal neu'r mwynhad a geir ohoni. Er enghraifft, tir agored, coed, adeiladau hanesyddol a'r gydberthynas rhyngddynt, neu ffactorau llai diriaethol megis llonyddwch. |
| **Treulio Anerobig** | Prosesau lle mae bacteria yn torri deunydd organig i lawr yn niffyg aer, gan gynhyrchu bio-nwy. |
| **Coetir Hynafol** | Tir y bu gorchudd coetir parhaus arno ers i fapiau cywir gael eu cynhyrchu am y tro cyntaf. |

| | |
|---|---|
| **Ategol** | Lle mae'r defnydd o dir neu adeiladau yn wahanol i'r defnydd sylfaenol ac yn llai pwysig ac yn cael ei ganiatáu oherwydd eu cysylltiad â'r prif ddefnydd. |
| **Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB)** | Bydd hyn yn asesu i ba raddau y mae polisïau yn y cynllun datblygu lleol yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus (Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005). |
| **Llinell Sylfaen/Llinell Sylfaen Cyn Newid** | Disgrifiad o gyflwr presennol ardal y dylid mesur newid yn ei erbyn. |
| **Bioamrywiaeth** | Yr amrywioldeb ymhlith organebau byw o bob ffynhonnell gan gynnwys anifeiliaid, planhigion, adar, pryfed a physgod, a'r cynefinoedd y maent yn rhan ohonynt. |
| **Tir llwyd** | Gweler y diffiniad ar gyfer Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen |
| **Safle Ymgeisio** | Safleoedd Ymgeisio yw'r rheiny a enwebir gan unrhyw un i'w hystyried gan yr ACLl fel dyraniadau mewn CDLl sy'n datblygu. |
| **Cofrestr Safleoedd Ymgeisio** | Cofrestr o safleoedd ymgeisio a baratowyd yn dilyn galwad gan yr ACLl am safleoedd ymgeisio. |
| **Cymeriad** | Term sy'n ymwneud ag Ardaloedd Cadwraeth neu Adeiladau Rhestredig, ond hefyd ag ymddangosiad unrhyw leoliad trefol neu wledig o ran ei dirwedd, ei drefwedd neu gynllun strydoedd a mannau agored, yn aml gan roi i leoedd eu hunaniaeth unigryw eu hunain. |
| **Dinas-ranbarth** | Gweler Dinas-ranbarth Bae Abertawe. |
| **Newid yn yr Hinsawdd** | Newidiadau hirdymor mewn tymheredd, dyodiad, gwynt a phob agwedd arall ar hinsawdd y ddaear. Yn aml ystyrir eu bod o ganlyniad i weithgarwch dynol a'r defnydd o danwydd ffosil. |
| **Cyfuno** | Uno neu gyfuno dau anheddiad ar wahân, neu gyfuno gwahanol rannau o anheddiad. |
| **Ymrwymiadau** | Tir heb ei ddatblygu sydd â chaniatâd cynllunio cyfredol neu dir sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. |
| **Cymuned** | Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, neu sy'n rhannu buddiannau eraill ac sydd felly'n ffurfio cymunedau o fuddiant. |
| **Yr Ardoll Seilwaith Cymunedol** | Tâl cynllunio yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 fel modd i awdurdodau cynllunio lleol helpu i ddarparu seilwaith i gefnogi datblygiad eu hardal. Daeth i rym ar 6 Ebrill 2010 trwy Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010. Tâl y gall awdurdodau lleol ei godi ar ddatblygiadau newydd yn eu hardal i ariannu seilwaith strategol i gefnogi'r datblygiad. |
| **Cynllun Cynnwys Cymunedau** | Mae'n nodi cynllun a pholisïau prosiect yr ACLl ar gyfer cynnwys cymunedau lleol, gan gynnwys busnesau, wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol. Cyflwynir y Cynllun Cynnwys Cymunedau i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni i gytuno arno. |
| **Swm Cyfnewid** | Symiau yw'r arian a dderbynnir gan ddatblygwyr ac a glustnodwyd i'w ddefnyddio, ar gyfer datblygu neu i wneud gwaith cynnal a chadw ar/oddi ar y safle. Er enghraifft, darparu seilwaith, darparu a chynnal a chadw mannau agored, ac ati. |
| **Cwblhau** | Caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sydd wedi'i adeiladu neu sydd bellach yn cael ei ddefnyddio'n weithredol. |

| | |
|---|---|
| **Adeiladu Consenswss** | Proses o gynnal deialog gynnar gyda grwpiau buddiant a dargedir er mwyn deall safbwyntiau perthnasol a chytuno ar gamau gweithredu. |
| **Ardal Gadwraeth** | Ardal a ddynodwyd gan yr ACLl o dan ddeddfwriaeth sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y dymunir cadw neu wella ei chymeriad neu ei hymddangosiad. |
| **Ymgynghori** | Proses ffurfiol lle gwahoddir sylwadau ar bwnc penodol neu gyfres o bynciau, neu ddogfen ddrafft. |
| **Tir Halogedig** | Yn ôl y diffiniad yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Adran 78A(2): 'Unrhyw dir y mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol lle mae wedi'i leoli ei fod yn y fath gyflwr, oherwydd sylweddau yn y tir, ar y tir neu o dan y tir, fod niwed sylweddol yn cael ei achosi neu fod posibilrwydd sylweddol y bydd niwed o'r fath yn cael ei achosi; neu fod dyfroedd rheoledig yn cael eu llygru neu'n debygol o gael eu llygru. |
| **Dangosydd Cyd-destunol** | Dangosydd a ddefnyddir i fonitro newidiadau yn y cyd-destun y caiff y cynllun ei weithredu neu ei baratoi ynddo. |
| **Dyfroedd Rheoledig** | Mae'n cynnwys afonydd, llynnoedd, pyllau, nentydd, camlesi, dyfroedd arfordirol, aberoedd a dŵr daear. |
| **Cefn Gwlad** | Tir sydd y tu allan i'r aneddiadau diffiniedig, fel y'i nodir ar y Map Cynigion, ac mae'n cynnwys grwpiau bach o anheddau sydd wedi'u gwasgaru ar draws y Sir. |
| **Aneddiadau Diffiniedig** | Yr aneddiadau hynny a nodwyd ym Mholisi Strategol SP3: Dosbarthu Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau. |
| **Cytundeb Cyflawni** | Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr ACLl ar gyfer paratoi'r CDLl ynghyd â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru er mwyn cytuno arni. |
| **Dwysedd** | Yn achos datblygiad preswyl, mesuriad naill ai o nifer yr ystafelloedd y gellid byw ynddynt fesul hectar (neu erw) neu nifer yr anheddau fesul hectar (neu erw). |
| **Adneuo** | Y term a ddefnyddir ar gyfer y broses o gyhoeddi polisïau manwl y Cynllun a'r cynigion ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd. Gosod y Cynllun "ar adnau". |
| **Dogfennau Adneuo** | Mae'r rhain yn cynnwys y CDLl adneuo, neu'r CDLl adneuo diwygiedig, yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, yr adroddiad ymgynghori cychwynnol, y gofrestr safleoedd ymgeisio, yr Adroddiad Adolygu (os yn briodol), ac unrhyw ddogfennau ategol perthnasol. |
| **Datganiad Dylunio a Mynediad** | Mae'r gofyniad i gael Datganiad Dylunio a Mynediad a chynnwys dogfennau o'r fath yn ffurfio rhan o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016. Mae Datganiadau Dylunio a Mynediad yn cyd-fynd â rhai ceisiadau a rhaid iddynt, ymhlith pethau eraill, esbonio'r egwyddorion a'r cysyniadau dylunio a gymhwyswyd i'r datblygiad, dangos y camau a gymerwyd i arfarnu cyd-destun y datblygiad a sut y mae dyluniad y datblygiad yn rhoi ystyriaeth i'r cyd-destun hwnnw, yn esbonio'r polisi neu'r dull a fabwysiadwyd o ran mynediad a sut y caiff polisïau sy'n ymwneud â mynediad yn y cynllun datblygu eu hystyried, ac egluro sut yr aethpwyd i'r afael â materion penodol a allai effeithio ar fynediad i'r datblygiad. |
| **Terfynau Datblygu** | Llinell a dynnir er mwyn diffinio ardal anheddiad lle mae datblygu'n dderbyniol mewn egwyddor, yn amodol ar roi |

| | |
|---|---|
| | ystyriaeth fanwl i'r amgylchedd, amwynder, mynediad, darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ac ystyriaethau eraill. Ystyrir ardaloedd y tu allan i'r terfynau fel cefn gwlad agored. |
| **Uniongyrchol Gysylltiedig** | Safleoedd sy'n gysylltiedig yn ffisegol, yn swyddogaethol ac yn weledol ag anheddiad a ddiffinnir ym Mholisi Strategol SP3. |
| **Gwytnwch Ecosystemau** | Gallu ecosystemau i ymdopi â phwysau, aflonyddwch a newid – naill ai trwy wrthsefyll, adfer neu addasu. Mae cyflawni gwytnwch ecosystemau yn ymwneud â gweithio ar raddfeydd mwy, hyrwyddo cysylltiadau swyddogaethol rhwng mannau naturiol, sicrhau bod ganddynt amrywiaeth naturiol uchel, eu bod mewn cyflwr da ac yn cynyddu mewn maint. Mae bioamrywiaeth yn elfen sylfaenol hanfodol o bob ecosystem wydn. Mae gan bob ecosystem weithredol a gwydn fioamrywiaeth nodweddiadol sy'n iach ac sy'n fynych yn gyfoethog. |
| **Tir Cyflogaeth** | Tir a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth gan un neu fwy o'r canlynol: swyddfeydd, gweithgynhyrchu, ymchwil a datblygu, storio a dosbarthu (gweler hefyd Dosbarthiadau Defnydd). |
| **Ymgysylltu** | Proses sy'n annog ystyriaeth sylweddol mewn cymuned. Ymgais ragweithiol i gynnwys unrhyw grŵp penodol o bobl/rhan o'r gymuned. |
| **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)** | Gwerthuso canlyniadau amgylcheddol tebygol datblygiad ac ystyried sut y gellid lleihau difrifoldeb yr effeithiau. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad, sy'n aml yn gynlluniau mwy o faint, gyflwyno Datganiad Amgylcheddol i gyd-fynd â chais cynllunio, er mwyn nodi canfyddiadau'r broses Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol fel y gellir penderfynu a ddylid rhoi caniatâd ar sail fwy gwybodus. |
| **Sylfaen Dystiolaeth** | Dehongli gwybodaeth sylfaenol neu wybodaeth/data arall i ddarparu'r sail ar gyfer polisi'r cynllun. |
| **Afonol** | Yn ymwneud â chwrs dŵr megis afon, ffrwd neu nant. |
| **Llifogydd Afonol** | Llifogydd o afonydd. |
| **Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040** | Cafodd ei baratoi gan Lywodraeth Cymru o dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae Cymru'r Dyfodol yn amlinellu fframwaith defnydd tir 20 mlynedd i Gymru ac mae'n cymryd lle Cynllun Gofodol Cymru. |
| **Geoamrywiaeth** | Yr amrywiaeth o ddeunyddiau, ffurfiau a phrosesau sy'n ffurfio ac yn siapio'r Ddaear. Mae'n cynnwys daeareg, creigiau a'u proses o newid a geomorffoleg, tirffurfiau a thopograffeg. |
| **Daearegol** | Yn ymwneud â strwythur a sylwedd ffisegol y ddaear. |
| **Geomorffolegol** | Nodweddion ffurf neu arwyneb y ddaear |
| **Seilwaith Gwyrdd a Glas (SGG)** | Y rhwydwaith o ofod gwyrdd aml-swyddogaethol, sy'n cwmpasu tir a dŵr (gofod glas). Mae ardaloedd Seilwaith Gwyrdd a Glas yn cynnwys nodweddion presennol a rhai newydd (wedi'u creu) mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd. Mae rhwydwaith y Seilwaith Gwyrdd a Glas yn darparu amrywiaeth eang o Wasanaethau Ecosystem gan gynnwys manteision amgylcheddol ac ansawdd bywyd i gymunedau lleol. |
| **Datganiad Seilwaith Gwyrdd** | Gofyniad ar gyfer cais cynllunio am unrhyw ddatblygiad mawr sy'n dangos sut mae datrysiadau cynllunio SGG wedi cael eu hystyried a'u cynnwys yn rhan o'r datblygiad arfaethedig. |
| **Safle maes glas** | Tir na adeiladwyd arno erioed. |

| | |
|---|---|
| **Dŵr daear** | Dŵr sydd wedi treiddio i mewn i'r strata tanddaearol, gan gynnwys priddoedd, a gall ffurfio pyllau neu nentydd tanddaearol (h.y. dyfrhaenau) a all ollwng uwchlaw'r ddaear ond yn is i lawr y dalgylch. |
| **Cynefin** | Ardal sydd o ddiddordeb o safbwynt cadwraeth. |
| **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** | Mae'r broses o fynd ati'n briodol i sgrinio ac asesu'r opsiynau sy'n ofynnol o dan Ran 6 a Phennod 8 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y Rheoliadau Cynefinoedd) yn broses ailadroddol gydnabyddedig sy'n helpu i bennu'r effeithiau tebygol ar gynllun neu raglen a (lle bo'n briodol) asesu effeithiau andwyol ar uniondeb safle Ewropeaidd (Natura 2000). Mae'n ofynnol i'r asesiad gael ei gynnal gan awdurdod cymwys gyda golwg ar gynlluniau neu brosiectau sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol (ar eu pennau eu hunain ac yn gyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill) ar "safle Ewropeaidd" (gweler paragraff 5.1.2 o TAN 5). Mae'r DU wedi'i rhwymo gan delerau Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd y Gymuned Ewropeaidd a Chonfensiwn Ramsar. Mae Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994 (y Rheoliadau Cynefinoedd) a Rheoliadau Cadwraeth Forol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 2007 yn cyfeirio at "Safleoedd Ewropeaidd" a "Safleoedd Morol Alltraeth Ewropeaidd". Er y cafwyd newidiadau i'r Rheoliadau Cynefinoedd ar ôl Brexit, nid yw'r sefyllfa gyfreithiol na'r dyletswyddau i gyflawni/cynnal statws cadwraeth ffafriol wedi newid. |
| **Pentrefannau a grwpiau o anheddau** | Ystyr pentrefan neu grŵp o anheddau (a ddiffiniwyd at ddibenion y CDLl) yw clwstwr bach o anheddau gyda chraidd o 6 annedd o leiaf. |
| **Tai Amlfeddiannaeth** | Mae tŷ amlfeddiannaeth yn eiddo a feddiennir gan dri neu fwy o denantiaid nad ydynt yn byw gyda'i gilydd fel aelwyd teulu unigol, sy'n rhannu amwynderau sylfaenol megis cegin, ystafell ymolchi neu gyfleusterau toiled ond sydd ag ystafelloedd gwely ar wahân. Mae'r term yn ymwneud ag ystafelloedd gwely, fflatiau heb fod yn hunangynhwysol, tai a rennir a thai llety. |
| **Datblygiad Mewnlenwi** | Datblygu bwlch bach rhwng adeiladau sy'n bodoli eisoes. I fod yn gymwys fel datblygiad mewnlenwi, rhaid i'r datblygiad arfaethedig fod yn unol â maint a chymeriad yr anheddiad. |
| **Seilwaith** | Mae'n cynnwys gwasanaethau fel ffyrdd, cyfleusterau trafnidiaeth, cyflenwadau dŵr, carthffosiaeth a'r cyfleusterau trin dŵr gwastraff cysylltiedig, cyfleusterau rheoli gwastraff, cyflenwadau ynni (trydan a nwy) a rhwydweithiau dosbarthu a seilwaith telathrebu. Mae seilwaith meddal yn cynnwys TGCh a thelathrebu. |
| **Y Strategaeth Gymunedol Integredig** | Mae'n ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Rhan 2: Adrannau 37-46) gyda'r nod o wella lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd eu hardaloedd. Cyfeirir ati hefyd fel "Cynllun Integredig Sengl". |
| **Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)** | Offeryn ar gyfer arfarnu polisïau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae'r dull hwn yn bodloni'r gofynion o ran Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ar y cyd, ochr yn ochr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20, ac |

| | |
|---|---|
| | ystyriaethau o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, drwy un ACI anghynhwysfawr sy'n galluogi asesiad mwy tryloyw, cyfannol a chyflawn o oblygiadau cynaliadwyedd yr opsiynau twf, amcanion, polisïau a'r cynigion a gynhwysir yn y CDLl diwygiedig. |
| **Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig (Adroddiad ACI)** | Dogfen sy'n cynnwys y gofynion o ran adroddiad amgylcheddol fel rhan o broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol i ddisgrifio ac arfarnu'r effeithiau sylweddol tebygol ar gynaliadwyedd (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd) yn sgil gweithredu'r CDLl, yn ogystal â gofynion/ystyriaethau eraill (gweler y diffiniad o ACI). |
| **Landmap** | Asesiad tirwedd Cymru gyfan a drefnir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol Cymru. Cyflwynwyd yn 1997 a chafodd ei ddiweddaru yn 2003. Mae methodoleg a phroses sicrhau ansawdd LANDMAP yn sicrhau adnodd sy'n gyson yn genedlaethol ar gyfer cynllunio tirweddau a gwneud penderfyniadau. Caiff gwybodaeth LANDMAP ei chasglu mewn ffordd strwythuredig a thrylwyr sy'n cael ei diffinio gan bum pennod methodolegol, sef y Dirwedd Ddaearegol, Cynefinoedd y Dirwedd, y Dirwedd Weledol a Synhwyraidd, y Dirwedd Hanesyddol a'r Dirwedd Ddiwylliannol. |
| **Tirwedd** | Ardal y mae ei chymeriad yn ganlyniad i weithredu a rhyngweithio rhwng ffactorau naturiol a/neu ddynol. |
| **Adeiladau Rhestredig** | Caiff adeiladau eu 'rhestru' oherwydd eu bod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ac o ganlyniad, fod angen mesurau arbennig i'w diogelu. Mae rhestru yn diogelu'r adeilad cyfan, y tu mewn a'r tu allan, ac o bosibl yr adeiladau cyfagos hefyd os cawsant eu hadeiladu cyn 1af Gorffennaf 1948. Y prif ddiben yw diogelu'r adeilad a'r hyn sydd o'i gwmpas rhag newidiadau, a fyddai'n peri newid o bwys o ran pwysigrwydd hanesyddol neu bensaernïol arbennig yr adeilad neu ei union leoliad. |
| **Ardal Leol ar gyfer Chwarae (LAP)** | Mannau agored ar gyfer plant ifanc sy'n agos i'r man lle mae'r plant yn byw. |
| **Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)** | Y cynllun datblygu statudol gofynnol ar gyfer pob ardal awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Cynllun defnydd tir sy'n destun archwiliad annibynnol, a fydd yn ffurfio'r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal awdurdod cynllunio lleol at ddibenion y Ddeddf. Dylai gynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisïau ar draws yr ardal ar gyfer mathau o ddatblygiadau, dyraniadau tir, a pholisïau a chynigion ar gyfer ardaloedd allweddol o newid a gwarchodaeth lle bo angen. Rhaid dangos polisïau a dyraniadau yn ddaearyddol ar y Map Cynigion sy'n rhan o'r cynllun. |
| **Ardal Leol â Chyfarpar ar gyfer Chwarae (LEAP)** | Ardal chwarae (a hamdden anffurfiol) â chyfarpar. |
| **Cymhwysedd o ran Angen Lleol** | Bydd yr holl dai fforddiadwy newydd sydd ar gyfer angen lleol yn cael eu cyfyngu i'r rheiny sy'n gallu dangos bod angen iddynt fyw yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned a bod angen tŷ fforddiadwy arnynt. Yn ymarferol rhaid i'r preswylydd fodloni un o'r meini prawf canlynol: |

| | |
|---|---|
| | • Mae'r person wedi bod yn preswylio'n barhaus yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned neu yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned cyfagos am dair blynedd yn union cyn meddiannu'r tŷ; neu<br><br>• Mae'r person wedi bod mewn cyflogaeth barhaus yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned neu yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned cyfagos am o leiaf y pum mlynedd diwethaf yn union cyn meddiannu'r tŷ; neu<br><br>• Mae'r person yn gyn-breswylydd sy'n dymuno dychwelyd i ardal y Cyngor Tref neu Gymuned ar ôl cwblhau cwrs addysg ôl-uwchradd (trydyddol) o fewn 12 mis cyn meddiannu'r tŷ ac a oedd, yn union cyn mynychu'r cwrs, yn byw yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned neu yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned cyfagos am o leiaf dair blynedd; neu<br><br>• Mae'r person yn 'weithiwr allweddol' sy'n symud i'r gymuned i ymgymryd â chyflogaeth barhaol, amser llawn yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned neu yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned cyfagos. Dyma enghreifftiau o weithiwr allweddol:<br><br>  • Athro mewn ysgol neu mewn sefydliad addysg bellach neu goleg chweched dosbarth;<br>  • Nyrs neu weithiwr iechyd medrus arall yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol;<br>  • Heddwas;<br>  • Swyddog tân;<br>  • Unrhyw berson arall y mae ei gyflogaeth yn cyflawni rôl bwysig o ran darparu gwasanaethau allweddol yn yr ardal; neu<br><br>• Mae'r person wedi gwneud cyfraniad gwirfoddol sylweddol at fywiogrwydd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ardal y Cyngor Tref neu Gymuned am o leiaf dair blynedd; neu,<br><br>• Mae angen i'r person symud i'r ardal fel y gall aelod o'u haelwyd sydd ag anabledd fynychu ysgol neu dderbyn cymorth arbenigol, ond nid yw'n gallu gwneud hynny oherwydd yr anhawster o ran dod o hyd i dai hygyrch / fforddiadwy digonol yn yr ardal. Rhaid i'r angen fod o ganlyniad i'r anabledd a rhaid dangos yr angen i symud i'r ardal honno; neu<br><br>• Roedd y person yn y carchar, yn yr ysbyty neu mewn llety tebyg yr oedd ei leoliad y tu hwnt i'w reolaeth, ac yn union cyn symud i'r math hwn o lety roedd yn byw yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned neu yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned cyfagos am o leiaf dair blynedd; neu<br><br>• Mae angen i'r person fod yn byw yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned oherwydd bod angen gofal sylweddol arno gan berthynas sy'n byw yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned neu yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned cyfagos, neu am fod |

| | |
|---|---|
| | angen iddo ddarparu gofal sylweddol i berthynas sy'n byw yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned neu yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned cyfagos. Mae gofal sylweddol yn golygu'r hyn y nodir ei fod yn ofynnol gan feddyg neu asiantaeth cymorth statudol berthnasol; neu<br><br>• Mae'r person yn gyn-breswylydd a oedd yn byw yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned neu yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned cyfagos am dair blynedd ac yna'n byw y tu allan i'r ardal leol a ddiffinnir am resymau cymdeithasol a/neu economaidd ac yn dychwelyd i fyw yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned neu yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned cyfagos o fewn tair blynedd i ddyddiad ei ymadawiad.<br><br>• Mae'r person yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog neu'n gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog ac nid yw'n cael ei gyflogi neu'n byw yn yr ardal ar hyn o bryd ond mae wedi bod yn byw yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned neu yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned cyfagos, gan gynnwys bod yn byw yno o ganlyniad i benodiad blaenorol yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned neu yn ardal y Cyngor Tref neu Gymuned cyfagos tra'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog; neu<br><br>• Mae'n berson hŷn neu anabl ac mae angen iddo symud i lety mwy addas oherwydd cyflyrau meddygol. |
| **Awdurdod Cynllunio Lleol** | Awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi CDLl. |
| **Cynllun Llesiant Lleol** | O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, cafodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu sefydlu ar gyfer pob ardal awdurdod lleol ac maent yn paratoi'r Cynllun Llesiant. Mae'r cynlluniau hyn yn disodli'r Cynllun Integredig Sengl (gweler isod). |
| **Cynllun Morol** | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a baratowyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. |
| **Tai'r Farchnad** | Tai preifat i'w rhentu neu eu gwerthu lle caiff y pris ei osod ar y farchnad agored. (TAN2: Geirfa). |
| **Lliniaru** | Mesurau i osgoi, lleihau a/neu wrthbwyso effeithiau andwyol. |
| **Hierarchaeth Lliniaru** | Offeryn sy'n hybu cyfyngu ar effeithiau negyddol/andwyol (cyn belled ag y bo modd). Mewn trefn ddilynol, rhaid i gynigion ystyried ***osgoi*** effeithiau yn gyntaf, yna ffyrdd o ***leihau*** effeithiau, ac yn olaf ***lliniaru*** effeithiau y gellid eu cael ar fioamrywiaeth a/neu'r amgylchedd ehangach. |
| **Defnydd Cymysg** | Datblygiadau neu gynigion sy'n cynnwys mwy nag un math o ddefnydd ar un safle. |
| **Maes Chwarae Amlddefnydd** | Ardal amlbwrpas yn yr awyr agored wedi'i gwneud o facadam, arwyneb polymerig, neu laswellt artiffisial ac mae wedi'i chynllunio i'w defnyddio ar gyfer amrywiaeth o wahanol chwaraeon a gemau gan gynnwys pêl-droed, hoci, rygbi, criced, a thenis. |
| **Gwarchodfa Natur Genedlaethol** | Ardal sydd wedi'i dynodi oherwydd ei phwysigrwydd cenedlaethol i gadwraeth natur ac a gaiff ei rheoli drwy gytundebau gwarchodfa natur ar y cyd â thirfeddianwyr ac ati. |
| **Adnoddau Naturiol** | Deunyddiau sydd i'w cael yn naturiol sy'n ddefnyddiol i ddyn. Maent yn cynnwys mwynau, coed, tir, ecosystemau, ac ati. |

| | |
|---|---|
| **Ardal â Chyfarpar Cymdogaeth ar gyfer Chwarae** | Lle chwarae â chyfarpar (a hamdden anffurfiol) a darpariaeth i blant a phobl ifanc. |
| **Aneddiadau Gwledig Anniffiniedig** | Aneddiadau gwledig anniffiniedig yw'r rheiny sy'n cynnwys grŵp o dai annedd presennol sy'n ffurfio pentrefan/anheddiad nad yw wedi'i ddiffinio ym Mholisi SP3. |
| **Amcan/Amcan Strategol** | Datganiad o'r hyn a fwriedir, gan nodi'r cyfeiriad a ddymunir ar gyfer newid mewn tueddiadau. |
| **Mannau Agored** | Pob gofod o werth cyhoeddus, gan gynnwys ardaloedd wedi'u tirweddu'n gyhoeddus, meysydd chwarae, parciau a mannau chwarae, ac sydd nid yn unig yn cynnwys tir, ond hefyd ardaloedd o ddŵr megis afonydd, camlesi, llynnoedd a chronfeydd dŵr, sy'n gallu cynnig cyfleoedd ar gyfer chwaraeon a hamdden neu sydd hefyd yn gallu gweithredu fel amwynder gweledol a hafan i fywyd gwyllt. |
| **Cyrsiau Dŵr Cyffredin** | Yr holl gyrsiau dŵr nad ydynt yn brif afon ddynodedig ac y mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol yn gyfrifol am eu rheoleiddio. |
| **Partneriaid** | Adrannau lleol/awdurdodau Parc Cenedlaethol eraill a chyrff statudol lle bydd y CDLl yn helpu i gyflawni rhai o amcanion eu strategaethau. Efallai y bydd disgwyl i bartneriaid gyfrannu at lunio rhannau perthnasol o'r CDLl. |
| **Llunio lleoedd** | Proses ac offeryn i ddylunio a rheoli'r amgylchfyd cyhoeddus ar y cyd i greu mannau o ansawdd y mae pobl am fyw a gweithio ynddynt, sy'n apelgar, yn hygyrch, yn ddiogel ac yn cefnogi rhyngweithio cymdeithasol ac amwynderau. |
| **Cyfnod y Cynllun** | Y cyfnod o amser y mae'r cynllun yn ei gwmpasu sef 2018 hyd at 2033. |
| **Rhwymedigaeth Gynllunio** | Cytundeb cyfreithiol rhwng ymgeisydd a'r awdurdod cynllunio lleol i sicrhau bod datblygiad yn cael ei wneud mewn ffordd benodol. Cyfeirir ati hefyd fel Cytundeb Adran 106. |
| **Polisi Cynllunio Cymru** | Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pennu polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Caiff ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol. Darperir cyngor gweithdrefnol drwy gylchlythyrau a llythyrau egluro polisi. |
| **Meysydd Chwarae** | Tir sydd wedi'i osod yn llain neu'n lleiniau ar gyfer gemau. |
| **Glawog** | Yn ymwneud â glawiad - cynnydd mewn glaw, sy'n gallu achosi llifogydd dŵr wyneb cyn mynd i mewn i gyrsiau dŵr a'r system ddraenio. |
| **Llifogydd glaw** | Llifogydd o ddŵr wyneb. Mae hyn yn digwydd pan fydd glaw trwm yn dirlenwi systemau draenio ac ni allant dderbyn rhagor o ddŵr. |
| **Dogfennau Cyn-adneuo (CDLl)** | Mae'r rhain yn cynnwys y weledigaeth, yr opsiynau strategol, y strategaeth a ffefrir, polisïau allweddol, yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig, y gofrestr o safleoedd ymgeisio, Adroddiad Adolygu (os yn briodol). |
| **Cam Cyn-adneuo** | Yn y Llawlyfr CDLl, y cyfeirir ato fel yr Opsiynau Strategol a'r cam Strategaeth a Ffefrir o baratoi CDLl. |
| **Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen** | Gweler y diffiniad o dir a ddatblygwyd o'r blaen a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 11 – tudalen 37. |
| **Rhywogaethau a Warchodir** | Rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid a gaiff eu diogelu o dan ddeddfau a rheoliadau penodol. |
| **Hawliau Tramwy Cyhoeddus** | Llwybrau y mae gan y cyhoedd hawl i'w tramwyo. Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd. |

| | |
|---|---|
| **Safle Ramsar** | Safle gwlyptir sydd o bwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer cadwraeth natur. Mae'r dynodiad yn cael ei alluogi gan Gonfensiwn Ramsar. |
| **Safleoedd Daearegol / Geomorffolegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGs)** | Safleoedd gwyddor daear a ddynodwyd yn lleol, sy'n cael eu dewis gan ddefnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. |
| **Ynni Adnewyddadwy** | At ddibenion polisi cynllunio, diffinnir ynni adnewyddadwy fel y ffynonellau ynni hynny, ac eithrio tanwydd ffosil neu danwydd niwclear, sydd ar gael yn yr amgylchedd yn barhaus ac mewn modd cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys gwynt, dŵr, haul, ynni geothermol a deunydd o blanhigion (biomas). Ynni carbon isel yw'r term a ddefnyddir i ymdrin â thechnolegau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon (ond nid yw'n cynnwys niwclear). |
| **Gwastraff Gweddilliol** | Mae gwastraff gweddilliol yn parhau ar ôl i ddeunydd y gellir ei ailgylchu neu ei gompostio gael ei dynnu o'r ffrwd wastraff. |
| **Adroddiad Adolygu** | Yr adroddiad statudol gofynnol o dan Adran 69 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a/neu Reoliad 41 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2015; i ddod i gasgliad ynghylch y weithdrefn adolygu CDLl sydd i'w dilyn yn seiliedig ar asesiad clir o'r hyn a ystyriwyd a'r hyn sydd angen ei newid a pham, yn seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Datblygiad Hirgul** | Estyniad llinellol aneddiadau, gan gynnwys datblygiadau ar y tu blaen ar hyd ffyrdd dynesu, gan arwain at fod datblygiadau yn ymwthio'n ddiangen i gefn gwlad. |
| **Coridor Afonol** | Ardal gerllaw corff dŵr (e.e. afon, llyn, aber) sy'n dylanwadu ar yr ecosystem ddyfrol, ac sy'n cynnwys cymunedau planhigion ac anifeiliaid. |
| **Menter Wledig** | Busnesau sy'n gysylltiedig â'r tir gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth a gweithgareddau eraill sy'n cael eu mewnbynnau sylfaenol o'r safle, megis prosesu cynhyrchion amaethyddol, coedwigaeth a mwynau ynghyd â gweithgareddau rheoli tir a gwasanaethau ategol (gan gynnwys contractio amaethyddol), twristiaeth a mentrau hamdden. |
| **Heneb Gofrestredig** | Safleoedd archaeolegol neu adeiladau hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol, a gaiff eu hamddiffyn rhag newid anawdurdodedig drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. |
| **Cytundeb Adran 106** | Gweler Rhwymedigaethau Cynllunio. |
| **Cynllun Integredig Sengl** | Cyflawni dyletswyddau statudol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ("Cydamcanu – Cydymdrechu", LlC 2012), gan gynnwys Strategaethau Cymunedol; a gaiff eu paratoi gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol. Gweler "Cynlluniau Llesiant Lleol" sydd i ddisodli Cynlluniau Integredig Sengl. |
| **Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)** | Caiff Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig eu hysbysu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o dan ddeddfwriaeth i roi amddiffyniad i blanhigion, anifeiliaid a nodweddion daearegol neu ffisiolegol o ddiddordeb arbennig. |
| **Dyraniadau Safle-benodol** | Dyraniadau safleoedd (cynigion) ar gyfer defnydd penodol neu ddefnydd cymysg neu ddatblygiad. Bydd polisïau yn nodi unrhyw ofynion penodol ar gyfer cynigion unigol gyda'r dyraniadau a ddangosir ar fap cynigion y CDLl. |

| | |
|---|---|
| **Cadernid** | Er mwyn i Gynllun Datblygu Lleol gael ei fabwysiadu, rhaid i'r Arolygydd sy'n ei archwilio benderfynu ei fod yn 'gadarn' (Adran 64 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004). Nodir profion cadernid yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu. |
| **Datganiad Ardal De-orllewin Cymru (2020)** | Un o'r 7 datganiad ardal a grëwyd gan CNC fel ymateb cydweithredol i'r Polisi Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017, sy'n amlinellu'r prif heriau a'r cyfleoedd o ran rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy i'r dyfodol. |
| **Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)** | Safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC) (a droswyd yn gyfraith genedlaethol drwy Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019. Yn ogystal, ceir safleoedd ymgeisio ACA a ddylai, fel mater o bolisi'r Llywodraeth, gael eu hystyried fel ACA llawn wrth archwilio effeithiau defnydd tir. |
| **Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)** | Safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth o dan y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt (Cyfarwyddeb 2009/147/EC) (a droswyd yn gyfraith genedlaethol drwy Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r DU) 2019). |
| **Polisïau Penodol** | Cyfres o bolisïau yn seiliedig ar feini prawf a fydd yn sicrhau bod pob datblygiad yn yr ardal yn cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y Strategaeth. |
| **Rhanddeiliaid** | Sefydliadau a phartïon sydd â diddordeb sy'n cymryd rhan trwy gyrff cynrychioliadol yn gyffredinol. |
| **Datganiad o Dir Cyffredin** | Diben Datganiad o Dir Cyffredin yw sefydlu'r prif feysydd lle ceir cytundeb rhwng dau neu ragor o bartïon ar fater penodol. |
| **Cynllun Datblygu Strategol** | Gwneir darpariaeth o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol ar lefel ranbarthol. Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac yn ymateb ar lefel ranbarthol i faterion strategol. |
| **Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)** | Term a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel y caiff ei gymhwyso i gynlluniau a rhaglenni. Mae proses AAS yn deillio o ddeddfwriaeth Ewropeaidd a chaiff ei diffinio ar lefel Ewropeaidd - Cyfarwyddeb 2001/42/EC. Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliadau AAS) yn gofyn am "asesiad amgylcheddol ffurfiol o gynlluniau a rhaglenni penodol, gan gynnwys y rheiny ym maes cynllunio a defnydd tir". |
| **Amcanion Strategol** | Cyfres o fwriadau cyffredinol sy'n ymhelaethu ar y Weledigaeth ac sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun. |
| **Canllawiau Cynllunio Atodol** | Maent yn ffurfio dogfen/gwybodaeth atodol mewn perthynas â'r polisïau mewn CDLl. Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu ac nid ydynt yn destun archwiliad annibynnol ond rhaid iddynt fod yn gyson â'r Cynllun ac â pholisi cynllunio cenedlaethol. Gellir eu datblygu i ystyried agweddau unigol neu thematig ar y Cynllun a dyrannu safleoedd gan gynnwys prif gynlluniau. |
| **Arfarniad Cynaliadwyedd** | Offeryn ar gyfer arfarnu polisïau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae'n ofynnol i bob ACLl, yn ôl |

| | |
|---|---|
| | Adran 62 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, ymgymryd ag Arfarniad Cynaliadwyedd o'r CDLl. Mae'r math hwn o Arfarniad Cynaliadwyedd yn ymgorffori gofynion y Rheoliadau AAS yn llawn. |
| **Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)** | Dogfen yn seiliedig ar bynciau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i ategu Polisi Cynllunio Cymru. |
| **Gweledigaeth** | Mae'n diffinio diben craidd y Cynllun. |
| **Cynllun Gofodol Cymru** | Cynllun a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 60 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sy'n nodi fframwaith strategol i lywio datblygiadau ac ymyriadau polisi yn y dyfodol, p'un a yw'r rhain yn ymwneud â rheoli cynlluniau defnydd tir yn ffurfiol ai peidio. O dan Adran 62 (5) (b) o Ddeddf 2004, rhaid i awdurdod cynllunio lleol roi sylw i Gynllun Gofodol Cymru wrth baratoi CDLl. |
| **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) 2019** | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) 2019 a gafodd ei baratoi a'i fabwysiadu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. |

# Atodiadau


| | |
|---|---|
| **Atodiad 1:** | **Cyd-destun - Canllawiau Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Deddfwriaethol** |
| **Atodiad 2:** | **Cyd-destun Strategol Rhanbarthol a Lleol** |
| **Atodiad 3:** | **Canllawiau Cynllunio Atodol** |
| **Atodiad 4:** | **Safleoedd Mwynau** |
| **Atodiad 5:** | **Llwybrau Teithio Llesol** |
| **Atodiad 6:** | **Asesiad Polisi** |
| **Atodiad 7:** | **Dosbarthiad Tai** |
| **Atodiad 8:** | **Cyfleusterau Rheoli Gwastraff** |

# Atodiad 1 - Cyd-destun - Canllawiau a Pholisi Cynllunio Cenedlaethol a Deddfwriaethol

Mae'r gofyniad statudol i baratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu ar gyfer ardal weinyddol Sir Gaerfyrddin wedi'i nodi o dan y ddeddfwriaeth, a chyhoeddir canllawiau penodol gan Lywodraeth Cymru ar yr agweddau gweithdrefnol ar baratoi'r Cynllun a'i gynnwys. Mae hyn yn cynnwys:

- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd)
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol, Cymru) 2005
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 • Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol – Rhifyn 3

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Yn ei dro mae cyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol i fodloni'r gofyniad hwn.

Mae datblygu cynaliadwy yn rhan ganolog o strategaeth yr 2il Gynllun Adneuo. Yn hyn o beth, dylid ystyried gofynion:

- Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol 2004;
- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, a
- Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae pob un o'r uchod wedi bod yn allweddol wrth lunio'r Cynllun ac wedi dylanwadu ar ei gynnwys.

Yn ogystal â'r fframwaith deddfwriaethol uchod, rhoddir ystyriaeth i Bolisïau a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol wrth baratoi'r Cynllun, yn ogystal â dogfennau thematig strategol eraill gan gynnwys y canlynol:

- Polisi Cynllunio Cymru
- Nodiadau Cyngor Technegol (TANs)
- Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTANs)

- Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019
- Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru
- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru
- Adfywio'r Economi: Cyfeiriad Newydd
- Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid – Fframwaith Adfywio Newydd
- Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru
- Cynllun Rheoli Traethlin
- Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned - Y Cynllun Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru
- Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Cymru
- Gweithio i Sicrhau Dyfodol Iachach i Gymru
- Strategaeth Genedlaethol Ffyniant i Bawb
- Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned: Strategaeth Wastraff Gyffredinol Cymru (2010)
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Deddf Cymru (2017
- Llywodraeth Cymru - Pobl, Lleoedd, Dyfodol - Cynllun Gofodol Cymru
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017

**Rhanbarthol**

- Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013 - 2030:
- Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2017
- Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru (2015-20):
- Adroddiad(au) Monitro Cynlluniau Gwastraff Rhanbarth De-orllewin Cymru:
- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Cymru
- Cynllun Rheoli Basn Afon - Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru
- Datganiad Ardal De-orllewin Cymru
- Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru 2il Adolygiad 2020

- Dadansoddiad o'r Farchnad ac Ymyriadau Posibl: Adroddiad i Lywodraeth Cymru, Mawrth 2020

**Lleol**

- Cyngor Sir Caerfyrddin - Strategaeth Gorfforaethol
- Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf
- Cynllun Llesiant Lleol Sir Gaerfyrddin
- Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio Strategol Sir Gaerfyrddin
- Cynllun Darparu Tai fforddiadwy 2016 - 2020: Cyflenwi mwy o gartrefi i bobl Sir Gaerfyrddin
- Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen
- Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin (Ebrill 2021)
- Cyngor Sir Caerfyrddin - Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) Sir Gaerfyrddin
- Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol
- Cynllun Rheoli Risg Llifogydd ar gyfer Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru
- Cynllun Gweithredu Carbon Sero Net
- Cyngor Sir Caerfyrddin - Y Cynllun Heneiddio'n Dda
- Cyngor Sir Caerfyrddin - Strategaeth Pobl Hŷn 2015-2025
- Cyngor Sir Caerfyrddin - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- Cyngor Sir Caerfyrddin – Adroddiad Blynyddol ar Ofal Cymdeithasol

# Atodiad 2 Cyd-destun Strategol Rhanbarthol a Lleol

Roedd yn nodi er bod y CDLl yn rhan allweddol o'r darlun strategol o fewn y sir ac yn rhanbarthol, nid yw'n sefyll ar wahân i gynlluniau a strategaethau eraill. Roedd nifer o'r rhain yn darparu canllawiau ar gyfer paratoi'r Cynllun, ac roedd eraill yn rhan o gyfres strategol o ddogfennau sy'n llywio sut y bydd y rhanbarth a'r sir yn datblygu dros y blynyddoedd nesaf.

## Rhanbarthol

### Dinas-ranbarth Bae Abertawe

Mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe sydd hefyd yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Sir Benfro, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Wrth ddod â busnesau, Llywodraeth Leol ac ystod o bartneriaid eraill ynghyd, mae'r Dinas-ranbarth wedi cyhoeddi Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013–2030.

### Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Llofnodwyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe ym mis Mawrth 2017. Disgwylir i'r Fargen Ddinesig arwain at gynnydd parhaol yn ei werth ychwanegol gros o £1.8 biliwn i Ddinas-ranbarth Bae Abertawe a bydd yn cynhyrchu bron 10 mil o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf.

Pentre Awel, Llanelli fydd y prosiect adfywio mwyaf erioed yn Ne-orllewin Cymru a'i nod yw gwella iechyd a llesiant pobl ar draws y rhanbarth.

Mae prosiect diwydiant creadigol yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin yn ceisio manteisio ar gynigion seilwaith newydd Arfordir y Rhyngrwyd. Bydd Yr Egin yn creu newid mawr a chadarnhaol yn economi greadigol a digidol Cymru.

### Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru

Ers cyhoeddi Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn 2013, mae'r cyd-destun economaidd a pholisi wedi newid yn sylweddol ar lefel Cymru a'r DU. Mae hyn wedi dod i ffocws penodol yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd ac effaith y pandemig covid-19. Erbyn hyn mae'r dirwedd gyd-destunol newidiol hon hefyd yn cynnwys dyfodiad y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol newydd, a pharatoi Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol newydd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Fframweithiau hyn yn amlinellu gweledigaethau a blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru.

Er mwyn ymateb i amgylchiadau sy'n newid, lluniodd y pedwar awdurdod lleol yn Ne-orllewin Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Gynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol newydd a fydd yn disodli'r hen Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe.

Mae comisiwn y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol yn cynnwys:

- Dadansoddi'r sylfaen dystiolaeth yn drylwyr o ran economi, marchnad lafur a seilwaith y rhanbarth i bennu ei gryfderau, ei wendidau, ei gyfleoedd a'i fygythiadau
- Dehongli'r cyd-destun polisi strategol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol
- Datblygu nodau ac amcanion strategol manwl sy'n ymateb i gyfleoedd economaidd y rhanbarth ac sy'n ategu'r weledigaeth ranbarthol a rennir fel y'i nodir yn y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol
- Paratoi Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol sy'n cynnwys camau y mae angen eu cymryd i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion

Mae'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol yn ategu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol newydd Llywodraeth Cymru (REF) ac mae'n darparu haen bellach o fanylion gan amlinellu'r amcanion a'r camau gweithredu a fydd yn cyflawni yn erbyn gweledigaeth uchelgeisiol y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.

**Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd - Cynlluniau Datblygu Strategol a Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Mae Cymru’r Dyfodol yn cyfeirio at bedwar rhanbarth sy'n ffocws ar gyfer polisi Llywodraeth Cymru a buddsoddi yn y dyfodol. Mae Sir Gaerfyrddin wedi'i chynnwys yn rhanbarth Gorllewin Cymru. Mae Bae Abertawe a Llanelli wedi'u nodi fel rhan o dwf cenedlaethol, ac mae Caerfyrddin wedi'i nodi fel un o'r canolfannau rhanbarthol.

Byddwn ni, drwy aelodaeth Grŵp Cynllunio Rhanbarthol De-orllewin Cymru, a thrwy'r rhaglenni gwaith ar y cyd sy'n gysylltiedig â threfniadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-orllewin yn parhau i weithio'n agos, yn enwedig o ran deall a datblygu'r cysyniad a'r cyfleoedd i gael Cynllun Datblygu Strategol ar draws y rhanbarth.

**Cydgynllun Trafnidiaeth ar gyfer De-orllewin Cymru (2015-20):**

Mae hwn yn cyflwyno'r weledigaeth, yr amcanion a strategaeth hirdymor ar gyfer cyfnod o 20 mlynedd a rhaglen bum mlynedd o brosiectau. Mae'r Cynllun yn cwmpasu'r rhanbarth

sydd yn dod o fewn ardaloedd gweinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro, a Dinas a Sir Abertawe.

**Partneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru (SWWTP)**

Roedd Partneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru yn gyfrifol am gyflwyno'r strategaeth twristiaeth genedlaethol ar lefel ranbarthol. Daeth y Bartneriaeth i ben yn 2014, ond mae Croeso Cymru yn parhau i gynnal ei ymrwymiad parhaus i Reoli Cyrchfannau trwy Dimau Ymgysylltu Rhanbarthol.

**Adroddiad(au) Monitro Cynlluniau Gwastraff Rhanbarth De-orllewin Cymru:**

Caiff yr adroddiadau hyn eu llunio yn unol â TAN21: Gwastraff a'u bwriad yw coladu ac asesu data sydd ar gael ar bob gwastraff sy'n cronni, y lle gwag sydd ar gael mewn safleoedd tirlenwi a rheoli gwastraff gweddilliol yn y rhanbarth er mwyn monitro tueddiadau ac yn y pen draw, monitro perfformiad yn erbyn y targedau a osodir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Mae hefyd yn asesu cynnydd y meysydd a gwmpesir gan bolisi gwastraff mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, yn ogystal â darparu gwybodaeth am gynlluniau rheoli gwastraff / adennill adnoddau awdurdodau lleol ar hyn o bryd, a'r rhai fydd yn cael eu caffael yn y dyfodol.

**Cynllun Rheoli Basn Afon Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru (2015-2021), Cyfoeth Naturiol Cymru 2015**

Mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru wedi'i baratoi o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n disgrifio cyflwr presennol yr ardal basn afon a'r hyn a gyflawnwyd ers 2009; yn manylu ar y Rhaglen o Gamau ar gyfer gwella'r amgylchedd dŵr erbyn 2021 ac yn darparu amcanion y corff dŵr.

## Cynlluniau Datblygu Awdurdodau Cyfagos

Mae’r Cyngor mewn cyswllt rheolaidd ac agos â’r awdurdodau cyfagos, yn unigol ac ar y cyd, ar lefel ranbarthol (trwy Grŵp Cynllunio Rhanbarthol De-orllewin Cymru) i sicrhau bod eu Cynlluniau Datblygu Lleol yn cyd-fynd â’i gilydd.

Mae'r Cynllun wedi cael ei baratoi gan ystyried awdurdodau cyfagos, a, lle bo'n briodol, mewn cydweithrediad â nhw. Mae hyn wedi cynnwys casglu tystiolaeth ac ymchwil ar draws y rhanbarth ehangach ond hefyd ar lefel is-ranbarthol rhwng yr awdurdodau hynny sy'n cynnal Adolygiadau o'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

Mae rhai ffactorau'n golygu nad oes modd cael cydymffurfiaeth lwyr ond roedd trafodaethau adeiladol a rhannu gwybodaeth a phrofiad yn lleihau'r perygl y byddai polisïau'n gwrthdaro ac yn sicrhau lefel briodol o integreiddio.

| |
|---|
| Mabwysiadodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** ei Gynllun Datblygu Lleol ym mis Ionawr 2016 ac mae wedi dechrau paratoi ei Gynllun newydd. Mae deialog parhaus wedi sicrhau bod dealltwriaeth o'r dulliau ac o gyfeiriad y fframweithiau polisi, gan gynnwys trwy drefniadau rhanbarthol a chwmpas a chynnydd y Cynllun Datblygu Strategol. Bydd cynnydd yr adolygiad i Gynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot yn cael ei fonitro a'i ystyried yn briodol yn ôl yr angen. |
| Mabwysiadodd **Dinas a Sir Abertawe** ei Gynllun Datblygu Lleol ym mis Chwefror 2019. Mae mabwysiadu CDLl Abertawe yn caniatáu ystyried eu polisïau a'u cynigion, ynghyd â'r gallu i ymateb (ac integreiddio) fel sy'n briodol wrth baratoi CDLl Diwygiedig Sir Gaerfyrddin. Bydd cyswllt parhaus yn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r dulliau priodol gan gynnwys trwy drefniadau rhanbarthol a chwmpas a chynnydd y Cynllun Datblygu Strategol. Mae deialog benodol wedi'i chynnal ar faterion yn ymwneud â Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd. |
| Mabwysiadodd **Cyngor Sir Powys** ei CDLl ym mis Ebrill 2018 ac mae wedi dechrau ar y gwaith o baratoi ei Gynllun newydd. Bydd y Cyngor yn parhau i archwilio perthnasoedd strategol. Caiff unrhyw adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Powys yn y dyfodol ei fonitro a'i ystyried yn briodol. |
| Mae CDLl mabwysiedig **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro** yn cyd-fynd yn fras â strwythur anheddiad hierarchaidd a chysondeb yn y dull polisi cynllunio bras gyda Sir Gaerfyrddin. Bydd cyswllt parhaus yn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r dulliau priodol gan gynnwys trwy drefniadau rhanbarthol a chwmpas a chynnydd y Cynllun Datblygu Strategol. Mae dull rhagweithiol tuag at weithio rhanbarthol ac is-ranbarthol yn hanfodol mewn materion polisi, casglu tystiolaeth ac ystyriaethau strategol. |
| Mabwysiadodd **Cyngor Sir Penfro** ei Gynllun Datblygu Lleol ym mis Chwefror 2013. Ystyrir bod cysondeb ac aliniad bras o ran y dull o safbwynt strategol a pholisi. Ar ôl dechrau paratoi eu CDLl diwygiedig, mae cyhoeddi canllawiau CNC ar lygredd ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol gwarchodedig wedi effeithio'n andwyol ar yr amserlen tuag at fabwysiadu'r Cynllun. Ceir aliniad bras rhwng dull a maint y datblygu a thwf. Mae modd cymharu'r amserlen ar gyfer paratoi eu Cynllun yn fras ag un Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r aliniad bras a amlinellir uchod yn para. Mae dull rhagweithiol tuag at weithio rhanbarthol ac is-ranbarthol yn hanfodol mewn materion polisi, casglu tystiolaeth ac |

| |
|---|
| ystyriaethau strategol, gan nodi'n arbennig faterion cyffredin ar draws y rhanbarth megis ffosffadau. |
| Mabwysiadodd **Cyngor Sir Ceredigion** ei Gynllun Datblygu Lleol ym mis Ebrill 2013. Tra ystyrir bod strategaethau aneddiadau perthnasol Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ychydig yn wahanol i'w gilydd, mae cydweddoldeb cyffredinol â'r gweledigaethau priodol. Mae ymrwymiad i barchu a chynnal amrywiaeth ac ansawdd y cynllun, i leihau'r angen i deithio, ac i gynaliadwyedd a chreu lleoedd cynaliadwy. Dechreuodd Cyngor Sir Ceredigion baratoi CDLl newydd. Mae Covid wedi cael effaith andwyol ar baratoi eu CDLl diwygiedig ynghyd â chyhoeddi canllawiau CNC yn ddiweddar ar lygredd ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol gwarchodedig. Mae'r aliniad bras a amlinellir uchod yn para. Mae dull rhagweithiol tuag at weithio rhanbarthol ac is-ranbarthol yn hanfodol mewn materion polisi, casglu tystiolaeth ac ystyriaethau strategol, gan nodi'n arbennig faterion cyffredin ar draws y rhanbarth megis ffosffadau. |
| Mabwysiadodd **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** ei Gynllun Datblygu Lleol ym mis Rhagfyr 2013. Bernir nad oes problemau trawsffiniol clir o ran aneddiadau. Mae Awdurdod y Parc wrthi'n paratoi eu CDLl newydd. Mae cyhoeddi canllawiau CNC ar lygredd ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol gwarchodedig wedi effeithio'n andwyol ar y gwaith o baratoi eu CDLl diwygiedig. Mae dull rhagweithiol tuag at weithio rhanbarthol ac is-ranbarthol yn hanfodol mewn materion polisi, casglu tystiolaeth ac ystyriaethau strategol, gan nodi'n arbennig faterion cyffredin ar draws y rhanbarth ar faterion megis ffosffadau. Rhoddir ystyriaeth briodol i oblygiadau'r cynigion yng ngorllewin y Parc - yn enwedig o ran lefel y tai a ddosrennir. |

## Lleol

### Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin

Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar lesiant dinasyddion a chymunedau Sir Gaerfyrddin. Cyfeirir at adran "cipolwg" Sir Gaerfyrddin sy'n nodi ystyriaethau o ran Demograffeg, Economi, Iechyd a Llesiant, yr Amgylchedd a Diwylliant. Y pedwar amcan llesiant yw:

- **Arferion Iach** - Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maen nhw'n gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'r amgylchedd;
- **Ymyrraeth Gynnar** - Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt;

- **Cysylltiadau Cryf** - Pobl, lleoedd a sefydliadau y mae cysylltiad cryf rhyngddynt sy'n gallu addasu i newid; a
- **Pobl a Lleoedd Ffyniannus** – Uchafu'r cyfleoedd ar gyfer pobl a lleoedd mewn ardaloedd trefol a gwledig o'n sir

### Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin - Strategaeth Gorfforaethol Newydd y Cyngor 2018-2023

Dyma Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2018 – 2023 (cymeradwywyd 2018 – diweddarwyd 2019). Mae'n pennu i ba gyfeiriad fydd y Cyngor yn mynd dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys ei amcanion gwella a llesiant fel y'u diffinnir gan ddeddfwriaeth (gweler ffigur 1 drosodd). Mae hefyd yn cyfeirio at brosiectau a rhaglenni allweddol y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, cyfres o bron 100 o brosiectau a flaenoriaethwyd.

Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y dyfodol drwy 15 o amcanion o dan bedair thema allweddol, i gefnogi trigolion i: ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus. Mae'r 15 o Amcanion Llesiant yn cwmpasu'r amrywiaeth eang o Wasanaethau sydd gan y Cyngor er mwyn sicrhau llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol.

**Cynigion a basiwyd gan y Cyngor**

Mae'r cynigion hynny sy'n berthnasol i'r CDLl diwygiedig a basiwyd gan y Cyngor yn ddiweddar yn cynnwys datgan Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Natur ynghyd â chanolbwyntio ar gynllunio a'r iaith Gymraeg.

### Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin

Mae Cynllun Adfer Economaidd y Cyngor (Ebrill 2021) yn nodi rhyw 30 o gamau gweithredu i gefnogi adferiad economi Sir Gaerfyrddin yn sgil effeithiau cymdeithasol ac economaidd y pandemig COVID-19 a Brexit. Mae'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer cefnogi Busnes, Pobl a Lleoedd. Gyda'r cymorth hwn gall economi Sir Gaerfyrddin ymadfer cyn gynted â phosibl i ddod yn un sy'n fwy cynhyrchiol nag yr oedd o'r blaen, yn fwy cyfartal, yn fwy gwyrdd, yn iachach, a chyda chymunedau mwy cynaliadwy.

**Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio Strategol Sir Gaerfyrddin – 2015 – 2030**

Mae'n nodi strategaeth adfywio Sir Gaerfyrddin, gan adeiladu ar y cyfleoedd ar gyfer twf a buddsoddiad. Mae hyn yn ei dro yn dangos bod Sir Gaerfyrddin yn elfen hyderus, uchelgeisiol a chysylltiedig o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Ein Hymrwymiad i Dai Fforddiadwy 2015 – 2020 a Chynllun Cyflawni Tai Fforddiadwy 2016-2020**

Cyhoeddodd y Cyngor ei weledigaeth bum mlynedd ar gyfer cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn 2015 ac, yn 2016, aeth ati i nodi ein rhaglen uchelgeisiol gyntaf i ddarparu dros 1000 o dai fforddiadwy ychwanegol ar draws y Sir. Ym mis Medi 2019 dechreuodd y bedwaredd flwyddyn o ddarparu tai fforddiadwy ac yn ystod y tair blynedd gyntaf mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn oherwydd mae bron 700 o dai wedi cael eu codi, gan sicrhau bod y Cyngor ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 1000.

Mae'r ardaloedd gweithredu tai fforddiadwy fel a ganlyn: Trefi Gwledig a Threfi Marchnad Sir Gaerfyrddin; Rhydaman a Dyffryn Aman; Caerfyrddin a'r Gorllewin; a Llanelli a'r cylch.

**'Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus'**




## Amcanion Llesiant

| Dechrau'n Dda | Byw'n Dda | Heneiddio'n Dda | Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus |
|---|---|---|---|
| 1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.<br><br>2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw.<br><br>3. Cefnogi a gwella cynnydd a chyflawniad ar gyfer pob dysgwr.<br><br>4. Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. | 5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.<br><br>6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir.<br><br>7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.<br><br>8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra).<br><br>9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel. | 10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio.<br><br>11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin. | 12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.<br><br>13. Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth.<br><br>14. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru. |

**15.** Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

*Ffigur 1 - Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin*

**Adeiladu Mwy o Dai Cyngor - 'Ein huchelgais a'n cynllun gweithredu'.**

Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2019, cymeradwyodd y Cyngor raglen fuddsoddi uchelgeisiol o bron £150m a fydd yn darparu dros 900 o dai Cyngor newydd. Mae'r cynllun hwn yn ceisio cydymffurfio â'r Cynllun Cyflawni Tai Fforddiadwy a darparu hyd yn oed mwy o dai fforddiadwy yn y Sir. Caiff y tai eu hadeiladu gan ddefnyddio amrywiaeth o fodelau cyflawni, a bydd y rhaglen adeiladu tai newydd yn dilyn yr ardaloedd gweithredu tai fforddiadwy.

**Adroddiad ac Argymhellion Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin**

Mae'r adroddiad yn cynnwys 55 o argymhellion, ac mae chwe argymhelliad wedi'u rhestru o dan yr adran "cynllunio a thai." Wrth gadarnhau ymwybyddiaeth o gyfraniad pwysig ardaloedd gwledig y Sir ar lefel gorfforaethol, ceir argymhellion sy'n berthnasol i'r CDLl Diwygiedig yn uniongyrchol ac felly ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd yr adroddiad hwn o ran llywio'r CDLl Diwygiedig.

**Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen**

Mae'r adroddiad hwn yn garreg filltir arwyddocaol i'r awdurdod gan mai dyma'r tro cyntaf erioed y datblygwyd strategaeth bellgyrhaeddol i adfywio ein cymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd yr adroddiad terfynol ei gymeradwyo yn y Cyngor Llawn ar 11 Medi 2019.

Diben y fenter Deg Tref yw cefnogi adferiad economaidd a thwf trefi gwledig ledled y Sir. Sefydlwyd y fenter fel ymateb uniongyrchol i Gynllun Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen sy'n nodi nifer o argymhellion allweddol i helpu i adfywio Sir Gaerfyrddin wledig.

Rhan allweddol o'r rhaglen yw datblygu cynlluniau twf economaidd i hyrwyddo agenda o newid ar gyfer pob un o'r trefi perthnasol a'u cefnwlad ehangach: Cross Hands, Cwmaman, Cydweli, Talacharn, Llandeilo, Llanymddyfri, Llanybydder, Castellnewydd Emlyn, San Clêr a Hendy-gwyn ar Daf.

**Y Rhaglen Moderneiddio Addysg**

Yn 2005 mabwysiadodd y Cyngor ei Raglen Moderneiddio Addysg. Nod y RhMA yw sicrhau bod y rhwydwaith o ysgolion yn diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol, a'i fod yn gwneud hynny mewn ffordd strategol ac mewn ffordd sy'n effeithiol yn weithredol. Trwy wneud hyn, mae'r RhMA yn nodi gofynion ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol i sicrhau darpariaeth addas a digonol o ran lleoedd mewn ysgolion ac mae'n nodi cynlluniau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol mewn modd cydgysylltiedig a strwythuredig.

Mae Rhaglen Moderneiddio Addysg y Cyngor yn ddull strategol uchelgeisiol a blaengar sy'n darparu cyfleusterau addysg o'r radd flaenaf ledled y Sir. Wrth ddatblygu'r Papur Rôl a Swyddogaeth hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud, ac mae hefyd yn ystyried y gwaith sydd wedi'i raglennu ar gyfer y dyfodol.

**Y Gymraeg**

"Caiff pwysigrwydd y Gymraeg yng ngwead cymdeithasol cymunedau'r Sir ei adlewyrchu yn ei harwyddocâd ar lefel gorfforaethol o fewn y Cyngor. Yn hyn o beth mae'r isod o bwys arbennig:

1. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020;
2. Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) (dyddiad cyhoeddi 30/9/2015) a Chynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg (2020/2021); a
3. Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2016-2021.

Gellir gweld y dogfennau hyn i gyd ar wefan y Cyngor.

**Carbon Sero-net erbyn 2030**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd fel cydnabyddiaeth o'r rôl bwysig y mae'n rhaid iddo ei chwarae o ran lleihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr ei hun ymhellach a darparu'r arweiniad i annog trigolion, busnesau a sefydliadau eraill i gymryd camau i leihau eu hôl troed carbon eu hunain.

## Atodiad 3 - Canllawiau Cynllunio Atodol

| Cyfeirnod Polisi | Pwnc | Canllawiau Cynllunio Atodol presennol i'w cario ymlaen.<br><br>Noder: Yn amodol ar ddiweddaru | Canllaw Cynllunio Atodol newydd | Dyddiad targed ar gyfer Mabwysiadu |
|---|---|---|---|---|
| NE4 | Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr | Y (Noder bod y gwreiddiol wedi ei diweddaru'n sylweddol o ganlyniad i dystiolaeth ddiwygiedig) | N | Hydref / Tachwedd 2024 |
| HOM3 | Cartrefi mewn Pentrefi Gwledig | N | Y | Hydref / Tachwedd 2024 |
| AHOM1, AHOM2 | Tai fforddiadwy | Y (Noder bod y gwreiddiol wedi ei ddiweddaru'n sylweddol) | N | Hydref / Tachwedd 2024 |
| INF4 | Cilfach Tywyn | N | Y | Hydref / Tachwedd 2024 |
| SP12 | Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy | N | Y | Hydref / Tachwedd 2024 |
| PSD4 | Coed a phlannu fel rhan o ddatblygiadau newydd | N | Y | Haf 2025 |
| NE1 | Safleoedd o Bwys ar gyfer Gwerth Cadwraeth Natur | N | Y | Hydref / Tachwedd 2024 |
| NE2 | Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth | Y | N | Hydref / Tachwedd 2024 |
| SP15 | Yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol | N | Y | Rhagfyr 2025 |
| CCH1, CCH2 | Ynni Adnewyddadwy | N | Y | Rhagfyr 2025 |
| CCH4 | Ansawdd Dŵr – Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol Gwarchodedig | N | Y | Hydref / Tachwedd 2024 |
| PSD9 | Hysbysebion (canllawiau ar ofynion dwyieithog). | N | Y | Haf 2025 |
| INF1 | Rhwymedigaethau Cynllunio | Y (Noder bod y gwreiddiol wedi ei ddiweddaru'n sylweddol) | N | Hydref / Tachwedd 2024 |
| SP15 | Archaeoleg | Y | N | Hydref / Tachwedd 2024 |
| SG3 | Penrhyn Pen-bre | Dim effaith o gwbl | Y | Rhagfyr 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PSD3 | Rhwydweithiau a Datblygu Seilwaith Gwyrdd a Glas | N | Y | Haf 2025 |
| BHE2 | Cymeriad y Dirwedd | N | Y | Haf 2025 |
| WL1 | Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd | Y (Noder bod y gwreiddiol wedi ei ddiweddaru'n sylweddol) | N | Hydref / Tachwedd 2024 |
| | Safle Benodol (briffiau cynllunio a datblygu - i'w cadarnhau) | | | Parhaus |
| Sawl un | Egwyddorion Dylunio mewn Datblygiad Newydd (cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i'w paratoi dros oes y CDLl) | N | Y | Parhaus |
| RD2 | Addasu ac ailddefnyddio adeiladau gwledig at ddefnydd preswyl | Y (Noder bod y gwreiddiol wedi ei ddiweddaru'n sylweddol) | N | Hydref / Tachwedd 2024 |
| INF2 | Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd | N | Y | Haf 2025 |
| VE3 | Gwersylla Moethus Amgen | N | Y | Hydref / Tachwedd 2024 |
| PSD12 | Llygredd Golau | N | Y | Rhagfyr 2025 |
| CCH3 | Cerbydau Trydan a Cherbydau Allyriadau Isel Iawn mewn Datblygiadau | N | Y | Haf 2025 |

# Atodiad 4: Safleoedd Mwynau

**Safleoedd Gweithredol/Anweithredol**

| Cyfeirnod CDLI | Enw'r Chwarel | Statws y Safle | Mwyn a Gloddiwyd |
|---|---|---|---|
| M1 | Alltygarn | Anweithredol | Tywodfaen Silica |
| M2/M3 | Garn Bica/Maesdulais | Gweithredol | Calchfaen |
| M4/M5/M6 | Torcoed/Torcoed Fawr/Crwbin | Gweithredol | Calchfaen |
| M7 | Blaenyfan | Anweithredol | Calchfaen |
| M8 | Pennant | Gweithredol | Tywodfaen |
| M9 | Coygen | Gweithredol | Calchfaen |
| M10 | Garn Wen | Gweithredol | Creigiau Igneaidd |
| M11 | Dinas | Anweithredol | Tywodfaen |
| M12 | Fferm Llwynjack | Gweithredol | Basle afon/ Tywod a Graean |
| M13 | Safle Glo Brig Glan Lash | Anweithredol | Glo Brig |
| M14 | Foelfach | Gweithredol | Tywodfaen |
| M15 | Llanelli Sand Dredging Ltd[110] | Gweithredol | Tywod y Môr |

Safleoedd Segur

| Cyfeirnod CDLI | Enw'r Chwarel | Statws y Safle | Mwyn a Gloddiwyd |
|---|---|---|---|
| M16 | Pwllymarch | Segur | Calchfaen |
| M17 | Llwynyfran | Segur | Calchfaen |
| M18 | Tŷ'r Garn | Segur | Calchfaen |
| M19 | Garn | Segur | Tywodfaen |
| M20 | Limestone Hill | Segur | Calchfaen |
| M21 | Pen-y-banc | Segur | Calchfaen |
| M22 | Cynghordy | Segur | Tywodfaen |
| M23 | Glantywi | Segur | Tywod a Graean |

**D.S.** mae rhan fach o glustogfa Chwarel y Gilfach (yn Sir Benfro) yn ymestyn dros y ffin i Sir Gaerfyrddin ac wedi ei nodi ar y Map Cynigion.

[110] Nid yw'r gweithrediadau'n cynnwys cloddio am fwynau ac felly nid oes angen clustogfa o amgylch y safle. Mae'r safle glanio morol a leolir tua 800 metr i'r dwyrain o safle Llanelli Sand Dredging hefyd wedi ei ddiogelu oherwydd ei bwysigrwydd o ran glanio tywod y môr.

# Atodiad 5: Llwybrau Teithio Llesol

**Map Rhwydwaith Integredig Cyngor**

| Rhif y Cynllun | Lleoliad | Tymor | Math | Manylion |
|---|---|---|---|---|
| 7.21 / A1 | Rhydaman | Tymor Byr | Cerdded | Diffyg o ran ERM 7.21 - Angen gwella wyneb y llwybr troed |
| A2 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded | Rheoli traffig ar hyd Heol Pen-y-garn – troedffordd well |
| A3 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded | Gwella'r droedffordd ar hyd Heol Tŷ-croes. Adeiladu'r droedffordd ar Bantyffynnon Ffordd a chyfleuster ar wahân i gerddwyr dros y groesfan reilffordd. |
| A4 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Rhannu Defnydd | Llwybr sy'n cysylltu Pantyffynnon a Phen-y-banc drwy fynediad o ben pellaf Teras y Felin ym Mhantyffynnon |
| A5 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded | Gosod cyrbau smotiog ac isel ar y croesfannau - Heol Newydd |
| A7 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded | Troedffordd gyswllt yng nghanol Rhydaman a gwell mynediad i gerddwyr i gyrchfannau lleol. Cadarnheir manylion y cynllun hwn yn amodol ar drafodaethau â Llywodraeth Cymru. |
| A9 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded | Troedffordd gyswllt ar Heol y Dyffryn a gwell mynediad i gerddwyr i gyrchfannau lleol. |
| A10 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded | Troedffordd gyswllt i Heol y Dyffryn a gwell mynediad i gerddwyr i gyrchfannau lleol. |
| A11 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Beicio | Llwybr beicio oddi ar y ffordd wrth ymyl Heol Blaenau a darn cyswllt oddi ar y ffordd i Orsaf Rhydaman |
| A12 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded | Troedffordd gyswllt ger y rheilffordd. Gwella a llydanu'r llwybr rhwng Blaenau a Llandybïe gan gynnwys croesfan sebra. |
| A13 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded | Creu troedffordd newydd a chysylltiadau gwell ar hyd Heol y Brenin |
| 7.36 / A14 | Rhydaman | Tymor Byr | Cerdded | Diffyg o ran yr ERM - angen golau ar hyd y llwybr troed. Grisiau serth, cul, wedi gordyfu, gyda bolard |
| A16 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded | Troedffordd gyswllt i Barc Penrhiw |
| A17 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded / Beicio | Arafu traffig a hwyluso mynd a dod ar droed y tu fas i Ysgol Betws |
| A18 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded | Troedffyrdd cyswllt gwell a newydd ar hyd Heol Pentwyn |
| A19 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded | Troedffyrdd cyswllt gwell a newydd ar hyd Heol Wernolau |
| A20 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded | Creu troedffyrdd newydd ar hyd Heol Maescwarrau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.5b / A25 | Rhydaman | Tymor Byr | Beicio | Diffyg o ran Llwybr ERM 1.5b - Angen cynnal a chadw'r ffordd bresennol |
| A27 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded | Creu troedffordd i gysylltu'r ysbyty â Llwybr Beicio Dyffryn Aman |
| A28 | Rhydaman | Tymor Byr | Cerdded | Cwblhau'r droedffordd gyswllt ar hyd Heol Ffoland |
| A29 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Beicio | Llwybr ar hyd yr A483 Heol Rhydaman o Landybïe. Cadarnheir manylion y cynllun hwn yn amodol ar drafodaethau â Llywodraeth Cymru. |
| A30 | Rhydaman | Uchelgeisiol | Cerdded / Beicio | Cyswllt drwy orllewin Rhydaman – Lôn Tir-y-Dail |
| B1 | Brynaman | Tymor Byr | Beicio | Dolen gyswllt i redeg Llwybr Beicio Dyffryn Aman yn ffurfiol drwy dir Clwb Rygbi Brynaman |
| B2 | Brynaman | Uchelgeisiol | Cerdded | Gwella'r mannau croesi ar yr A4609 i hwyluso pethau i gerddwyr |
| B3 | Brynaman | Uchelgeisiol | Cerdded / Beicio | Terfyn cyflymder ar Heol Newydd fel bod cerddwyr a beicwyr yn gallu teithio'n fwy diogel. Penderfynir yn ddiweddarach ar y ddarpariaeth feicio. |
| B4 | Brynaman | Uchelgeisiol | Cerdded / Beicio | Terfyn cyflymder arfaethedig o 20mya ar Heol Ardwyn. Penderfynir yn ddiweddarach ar y ddarpariaeth feicio. |
| B5 | Brynaman | Uchelgeisiol | Cerdded / Beicio | Terfyn cyflymder arfaethedig o 20mya ar Heol Brynceunant. Penderfynir yn ddiweddarach ar y ddarpariaeth feicio. |
| BP1 | Porth Tywyn | Tymor Canolig | Beicio | Llwybr beicio presennol wrth ymyl y B4311 - dim seilwaith beicio, darparu llwybr oddi ar y ffordd |
| BP5 | Porth Tywyn | Tymor Byr | Cerdded / Beicio | Rhan o lwybr ar hyd yr hen dramffordd. Rhannu Defnydd. Gwella'r arwyddion a'r ddarpariaeth y tu cefn i'r siopau |
| BP7 | Porth Tywyn | Tymor Byr | Rhannu Defnydd | Uwchraddio llwybr beicio'r ERM i rannu defnydd - Rhan o lwybr ar hyd yr hen dramffordd. Gwelliannau tymor byr |
| BP9 | Porth Tywyn | Tymor Canolig | Cerdded | Cais am droedffordd yn Cliff Terrace a chwblhau'r ddolen a ddangosir ar y map ar hyd Heol y Ffwrnais - troedffordd yn eisiau - a Heol Gwscwm. |
| BP10 | Porth Tywyn | Uchelgeisiol | Cerdded | Ychwanegu'r droedffordd sy'n eisiau rhwng Ar-y-Bryn ac ystadau Pen y Mwmbwls. |
| BP11 | Porth Tywyn | Uchelgeisiol | Cerdded | Darparu troedffordd gyswllt wrth gyffordd Maenor Helyg a Heol Ashburnham |
| BP12 | Porth Tywyn | Uchelgeisiol | Cerdded | Croesfannau smotiog i gerddwyr wrth ddwy gyffordd yr ystad. Ystad Golwgfor / Ystad Dan y Bryn, Heol Lando |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| BP15 | Porth Tywyn | Uchelgeisiol | Beicio | Llwybr beicio uchelgeisiol o Borth Tywyn i Cross Hands |
| BP16 | Porth Tywyn | Uchelgeisiol | Beicio | A494 Llwybr beicio uchelgeisiol i Gydweli |
| C1 / 1.1 | Caerfyrddin | Tymor Byr | Beicio | Diffyg o ran Llwybr ERM 1.1 - Llwybr beicio wrth ochr y ffordd i ddarparu cyswllt ymlaen - angen gwelliannau - tocio'r llystyfiant. Cadarnheir manylion y cynllun hwn yn amodol ar drafodaethau â Llywodraeth Cymru. |
| C2 | Caerfyrddin | Tymor Canolig | Beicio | Angen gwella'r ddarpariaeth feicio ar y ffordd yn Travellers Rest Darparu seilwaith beicio i wahanu oddi wrth y traffig |
| C3 | Caerfyrddin | Tymor Canolig | Rhannu Defnydd | Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin – llwybr 'rhannu defnydd' 3m o led o bobtu'r ffordd a'r cyfleusterau wedi'u cynnwys yn y cynllun. Nid yw wedi'i gwblhau eto ar y safle |
| C4 | Caerfyrddin | Tymor Byr | Beicio | Llwybr 'rhannu defnydd' sy'n cysylltu Ffordd y Coleg a Heol Trefechan. Angen gwell arwyddion i nodi'r llwybr gan ei fod yn mynd trwy fferm. |
| C6 | Caerfyrddin | Tymor Canolig | Beicio | Heol Sanclêr - Angen gwella'r ddarpariaeth feicio ar y ffordd. Cysylltiadau â'r rhwydwaith beicio |
| 5.1c / C9 | Caerfyrddin | Tymor Byr | Beicio | Diffyg o ran llwybr ERM 5.1c - Angen gwella wyneb y ddarpariaeth feicio bresennol ar y ffordd |
| C12 | Caerfyrddin | Tymor Canolig | Cerdded / Beicio | Heol Llansteffan. Cysylltiadau gwell â'r ysgol a'r rhwydwaith beicio presennol. Llwybr beicio ar y ffordd |
| 7.1 / C14 | Caerfyrddin | Tymor Byr | Cerdded / Beicio | Dolen 'rhannu defnydd' â'r rhwydwaith a'r llwybr beicio presennol. Rhan o'r llwybr yn ERM llwybr 7.1 - cerdded. Llwybr 'rhannu defnydd' arfaethedig |
| C15 | Caerfyrddin | Uchelgeisiol | Beicio | Llwybr uchelgeisiol dros yr afon i gysylltu Tre Ioan a Phensarn/Pibwr-lwyd |
| C21 | Caerfyrddin | Tymor Byr | Beicio | Angen uwchraddio'r llwybr. Darparu seilwaith beicio ar neu oddi ar y ffordd |
| C23 | Caerfyrddin | Tymor Byr | Cerdded | Llys Picton - darparu arwyddion a throedffyrdd |
| C25 | Caerfyrddin | Tymor Byr | Cerdded / Beicio | Llwybr beicio ar y ffordd ar Heol y Gwyddau - angen arwyddion |
| C26 | Caerfyrddin | Tymor Byr | Beicio | Ffordd y Coleg - llwybr beicio ar y ffordd - angen gwella, gan gynnwys man croesi |
| C28 | Caerfyrddin | Tymor Byr | Cerdded | Angen troedffordd ar hyd rhan o ffordd fynediad |
| 4.2 / C29 | Caerfyrddin | Tymor Byr | Beicio | Diffyg o ran Llwybr ERM 4.2 – Angen gwella'r ddarpariaeth feicio bresennol ar y ffordd ym Maes Picton |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | - tocio'r llystyfiant sydd dros yr arwyddion |
| 1.5 / C30 | Caerfyrddin | Tymor Byr | Cerdded | Angen gwella Llwybr ERM 1.5 – goleuadau a wyneb y llwybr |
| C32 | Caerfyrddin | Tymor Byr | Cerdded | Angen gwella'r llwybr cerdded presennol. Darparu palmentydd smotiog, goleuadau ac ailosod darnau diffygiol |
| C35 | Caerfyrddin | Tymor Byr | Cerdded | Gwelliannau i ddolen gyswllt Lôn Pisgwydd a llydanu'r droedffordd |
| C36 | Caerfyrddin | Tymor Byr | Cerdded | Creu dolen gerdded fer rhwng Ysgol y Dderwen a Theras Llys Ffynnon drwy Lys Ffynnon |
